



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 203/2016

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2016

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol; unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Undebau athrawon ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ar addysg gynhwysol a chynorthwyol i ddisgyblion, yn bennaf o oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd a darpariaeth y tu allan i'r ysgol.
- Camau i'w cymryd** I'w defnyddio wrth ddatblygu strategaethau cynhwysiant a chefnogi dysgwyr amrywiol.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy

Cynnwys

1. Addysg gynhwysol	2
2. Cynllunio ar gyfer cynhwysiant	9
3. Disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol	31
4. Dull ysgol gyfan o ymdrin ag ymddygiad a phresenoldeb	68
5. Presenoldeb	133
6. Addysg heblaw yn yr ysgol	155
Atodiad 1: Datblygu strategaethau cynhwysol – rhestrau wirio ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion	169
Atodiad 2: Hyfforddi a datblygu staff o safbwynt cynhwysiant – rhestr wirio ar gyfer ysgolion	173
Atodiad 3: Rhestr wirio ar gyfer llunio polisïau ymddygiad a phresenoldeb	175
Atodiad 4: Ffurflen gais enghreifftiol ar gyfer gorchymyn rhianta	177
Atodiad 5: Unedau cyfeirio disgyblion	179

1. Addysg gynhwysol

1.1 Egwyddorion gwasanaeth addysg gynhwysol

1.1.1 Caiff cynhwysiant ei ddiffinio fel proses sy'n rhoi i bob disgybl gyfleoedd cyffredin mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w hanghenion, ac sy'n sicrhau eu bod yn perthyn yn llawn i'r gymuned ysgol. Mae gofyn i bawb ymroi i fod yn rhan o'r broses gynhwysiant. Mae'n rhoi'r pwyslais ar ysgolion i addasu eu sefydliad a'u ffyrdd o ymateb i fodloni anghenion pob plentyn a pherson ifanc a gwerthfawrogi eu datblygiad ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Yn benodol, mae sicrhau cynhwysiant i ddisgyblion yn golygu llawer mwy na lleoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae'n gofyn am gwricwlwm cynhwysol a mesurau i wella ymwybyddiaeth athrawon a staff eraill o ddysgu cynhwysol ac ystyriaethau cydraddoldeb. Dyma'r egwyddorion holl bwysig.

- Mae cynhwysiant yn broses y mae ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill yn ei defnyddio i ddatblygu eu diwylliannau, eu polisiau a'u harferion i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc.
- Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael mynediad i addysg briodol sy'n rhoi iddynt y cyfle i gyflawni eu potensial personol.
- Mae gwasanaeth addysg gynhwysol yn cynnig rhagoriaeth a dewis gan geisio barn rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc ac ymateb i'r farn honno.
- Caiff buddiannau pob plentyn a pherson ifanc eu diogelu.
- Gyda'r hyfforddiant, y strategaethau a'r gefnogaeth iawn, gall bron pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth ychwanegol gael ei gynnwys yn llwyddiannus mewn addysg brif ffrwd.
- Nid yw addysg brif ffrwd bob amser yn iawn i bob plentyn a pherson ifanc bob tro, ond os nad yw addysg brif ffrwd yn iawn ar adeg benodol ni ddylai hyn rwystro plentyn na pherson ifanc rhag cael ei gynnwys yn llwyddiannus yn ddiweddarach.
- Dylai'r disgyblion hynny nad ydynt mewn addysg brif ffrwd fod â chysylltiadau â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd.

1.1.2 Mae gan awdurdodau lleol ac ysgolion cynhwysol effeithiol:

- gynlluniau cydlynol ar gyfer datblygu cynhwysiant a'r rheini wedi'u cyplysu â strategaethau gwella'r ysgol
- personél allweddol i fwrw ymlaen gynlluniau cynhwysiant a chynlluniau gwella'r ysgol
- cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n cael ei wahaniaethu i fodloni anghenion pob disgybl, ynghyd â mynediad i weithgareddau all-gwricwlaidd a chydabyddiaeth iddynt
- targedau a disgwyliadau uchel ar gyfer cynhwysiant
- strategaethau i roi sylw i anghenion hyfforddi a datblygu staff a llywodraethwyr
- strategaethau clir ar gyfer gwrando ar farn plant a phobl ifanc er mwyn bodloni eu hanghenion yn y ffordd orau
- arferion cydweithio rhagweithiol sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr ac asiantaethau partner.

1.2 Trosolwg

1.2.1 Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â chynnwys a chynorthwyo disgyblion oed ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau yn berthnasol i addysg ôl-16). Mae'n darparu cyngor ac yn nodi'r cyfrifoldebau ar gyfer cynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion a'r angen i gynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn derbyn addysg addas ac yn osgoi ymddieithrio o addysg. Mae hefyd yn ymdrin ag addysg a ddarperir y tu allan i leoliad yr ysgol. Mae'r ddogfen yn bwriadu darparu trosolwg o bolisiau cyfredol sydd wedi eu hanelu at gynhwysiant addysgol ac, lle cyhoeddwyd canllawiau pwnc gyda mwy o fanylder, mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio atynt.

1.2.2 Mae'r canllawiau'n disodli'r hyn a geir ar hyn o bryd yn *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006). Er nad yw'r canllawiau eu hun yn statudol, mae'n nodi'r ddeddfwriaeth benodol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, ysgolion a'u partneriaid llynu wrthi. Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan pwerau cyffredinol Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru (adran 10 o Ddeddf Addysg 1996) a'r pŵer cyffredinol sy'n cwmpasu pethau sy'n anelu at hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru (adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

1.2.3 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ganllaw i ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid sy'n ymwneud â chynnwys a chynorthwyo disgyblion. Ei nod yw darparu fframwaith ar gyfer cynhwysiant, a chyfeirio at ddogfennau allweddol i helpu i ddatblygu dulliau awdurdodau lleol ac ysgolion o gynllunio, cefnogi a bodloni anghenion pob disgybl. Un o brif ddibenion y canllawiau hyn yw gweithredu fel fframwaith ar gyfer cynhwysiant er mwyn hyrwyddo'r angen i fodloni anghenion pob disgybl mewn dull ysgol gyfan cynhwysol, gan gynnwys pob disgybl a fydd ar ryw adeg o bosibl angen mwy o gymorth na'r rhan fwyaf o'u cyfoedion.

1.2.4 Mae wedi cael ei ddatblygu i alluogi i ganllawiau pellach gael eu hychwanegu dros amser ac i ganiatáu i weithwyr addysg proffesiynol gael mynediad i ganllawiau ar faterion penodol megis ymddygiad, presenoldeb a chymorth i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae cyfrifoldeb ar y defnyddiwr i sicrhau eu bod yn cyfeirio at y fersiwn mwya diweddar o'r canllawiau hyn.

Ceir yr adrannau canlynol yn y canllawiau.

- Addysg gynhwysol.
- Disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.
- Agwedd ysgol gyfan at ymddygiad a phresenoldeb.
- Presenoldeb.
- Darparu addysg y tu allan i leoliad yr ysgol.

Lle mae'r canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r hyn a ddarperir yn y canllawiau pwnc mwy manwl, bydd y canllawiau pwnc bob amser yn cael blaenoriaeth.

Ysgolion annibynnol

1.2.5 Mae rhai elfennau o'r canllawiau yn ganllaw statudol i ysgolion annibynnol, yn benodol y manylion sy'n ymwneud â chofrestru disgyblion (gan gynnwys presenoldeb) a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys atal ac ymdrin â bwlio. Gall elfennau eraill fod yn ddefnyddiol fel enghreifftiau o arferion da. Gellir cael mwy o wybodaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau ysgolion annibynnol yn nogfen Llywodraeth Cymru *Independent schools registration and operation guidance* (Llywodraeth Cymru, 2014)¹ (Saesneg yn unig).

1.3 Cyd-destun

1.3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio polisïau i sicrhau bod pob disgybl yn gallu gwireddu ei botensial. Rydym yn cydnabod yr effaith a gaiff llwyddiant wrth ddysgu ar iechyd, lles emosiynol a chymdeithasol, sgiliau magu plant a llwyddiant economaidd Cymru.

1.3.2 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru wedi'u datgan yn y Rhaglen Lywodraethu² a'n nod yw helpu pawb i gyrraedd ei botensial, lleihau anghydraddoldeb, a gwella lles cymdeithasol ac economaidd.

1.3.3 Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gwella ysgolion*³ – cynllun gweithredu ar gyfer addysg 3 i 16 yng Nghymru sydd yn amlinellu'r diwygio a oedd yn ofynnol yng Nghymru i sicrhau addysg dda i bob disgybl. Nodai dair blaenoriaeth i wella llythrennedd, i wella rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar y rhain. Mae ffocws ar ddysgu ac addysgu mewn ysgolion wrth wraidd y diwygiadau sy'n cynnwys cryfhau ein agweddau at gynnwys a diogelu, gwella ymddygiad a phresenoldeb yn benodol.

1.3.4 Mae *Gwella ysgolion* yn hyrwyddo addysg gynhwysol ac yn datgan agenda sy'n cynnwys yr egwyddorion canlynol.

- Rhaid sicrhau disgwyliaid a safonau uchel, ynghyd â gwelliannau cynyddol mewn deilliannau i bob disgybl.
- Mae buddiannau disgyblion yn bwysicach na phob ystyriaeth arall.
- Rhaid adnabod y rhwystrau rhag dysgu a goresgyn y rhain yn raddol.
- Rhaid i lwybrau dysgu academiaidd, technegol a galwedigaethol gael yr un parch.
- Rhaid i'r anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion sydd â mantais a rhai sydd dan anfantais gael ei unioni er mwyn pawb.

1.3.5 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*⁴ sy'n gosod cynllun diwygio Llywodraeth Cymru hyd at 2020 a'r gweledigaeth y bydd disgyblion yng

¹ www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/independent-schools/?skip=1&lang=cy

² www.wales.gov.uk/about/programmeformgov/?skip=1&lang=cy

³ learning.wales.gov.uk/news/sitenews/improving-schools/?skip=1&lang=cy

⁴ learning.wales.gov.uk/news/sitenews/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan-for-wales/?skip=1&lang=cy

Nghymru yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, a lle eir ati i ddatblygu potensial pob plentyn a pherson ifanc. Mae *Cymwys am oes* hefyd yn adeiladu ar y gwaith a nodir yn *Gwella ysgolion*.

1.3.6 Mae egwyddorion addysg gynhwysol yn sail i'r pedwar amcan strategol sy'n cael eu datgan yn *Cymwys am oes*, gyda llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol gwael yn dal i fod yn flaenoriaeth ac yn rhan annatod o bob amcan.

1.3.7 Mae gan gyflawniad addysgol gyfraniad hanfodol i'w wneud i bob un o'r blaenoriaethau hyn. Rydym yn ceisio cefnogi pob disgybl, yn enwedig y rhai sydd wedi ymddieithrio neu sydd dan anfantais, er mwyn eu galluogi i gael mynediad llawn at ddysgu a chael cyfle cyfartal wrth ddysgu ac yn y pen draw gyda phob un o'n blaenoriaethau strategol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1.3.8 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw bod pob plentyn yn cael mynediad at ei hawliau, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gellir crynhoi'r CCUHP yn saith nod craidd sy'n ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn:

- cael dechrau teg mewn bywyd
- cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
- mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu camdrin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden a chwaraeon a diwylliannol
- cael eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- osgoi anfantais oherwydd tlodi.

Effaith tlodi

1.3.9 Mae llawer llai o ddisgyblion o gartrefi incwm isel yn cyrraedd lefelau disgwyledig o'i gymharu â'u cyfoedion mwy cefnog, ac mae'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad addysgol yn cynyddu wrth iddynt symud drwy eu gyrfa ysgol. Mae'r gwahaniaeth ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 18 pwynt canran ac mae hwn yn cynyddu i 32 pwynt canran erbyn iddynt sefyll eu harholiadau TGAU.

1.3.10 Mae bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd dirprwyol ar gyfer tlodi a cheir cynrychiolaeth anghymesur o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ymysg y nifer sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ffactorau risg presenoldeb gwael, ymddygiad gwael a gwaharddiadau sy'n gysylltiedig â'r angen am gymorth ychwanegol yn cael eu gwaethygu oherwydd tlodi. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg mynediad at adnoddau, fel cyfrifiadur gartref neu le tawel i weithio, a diffyg cefnogaeth rhieni/gofalwyr o ganlyniad i sgiliau isel y rhieni/gofalwyr eu hunain neu oherwydd eu hamgyffredion negyddol o addysg sy'n deillio o brofiadau gwael yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu mai disgyblion o gartrefi

incwm isel sydd fwyaf tebygol o gael budd o raglenni sy'n ymgysylltu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr.

Ymyrraeth gynnar

1.3.11 Gall ymyrraeth gynnar fod yn allweddol i lwyddiant. Mae ystod o strategaethau i'w cael i atal ymddieithrio ym mhob oed, o ymgysylltu â rhieni ac addysg yn dechrau yn y cartref hyd at raglenni cymorth bugeiliol i gefnogi'r rheini sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae mabwysiadu ymagwedd gyson tuag at systemau a gweithdrefnau, gan ddefnyddio dadansoddiadau data i ganfod yn effeithiol batrymau diffyg presenoldeb, cyfathrebu da rhwng rhieni/gofalwyr, athrawon ac awdurdodau lleol i gyd yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi ymyrraeth gynnar.

Maeth da

1.3.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd maeth priodol i iechyd a dysgu plant. Am y rheswm hwn, mae wedi ymrwymo i ddarparu brecwast iachus am ddim i bob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru. Dechreuwyd darparu brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd ym mis Medi 2004. Yn awr, dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod yr arfer o ddarparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yn parhau⁵. Caiff ysgolion nad ydynt eisoes yn cynnal clwb brecwast am ddim ofyn am y ddarpariaeth, yn ysgrifenedig, oddi wrth eu hawdurdod lleol, sydd wedyn yn gorfod ei ddarparu ar ôl 90 diwrnod.

Pontio

1.3.13 Gall pontio rhwng ysgolion fod yn amser anodd i ddisgyblion. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd arwain at ddiffyg datblygiad mewn dysgu ac at ddisgyblion yn ymddieithrio. Er 2008 bu gofyn i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynlluniau pontio ar gyfer disgyblion sy'n newid ysgolion.

1.3.14 Mae gweithio effeithiol rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill, megis trosglwyddo data, gwybodaeth neu gyllid, yn hanfodol er mwyn sicrhau pontio esmwyth. Mae Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn hwyluswyr allweddol i rannu'r arferion gorau ar draws clystyrau o ysgolion.

1.3.15 Mae pontio yn aml yn amser anodd i unrhyw blentyn ond mae hyn yn arbennig o wir os oes angen cymorth ychwanegol ar blentyn. Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pontio ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i'w gweld yn adran 3.

Pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio

1.3.16 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu ymgysylltiad a chynnydd pobl ifanc yn cael ei nodi yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn rhan allweddol o'r

⁵ learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/free-breakfast-in-primary-schools/?skip=1&lang=cy

gwaith i wella llythrennedd a rhifedd, ac mae'n torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad, a gafodd ei gynnwys yn y cynllun *Gwella ysgolion*. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â thlodi drwy flaenoriaethu anghenion y tlodaf ac amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl o dlodi yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012–2016* (Llywodraeth Cymru, 2012)⁶. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau newydd i leihau:

- nifer y bobl ifanc 16–18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) i 9 y cant erbyn 2017
- cyfran y bobl ifanc 19–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru o'i gymharu â'r DU gyfan erbyn 2017.

1.3.17 *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid: Cynllun gweithredu*⁷ Llywodraeth Cymru i bobl ifanc 11–25 oed yw'r cyfrwng cyflawni allweddol i helpu i gyrraedd y targedau hyn.

1.3.18 Er mai prif ffocws y fframwaith yw disgyblion Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16, mae'n amlwg nad yw pobl ifanc yn dod yn NEET cyn gynted ag y maent yn cyrraedd 16 oed. Mae ymddieithrio yn tueddu i fod yn broses raddol yn aml o ganlyniad i faterion cymhleth sy'n creu rhwystrau rhag dysgu. Ceir ystod o dystiolaeth sy'n dangos pwysigrwydd adnabod yr arwyddion yn gynnar ac effeithiolrwydd systemau adnabod yn gynnar. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y bydd ffocws ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn tynnu sylw at y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â gwneud cynnydd cadarnhaol yn 16 oed. Rydym yn credu y dylai'r rhain fod yn ddangosyddion craidd i'w defnyddio ym mhob system adnabod yn gynnar. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion, ond ysgolion yn bennaf, fel perchnogion data, yn chwarae rhan hanfodol yn y broses adnabod yn gynnar. Rôl ysgolion yw dadansoddi'r data sydd wedi'u cipio fel bod gwybodaeth gan ymarferwyr yn gallu cael ei bwydo i mewn i'r broses. Bydd hyn yn sicrhau bod data'n cael eu defnyddio a'u dehongli'n effeithiol, gan alluogi'r gwaith o fonitro cynnydd disgyblion unigol, dosbarthiadau cyfan ac adrannau yn effeithiol. Drwy gael dealltwriaeth gliriach o'r data a defnyddio'r data hynny'n fwy effeithiol bydd yr holl bartneriaid, felly, yn gosod targedau yn fwy effeithiol a phriodol.

1.3.19 Bydd y dull cyfannol hwn, ynghyd â chyplysu data ysgolion gyda'r broses adnabod yn gynnar, yn darparu system olrhain effeithiol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ei defnyddio. Bydd y fframwaith yn sicrhau ein bod yn:

- canolbwyntio fel craidd ar bresenoldeb, ymddygiad a dangosyddion cyrhaeddiad
- llunio fel deiliant, asesiad risg clir wedi'i flaenoriaethu
- trafod y deilliannau gydag ysgolion a darparwyr eraill
- gweithio'n effeithiol gyda phob partner sy'n ymwneud â darparu cymorth i bobl ifanc, yn benodol Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Ieuenctid
- gweithio mewn ffordd sy'n gydnaws â gwasanaethau eraill sy'n dynodi pobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol.

⁶ www.wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?lang=cy

⁷ www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?skip=1&lang=cy

1.3.20 Mae'r fframwaith yn gofyn am ymagwedd integredig gan bob sefydliad sy'n ymwneud â darparu gweithgareddau i bobl ifanc, gan ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar unigolion i'w helpu i symud ymlaen drwy addysg a hyfforddiant i gyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy ddefnyddio systemau i adnabod anghenion yn gynnar, broceriaeth gydlynol ac olrhain. Ceir chwe elfen allweddol i'r fframwaith:

- adnabod pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio
- broceru a chydlynu cefnogaeth yn well
- prosesau olrhain a phontio cadarnach i bobl ifanc sy'n symud drwy'r system
- sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
- cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleodd i gael cyflogaeth
- mwy o atebolrwydd dros well deilliannau i bobl ifanc.

1.3.21 Bydd gweithredu'r fframwaith yn sicrhau y bydd gan bob awdurdod lleol gydlynnydd ymgysylltu a datblygu. Bydd ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae i gydlynu'r gwaith rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuencid, ysgolion a darparwyr ôl-16. Bydd hyn yn rhoi eglurder ac yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y rôl weithredol a strategol allweddol hon yn glir ac yn gyson ar draws Cymru. Bydd eu rôl yn cynnwys cynorthwyo ysgolion sydd wedi dynodi disgyblion ag anghenion ymddygiad ac emosiynol cymhleth.

1.3.22 Mae adran 2 yn disgrifio polisïau allweddol Llywodraeth Cymru a fwriedir i gynnwys ac ennyn diddordeb pob plentyn a pherson ifanc mewn dysgu.

2. Cynllunio ar gyfer cynhwysiant

2.1 Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau cynhwysiant

2.1.1 Er mwyn diwallu anghenion addysgol pob plentyn a pherson ifanc, mae'n bosibl ar adegau y bydd angen trefniadau gweithio cydweithredol o fewn yr asiantaethau statudol a rhwng gwahanol asiantaethau statudol. Mae angen cyfathrebu a chytuno ar bolisiau a phrotocolau a fydd yn sicrhau 'gwasanaeth di-dor' effeithiol, cwbl integredig. Bydd gweithio mewn ffordd gefnogol, ac mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr, a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, yn helpu i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â hyn yn deall ymatebion y gweithwyr proffesiynol perthynol. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i wella arferion cynhwysol.

2.1.2 Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr addysg ystyried yr angen am gymorth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol ag anghenion ieithyddol y plentyn fel prif annatod o addysg gynhwysol.

Data am ddisgyblion unigol

2.1.3 Mae casglu gwybodaeth am ddisgyblion unigol, a'i rhannu â gwasanaethau eraill, yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o wybodaeth am unigolion i allu cynnig darpariaeth addas iddynt. Defnyddir nifer o brosesau i gasglu gwybodaeth gan gynnwys:

- y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- y Gronfa Ddata Disgyblion Coll
- systemau plant integredig.

Llais disgyblion

2.1.4 Un o nodweddion cynhwysiant effeithiol yw ymrwymiad i wireddu hawl addysgol pob plentyn a pherson ifanc, a'u cynnwys yn y broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg.

2.1.5 Dylai pob plentyn gael ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau, a hynny lle bo'n bosibl, o ddechrau ei addysg. Dylai'r ffyrdd yr anogir plant i gymryd rhan newid wrth i'r plentyn ddatblygu ac aeddfedu. Mae cymryd rhan mewn addysg yn broses lle bydd angen i bob plentyn gael cyfle i wneud dewisiadau a deall bod ei farn yn cyfrif. Gellir annog plant ifanc iawn i rannu eu dymuniadau a'u teimladau gyda theuluoedd a staff. Mae'n bosibl y bydd plant ifanc hyderus, sy'n gwybod y bydd eu barn yn cael ei gwerthfawrogi ac sy'n gallu gwneud dewisiadau, yn ddisgyblion mwy hyderus ac effeithiol yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol.

2.1.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r CCUHP fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc Cymru. Amlinellir yr ymrwymiad ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Dan adran 2 o'r Mesur mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Hawliau Plant 2014, sy'n nodi'r trefniadau sydd wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod Gweinidogion yn cydymffurfio â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau. Un o egwyddorion arweiniol y

CCUHP yw cymryd rhan (Erthygl 12) – mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

Mae adran 12 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010⁸ yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau addas er mwyn hybu a hwyluso'r broses o gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod lleol a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddarau gwybodaeth ynglŷn â'u trefniadau. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau plant a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol, a chynghorau ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol yn ymwneud â'r ddyletswydd hon, sy'n cael eu cynnwys yn *Cydamcanu – Cydymdrechu*. Disgwylir i'r trefniadau hyn cynnwys sefydlu fforymau plant ac ieuencid ym mhob awdurdod lleol.

2.1.7 Efallai y gall elusen Plant yng Nghymru helpu plant a phobl ifanc i gael llais gweithredol a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hon yn thema allweddol yn y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd newydd a bydd yn nodwedd bwysig o waith Plant yng Nghymru.

2.1.8 Mewn llawer o achosion byddai cysylltiad ag eiriolydd o fudd i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei mynegi yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac wrth y bobl fwyaf priodol. Efallai y bydd disgyblion sydd eisoes yn wynebu anawsterau yn teimlo ei bod yn anodd iawn iddynt sicrhau bod rhywun yn clywed eu barn, neu i fynegi eu hunain pe baent yn dymuno cwyno neu os ydynt wedi cael cosb megis gwaharddiad o'r ysgol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael iddynt, megis llinell gyngor Meic.

Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

2.1.9 Mae'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar ba mor dda mae plant yn perfformio yn yr ysgol. Mae teulu a chymuned yn darparu'r cyd-destun y mae plant ac ysgolion yn gweithredu ynddo. Mae angen i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, a chymryd camau i leihau'r effaith os nad yw disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda.

2.1.10 Mae nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflawniad plentyn, er enghraifft statws economaidd-gymdeithasol y teulu, amgylchedd dysgu'r cartref a'r disgwyliadau sy'n cael eu cyfleu gan rieni/gofalwyr. Mae cysylltiad agos rhwng rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen a pherfformiad academiaidd disgyblion. Mae plant y mae eu rhieni/gofalwyr yn darllen iddynt yn rheolaidd yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd yn perfformio'n well na'r rhai y mae eu rhieni/gofalwyr yn darllen iddynt unwaith neu ddwywaith y mis yn unig, neu lai. Mae cysylltiad hefyd rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyfraniad rhieni/gofalwyr.

2.1.11 Mae llawer o ysgolion mewn cymunedau difreintiedig yn teimlo mai ennyn diddordeb rhieni/gofalwyr yw un o'r heriau mwyaf sy'n eu hwynebu. Mae hyn

⁸ gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/childrenandfamilies/?skip=1&lang=cy

yn anoddach fyth os oes gan y rhieni/gofalwyr sgiliau llythrennedd neu Gymraeg/Saesneg gwael. Er bod y dystiolaeth ynglŷn â sut i gynyddu cyfraniad er mwyn gwella cyrhaeddiad yn amhendant, mae ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar berfformiad academiaidd cyffredinol plant.

2.1.12 Mae ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau dysgu. Mae ysgolion sy'n gwneud ymdrech i ennyn diddordeb y gymuned ym mywyd yr ysgol, a'r ysgol ym mywyd y gymuned, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysgol. Gellir gwneud hyn drwy roi dysgu yn ei gyd-destun; gwella sgiliau sylfaenol oedolion; helpu rhieni/gofalwyr i ddeall yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol a sut i'w helpu; a darparu modelau rôl cadarnhaol.

2.1.13 Mae tystiolaeth sylweddol, a ddatblygwyd yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf, yn dangos bod ymgysylltiad rhieni ag addysg eu plant yn cael effaith sylweddol a pharhaus ar les cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae plant a phobl ifanc sy'n ymwneud mwy â'u rhieni ac sydd â pherthynas agosach â'u rhieni/gofalwyr yn llai tebygol o arddangos problemau ymddygiad ac o ddod i gysylltiad ag ymddygiadau sy'n achosi risg.

2.1.14 Mae llawer o waith rhagorol eisoes yn cael ei wneud i gefnogi teuluoedd. Lle mae gan ysgolion gysylltiadau da ag asiantaethau a rhaglenni eraill, a lle mae gan arweinwyr ysgol weledigaeth glir o ran sut i weithio gyda theuluoedd a chymunedau, rydym yn gweld arferion canmoladwy.

2.1.15 Mae ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (YGaTh) yn un o'r pedwar thema allweddol yn *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2014)⁹ – prif raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawniad addysgol mewn ysgolion.

2.1.16 Er hyn, gall sicrhau bod rhieni/gofalwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach yn ymgysylltu'n dda ag addysg plant fod yn dipyn o her i ysgolion gwneud yn dda. Ym Mehefin 2015, cyhoeddwyd Llywodraeth Cymru canllawiau er mwyn cefnogi gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth â theuluoedd a chymunedau. Yn ogystal â disgrifio beth y dylai pob ysgol fod yn ei wneud, a beth y mae ysgolion llwyddiannus yn ei wneud, mae'r canllawiau'n cynnwys pecyn o adnoddau ymarferol er mwyn annog ysgolion i bwysu a mesur sefyllfaoedd a chynllunio camau gweithredu. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn sydd wedi cael ei wneud mewn ysgolion eraill. Maent i'w gweld ar wefan Dysgu Cymru fel rhan o gasgliad sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref'¹⁰.

⁹ lyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

¹⁰ learning.gov.wales/news/sitenews/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy

Cynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

2.1.17 Mae prif gynlluniau Llywodraeth Cymru'n cynnwys y canlynol.

- Y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi'i thargeddu tuag at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac sy'n canolbwyntio'n benodol ar leihau anghydraddoldeb mewn addysg, yn yr economi ac ym maes iechyd.
- Mae'r canllawiau *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd*¹¹, a gynlluniwyd i gefnogi gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a chymunedau, yn darparu pecyn cymorth sy'n llawn adnoddau ymarferol.
Mae Teuluoedd yn Gyntaf¹² yn hyrwyddo datblygiad systemau amlasiantaethol effeithiol er mwyn cefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais clir ar atal ac ymyriadau cynnar ac ar dod â sefydliadau at ei gilydd i weithio gyda'r holl deulu i atal problemau rhag gwaethygu tuag at argyfwng. Un o nodweddion allweddol y rhaglen yw bod gwasanaethau yn bwrpasol ac wedi'u teilwra i amgylchiadau teuluoedd unigol i wneud y gorau o effeithiolrwydd ymyriadau. Mae gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd yn wasanaeth statudol er mwyn darparu cefnogaeth wedi'i thargeddu drwy dimau amlasiantaethol o weithwyr proffesiynol hyfedr, sy'n defnyddio ymyriadau a thechnegau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant a theuluoedd lle mae rhyw gymaint o risg neu bryder ynglŷn â lles y plentyn. Mae rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach.
- Mae *Grant Amddifadedd Disgyblion: Beth sydd wir yn gweithio?*¹³ (2014) a *Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol*¹⁴ (2015) yn annog ysgolion i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion a ddyrannwyd iddynt ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

2.1.17 Er 2011, mae Estyn wedi cyhoeddi cyfres o dri adroddiad cylch gwaith ynghyd ag adroddiad byr ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion. Mae gweithio mewn partneriaeth, ac ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr yn addysg eu plant yn gynnar iawn yn eu hoes, yn cael lle blaenllaw yn y tri.

Rhaglen amddifadedd i Gymru

2.1.19 Un o brif themâu *Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2014)¹⁵ yw ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae'n nodi beth y gall ysgolion ei wneud, drwy weithio gyda rhieni/gofalwyr, er mwyn chwalu'r rhwystrau a wynebir gan blant o gefndiroedd difreintiedig. Dylai ysgolion fod yn rhan o'u cymunedau, a dylent estyn allan at

¹¹ learning.gov.wales/resources/browse-all/family-and-community-engagement-toolkit/?skip=1&lang=cy

¹² gov.wales/docs/dhss/publications/111219ffguide/cy.pdf

¹³ learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140512-what-really-works-cy.pdf

¹⁴ learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150506-pdg-what-really-works-en.pdf

¹⁵ llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

rhieni/gofalwyr yng ngwir ysbryd partneriaeth – lle gall disgyblion a'u teuluoedd dysgu gyda'i gilydd.

2.1.20 Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen y Blynyddoedd Cynnar a dargedwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd gyda phlant o dan bedair oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru. Mae'r hawliau yn cynnig ystod o gymorth a fydd yn cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd ar gyfer y plentyn ac ystod o gymorth i helpu rhieni/gofalwyr i feithrin sgiliau a gwydnwch. Y pedwar elfen allweddol yw:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd i blant dwy a thair oed
- gwasanaeth ymwelwyr iechyd well
- cymorth rhianta
- cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Arolygiadau Estyn

2.1.21 Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn¹⁶ yn cynnwys 'gweithio mewn partneriaeth', sy'n nodi bod angen asesu 'pa mor strategol y mae ysgol yn gweithio gyda'i phartneriaid i wella safonau a lles disgyblion'. Mae Estyn yn rhestru rhieni/gofalwyr ymhlith y partneriaid hynny.

Partneriaethau amlasiantaethol

2.1.22 Mae datblygiadau pwysig wedi'u gwneud mewn gwaith amlasiantaethol yng Nghymru a'r elfen allweddol yn aml iawn, yn yr achosion lle mae hyn wedi gweithio'n dda, yw ariannu a/neu reoli ar y cyd. Lle nad yw'r trefniadau hyn wedi'u gwneud, mae defnyddio protocolau clir y cytunwyd yn llawn arnynt, sy'n rhoi manylion am rôl pob sefydliad, yn bwysig er mwyn sicrhau bod modd darparu cefnogaeth yn gyflym yn hytrach na negodi ar sail achosion unigol.

2.1.23 Mae gan gyrrff y sector gwirfoddol ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau cynhwysol.

2.2 Rôl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

2.2.1 Mae model cenedlaethol newydd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol wedi'i sefydlu er Ebrill 2014. Yn unol â'r model hwn mae Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion drwy bedwar consortiwm rhanbarthol.

2.2.2 Mae'r ddogfen *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* (Llywodraeth Cymru, 2015)¹⁷, a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2015, yn cynnwys manylion llawn am wasanaethau'r consortia rhanbarthol sy'n cynnwys:

- gwella ysgolion – a ddiffinnir fel strategaethau ymyrryd, herio a chefnogi a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol a fydd yn gwella'r dysgu a'r addysgu yn yr

¹⁶ www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu?_ga=1.27436540.1501859053.1444724573

¹⁷ llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy

ystafell ddosbarth ac yn arwain at well cyrhaeddiad a chynnydd ymhlith disgyblion ar bob lefel ac ym mhob cyd-destun

- cefnogi a hyrwyddo datblygiad agweddau ar wella ysgolion sy'n gysylltiedig â lles y disgybl, gan gynnwys materion megis ymddygiad a phresenoldeb.

2.2.3 Bydd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn trafod eu cynlluniau ar gyfer eu rolau a'u swyddogaethau a'r camau y bwriadant eu cymryd. Dylai awdurdodau lleol rannu gwybodaeth â chonsortia rhanbarthol am gynigion a phenderfyniadau yn ymwneud â materion amrywiol, gan gynnwys:

- cefnogi darparu gwasanaethau i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- trefnu gwasanaethau cymorth ymddygiad a'r Gwasanaethau Lles Addysg
- trefniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.2.4 Mae cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer cynhwysiant yn elfen allweddol o'u cynlluniau integredig sengl.

2.2.5 Yn y cynlluniau, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi eu strategaethau ar gyfer codi safonau a gwella perfformiad ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i ysgolion er mwyn gwella cyfraddau presenoldeb, darpariaeth ar gael i bob disgybl, cefnogi a chynghori ysgolion ynglŷn ag ymddygiad disgyblion a chodi safonau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn ysgolion.

2.2.6 Dylai strategaethau awdurdodau lleol fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r anghenion presennol a rhagamcanion o'r proffil anghenion am y pum i ddeng mlynedd nesaf. Dylent nodi amserlen ar gyfer datblygu capasiti ysgolion prif ffrwd a lleoliadau blynyddoedd cynnar er mwyn diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Bydd angen i awdurdodau lleol weithio ar draws yr awdurdodau gan fod yn rhaid i strategaethau gynnwys gwybodaeth gan y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i gael darlun cywir o'r boblogaeth plant a phobl ifanc sydd angen llawer o gymorth ac yn dangos sut y gellir eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd lleol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Bydd yn rhaid i adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol felly ymwneud â'r broses gynllunio a dangos sut y gellir diwallu anghenion y disgyblion hyn mewn ffordd gyfannol ar draws yr asiantaethau statudol.

2.2.7 Dylai strategaethau cynhwysiant hefyd nodi'n glir beth fydd rôl ysgolion arbennig a darpariaeth ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn y dyfodol yn sbectrwm cyfan y ddarpariaeth addysg. Mae angen rhaglen o ymgynghori gweithredol a pharhaus gydag ysgolion a rhieni/gofalwyr sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses o ddatblygu, gweithredu a monitro polisi. Bydd angen i awdurdodau lleol hefyd roi manylion rhaglen buddsoddi cyfalaf a gyflwynir yn raddol er mwyn cefnogi cynhwysiant, gan gynnwys cyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, a chynlluniau i ddatblygu rôl gwasanaethau cynghori a chynorthwyo canolog.

2.2.8 Agwedd allweddol ar rôl yr awdurdod lleol yw gweithio gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo dulliau cadarnhaol sy'n seiliedig ar yr ysgol gyfan a chynorthwyo

disgyblion unigol i beidio â chael eu gwahardd o'r ysgol. Yn fwyaf arbennig, dylent gynnig cyngor ac anfon negeseuon polisi clir ynglŷn â'r canlynol.

- Adnabod problemau yn gynnar a chyfeirio at wasanaethau addas.
- Defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol ar gyfer pob disgybl y mae perygl iddo ymddieithrio a chael ei wahardd o'r ysgol.
- Egluro bod tynnu disgyblion o'r ysgol yn 'wirfoddol', hynny yw rhoi pwysau ar rieni/gofalwyr i dynnu plentyn o'r ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad, yn annerbyniol.

2.2.9 Mae 'symudiadau wedi'u rheoli'¹⁸ yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddechrau o'r newydd mewn ysgol newydd. Gall hyn hefyd leihau'r angen am waharddiadau parhaol a lleihau'r canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â nhw. Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant, mae'n hanfodol bod symudiadau wedi'u rheoli'n cael eu gwneud â chydysyniad a chydweithrediad llawn ysgolion, rhieni/gofalwyr a disgyblion, a bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r prosesau y mae angen eu dilyn. **Ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi pwysau ar rieni/gofalwyr i dynnu eu plentyn o ysgol drwy fygwth gwaharddiad parhaol, ac ni ddylid tynnu enw disgybl oddi ar gofrestr ysgol er mwyn ei annog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall.**

2.2.10 Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried hyrwyddo dulliau gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig (gan gynnwys ysgolion nas cynhelir ac ysgolion annibynnol), er mwyn gwneud y gorau o wybodaeth arbenigol a chreu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn ysgolion arbennig dreulio amser yn dysgu ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd.

2.2.11 Mae rhestr wirio, sy'n cynnwys cwestiynau y gallai awdurdodau lleol eu hystyried er mwyn eu helpu i werthuso natur ac ansawdd eu darpariaeth bresennol, a datblygu strategaethau cynhwysol ymhellach, i'w gweld yn Atodiad 1.

2.3 Rôl ysgolion

2.3.1 Dylai ysgolion, â chefnogaeth awdurdodau lleol ac eraill, geisio cael gwared ar y rhwystrau hynny a all rwystro neu atal disgyblion sydd angen llawer o gefnogaeth rhag dysgu a chymryd rhan. Maent yn gwneud hyn mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol drwy ddefnyddio strategaethau sy'n cyfrannu tuag at yr agenda ehangach ar gyfer gwella ysgolion.

Ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbennig ac addysg heblaw yn yr ysgol

2.3.2 Mewn fframwaith cynhwysol, bydd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn mynychu eu hysgol brif ffrwd leol. Er hyn, mae ysgolion arbennig a darpariaeth ag adnoddau penodol sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd yn dal i chwarae rhan bwysig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth penodol arbenigol iawn.

¹⁸ <http://lyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/managedmoves/?lang=cy>

2.3.3 Mae gan ysgolion arbennig yn fwyaf penodol rôl bwysig i'w chwarae wrth sefydlu ymarfer cynhwysol effeithiol drwy:

- hyrwyddo arferion gweithio mewn partneriaeth effeithiol rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd, y gymuned ehangach a'r asiantaethau statudol yn gyffredinol
- bod yn arloesol wrth ddatblygu cwricwlwm priodol sy'n cyfateb i anghenion disgyblion ag AAA amrywiol, ac yn hwyluso eu cynhwysiant mewn addysg brif ffrwd
- disgwyl llawer gan bob disgybl sydd ag AAA, codi lefelau cyrhaeddiad a chyflawniad a mesur y rhain
- integreiddio staff arbenigol a disgyblion AAA yn effeithiol yn y gymuned ehangach.

2.3.4 Ambell waith hefyd bydd angen darparu addysg y tu allan i bob lleoliad ysgol ar gyfer y disgyblion hynny na fyddent fel arall o bosibl yn cael addysg addas. Mewn achosion lle mae angen gwneud hyn, dylai'r pwyslais fod ar sicrhau, os yw'n bosibl, bod disgyblion yn cael eu hailintegreiddio mewn ysgolion cyn gynted ag y bo'n ymarferol, bod y ddarpariaeth yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd a bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu cynnal rhwng ysgolion a lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Mae canllawiau ar ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol i'w gweld yn adran 6.

Lleoliadau deuol

2.3.5 Gall lleoliadau deuol gefnogi cynhwysiant effeithiol, drwy helpu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer addysg ac ysgolion prif ffrwd er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol. Mae Deddf Addysg 1996 yn caniatáu i ddisgyblion gael eu cofrestru mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig ac mewn ysgol leol arall. Gall y broses hon helpu disgyblion i ddychwelyd i addysg brif ffrwd yn raddol. Mae angen rheoli lleoliadau deuol yn ofalus er mwyn sicrhau bod ymdeimlad o berthyn yn y ddau leoliad.

2.3.6 Cyn y gall disgybl ag AAA sy'n cael ei gefnogi drwy leoliad deuol gael ei ystyried fel disgybl sy'n cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd rhaid i'r disgybl dreulio'r rhan fwyaf o'i amser, h.y. 51 y cant neu ragor o'i amser, mewn ysgol brif ffrwd. Pan fydd disgybl yn cael ei gefnogi i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd drwy leoliad deuol dylid addasu datganiad y disgybl i enwi'r ysgol brif ffrwd ar yr adeg y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn barod i dreulio 51 y cant neu ragor o'i amser yn yr ysgol brif ffrwd.

Ysgolion annibynnol

2.3.7 Gall awdurdod lleol leoli ac ariannu plentyn neu berson ifanc â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol sydd wedi'i chymeradwyo i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA.

2.3.8 Gall plant a phobl ifanc gael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996. Os nad yw'r ysgol wedi cael ei chymeradwyo, mae angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod lle i'r plentyn yn yr ysgol a chydsynio y gall y disgybl gael ei leoli yno. Rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod buddiannau'r disgybl yn galw am

ddarpariaeth addysgol arbennig mewn ysgol nas cynhelir a bod addysg yn yr ysgol benodol honno'n briodol. Os nad yw awdurdod lleol yn cytuno â dymuniadau'r rhieni/gofalwyr, ac os nad yw'n enwi'r ysgol annibynnol neu'r ysgol nas cynhelir yn natganiad y disgybl, mae'n bosibl y bydd gan y rhieni neu ofalwyr, mewn rhai amgylchiadau, hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

2.3.9 Yn aml iawn bydd lleoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol arbennig annibynnol neu ysgol arbennig nas cynhelir yn golygu ei fod yn treulio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn academaidd yn byw oddi cartref. Gall hyn arwain at ragor o anawsterau wrth geisio sicrhau bod arferion cynhwysol yn cael eu cynnal. Mae'n bwysig bod rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am ddatblygiad a chynnydd eu plentyn a bod rhywun yn ymgynghori â'r plentyn neu'r person ifanc, a'r rhieni/gofalwyr, ac yn gofyn am eu barn ynglŷn â'i gynnydd a'i leoliad. Dylai'r awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cynnig cefnogaeth a chynghor parhaus a monitro cynnydd y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth a wneir ar ei gyfer. Dylai'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod yr ysgol yn cynnig amgylchedd addysgol cynhwysol a dylai sicrhau bod asiantaethau eraill megis Gyrfa Cymru yn gwybod ble mae'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn cael cefnogaeth briodol gan yr asiantaethau hynny.

2.3.10 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau fel rhiant/gofalwr corfforaethol er mwyn sicrhau lles y plentyn neu'r person ifanc a hybu ei gyflawniad addysgol.

Cwricwlwm cynhwysol

2.3.11 Rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol roi sylw i'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, sy'n cynnwys datganiad ar 'Fynediad i bob disgybl'.

2.3.12 Sefydlodd y cwricwlwm ysgol ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru, a roddwyd ar waith ym mis Medi 2008, gwricwlwm ar gyfer yr ugeinfed ganrif ar hugain.

2.3.13 Mae'n diwallu anghenion disgyblion unigol ac yn ystyried anghenion ehangach Cymru. Mae'r cwricwlwm ysgol yn:

- canolbwyntio ar y disgybl
- sicrhau bod y weithred o ddatblygu sgiliau priodol yn cael ei phlethu drwy'r holl gwricwlwm
- cynnig llai o gynnwys pynciol ac yn canolbwyntio mwy ar sgiliau
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3–19, drwy adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen a chysylltu'n effeithiol â'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14–19
- hyblyg
- cefnogi polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: dwyieithrwydd, y Cwricwlwm Cymreig/Cymru, Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a'r byd gwaith ac entrepreneuriaeth
- parhau i ddarparu cwricwlwm unigryw sy'n briodol i Gymru.

2.3.14 Daeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh)¹⁹ yn un o ofynion statudol y cwricwlwm ym Medi 2014. Mae hwn yn fframwaith cynhwysol.

2.3.15 Dylai cynllunio ar gyfer gwell mynediad i'r cwricwlwm gynnwys ystyriaeth o drefniadaeth a chefnogaeth yr ysgol a'r dosbarth, amserlennu, dewisiadau ar gyfer y cwricwlwm, lleoli staff a gwybodaeth a hyfforddiant i staff.

2.3.16 Er mwyn darparu cwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac yn berthnasol, ac sy'n hybu cynhwysiant yn effeithiol, dylai ysgolion:

- nodi anghenion cyffredin, megis lles pob plentyn a pherson ifanc, cyn symud at anghenion penodol unigolion
- cyfathrebu'n effeithiol â phob aelod o gymuned yr ysgol gan ddefnyddio iaith, testunau a deunyddiau priodol mewn gwahanol fformatau a systemau amgen sy'n defnyddio arwyddion, symbolau, TGCh, cymhorthion cyfathrebu, gwasanaeth cyfieithu, dehongli neu gefnogaeth lle bo angen
- defnyddio dulliau amlsynnwyr gweithredol i gyflwyno gwybodaeth newydd, gan ystyried gwahanol arddulliau dysgu ac anghenion emosiynol plant a phobl ifanc
- darparu cyfleoedd dysgu effeithiol sy'n defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, cyd-destunau perthnasol ac adolygu'n aml er mwyn helpu disgyblion i gofio
- cael canlyniadau dysgu perthnasol a heriau ar lefel briodol i bob plentyn a pherson ifanc
- gwahaniaethu dysgu drwy ddefnyddio gwahanol fformatau gwersi, cyflymder, grwpiau, deunyddiau a chefnogaeth
- darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gydweithio ar weithgareddau lle mae'r amcanion dysgu'n briodol i'w hanghenion
- datblygu ymatebion cadarnhaol a rhagweithiol i reoli ymddygiad sy'n ystyried amgylchedd yr ysgol, sy'n cydnabod ac yn parchu cyfraniadau plant a phobl ifanc ac yn rhoi mwy o gyfrifoldeb iddynt am y ffordd y maent yn ymddwyn ac yn dysgu
- cynnwys pob disgybl mewn gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth
- dysgu pob disgybl am faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chyfle cyfartal
- cynnwys disgyblion mewn ffordd weithredol yn eu haddysg a'u hannog i asesu eu hunain, gan gynnwys ceisio'u cael i ddeall eu harddulliau dysgu a beth y maent yn ei hoffi fwyaf
- darparu adborth i ddisgyblion ynglŷn â'r hyn y maent wedi'i ddysgu
- sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at gefnogaeth briodol a gwneud addasiadau rhesymol er mwyn eu galluogi i ddangos beth maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud mewn profion a chymwysterau cenedlaethol
- gwerthfawrogi cyflawniadau amrywiol ar draws y cwricwlwm a thu hwnt i'r ysgol.

Disgwyliadau uchel a thargedau cynhwysiant i ysgolion ac awdurdodau lleol

2.3.17 Mae'n ofynnol i bob ysgol, â chefnogaeth yr awdurdod lleol, osod targedau mesuradwy a fydd yn eu helpu i egluro eu gwerthoedd, eu hegwyddorion a'u dibenion. Dylai'r awdurdod lleol osod targedau clir ar gyfer cynhwysiant a chefnogi ysgolion â'u hymrwymiad i gynhwysiant yn ogystal â gwella safonau academiaidd.

¹⁹ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/nlrf/?lang=cy

2.3.18 Mae angen datblygu'r broses o osod targedau yng nghyd-destun hunanwerthuso ysgolion a gwella ysgolion, a rhoi esiamplau o osod targedau eang ar gyfer y meysydd hynny y mae'r ysgolion yn teimlo y dylid barnu eu llwyddiant ynddynt, h.y. mesur yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi. Mae'n bwysig bod ysgolion yn dadansoddi data ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw dangyflawni gan wahanol grwpiau o ddisgyblion.

Hyfforddi a datblygu

2.3.19 Mewn addysg gynhwysol, dylai'r holl staff feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc i gyrraedd y safonau uchaf posibl. Yn ychwanegol at hyn, dylid darparu hyfforddiant penodol ar gynhwysiant i lywodraethwyr er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol.

2.3.20 Dylai awdurdodau lleol gynllunio er mwyn sicrhau cyflenwad cyson o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol a all gefnogi a chynghori ysgolion ynglŷn â'u hyfforddiant i ddiwallu anghenion amrywiol. Dylai'r arbenigwyr hyn hefyd gynnwys staff a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â staff eraill a all gefnogi disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

2.3.21 Mae'n amlwg bod cynhwysiant yn mynd i gael effaith ar ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr. Mae pob cwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig yn nodi ei bod yn ofynnol i hyfforddeion allu dangos eu bod yn deall anghenion dysgu amrywiol pob disgybl ac ymdrechu i ddarparu'r addysg orau posibl er mwyn iddynt allu gwneud y gorau o'u potensial. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ofynnol i hyfforddeion ddarparu tystiolaeth eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r rhai hynny sydd ag AAA ac anableddau a deall y rhesymeg dros gynnwys pob plentyn a pherson ifanc mewn addysg gynhwysol brif ffrwd.

2.3.22 Mae'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA) ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn cynnwys pecyn dysgu Rheoli ymddygiad, y gall yr athrawon sydd wedi cael eu derbyn ar y rhaglen ei ddefnyddio. Mae'n darparu cyflwyniad rhagorol i ddulliau rheoli ymddygiad ac ymchwil a thystiolaeth yn y maes. Mae pecyn dysgu diwygiedig, sy'n darparu ymarferywr gyda adnoddau ar lefel gradd Meistr, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gyd-fynd â chyflwyno'r pecyn dysgu Rheoli ymddygiad yn y rhaglen gradd MYA.

2.3.23 Ar gyfer yr athrawon newydd gymhwyso hynny nad ydynt yn dewis gwneud gradd MYA, anogir ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod yr athrawon newydd gymhwyso'n canolbwyntio ar reoli ymddygiad yn ystod eu cyfnod sefydlu statudol. Ceir cyfeiriad penodol at faterion ymddygiad hefyd yn y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (SAG), a rhaid i bob athro/athrawes newydd gymhwyso fodloni'r safonau hyn cyn diwedd eu blwyddyn sefydlu. Bydd y pecyn dysgu Rheoli ymddygiad diwygiedig yn adnodd addas i bob ymarferydd.

2.3.24 Mae safonau proffesiynol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru'n berthnasol i weithlu'r ysgol gyfan, ac maent yn ffurfio'r cefnllun y disgwylir i ymarferwyr ei bwysu a'i fesur yn rheolaidd a'i ddefnyddio i asesu eu hymarfer fel rhan o'r broses rheoli perfformiad.

2.3.25 Diben y safonau hyn yw codi safonau addysgu a gwella deilliannau disgyblion drwy nodi beth y disgwylir i ymarferwyr ei gyflawni er mwyn iddynt allu cydnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd sy'n herio cyfle cyfartal. Dylid defnyddio'r safonau i ategu trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol er mwyn adolygu cynnydd a nodi unrhyw anghenion proffesiynol.

2.3.26 Gall awdurdodau lleol ac eraill helpu ysgolion i ddatblygu a hyfforddi eu staff. Mae llawer o weithgareddau hyfforddi a datblygu staff y gall ysgolion eu trefnu eu hunain, i'w helpu i fod yn fwy cynhwysol yn eu gwaith. Dylai ysgolion hefyd fanteisio ar hyfforddiant mewn swydd (HMS) perthnasol a ddarperir gan eu hawdurdod lleol a darparwyr eraill. Efallai y bydd y rhestr wirio isod o gymorth i ysgolion er mwyn gwerthuso'r anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol cyfredol.

2.3.27 Dylai hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff gynnwys gwybodaeth am egwyddorion addysg gynhwysol a chydaddoldeb. Gallai digwyddiadau hyfforddi dynnu sylw at arferion llwyddiannus, ac edrych ar brofiadau ysgolion ac awdurdodau lleol o gynhwysiant a beth sy'n gweithio. Gallai digwyddiadau ganolbwyntio hefyd ar:

- godi ymwybyddiaeth o anghenion cymorth penodol plant a phobl ifanc
- ymarfer da wrth ymateb i newidiadau yn anghenion plant a phobl ifanc
- edrych ar agweddau ar ymarfer da wrth weithio gyda rhieni/gofalwyr ac adrannau eraill.

2.3.28 Mae sesiynau hyfforddi ar y cyd â rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill megis staff y gwasanaeth iechyd, Gyrfa Cymru a grwpiau gwirfoddol lleol yn ffordd dda o ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol a gwella darpariaeth sy'n cael ei gwneud ar gyfer unigolion drwy gydweithio'n well. Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) y GIG yn gweithredu mewn sawl rhan o Gymru, ac yn darparu hyfforddiant i ysgolion i'w helpu i gyflawni eu rôl fel rhan o wasanaethau CAMHS Haen 1.

Hyfforddiant i uwch reolwyr

2.3.29 Mae'n hanfodol bod uwch reolwyr yn ymrwmo i sicrhau bod eu hysgolion yn dod yn gwbl gynhwysol a'u bod yn gwybod beth yw goblygiadau ymrwymiad o'r fath. Er mwyn gwneud hyn dylent sicrhau bod ganddynt wybodaeth ac ymwybyddiaeth ddigonol o'r canlynol:

- y prif egwyddorion sy'n sail i ymarfer cynhwysol.
- goblygiadau bod yn fwy cynhwysol o ran trefniadaeth ysgolion
- dulliau o gydnabod a dathlu'r hyn a gyflawnwyd gan bob disgybl
- gofynion y canllawiau hyn a gwybodaeth briodol am:
 - *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2004)
 - y llawlyfr o arferion da ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig²⁰
- deddfwriaeth cyfle cyfartal a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

20

Ymateb i amrywiaeth

2.3.30 Gall y rhan fwyaf o staff ddiwallu anghenion amrywiol y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc drwy ddefnyddio'r dulliau cyffredinol a restrir o'r blaen. Mae gan leiafrif bychan iawn o blant a phobl ifanc, fodd bynnag, anghenion dysgu mor arbenigol fel bod angen staff penodol arnynt sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw ac sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol er mwyn diwallu'r anghenion hynny'n effeithiol. Gallai'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar staff gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc drwy ddefnyddio gwahanol dechnegau, megis iaith arwyddion, neu ddefnyddio technegau rheoli ymddygiad yn effeithiol. Dylai awdurdodau lleol, mewn cydweithrediad â'r ysgolion, sicrhau bod hyfforddiant arbenigol penodol ar gael. Dylai awdurdodau lleol, ar y cyd ag ysgolion, gynllunio ymlaen llaw i wneud yn siŵr bod digon o staff ar gael sydd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sgiliau hyn, gan gynnwys staff sy'n gallu cynnig y sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhannu'r arfer gorau

2.3.31 Drwy fonitro gwelliannau mewn ysgolion, bydd awdurdodau lleol yn cael clywed am y dulliau cynhwysol mwyaf effeithiol. Dylent rannu'r wybodaeth hon gyda'i gilydd a chyda'u hysgolion eu hunain.

2.3.32 Dylai ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd rannu eu harbenigedd a'u profiadau gyda'i gilydd.

2.3.33 Mae gwefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu deunyddiau dysgu ac addysgu ar-lein a rhwydwaith o gysylltiadau â gwefannau dethol, sy'n cynnig cynnwys a gwybodaeth o safon uchel. Gyda ffocws clir ar welliant, mae gan bob tudalen amrywiaeth o gefnogaeth a chynghor wedi'i deilwra, sy'n canoli'r wybodaeth sydd ar gael gan symleiddio eich chwiliad am yr wybodaeth ddiweddaraf.

2.3.34 Mae Dysgu Cymru yn cael ei hategu gan lwyfan dysgu Hwb. Mae Hwb yn galluogi ysgolion i ddatblygu eu harferion eu hunain a chysylltu ag amrywiaeth eang o gymuned ysgolion lle gall rannu syniadau a deunyddiau drwy gefnogi ei gilydd er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

2.4 Monitro, gwerthuso ac ymyrryd

2.4.1 Yn ogystal â'r gwaith a gomisiynwyd yn benodol gan Lywodraeth Cymru, mae Estyn²¹ yn monitro agweddau ar gynhwysiant wrth arolygu awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, colegau a sefydliadau hyfforddi.

2.4.2 Mae hunanwerthuso wedi bod yn un o nodweddion cynlluniau datblygu da ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol bob amser ac mae proffil uchel i hyn yn y broses arolygu. Mae'n bwysig bod ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr eraill yn monitro ac yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â chynnig addysg gynhwysol sy'n darparu ar gyfer pob disgybl.

²¹ www.estyn.llyw.cymru

2.4.3 Mae Nodau Ansawdd²² hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer hunan-adolygu a gwerthuso y gall ysgolion ac awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddatblygu ffyrdd mwy cynhwysol o ddiwallu anghenion disgyblion ag AAA. Mae'r adnoddau yn cynnwys darparu rhaglen ar gyfer gweithredu a rhestrau gwirio mewn perthynas ag arferion cynhwysol mewn ysgolion.

2.4.4 Mae'r egwyddorion arolygu a amlinellir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin i Gymru yn dangos ymrwymiad clir i gynhwysiant, gan gynnwys:

- ymateb i anghenion pob disgybl
- canolbwyntio'r arolygiadau ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal
- edrych ar brofiadau pob disybl.

2.4.5 Yn ôl y Fframwaith Arolygu Cyffredin, mae gofyn i arolygwyr werthuso ac adrodd ar:

- perfformiad grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag AAA, sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n perthyn i grwpiau agored i niwed
- ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion
- ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer AAA
- ansawdd y cyfleoedd cyfartal a ddarperir.

2.4.6 Hefyd, yn ôl y Fframwaith Arolygu Cyffredin, bydd gofyn i arolygwyr ystyried agweddau penodol ar gynhwysiant wrth ddod i'w casgliadau. Ymhlith y rhain mae:

- a yw disgyblion yn llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol
- i ba raddau y mae'r dysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn hybu cyfle cyfartal ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anabledd
- i ba raddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i fuddiannau disgyblion a'r gymuned ehangach, gan gynnwys i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn trechu anfantais gymdeithasol a stereoteipio, ac i ba raddau y maent yn cynnig cyfle a mynediad cyfartal
- a oes gan arweinwyr a rheolwyr amcanion a gwerthoedd penodol sy'n hybu cydraddoldeb i bawb.

Apeliadau, tribiwnlysoedd a phrosesau cwyno

2.4.7 Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol sy'n dyfarnu ynglŷn ag apeliadau yn ymwneud ag anghenion addysgol plentyn a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol. Mae penderfyniadau'r Tribiwnlys yn rhwymo'r ddwy ochr yn gyfreithiol ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â Gorchmynion y Tribiwnlys o fewn terfynau amser statudol. Mae TAAAC hefyd yn clywed ac yn penderfynu ynglŷn â hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

²² www.gm-alliance.co.uk

2.4.8 Dan Fesur Addysg (Cymru) 2009²³ cafodd hawl rhieni a gofalmwyr i gyflwyno apêl neu hawliad i TAAAC ei hystyried i blant a phobl ifanc. Roedd y Mesur hefyd yn rhoi dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â darparu cyngor a gwybodaeth am yr hawliau newydd; datrys anghydfodau; a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Ar ôl cael eu treialu mewn dau awdurdod lleol, daeth yr hawliau estynedig hyn i blant a phobl ifanc, a'r dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol, i rym yng Nghymru gyfan ym mis Ionawr 2015.

2.4.9 Mae TAAAC hefyd yn clywed honiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru, ac eithrio mewn cysylltiad â phenderfyniadau yn ymwneud â derbyn a gwaharddiadau parhaol sy'n cael eu gwneud gan ysgolion a gynhelir. Mae'n clywed apeliadau yn erbyn gwaharddiadau am gyfnod penodol lle honnir bod gwahaniaethu wedi digwydd yn erbyn disgybl anabl.

2.4.10 Mae gan rieni/gofalmwyr a disgyblion yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad parhaol o ysgolion a gynhelir neu unedau cyfeirio disgyblion. Ar gyfer ysgolion, bydd y mater yn cael ei ystyried gan bwyllgor disgyblu'r ysgol i ddechrau a bydd hawl i apelio i banel apêl annibynnol yn dilyn hynny. Ceir canllawiau ar bob agwedd ar wahardd disgybl yn nogfen ganllaw *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion*²⁴ (Llywodraeth Cymru, 2015).

2.4.11 Yn unol ag adran 29 o Ddeddf Addysg 2002,²⁵ mae'n rhaid i bob corff llywodraethu mewn ysgol a gynhelir sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion gan rieni/gofalmwyr, disgyblion, staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill. Mae'r gyfraith hefyd yn mynnu bod cyrff llywodraethu yn cyhoeddi eu gweithdrefnau cwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu yn *Gweithdrefnau cwyno cyrff llywodraethu ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2012)²⁶. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau penodol i gyrff llywodraethu ar weithdrefnau ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â disgyblion. Wrth lunio a rhoi cyhoeddusrwydd i'w gweithdrefnau cwyno, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ystyried y canllawiau hyn.

Pwerau ymyrryd

2.4.12 Os yw ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyriad' mae nifer o bwerau y gall awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu defnyddio er mwyn gwella ysgolion. Nodir yr ymyriadau hyn yn adrannau 5 i 9 a 12 i 17 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Pwerau ymyrryd yr awdurdodau lleol

2.4.13 Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu yn y lle cyntaf. Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau

²³ www.legislation.gov.uk/mwa/2009/5/contents

²⁴ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/exclusion/?lang=cy

²⁵ www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

²⁶ llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/circulars/schoolcomplaints/?lang=cy

statudol²⁷ yn ymwneud â phwerau ymyrryd yr awdurdod lleol. Lle bo ysgolion yn gymwys ar gyfer ymyriad gall awdurdodau lleol ymarfer eu hawlau i:

- fynnu bod corff llywodraethu'n gofyn am gyngor neu'n cydweithio
- penodi llywodraethwyr ychwanegol
- atal hawl yr ysgol i gyllideb ddirprwyedig
- cyfansoddi'r corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim
- rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth neu gymryd unrhyw gamau eraill.

Pwerau ymyrryd Llywodraeth Cymru

2.4.14 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau ymyrryd dan adrannau 12 i 17 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ond disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn gwneud defnydd pendant ac effeithiol o'u pwerau ymyrryd eu hunain. Ni fydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio eu pwerau eu hunain oni bai fod yr awdurdod lleol heb ddefnyddio'i bwerau, neu heb wneud defnydd digonol ohonynt.

2.4.15 Lle bo ysgol yn gymwys ar gyfer ymyriad, mae nifer o bwerau y gall Gweinidogion Cymru eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mynnu bod cyrff llywodraethu'n gofyn am gyngor neu'n cydweithio
- penodi llywodraethwyr ychwanegol
- mynnu bod y corff llywodraethu'n cynnwys aelodau gweithrediaeth interim
- ffedereiddio ysgolion yn uniongyrchol
- cau ysgol
- rhoi cyfarwyddiadau a chymryd camau.

Os na fydd corff llywodraethu neu bennaeth wedi cyflawni ei swyddogaethau neu os yw'n eu cyflawni'n afresymol, mae adran 17 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu neu'r pennaeth neu gymryd unrhyw gamau eraill i ymdrin â'r sail dros ymyrryd.

Rôl Comisiynydd Plant Cymru

2.4.16 Penodwyd y Comisiynydd Plant²⁸ yn Rhagfyr 2000. Nodir swyddogaethau'r Comisiynydd yn Rhan 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Prif nod y Comisiynydd wrth gyflawni'r swyddogaethau yw diogelu a hyrwyddo hawlau a lles plant y mae Rhan 5 yn berthnasol iddynt (sy'n cynnwys rhai pobl ifanc 18 oed neu hŷn). Yn gyffredinol mae'r rôl yn cynnwys:

- adolygu'r effaith y bydd cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru a chyrrff penodol eraill (neu'r bwriad i'w cyflawni) yn ei gael ar blant
- adolygu a monitro gweithrediad mathau amrywiol o drefniadau, e.e. trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion (yn ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer plant gan neu ar ran Gweinidogion Cymru a chyrrff penodol eraill), er mwyn canfod a ydynt

²⁷ lyw.cymru/topics/educationandskills/publications/circulars/schools-causing-concern/?lang=cy

²⁸ www.complantcymru.org.uk

yn llwyddo i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles y plant y darperir y gwasanaethau iddynt

- yn ogystal â swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i blant, megis gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, meysydd fel trafnidiaeth, yr amgylchedd, datblygu economaidd ac amaethyddiaeth.

2.4.17 Gall y Comisiynydd weithredu fel eiriolwr gwybodus ar ran plant a'u hawliau. Mae pwerau'r Comisiynydd yn cynnwys yr awdurdod, mewn cysylltiad â'r swyddogaethau, i roi cyngor a gwybodaeth i unrhyw berson, ac maent yn cynnwys dyletswydd i ganfod barn plant a phobl ifanc am y modd y mae'r swyddogaethau'n cael eu cyflawni. Gall y Comisiynydd, mewn cysylltiad â'i swyddogaethau, archwilio achos plentyn neu blant penodol os oes gan y mater oblygiadau ehangach ar gyfer bywydau plant yng Nghymru, a gall orfodi asiantaeth neu berson sy'n gweithredu ar ei rhan i ddarparu gwybodaeth.

2.4.18 Gall y Comisiynydd hefyd orfodi tystion i ddod i roi tystiolaeth ar lw. Fel arfer, dim ond pan fydd pob dull arall wedi methu y bydd y Comisiynydd yn cymryd y camau hyn.

2.5 Cefndir cyfreithiol

2.5.1 Mae angen ystyried sawl agwedd gyffredinol ar ddeddfwriaeth wrth weithredu'r canllawiau hyn.

Y ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel mewn addysg

2.5.2 O dan adran 21(2) o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu redeg ysgol a gynhelir gyda'r nod o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol honno. Mae dyletswydd debyg yn berthnasol i awdurdodau lleol dan adran 13A o Ddeddf Addysg 1996 yng nghyswllt cyflawni swyddogaethau penodol sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant.

Deddf Hawliau Dynol 1998

2.5.3 Rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion a'r heddlu, fel awdurdodau cyhoeddus, weithredu yn unol â hawliau dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gall anghysondeb neu annhegwch arwain at heriau dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998²⁹, neu'r gyfraith gyhoeddus.

Deddf Cydraddoldeb 2010

2.5.4 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010')³⁰ yn cydgrynhoi ac yn disodli'r ddeddfwriaeth wahaniaethu flaenorol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae hefyd yn cryfhau'r gyfraith er mwyn sicrhau cynnydd ym maes cydraddoldeb. Cyhoeddwyd canllawiau manwl i ysgolion yn barod.

²⁹ www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

³⁰ www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

2.5.5 Mae Deddf 2010 yn amddiffyn disgyblion rhag gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol.

2.5.6 Mae'r gyfraith yn nodi gwahanol gategoriâu o wahaniaethu, ac mae gwahaniaethau yn y fframwaith cyfreithiol sydd o'u cwmpas³¹.

- Gwahaniaethu uniongyrchol, sy'n cynnwys:
 - gwahaniaethu drwy gysylltiad
 - gwahaniaethu drwy ganfyddiad.
- Gwahaniaethu anuniongyrchol.
- Gwahaniaethu cyfun.
- Gwahaniaethu yn deillio o anabledd.
- Dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.
- Fictimeiddio.
- Aflonyddu.

Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

2.5.7 Mae Adran 149 o Ddeddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdod cyhoeddus, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan neu o dan Ddeddf 2010
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

2.5.8 Mae rhoi sylw dyledus yn golygu meddwl yn ymwybodol am dair nod y ddyletswydd gyffredinol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu y dylai ystyried materion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan ysgolion. Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi sylw dyledus, yn fwyaf arbennig, i'r angen i:

- ddileu neu leihau anfanteision sy'n gysylltiedig â nodwedd a ddioddefir gan unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol
- cymryd camau i ddiwallu'r anghenion hynny sydd gan unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sy'n wahanol i anghenion unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- annog unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall y mae cyfranogiad gan unigolion o'r fath ynddo yn anghymesur o isel.

³¹ www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/guidance-all/protected-characteristics

2.5.9 Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi sylw dyledus, yn fwyaf arbennig, i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn, a hybu dealltwriaeth.

Dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru

2.5.10 Er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus yn well ac er mwyn helpu i sicrhau tryloywder, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau cydraddoldeb penodol, sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011³² ('Rheoliadau 2011'), a adwaenir hefyd fel y dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru.

Pennu amcanion cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb strategol

2.5.11 Er mis Ebrill 2012 mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gyhoeddi cynllun cydraddoldeb strategol. Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi amcanion cydraddoldeb yr ysgol a'r trefniadau amrywiol ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau penodol a nodwyd gan Reoliadau 2011³³. Dan y Rheoliadau hyn, rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir (ymhlith pethau eraill):

- fod wedi llunio a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob nodwedd warchodedig, erbyn 2 Ebrill 2012, neu resymau dros beidio â gwneud hynny. Wrth bennu amcanion cydraddoldeb, dylai ysgolion roi sylw dyledus i'r angen am amcanion sy'n rhoi sylw i achosion unrhyw wahaniaethau rhwng cyflog rhywun sydd â nodwedd warchodedig a chyflog rhywun nad oes ganddo nodwedd warchodedig (os yw'r gwahaniaeth, neu os yw'n ymddangos yn rhesymol debygol bod y gwahaniaeth, yn gysylltiedig â'r ffaith fod gan y person(au) y nodwedd warchodedig honno)
- adolygu'r amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd o leiaf
- nodi'r camau y mae wedi'u cymryd, neu y mae'n bwriadu eu cymryd, er mwyn cyflawni ei amcanion a faint o amser y mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i gyflawni pob amcan
- monitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion ac effeithiolrwydd ei ddull gweithredu.

Canllawiau

2.5.12 Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nifer o ddogfennau canllaw a chod ymarfer i helpu ysgolion i ddeall a chydymffurfio â'u dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwaharddiadau. Mae Llywodraeth Cymru'n argymhell yn gryf bod ysgolion a'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau ac apeliadau gwahardd, yn darllen y canllawiau a'r cod ymarfer sydd i'w gweld ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol³⁴.

³² www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made

³³ www.equalityhumanrights.com/publication/technical-guidance-public-sector-equality-duty-wales

³⁴ www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/education-providers/schools-guidance/exclusion-from-school

Diogelu

2.5.13 Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu'r nod o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn helpu i hyrwyddo trefniadau diogelu ac amddiffyn plant. Wrth ystyried pa drefniadau i'w gwneud, rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (2015)³⁵, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015. Dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir roi sylw i'r ddogfen *Cadw dysgwyr yn ddiogel* er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u swyddogaethau mewn ffordd sy'n rhoi sylw i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Y diffiniad o riant

2.5.14 Yn gyffredinol, i ddibenion cyfraith addysg, mae 'rhiant' yn cynnwys rhieni naturiol, pa un a ydynt yn briod ai peidio; unrhyw berson sydd, er nad yw'n rhiant naturiol, â chyfrifoldeb rhiant (yn unol â'r diffiniad yn Neddf Plant 1989) am blentyn neu berson ifanc; ac unrhyw berson sydd â gofal am blentyn neu berson ifanc. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau i ysgolion ar y diffiniad o riant a thermau cysylltiedig³⁶. Mae bod â gofal am blentyn neu berson ifanc yn golygu bod person y mae plentyn yn byw gydag ef neu hi ac sy'n gofalu am y plentyn, waeth beth fo'i berthynas â'r plentyn, yn cael ei ystyried yn rhiant.

2.5.15 Trwy gydol y ddogfen hon, mae cyfeiriadau at 'riant' yn golygu pob un rhiant a gynhwysir o fewn y diffiniad a roddir ym mharagraff 2.5.14 (p'un un a ydynt yn gweithredu ar y cyd neu ar wahân) ac ni ddylid cymryd ei fod yn golygu bod darpariaethau'n berthnasol i 'riant' unigol yn unig. Mae cyfeiriadau at 'ofalwr' yn cynnwys y rhai nad ydynt yn rhieni, ond gall ddod o fewn y diffiniad hwnnw ar y sail o gael gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

Deddf Plant 2004

2.5.16 Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd i gydweithio ar awdurdodau lleol a chyrff amrywiol eraill gan gynnwys ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol, yr heddlu a thimau troseddau ieuenctid yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau er mwyn hybu cydweithrediad rhyngddynt hwy a'r partneriaid hyn gyda'r bwriad o wella lles plant yn ardal yr awdurdod lleol a chreu cynlluniau sy'n nodi eu strategaeth ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc berthnasol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc er mwyn cydlynu a goruchwyllo'r trefniadau. Disodlwyd canllawiau statudol yn deillio o'r Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (Deddf Plant 2004) gan ganllawiau *Cydamcanu – Cydymdrechu* a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2012. Roedd y canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau: canllawiau ar gydweithio lleol o dan Ddeddf Plant 2004* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006) a chanllawiau dilynol ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Mae Deddf Plant 2004 yn bodoli o hyd ond mae Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc wedi'u corffori yng nghynlluniau integredig sengl yr awdurdodau lleol.

³⁵ lyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy

³⁶ lyw.cymru/about/foi/publications-catalogue/circular/2007/1552456/?lang=cy

2.5.17 Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai awdurdodau lleol lunio cynllun integredig sengl a fydd yn cymryd lle'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, a thrwy hynny'n lleihau cymhlethdod a dyblygu gwaith ac yn rhyddhau adnoddau.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

2.5.18 Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i gynnwys hawliau plant mewn cyfraith ddomestig. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion y CCUH, a'r Protocolau Dewisol, wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Bwriad y Mesur yw gwneud hawliau plant yn realiti i blant yng Nghymru drwy sicrhau deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau effeithiol sy'n darparu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o'r radd flaenaf i'n plant.

2.5.19 Wrth lunio'r canllawiau hyn, rhoddwyd sylw dyledus i'r CCUHP fel ffordd o sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r modd y gall y canllawiau hyn amddiffyn a darparu ar gyfer disgyblion yng nghyd-destun cynhwysiant a chymorth.

2.5.20 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod hawliau pob plentyn, fel y'u nodwyd yn y CCUH, yn cael eu gwireddu. Gellir crynhoi'r Confensiwn yn saith nod craidd sy'n ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn:

- cael dechrau teg mewn bywyd
- cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
- mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Y Gymraeg mewn addysg

2.5.21 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:

- llunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)
- ymgynghori ynglŷn â'r cynllun hwn
- ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, yna'i gyhoeddi
- cymryd pob cam rhesymol i'w weithredu
- ei adolygu'n rheolaidd.

Dan Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu yn y CSGA sut y byddant yn gwella addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r cymorth hwn yn deillio o unrhyw anhawster y mae'r disgybl hwnnw'n ei gael wrth ddysgu o'i gymharu â disgyblion eraill o'r un

grŵp oedran nad ydynt yn cael unrhyw anhawster wrth ddysgu. Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i gymeradwyo CSGAau, eu cymeradwyo ag addasiadau neu i wrthod y CSGA a gorfodi eu CSGA eu hunain.

3. Disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Bydd ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc angen cymorth ychwanegol o ryw fath rywbryd yn ystod eu haddysg. Gallai hyn fod yn gymorth ychwanegol â phwnc arbennig y mae'r disgybl wedi cael rhywfaint o anhawster ag ef, neu'n ddarllen i ddal i fyny ar ôl cyfnod byr o absenoldeb oherwydd salwch. Mae arferion addysgu gwahaniaethol, sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion disgyblion unigol, yn elfen allweddol o bob addysg o safon uchel.

3.1.2 Mae'r amgylchiadau pan fydd ar blant a phobl ifanc angen cymorth ychwanegol, yn y tymor byr neu'r hirdymor, yn amrywio'n fawr. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhai ffactorau ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n eu rhoi mewn perygl neilltuol o ymddieithrio o'r ysgol. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn cynyddu'r perygl y byddant yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol. Mae canran rhy uchel o blant a phobl ifanc sy'n agored i'r ffactorau hyn yn absennol o'r ysgol, yn arddangos ymddygiad gwael ac yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Mae llawer ohonynt eisoes ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Mae ymddieithrio o'r ysgol felly yn dwysáu amgylchiadau sydd eisoes yn anodd i'r plentyn neu'r person ifanc ac mae angen darparu amrywiaeth eang o fecanweithiau cefnogi, gan ddefnyddio dull ysgol gyfan.

3.1.3 Mae disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio ac o gael eu hallgáu'n gymdeithasol yn fwy agored i niwed, mae ganddynt anghenion mwy amrywiol, ac mae angen mwy o gefnogaeth arnynt na'u cyfoedion. Dylai ysgolion gydnabod bod hyn hefyd yn gallu cynyddu'r risg y caiff y disgyblion hyn eu bwlio. Felly, mae adroddiad adolygiad thematig Estyn *Gweithredu ar fwlio* (2014)³⁷ yn argymhell y dylai ysgolion hyrwyddo agwedd ysgol gyfan at gynhwysiant a dathlu amrywiaeth, drwy gyfrwng ethos yr ysgol, y cwricwlwm, polisïau gwrth-fwlio a gwersi addysg personol a chymdeithasol (ABCh). Amlinellir strategaethau gwrth-fwlio yn ein canllawiau gwrth-fwlio *Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio* (Llywodraeth Cymru, 2011)³⁸.

3.1.4 Fel rheol gall y rhan fwyaf o athrawon ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu, a threfnu eu hystafell ddosbarth i sicrhau'r potensial mwyaf. Po fwyaf hyblyg yw'r athrawon a pho fwyaf y byddant yn ymateb, po fwyaf tebygol yw'r disgyblion o wneud cynnydd. Bydd angen trefnu camau fel bod modd ymyrryd yn fwy pwerus er mwyn diwallu'r angen cynyddol.

3.1.5 Fel arfer, bydd unrhyw gymorth ychwanegol y mae ar ddisgybl ei angen ar gael yn yr ystafell ddosbarth, a chaiff ei reoli gan yr athro dosbarth/athrawes ddosbarth neu'r athro/athrawes pwnc. Hyd yn oed os bydd angen cymorth ychwanegol ar ddisgybl y tu allan i'r ystafell ddosbarth, e.e. mewn grŵp anogaeth, dylai bob amser fod yng nghyd-destun cwricwlwm cynhwysol.

³⁷ www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gweithredu-ar-fwlio-mehefin-2014
³⁸ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/respectingothers/?skip=1&lang=cy

3.1.6 Gall gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol:

- roi cyngor i athrawon (e.e. ar dechnegau a strategaethau addysgu, rheoli dosbarth a deunyddiau cwricwlwm)
- cymorth i ddatblygu'r cwricwlwm
- addysgu uniongyrchol neu gymorth ymarferol i athrawon dosbarth
- cymorth arbenigol rhan-amser neu fynediad at gynorthwywyr cymorth dysgu.

3.1.7 Caiff athrawon newydd gymhwyso gyfle i ddilyn rhaglen Meistr mewn ymarfer addysgol, sy'n cynnwys modiwlau ar reoli ymddygiad. Mae'r adnoddau hyn ar gael i unrhyw un yn y proffesiwn drwy wefan Dysgu Cymru³⁹.

Asesu

3.1.8 Mae gan bob disgybl hawl i gael asesiad cywir a phwrpasol o'i anghenion dysgu. Gellir defnyddio adnodd Llywodraeth Cymru *Ar drywydd dysgu*⁴⁰ i asesu disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys ac anabledau ychwanegol ac sy'n gweithio ar lefelau datblygu isel iawn.

3.1.9 Y tu hwnt i'r lefelau isel hyn, mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu er mwyn asesu disgyblion sy'n gweithio o dan Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

3.1.10 Ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig, mae dull asesu amlochrog yn hanfodol er mwyn cynnig darlun cyflawn o'r hyn y gallant ei gyflawni. Wrth asesu dylid ystyried dysgu blaenorol disgyblion, eu profiad blaenorol yn yr ysgol, a'u cefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol, gan gynnwys gallu yn y Gymraeg/Saesneg. Mae'n werth cofio, wrth ystyried beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion yr unigolion hyn, bod adran 312 (3) o Ddeddf Addysg 1996 yn cadarnhau na chymerir yn ganiataol bod gan blentyn anhawster neu anabledd dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith y mae'n cael ei dysgu ynddi, neu y bydd yn cael ei dysgu ynddi (neu ffurf ar yr iaith honno), yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sydd wedi cael ei siarad yn ei gartref ar unrhyw adeg.

3.1.11 Dylai ysgolion ystyried y canlynol:

- a yw rhai disgyblion yn dysgu'n arafach nag eraill oherwydd nad yw'r ethos a'r cwricwlwm yn gynhwysol
- a yw'r disgyblion ddim yn dysgu oherwydd bod eu lefel dda o Gymraeg/Saesneg sgysiol wedi camarwain yr athro/athrawes i roi tasgau iddynt sy'n rhy haniaethol ar gyfer eu lefel iaith bresennol
- a yw'r disgyblion yn dysgu ar raddfa briodol ond bod angen mwy o amser arnynt i ddod i arfer â gofynion gweithio yn eu hiaith ychwanegol
- a yw'r disgyblion yn methu oherwydd straen emosiynol/cymdeithasol
- a yw'r disgyblion yn methu â dysgu oherwydd anhawster iaith neu anhawster dysgu penodol.

³⁹ dysgu.llyw.cymru/yourcareer/mastersineducationalpractice/?skip=1&lang=cy

⁴⁰ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/routesforlearning/?skip=1&lang=cy

Trosglwyddo

3.1.12 Mae trosglwyddo'n ymwneud â'r holl newidiadau y byddwn yn eu profi yn ystod ein hoes. O safbwynt addysgol, gall olygu symud:

- o'r blynyddoedd cynnar i addysg gynradd
- o addysg gynradd i addysg uwchradd
- o addysg uwchradd i addysg bellach neu waith.

3.1.13 Beth bynnag yw'r cyfnod trosglwyddo, neu sut bynnag y caiff ei ddisgrifio, pan fydd yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol, bydd gwaith effeithiol rhwng y gwahanol sefydliadau cysylltiedig a throsglwyddo gwybodaeth yn amserol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddirwysr o un lleoliad i'r llall.

3.1.14 Mae'n hanfodol bod pob asiantaeth yn cydweithio er mwyn sicrhau dulliau effeithiol o rannu gwybodaeth a chynllunio ariannol a strategol a fydd yn golygu bod modd bodloni anghenion heb ymyrryd neu ohirio'n ddiangen. Er enghraifft:

- rhaid i ysgolion cynradd sicrhau bod cofnodion ysgol yn cael eu trosglwyddo i ysgol newydd y plentyn cyn pen 15 niwrnod o'r dyddiad y mae'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol honno⁴¹
- rhaid i adolygiadau blynyddol o ddatganiadau anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant ym Mlwyddyn 6 gael eu diwygio erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn y mae'r plentyn yn trosglwyddo; mae hyn wedyn yn golygu bod amser i drosglwyddo'r cofnodion a rhoi unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar waith cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd⁴².

Gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched

3.1.15 O edrych ar yr holl wahanol grwpiau o ddisgyblion a nodwyd fel rhai y mae perygl iddynt ymddieithrio o'r ysgol, gwelwn mai bechgyn yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol. Mae lefelau cyrhaeddiad bechgyn yn sylweddol is na rhai merched. Yn 2013/14, roedd gwahaniaeth o 7.7 y cant rhwng cyfran y merched a chyfran y bechgyn a lwyddodd i gyrraedd trothwy Lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*–C mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.

3.1.16 Gall y ffaith fod mwy o fechgyn nag o ferched yn cael eu gwahardd o'r ysgol, ynghyd â gwahaniaethau posibl o ran y ffordd y mae bechgyn a merched sydd ag anawsterau'n ymddwyn, olygu na sylwir ar ferched sy'n profi anawsterau. Gall hyn achosi i ni fethu â sylwi faint o wahardd ac ymddieithrio sy'n digwydd, a gall olygu nad yw anghenion penodol merched sy'n ymddieithrio'n cael eu diwallu'n ddigonol. Dylai ysgolion sicrhau bod polisïau cynhwysiant yn rhoi sylw i anghenion amrywiol bechgyn a merched.

⁴¹ www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1942/made/welsh

⁴² dysgu.llyw.cymru/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

Cwnsela

3.1.17 Gallai cwnsela fod o fudd i rai disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013⁴³ mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth cwnsela i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal a disgyblion sydd ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd yn eu hardal.

3.1.18 Canfu gwerthusiad annibynnol o Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru⁴⁴ fod athrawon cyswllt yn dweud bod gwasanaethau cwnsela wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion (65 y cant, 69 y cant ac 80 y cant yn y drefn honno).

3.2 Plant teuluoedd sydd mewn amgylchiadau anodd

3.2.1 Yn aml mae ymddieithrio o'r ysgol yn cyd-daro â phethau sy'n digwydd gartref, gan gynnwys cam-drin, profedigaeth, bygwth trefnu priodas a digwyddiadau trawmatig eraill nad yw ysgolion neu weithwyr proffesiynol yn sylwi arnynt bob amser.

3.2.2 Ar draws y sbectrwm cymdeithasol, gall sefyllfaoedd anodd gartref effeithio'n andwyol ar ddatblygiad emosiynol ac addysgol plant. Dylai staff fod yn ymwybodol o gysylltiadau posibl rhwng ymddygiad gwael yn yr ysgol a phrofiadau eraill ym mywyd plentyn. Mae ymchwil yn dangos bod plant sydd wedi profi cynnwrf a newid teuluol yn fwy tebygol na'u cyfoedion o adael yr ysgol yn gynnwrf â llai o gymwysterau, o chwarae triwant, o gael eu gwahardd, neu o arddangos ymddygiad hunanddinistriol neu wrthgymdeithasol. Gallai amgylchiadau anodd gynnwys:

- profedigaeth
- colli rhiant/gofalwr neu rieni/gofalwyr drwy ysgariad neu wahanu neu wrthdaro mynych rhwng rhieni/gofalwyr
- ffurfio uned deuluol newydd sy'n cynnwys partneriaethau newydd rhwng oedolion
- trais domestig a/neu gam-drin plant yn y teulu
- straen teuluol sy'n deillio o ddiweithdra, incwm isel, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, salwch meddwl neu riant/gofalwr yn mynd i'r carchar.

3.2.3 Efallai y bydd plant yn mynegi eu poen mewn gwahanol ffyrdd, ac mae bechgyn a merched yn gallu adweithio'n wahanol. Efallai y bydd rhai disgyblion yn mynegi eu poen drwy ymddygiad amhriodol; bydd angen gwneud y disgyblion hyn yn ymwybodol o'r ffaith fod eu hymddygiad yn amhriodol, ond bydd arnynt hefyd angen ffyrdd o fynegi eu poen, eu dicter neu eu dryswch. Fel arall, gallai rhai disgyblion ddatblygu gorbryder, a allai arwain at ffobia ysgol (gweler is-adran 3.16). Efallai y bydd disgyblion yn dymuno siarad yn gyfrinachol â phlant eraill, neu athrawon neu oedolyn y gallant ymddiried ynddo, neu ddefnyddio'r gwasanaeth cwnsela annibynnol; gall presenoldeb oedolyn sy'n gallu cefnogi plentyn a gwrando arno

⁴³ lyw.cymru/legislation/programme/assemblybills/schoolstandards/?skip=1&lang=cy

⁴⁴ lyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-welsh-school-based-counselling-strategy/?skip=1&lang=cy

leddfu rhywfaint ar effaith ysgariad, gwahanu a phartneriaethau newydd rhwng oedolion.

3.2.4 Un o'r prif ffactorau sy'n diogelu plentyn yw perthynas dda â phobl a llwyddo yn yr ysgol. Mae gan staff addysg, drwy eu cysylltiad â disgyblion o ddydd i ddydd, rôl hanfodol i'w chwarae gan ei gwneud yn bosibl i blant gael profiadau cadarnhaol yn yr ysgol – yn academiaidd a thrwy berthynas dda â phobl – yn ogystal â sicrhau a monitro eu lles. Gall swyddogion lles addysg a seicolegwyr addysg, drwy eu gwaith gydag ysgolion, fod â gwybodaeth am blentyn penodol. Os bydd y rhieni'n cytuno, gellir trafod y pryderon hyn gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol leol; os tybir bod plentyn mewn angen, efallai y gall adran y gwasanaethau cymdeithasol helpu a chytuno ar ffordd o symud ymlaen.

3.2.5 Yn ogystal â chyfrannu at waith a wneir gyda disgyblion gan staff o asiantaethau eraill, gall adrannau gwasanaethau cymdeithasol helpu'n uniongyrchol drwy weithio gyda phlant unigol (a'u teuluoedd) sy'n profi anawsterau sy'n effeithio ar gynnydd addysgol y plentyn. Gallai hyn gynnwys gwaith gyda phlant sy'n gofalu am oedolyn sâl neu anabl, neu lle mae yna broblemau perthynas o fewn y teulu, neu lle mae plentyn wedi'i gam-drin neu ei esgeuluso. Cynhelir asesiad cychwynnol, gan ddefnyddio'r dimensiynau sydd yn y *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref, 2001)⁴⁵ pan gyfeirir plentyn a theulu at adran gwasanaethau cymdeithasol i gael cymorth ag anawsterau a nodwyd yn yr ysgol. Os canfyddir bod plentyn yn cael anawsterau, gellid teilwra'r cymorth a gynigir i ymateb i anghenion penodol y plentyn hwnnw a'i deulu.

3.2.6 Mae cam-drin domestig yn cael effaith niweidiol iawn ar blant. Mae cysylltiad cryf rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Mae un o bob tri achos amddiffyn plant yn dangos hanes o drais domestig tuag at y fam. Mae pobl ifanc sydd mewn aelwydydd treisgar rhwng tair a naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu a'u cam-drin, boed yn uniongyrchol neu wrth geisio amddiffyn eu rhiant/gofalwr. Mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r angen i gefnogi plant sydd mewn perygl o drais neu o gael eu cam-drin, sydd yn profi trais neu'n cael eu cam-drin neu sy'n byw mewn cartref lle mae rhywun yn profi trais neu'n cael ei gam-drin. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi cael eu cryfhau'n sylweddol er mwyn adeiladu ar weithdrefnau amddiffyn plant sy'n bodoli'n barod a chynorthwyo athrawon a staff cymorth i nodi dangosyddion y profiad hwn ac ymateb yn briodol i'r person ifanc hwnnw⁴⁶.

3.2.7 Mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol hefyd o'r angen i gefnogi plant sydd â'u rhieni/gofalwyr yn camddefnyddio sylweddau.

3.2.8 Efallai y bydd ysgolion yn dymuno cynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill yn y gwaith o helpu i ymdopi â'r broblem deuluol wreiddiol. Efallai y dylai athrawon hefyd fod yn ymwybodol o ffynonellau lleol eraill a allai fod o

⁴⁵ llyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/guidance1/childreninneed/?skip=1&lang=cy

⁴⁶ llyw.cymru/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf

gymorth i blant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu cyfeirio plant atynt am gymorth os yw'n briodol, megis gwasanaethau cwnsela.

3.2.9 Gall y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf⁴⁷ rhoi cymorth gwerthfawr i'r teuluoedd hynny sy'n wynebu amgylchiadau anodd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo datblygu systemau aml-asiantaethol effeithiol ar gyfer cefnogi teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais clir ar ymyrraeth gynnar ac atal ac ar ddod â sefydliadau at ei gilydd i weithio gyda'r teulu cyfan er mwyn helpu atal problemau rhag gwaethygu tuag at argyfwng. Mae'r gymorth a ddarperir gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn bwrpasol, dwys ac yn seiliedig ar yr angen lleol a nodwyd. Mae'r rhaglen wedi adeiladu cysylltiadau strategol gydag ystod eang o asiantaethau sy'n cael eu henghreffio wrth gyflwyno'r model y Tîm o Amgylch y Teulu. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn rhan ganolog o'r Tîm o Amgylch y Teulu, yn aml yn cymryd rôl gydlynw arweiniol. Mae'n bwysig i athrawon fod yn ymwybodol o sut mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio yn eu hardal leol a'r mecanweithiau atgyfeirio sydd ar gael iddynt.

3.3 Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

3.3.1 Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i ddisodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) â fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, sydd i'w gweld yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996⁴⁸ a'r ddogfen *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2005)⁴⁹, yn dal mewn grym ar hyn o bryd.

3.3.2 Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant anhawster dysgu:

- os bydd dysgu lawer yn fwy anodd iddynt na'r mwyafrif o'u cyfoedion
- os bydd ganddynt anabledd dysgu sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol tebyg i'r rhai a ddarperir yn gyffredinol i blant ysgol o'r un oedran yn ardal yr awdurdod lleol
- os byddant o dan oed ysgol gorfodol ac yn debygol o ddod o fewn y diffiniadau a roddir uchod, neu y byddent yn debygol o fod felly pe na bai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei gwneud ar eu cyfer (adran 312 o Ddeddf Addysg 1996).

3.3.3 Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001⁵⁰ yn rhoi hawl gryfach i addysg brif ffrwd i blant a phobl ifanc ag AAA drwy ddiwygio Deddf Addysg 1996. O dan adrannau 316 a 316A o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i blentyn neu berson ifanc gael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd oni bai fod ganddo ddatganiad AAA ac y byddai ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd yn groes i ddymuniadau'r rhiant/gofalwr neu'n golygu na ellid darparu addysg effeithlon i blant eraill. Os yw rhieni/gofalwyr yn awyddus i'w plentyn gael lle mewn ysgol arbennig, dylid gwrando ar eu dymuniadau a'u hystyried.

⁴⁷ gov.wales/docs/dhss/publications/111219ffguideacy.pdf

⁴⁸ www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/part/IV

⁴⁹ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?skip=1&lang=cy

⁵⁰ www.legislation.gov.uk/ukpga/2001/10/contents

3.3.4 Mae *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2004), yn argymhell mabwysiadu ystod o strategaethau sy'n helpu i sicrhau arferion cynhwysol mewn ysgolion. Mae hefyd yn awgrymu y dylai unrhyw strategaethau a ddefnyddir gydnabod y cymhlethdodau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r angen, y cyfrifoldebau gwahanol i asesu a diwallu'r anghenion hynny, ac ystod ac amrywiaeth gysylltiedig y ddarpariaeth a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo orau adnabyddiaeth gyffredin o'r continwwm o AAA. Gellir diwallu AAA y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn effeithiol a dylid gwneud hynny drwy Weithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy. Mae'r ymateb graddedig, sydd wedi'i amlinellu yn y cod, yn golygu bod modd symud ar hyd continwwm o gymorth i adlewyrchu'r anghenion a'r cynnydd a wneir.

3.3.5 Bydd angen i ysgolion ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar benderfynu beth yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu ar gyfer pob unigolyn. Bydd angen iddynt asesu cynnydd cyffredinol disgybl, ei gyraeddiadau a'i gryfderau, yn ogystal â'i anawsterau a meysydd i'w datblygu. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r strategaethau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y disgybl ac ystyried sut y gellid eu gwneud yn fwy effeithiol.

3.3.6 Er mwyn diwallu anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc mae'n rhaid i asiantaethau statudol fod yn hyblyg. Mae angen iddynt gyfathrebu a chytuno ar bolisiâu a phrotocolau sy'n sicrhau gwasanaeth 'di-dor'. Drwy weithio mewn ffordd gefnogol ac mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac â'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, sicrhau bod pawb yn deall ymatebion y bobl broffesiynol, gan arwain at ddarpariaeth o ansawdd gwell.

3.3.7 Yn Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011⁵¹ amlinellir dyletswyddau ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth a ddarperir yn unol â Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999⁵², megis gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng ysgolion a gynhelir a gwasanaethau iechyd plant, gwasanaethau cymdeithasol a'r Gwasanaeth Lles Addysg ac unrhyw fudiadau gwirfoddol sy'n gweithio ar ran plant sydd ag AAA. Mae gan athrawon lawer o arbenigedd wrth nodi a diwallu anghenion eu disgyblion. Ond gall gwasanaethau cymorth allanol chwarae rhan bwysig wrth helpu ysgolion i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA.

3.3.8 Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd adnabod, asesu a darparu'n gynnar ar gyfer unrhyw ddisgybl a allai fod ag AAA. Bydd y plentyn yn fwy tebygol o ymateb os yw'r camau'n cael eu cymryd yn gynnar, a bydd unrhyw ymyriad yn rhwyddach. Cyn gynted ag y cafwyd anawsterau, dylai staff gysylltu â'r cydlynnydd AAA a rhieni/gofalwyr y disgybl.

3.3.9 Weithiau ni fydd anghenion addysgol arbennig rhai plant a phobl ifanc – e.e. anawsterau dysgu cymedrol neu benodol (gan gynnwys dyslecsia) – yn dod i'r amlwg nes bydd y plentyn yn dechrau mynd i'r ysgol, neu hyd yn oed ar ôl hynny.

⁵¹ www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1944/made/welsh

⁵² www.legislation.gov.uk/ukxi/1999/1442/contents/made

Caiff anghenion addysgol arbennig eu cuddio'n aml gan anawsterau eraill fel anawsterau emosiynol neu anawsterau ymddygiad, ymddieithrio neu lle mae'r plentyn yn mabwysiadu ei strategaethau ymdopi ei hunan er mwyn osgoi bod yn 'wahanol'. Mae'r un mor bwysig ein bod yn adnabod anghenion addysgol arbennig y plant a'r bobl ifanc hyn mor gynnar â phosibl, ac yn cyflwyno strategaethau ymyrryd.

3.3.10 Os mai anawsterau dros dro sydd gan blentyn, bydd yn gallu dysgu a gwneud cynnydd normal wedi hynny. Os na fydd anawsterau'r plentyn yn ymateb cystal i ddarpariaethau'r ysgol neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar, yna gellir mynd ati rhag blaen i ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai'r plentyn fod ei angen.

3.3.11 Os tybir bod gan blentyn AAA, a bod angen cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, dylid gwneud cynllun addysg unigol. Mae'r cynllun addysg unigol, y dylid ei lunio mewn partneriaeth â'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn, yn nodi anghenion y plentyn yn fanwl, a'r camau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau cynnydd. Bydd y cynllun addysg unigol yn cynnwys targedau ar gyfer y dyfodol, ac yn dangos sut a phryd y caiff cynnydd y plentyn ei adolygu.

3.3.12 Dim ond gwybodaeth sy'n ychwanegol at gynllun y cwricwlwm gwahaniaethol sy'n rhan o'r ddarpariaeth arferol, neu sy'n wahanol iddo ddylai gael ei chofnodi yn y cynllun addysg unigol. Dylid trafod cynlluniau addysg unigol a sut y gallant fod o gymorth gyda'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn.

3.3.13 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn, ni ddylai ysgolion roi gwaharddiad parhaol i ddisgybl sydd â datganiad o AAA. Dylai ysgolion hefyd wneud pob ymdrech i beidio â gwahardd disgyblion sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yn yr Ysgol a Mwy dan *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2004). Ceir rhagor o wybodaeth am waharddiadau yn nogfen ganllawiau *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Llywodraeth Cymru, 2015)⁵³.

3.4 Disgyblion ag anabledd

3.4.1 Nid yw cynnwys disgyblion anabl mewn ysgolion prif ffrwd yn ddigon ynddo'i hun er mwyn sicrhau cydraddoldeb i ddisgyblion anabl mewn ysgolion. Rhaid i ddisgyblion anabl gael yr hawl i ddilyn eu haddysg heb i bobl wahaniaethu'n annheg yn eu herbyn.

3.4.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010⁵⁴ yn rhoi dyletswydd ar y corff sy'n gyfrifol am ysgol i wneud addasiadau rhesymol er mwyn atal gwahaniaethu (gweler adran 85(6) ac Atodlen 13).

3.4.3 Bydd y cam neu'r camau rhesymol yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos unigol. Mae Codau Ymarfer y Ddeddf Cydraddoldeb⁵⁵ a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys nifer o enghreifftiau y gellir

⁵³ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/exclusion/?skip=1&lang=cy

⁵⁴ www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

⁵⁵ www.equalityhumanrights.com/cy/hafan/cyfraith-a-pholisi/mesur-cydraddoldeb

eu hystyried yn addasiadau rhesymol, ac yn egluro beth fyddai'n cael ei ystyried yn wahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

3.4.4 Rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod modd cynnwys disgyblion heb amharu ar addysg effeithlon plant a phobl ifanc eraill. Nid yw'r penderfyniad i beidio ag addysgu plentyn neu berson ifanc mewn ysgol brif ffrwd – yn groes i ddymuniadau ei riant/gofalwr – yn un i'w frysio. Mae'n bwysig ystyried amgylchiadau unigol pob achos. Ambell waith, am resymau amrywiol, mae'n bosibl na fydd modd cymryd camau rhesymol i sicrhau bod modd cynnwys plentyn neu berson ifanc heb amharu ar addysg effeithlon plant a phobl ifanc eraill. Er enghraifft, gallai digwyddiad eithafol olygu y byddai cynnwys y plentyn neu'r person ifanc yn amharu ar addysg effeithlon disgyblion eraill, yn enwedig os yw'n debygol iawn y bydd yr un peth yn digwydd eto, ac nad oes camau rhesymol y gellid eu cymryd i atal hyn.

3.4.5 Weithiau ni fydd y rhiant/gofalwr yn dymuno i'w blentyn gael ei gynnwys mewn addysg brif ffrwd. Heblaw am achosion o'r fath, dim ond mewn sefyllfa lle byddai cynnwys plentyn â datganiad o AAA yn amharu ar addysg disgyblion eraill y gellir gwrthod addysg brif ffrwd. Cyn gwneud y penderfyniad hwn rhaid i awdurdod lleol benderfynu yn gyntaf a oes camau rhesymol y gellid eu cymryd er mwyn atal yr amhariad ar addysg disgyblion eraill. Dyma rai ffactorau y gellid rhoi sylw iddynt wrth ystyried beth sy'n rhesymol:

- a fyddai cymryd y cam yn goresgyn y broblem yn effeithiol
- i ba raddau y mae'n ymarferol i'r ysgol a gynhelir neu'r awdurdod lleol gymryd y cam
- i ba raddau y mae camau wedi'u cymryd yn barod er mwyn helpu i gynnwys y plentyn neu'r person ifanc, a pha mor effeithiol ydynt
- goblygiadau ariannol cymryd y cam, a goblygiadau eraill o ran adnoddau, yn fwyaf arbennig a yw newid y ffordd y defnyddir adnoddau, er mwyn diwallu anghenion un disgybl, yn golygu bod posibilrwydd y bydd addysg plant eraill yn dioddef
- i ba raddau y byddai cymryd y cam yn amharu mewn unrhyw ffordd
- i ba raddau y mae'r cam yn gydnaws ag anghenion y plentyn – er enghraifft, yn achos rhai plant sydd ag AAA, gallai darparu cymorth amser llawn un i un hwyluso eu presenoldeb mewn ysgol neu ystafell ddosbarth brif ffrwd, ond byddai'n cadarnhau dibyniaeth ac yn rhwystro'r plant rhag bod yn annibynnol.

3.4.6 Gallai natur camau rhesymol newid dros gyfnod, wrth i ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr eraill ddod yn fwy abl i ddiwallu anghenion grwpiau amrywiol o blant a phobl ifanc.

3.4.7 Mae Atodlen 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁵⁶ yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i baratoi strategaeth hygyrchedd, sef strategaeth, ymhlith pethau eraill, er mwyn cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar y cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion i baratoi cynlluniau hygyrchedd.

3.4.8 Mae hyn yn cynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a reolir ac a gynorthwyir, ysgolion

⁵⁶ www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/10

annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir. Nid yw'r ddyletswydd i lunio cynllun hygyrchedd yn berthnasol i unedau cyfeirio disgyblion nac i ysgolion meithrin a gynhelir os yr awdurdod lleol yw'r corff cyfrifol. Dylai strategaeth hygyrchedd yr awdurdod lleol ymdrin â'r sefydliadau hyn. Nid yw'r ddyletswyddau cynllunio yn ymdrin â sefydliadau preifat a gwirfoddol sy'n darparu addysg blynyddoedd cynradd, ac eithrio addysg feithrin sy'n cael ei darparu gan ysgolion annibynnol yn unol â'r diffiniad yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996⁵⁷.

3.4.9 Rhaid i strategaethau hygyrchedd awdurdodau lleol a chynlluniau hygyrchedd ysgolion ymdrin â'r canlynol:

- cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol
- gwella amgylchedd ffisegol ysgolion ar gyfer disgyblion anabl
- gwella'r ffordd y darperir gwybodaeth i ddisgyblion anabl a ddarperir i ddisgyblion eraill yn ysgrifenedig.

3.4.10 Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd pan fo unigolyn yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun nad oes ganddo anabledd, am reswm sy'n gysylltiedig â'r anabledd, a hynny heb unrhyw gyfiawnhad. Gall Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) glywed a phenderfynu ynglŷn â honiad rhiant, gofalwr neu blentyn ynglŷn â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion⁵⁸.

3.5 Disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig

3.5.1 Mae amrywiaeth ddiwylliannol, gymdeithasol ac ieithyddol Cymru'n dal i gael ei hadlewyrchu yn ein hysgolion, lle mae bron i un o bob deg disgybl yn dod o gefndir lleiafrif ethnig a thros 100 o ieithoedd a 140 o dafodieithoedd yn cael eu siarad.

3.5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi llwyddiant disgyblion o bob cefndir. Cydnabyddir y bydd ar rai disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – y rhai hynny sydd angen help â sgiliau iaith, neu sydd mewn perygl o dangyflawni am resymau eraill – angen cymorth ychwanegol er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael yng Nghymru a chyflawni eu gwir botensial.

3.5.3 Mae hyn yn arbennig o wir yn achos disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd angen cymorth i ddysgu Cymraeg a/neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod sgiliau iaith llai datblygedig yn gallu golygu ei bod yn anodd i ddisgyblion ddefnyddio'r cwricwlwm ac, o ganlyniad, bod perygl iddynt dangyflawni.

3.5.4 Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY) yw'r term cyffredinol ar gyfer dysgu sgiliau iaith Saesneg/Cymraeg i blant ysgol er mwyn bodloni eu hawl gyfreithiol i addysg lawn. Mae nifer o strategaethau addysgu SIY/CIY sy'n cyflwyno sgiliau Saesneg/Cymraeg cymdeithasol ac academaidd, a chaiff cynnydd ei fonitro drwy gyfeirio at fodel pum cam. Y cam cyntaf yw pan fo plentyn yn 'newydd i'r iaith Saesneg neu'r Gymraeg' a'r cam olaf yw pan fo'r disgybl yn 'gwbl rugl' yn yr iaith ac yn gallu gweithredu ar draws y cwricwlwm yr un mor

⁵⁷ www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/463

⁵⁸ sentw.gov.wales/?skip=1&lang=cy

fedrus â disgybl sy'n defnyddio Saesneg/Cymraeg fel iaith gyntaf heb fod angen unrhyw gymorth SIY/CIY.

3.5.5 Gall y broses gymryd 7–10 mlynedd. O ganlyniad, mae angen i gymorth i ddysgu iaith a chyflawni'n addysgol fod yn gymorth hirdymor. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wasanaethau wedi'u canoli sy'n cynnwys athrawon SIY/CIY sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ar gyfer hynny a chynorthwyr addysgu dwyieithog. Mae rhai o'r staff hyn wedi'u lleoli'n barhaol mewn un ysgol, tra mae eraill yn staff teithiol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae awdurdodau lleol yn cadw'r hyblygrwydd i addasu dyraniadau staffio os bydd newid mewn niferoedd ac anghenion. Mewn ychydig o achosion, bydd awdurdodau lleol yn datganoli arian yn uniongyrchol i ysgolion er mwyn cyfrannu tuag at gostau cymorth staffio.

3.5.6 Mae SIY/CIY yn gweithio orau pan nad yw'r disgyblion yn cael eu pellhau oddi wrth y prif gwricwlwm, a phan fydd y gwaith SIY/CIY yn ategu eu pynciau prif ffrwd ac yn cael ei wneud yn berthnasol i'r cwricwlwm. Mae athrawon SIY/CIY arbenigol yn arwain ar ddatblygiad iaith plentyn, â chymorth cynorthwyr addysgu sy'n rhugl yn ieithoedd cartref y disgyblion, ac yn gweithio mewn cysylltiad agos ag athrawon prif ffrwd. Mae llawer o wasanaethau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig awdurdodau lleol yn cynnig hyfforddiant i athrawon prif ffrwd er mwyn gwella'u sgiliau i helpu disgyblion SIY/CIY. Bydd ysgolion sy'n arddangos yr arferion gorau hefyd yn annog disgyblion i sefyll arholiadau TGAU yn eu hiaith gyntaf – mae hyn yn rhoi cymhwyster arholiad gwerthfawr i'r disgybl ac yn rhoi hwb i'w hyder.

3.5.7 Mae rhieni/gofalwyr cyfran fach o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig sy'n newydd i Gymru'n cofrestru eu plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac mae ar y disgyblion hyn angen cymorth i ddysgu Cymraeg a Saesneg ar gyfer y cwricwlwm.

3.5.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu DVD ar gynorthwyo disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Teitl y DVD yw *Un Gymru, Sawl Llais* ac anfonwyd copi i bob ysgol yng Nghymru yn 2010.

3.6 Plant sy'n ceisio lloches a phlant ffoaduriaid

3.6.1 Gall disgyblion y mae eu teuluoedd yn ceisio lloches, neu sydd â statws ffoaduriaid, wynebu llawer o'r anawsterau a amlinellwyd ar gyfer disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl y bydd rhai plant, y cyfeirir atynt fel plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, yn profi trawma ychwanegol o ganlyniad i gael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd.

3.6.2 Mae'r ddogfen Llywodraeth Cymru *Y cod derbyn i ysgolion* (2013)⁵⁹ yn berthnasol i bob plentyn sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol, gan gynnwys plant sy'n ceisio lloches. Os ydynt o fewn yr oed ysgol statudol, mae gan blant sy'n ceisio lloches sy'n dod i Gymru hawl i le mewn ysgol am faint bynnag o amser y maent yn aros yma.

⁵⁹ llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?skip=1&lang=cy

3.6.3 Yn unol â'r gyfraith mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu addysg gynradd ac uwchradd ddigonol ar gyfer eu hardal. Mae hyn yn cynnwys ystyried oed, gallu a doniau amrywiol disgyblion. Mae hefyd yn ofynnol iddynt ystyried yr angen i sicrhau darpariaeth addysgol arbennig i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, ac i hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg (gweler adrannau 13, 13A ac 14 o Ddeddf Addysg 1996). Mae'n bosibl y bydd gan awdurdodau lleol ddyletswyddau tuag at blant a phobl ifanc hyd yn oed os nad ydynt yn 'preswyllo fel arfer' yn yr awdurdod lleol hwnnw – gweler Rheoliadau Addysg (Ardaloedd y mae Disgyblion a Myfyrwyr yn Perthyn iddynt) 1996⁶⁰.

3.6.4 Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i gyfarfod plant eraill a gwneud ffrindiau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd addysg ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol disgyblion sy'n ceisio lloches. Bydd ar lawer o blant sy'n ceisio lloches angen cymorth i lwyddo yn eu hamgylchedd newydd o ganlyniad i'w profiadau blaenorol neu eu sefyllfa bresennol. Er enghraifft, efallai y bydd rhyfel wedi amharu ar eu haddysg am flynyddoedd. Efallai y bydd rhai wedi colli perthnasau neu wedi gweld trais eithafol ac y bydd ganddynt broblemau emosiynol neu ymddygiadol o bosibl o ganlyniad i hynny. Mae gan blant ar eu pen eu hunain broblem arall gan nad oes ganddynt rieni neu ofalwyr i'w helpu. Dylid edrych a oes modd cael gwasanaeth cwnsela i'r disgyblion hynny sydd ei angen. Anogir cymorth ymarferol hefyd, megis grant gwisg ysgol⁶¹, prydau ysgol am ddim⁶² a chludiant i ddisgyblion⁶³.

3.6.5 Efallai y bydd rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n ceisio lloches neu sydd â statws ffoadur hefyd yn cael anhawster i ailaddasu. Yn fwyaf arbennig, mae'n debyg y bydd gwahaniaethau mawr rhwng y system ysgolion yng Nghymru a'r system ysgolion yng ngwlad enedigol y disgybl. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref yn chwarae rhan bwysig drwy helpu'r rhieni/gofalwyr a'r disgyblion i ddeall y system addysg yng Nghymru.

3.7 Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

3.7.1 Mae Sipsiwn Romani wedi cael eu cydnabod fel grŵp hil yn ôl y gyfraith er 1988, ac mae Teithwyr Gwyddelig hefyd yn cael eu cydnabod fel grŵp ethnig yn ôl y gyfraith er y flwyddyn 2000. Mae'r ddau grŵp yn cael eu hamddiffyn gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

3.7.2 Mae'r term cyffredinol 'Sipsiwn a Theithwyr' yn cynnwys nifer o grwpiau ac maent yn cael eu nodi yng nghylchlythyr canllawiau 006/2009, *Casglu a Chofnodi Data am Gefndir Ethnig Disgyblion* (Llywodraeth Cymru, 2009)⁶⁴:

- Teithiwr o Dras Wyddelig
- Teithiwr 'Newydd'
- Teithiwr Galwedigaethol
- Teithiwr arall

⁶⁰ www.legislation.gov.uk/ukxi/1996/615/regulation/2/made

⁶¹ llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/parents/uniform/?skip=1&lang=cy

⁶² llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/freeschoolmeals/?skip=1&lang=cy

⁶³ llyw.cymru/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/?skip=1&lang=cy

⁶⁴ llyw.cymru/docs/dcells/publications/090716circular0062009cy.pdf

- Sipsi Prydeinig/Sipsi Roma
- Sipsi/Sipsi Roma o wledydd eraill
- Sipsi/Sipsi Roma arall.

3.7.3 Plant Sipsiwn a Theithwyr sydd â'r cyfraddau cyrhaeddiad isaf o'r holl grwpiau o ddisgyblion, a dyma'r grŵp sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio o'r ysgol. Mae bylchau mewn addysg a chyfraddau presenoldeb isel yn gyffredin ymhlith plant Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw bywydau crwydrol. Mae lefelau absenoldeb awdurdodedig a heb ei awdurdodi dros ddwywaith cymaint â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Mae nifer y plant hyn sydd â hawl i brydau ysgol am ddim dair gwaith cymaint â'r cyfartaledd cenedlaethol.

3.7.4 Yn aml iawn bydd rhieni/gofalwyr Sipsiwn a Theithwyr wedi cael profiadau negyddol o ysgol uwchradd. Mae'r profiadau hyn, a'u pryder diwylliannol a moesol ynglŷn ag addysg rhyw, y diwylliant cyffuriau ac ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau, yn golygu bod llawer o rieni/gofalwyr Sipsiwn a Theithwyr yn gyndyn o adael i'w plant aros yn yr ysgol drwy gydol eu haddysg uwchradd, ac nid yw llawer o ddisgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3. Rhwystr sylfaenol arall sy'n effeithio ar bresenoldeb mewn ysgolion yw bwllo hiliol a galw enwau.

3.7.5 Un o'r rhwystrau i bresenoldeb ysgol yw bwllo hiliol a galw enwau. Mae rhieni/gofalwyr wedi dyfynnu bwllo hiliol fel rheswm cyffredin dros bresenoldeb isel neu dynnu'n ôl o'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi cynhyrchu pecyn cymorth ar-lein (ar gael ar Hwb) i gefnogi ymarferwyr addysg wrth setlo'r disgyblion hyn yn yr ysgol. Mae'n ategu *Teithio gyda'n gilydd*, cyfres o adnoddau a gyhoeddwyd ar wefan Dysgu Cymru yn 2014, er mwyn hyrwyddo integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr yn y cwrwllwm cenedlaethol. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys gweithgareddau hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â hiliaeth yn yr ystafell ddosbarth⁶⁵, ac yn egluro pwysigrwydd cydnabod, ymateb iddynt a chofnodi digwyddiadau hiliol.

3.7.6 Mae tlodi o ran dyhead a chyfle yn broblem ar gyfer llawer o plant Sipsiwn a Theithwyr a allai oresgyn rhwystrau diwylliannol o fewn eu cymunedau eu hunain cyn y gallant elwa o fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr Sipsiwn a Theithwyr yn cydnabod budd addysg gynradd i'w plant ac yn awyddus iddynt fynychu'r ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i ennill sgiliau llythrennedd a rhifedd swyddogaethol. Fodd bynnag, mae Sipsiwn a Theithwyr yn gyffredinol yn ystyried bod yr ysgol yn darparu rhan bach o addysg eu plant, gyda'r gweddill yn cael ei ddarparu o fewn y gymuned deithiol. Mae hyn yn cynnwys bechgyn sy'n gweithio gyda'u tadau o oed cymharol ifanc a merched sy'n helpu'n sylweddol gyda gofal plant a thasgau domestig fel paratoad ar gyfer rhedeg cartref a magu teulu. Gall cyfraddau tlodi uchel hefyd effeithio ar bresenoldeb fel y bo'n ofynnol i aelodau iau y teulu cefnogi incwm y teulu.

3.7.7 Er gwaetha'r arferion diwylliannol a all effeithio ar bresenoldeb, mae mwy o ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion yng Nghymru nag erioed o'r blaen ac mae'r gyfran sydd mewn ysgolion uwchradd yn cynyddu. Gall swyddogion lles addysg helpu i hwyluso a chynnal presenoldeb rheolaidd plant Sipsiwn a Theithwyr. Gall swyddog lles addysg sy'n gweithio mewn cysylltiad agos ag athrawon

⁶⁵ hwb.wales.gov.uk/Resources/browse?sort=recommendation&language=en

ymgynghorol wneud gwaith allgymorth â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Gall hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gyfer swyddogion lles addysg helpu i sicrhau y gall perthnasau ymddiriedus gael ei ffurfio gyda rhieni/gofalwyr.

3.7.8 Gall ymweliadau cychwynnol i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr elwa o cyflwyniadau a ddarperir gan gynrychiolwyr gwasanaethau addysg i Deithwyr yr awdurdod lleol sydd eisoes wedi sefydlu perthynas gyda'r gymuned. Mae'n hanfodol i wasanaethau addysg i deithwyr ennill ymddiriedaeth y cymunedau, ac yn aml gwneir hyn drwy feithrin cydberthnasau cyfannol a nodweddir gan lefelau uchel o ofal bugeiliol. Mae ymchwil gan Lywodraeth Cymru wedi dangos bod rôl y gwasanaeth addysg i deithwyr yn ganolog o ran hwyluso ymgysylltu â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ar adegau gwahanol addysg. Mae'r adroddiad ymchwil *Gypsy and Traveller Education: Engaging Families – A Research Report* (Saesneg yn unig) (Llywodraeth Cymru, 2014) yn cynnwys argymhellion ar gyfer sicrhau ymgysylltiad effeithiol o'r teuluoedd hyn mewn addysg.

3.7.9 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd nifer cynyddol o blant Roma Ewropeaidd yn dod i Gymru (yn enwedig i Gaerdydd a Chasnewydd) gan fod eu teuluoedd wedi dewis setlo yno. Gall y disgyblion Roma hyn fod yn dipyn o her i ysgolion oherwydd mae'n bosibl y bydd angen cefnogaeth benodol arnynt gan na fydd ganddynt brofiad blaenorol o leoliad addysgol ffurfiol yn eu gwlad gwreiddiol. O ganlyniad, ni fydd gan nifer sylweddol o blant Roma sgiliau llythrennedd ysgrifenedig a dim ond sgiliau siarad yn Romanes, a all arwain at anghenion gaffael iaith gymhleth. Fodd bynnag, mae ymchwil gan Equality UK yn awgrymu y gall y plant hyn setlo'n llwyddiannus yn yr ysgol yn enwedig os gall yr athrawon ganfod ffyrdd o ddatblygu brwdfrydedd, er enghraifft drwy annog unrhyw dalentau cerddorol.

3.7.10 Efallai y gall Sipsiwn a Theithwyr, ac yn enwedig Roma, fod yn amharod i hunan-priodoli eu hethnigrwydd drwy Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o ganlyniad i ofn o ddisgwyliadau gwahaniaethu neu is o gyrhaeddiad addysgol gan yr athrawon. Efallai y gall gweithwyr gwasanaethau addysg Teithwyr rhoi cyngor ynghylch ffyrdd o gynyddu datgeliad gan y grwpiau disgyblion hyn, a fyddai'n cefnogi ysgolion i olrhain perfformiad addysgol y disgyblion hyn.

3.7.11 Mae *Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn – Teithwyr* (Llywodraeth Cymru, 2008)⁶⁶ yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gefnogi disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Gwelwyd llawer o ddatblygiadau ers hynny, gan gynnwys rheoliadau newydd ar dderbyniadau a phresenoldeb mewn ysgolion, sy'n golygu y bydd mwy o ysgolion yn derbyn disgyblion Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys system ar gyfer cofrestru plentyn mewn dwy ysgol wahanol pan fydd ei deulu'n teithio ar gyfer gwaith, ynghyd â chod presenoldeb newydd 'T' ar gyfer teithio. Mae adnodd cwricwlwm ar-lein *Teithio gyda'n gilydd* (Llywodraeth Cymru, 2014)⁶⁷ ar wefan Dysgu Cymru yn cynnwys deunyddiau amrywiol sy'n ymwneud â hanes a diwylliant Sipsiwn a Theithwyr. Cynlluniwyd yr adnodd er mwyn chwalu stereoteipiau a darparu cwricwlwm priodol ar gyfer diwylliant disgyblion Sipsiwn a Theithwyr.

⁶⁶ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/travellereducation/?skip=1&lang=cy
⁶⁷ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/travelling-together/?skip=1&lang=cy

3.7.12 Mae prosiect Achub y Plant, 'Travelling Ahead', yn helpu Sipsiwn a Theithwyr ifanc yng Nghymru i gymryd rhan drwy sefydlu fforymau ieuencid lleol sy'n rhoi cyfle i Sipsiwn a Theithwyr ifanc yng Nghymru fynegi eu barn ynglŷn â materion sy'n peri pryder iddynt. Mae'r wefan 'Travelling Ahead' yn cynnwys pecyn cymorth⁶⁸ o adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda disgyblion sy'n Sipsiwn a Theithwyr. Cynlluniwyd y pecyn cymorth i'w ddefnyddio mewn ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth ddiwylliannol o Sipsiwn a Theithwyr o fewn y cwricwlwm.

3.8 Plant gweithwyr mudol

3.8.1 Mae'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Hawliau'r Holl Weithwyr Mudol ac Aelodau o'u Teuluoedd⁶⁹ yn diffinio 'gweithwyr mudol' fel:

A person who is to be engaged, is engaged or has been engaged in a remunerated activity in a State of which he or she is not a national.

Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys ffoaduriaid na cheiswyr lloches, sy'n mynd i wlad arall yn bennaf oherwydd eu bod yn ffoi rhag erledigaeth yn eu gwlad eu hunain.

3.8.2 Mae ffordd o fyw'r bobl hyn yn tueddu i newid yn aml, a chan nad yw'r rhan fwyaf o blant gweithwyr mudol yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, dylid mabwysiadu llawer o'r dulliau y cyfeiriwyd atynt o'r blaen ar gyfer cynorthwyo disgyblion sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol a phlant Sipsiwn a Theithwyr er mwyn helpu'r plant hyn i integreiddio'n llwyddiannus i fywyd mewn ysgol yng Nghymru.

3.9 Disgyblion mwy galluog a thalentog⁷⁰

3.9.1 Defnyddir y term 'mwy galluog a thalentog' i ddisgrifio disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac sydd angen cyfleoedd i gyfoethogi ac ymestyn ar wahân i'r rhai a ddarperir ar gyfer y garfan o ddisgyblion. Mae'r term yn cynnwys disgyblion sy'n fwy galluog ar draws y cwricwlwm yn ogystal â'r rhai sy'n dangos talent mewn un neu ragor o feysydd penodol.

3.9.2 Gall rhai disgyblion galluog, am resymau amrywiol, gael eu dadrithio gan yr ysgol a byd addysg, ac mae perygl iddynt ymddieithrio; gallant hefyd, mewn rhai achosion, ddatblygu patrymau ymddygiad negyddol sy'n amharu ar ddisgyblion eraill. Yn anffodus, gall ymddygiad o'r fath guddio gallu posibl yr unigolyn.

3.9.3 Gallai patrymau presenoldeb disgyblion sy'n alluog ond eu bod wedi eu dadrithio fod yn afreolaidd gan eu bod yn diflasu'n hawdd. Mae ar ddisgyblion angen amgylchedd cefnogol sy'n hybu hunan-dyb er mwyn eu hysgogi i ddysgu.

3.9.4 Rhaid caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu potensial drwy gwricwlwm o gyfleoedd. Gellir meithrin disgyblion â galluoedd a thalentau amrywiol drwy

⁶⁸ www.travellingahead.org.uk/oursite/our-workers

⁶⁹ www2.ohchr.org/english/bodies/cmw/cmw.htm

⁷⁰ learning.gov.wales/resources/browse-all/quality-standards-in-education-for-more-able-and-talented-pupils/?skip=1&lang=cy

gwrïcwllwm wedi'i gyfoethogi a phrofiadau dysgu estynedig. Bydd diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog o fudd felly i bob disgybl.

3.9.5 Er mwyn gallu darparu profiadau dysgu ymestynnol o safon uchel i ddysgwyr mwy galluog a thalentog, datblygwyd safonau ansawdd mewn addysg i ddisgyblion mwy galluog a thalentog a phe cyn hyfforddi ar gyfer cydgysylltwyr sy'n ymwneud â disgyblion mwy galluog a thalentog. Gellir gweld y deunyddiau hyn drwy wefan Dysgu Cymru⁷¹ a'u nod yw helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog fel rhan o agenda gwella ysgol gyfan.

3.10 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

3.10.1 Dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁷².

3.10.2 Mae llawer o ymchwil wedi'i wneud i'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag addysg plant sydd mewn gofal cyhoeddus ac mae wedi'i gofnodi mewn dogfennau academaidd a chan y llywodraeth. Mae hefyd yn faes lle mae consensws cyffredinol ynglŷn â'r materion canolog ymhlith ymchwilwyr, llunwyr polisi, ymarferwyr ac yn bwysig iawn, y bobl ifanc eu hunain. Mae disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn wynebu llawer o broblemau gan gynnwys y canlynol:

- bwlïo (oherwydd eu bod yn agored i niwed ac nid yn benodol oherwydd eu bod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol)
- anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- teimlo'n unig oherwydd eu bod wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu a/neu ffrindïau
- torri ar draws eu haddysg cyn iddynt gael eu derbyn i ofal
- newid ysgol yn aml ar ôl cael eu derbyn i ofal
- poeni beth sy'n digwydd adref
- agweddau negyddol neu anffafriol cyfoedion, staff gofal, athrawon a gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys disgwyliadau isel o ran cyrhaeddiad
- diffyg cymhellïant a hyder o ganlyniad i gyflawnïad isel.

3.10.3 Gall y ffactorau hyn arwain at lefelau cyrhaeddiad is a lefelau uwch o driwantiaeth a gwaharddiadau. O gymharu â'r grŵp cyfoedion, mae cyrhaeddiad plant mewn gofal yn yr ysgol yn is.

3.10.4 Mae *Guidance on the Education of Children Looked After by Local Authorities* (Saesneg yn unig) (Cynullïad Cenedlaethol Cymru, 2001)⁷³ yn tynnu sylw at y materion hyn ac yn cynnwys canllawïau er mwyn helpu awdurdodau lleol â'u rôl fel 'rhieni corfforaethol'. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ysgolion ddynodi aelod o'r staff i weithredu fel adnodd a siarad ar ran plant a phobl ifanc sydd mewn gofal cyhoeddus. Mae'n hollbwysig bod y person dynodedig yn deall y system gofal a'r effaith y mae derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn ei gael ar y disgybl er mwyn

⁷¹ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/mat-training-pack/?skip=1&lang=cy

⁷² www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

⁷³ llyw.cymru/about/foi/publications-catalogue/circular/circulars2001/NAFWC022001?skip=1&lang=cy

gwneud gweithio ar y cyd yn realiti. Dylai awdurdodau lleol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol gyd-drefnu hyfforddiant addas ar gyfer aelodau dynodedig o'r staff a chadw rhestr gyfredol o arweinwyr dynodedig mewn ysgolion yn eu hardal.

3.10.5 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth addysg – *Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*⁷⁴ – ar 28 Ionawr 2016. Mae'r strategaeth yn nodi meysydd lle mae angen targedu camau gweithredu i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yn well. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu i gefnogi plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol, ond mae hefyd yn cymryd mewn ystyriaeth yr angen am bontio effeithiol i addysg bellach neu uwch a chyflogaeth.

3.10.6 Mae cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd yn gosod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella canlyniadau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy weithrediadau unigol, gan weithio gyda phartneriaid allweddol. Bydd cyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro yn flynyddol, gan ddefnyddio ffynonellau data i wirio cynnydd a sicrhau bod y gefnogaeth sydd ar waith yn effeithiol.

3.10.7 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cryfhau rôl awdurdodau lleol wrth ddarparu addysg fel rhieni corfforaethol. Mae adran 78(2) yn cadarnhau bod dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu a hybu lles plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn cynnwys dyletswydd benodol i hybu cyrhaeddiad addysgol y plentyn.

3.10.8 Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002⁷⁵ hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu pa fath o gymorth addysgol y bydd ar blant a phobl ifanc ei angen ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu, ar gais, pa gymorth y gallai rhieni sy'n mabwysiadu a pherthnasau eraill fod ei angen ar ôl mabwysiadu. Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hyn i'w gweld yn Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005⁷⁶ a ddaeth i rym yn Rhagfyr 2005.

Absenoldeb

3.10.9 O gymharu â'u cyfoedion, mae lefelau absenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn uchel, ac mae canran rhy uchel ohonynt yn cael eu gwahardd o'r ysgol. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Archwilio nad oedd un o bob pedwar plentyn dros 14 oed sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn mynd i'r ysgol.

3.10.10 Er mwyn gwella presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, mae *Guidance on the Education of Children Looked After by Local Authorities* (Saesneg yn unig)⁷⁷ yn nodi'r canlynol:

⁷⁴ gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?skip=1&lang=cy

⁷⁵ www.legislation.gov.uk/ukpg/2002/38/contents

⁷⁶ www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1512/regulation/12/made

⁷⁷ llyw.cymru/about/foi/publications-catalogue/circular/circulars2001/NAFWC022001?skip=1&lang=cy

- dylai ysgolion fonitro absenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a chyflwyno adroddiad i'r awdurdod lleol
- dylai pob awdurdod lleol fod â swyddog sy'n gyfrifol am gadw golwg ar bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal.

Gwahardd

3.10.11 Mae canran rhy uchel o bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael eu gwahardd. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o sensitifrwydd gwahardd disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod, gan gydnabod yr angen penodol i ddisgyblion o'r fath gael addysg ddi-fwlch.

3.10.12 Mae angen i awdurdodau lleol weithio mewn cysylltiad agos ag ysgolion er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol plant sy'n derbyn gofal a sefydlu gweithdrefnau clir ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal y mae perygl iddynt gael eu gwahardd. Os credir bod angen gwahardd disgybl, rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau clir ac ymarferol i sicrhau bod rhywun yn gweithredu fel eiriolwr ar ran y person ifanc. Gall eiriolwr fod yn brif ofalwr, yn weithiwr cymdeithasol, yn athro dynodedig/athrawes ddynodedig neu'n berson annibynnol. Dylid nodi'r trefniadau hyn yn glir mewn polisïau a phrotocolau sy'n ymwneud ag addysg plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, a sicrhau eu bod ar gael i bawb sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol, gan gynnwys llywodraethwyr a chynghorwyr.

Parhad addysg

3.10.13 Mae'r canllawiau ar addysg plant sy'n derbyn gofal yn nodi'r canlynol:

- disgwylir i awdurdodau lleol bennu uchafswm o 20 niwrnod ysgol er mwyn dod o hyd i leoliad addysg ar gyfer unrhyw ddisgybl sy'n derbyn gofal
- os bydd penderfyniad i beidio â derbyn disgybl yn arwain at oedi, disgwylir i'r awdurdod lleol sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi ac, os yw'n amlwg y bydd mwy nag 20 niwrnod yn mynd heibio, dylai ddarparu addysg dros dro mewn lleoliad arall nes bydd y mater wedi'i ddatrys.

Cynlluniau addysg personol

3.10.14 Dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol fod â chynllun addysg personol, a fydd yn rhan annatod o gynllun gofal a chymorth cyffredinol y plentyn. Cyflwynwyd cynlluniau addysg personol er mwyn goresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â darparu a monitro addysg plant sy'n derbyn gofal, anawsterau sy'n codi'n bennaf o ganlyniad i newid ysgolion yn amlach a'r angen am lawer iawn o gydweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector addysg. Dylai cynllun addysg personol:

- sicrhau mynediad at wasanaethau a chymorth
- cyfrannu tuag at sefydlogrwydd
- lleihau unrhyw amhariadau ar addysg a bylchau mewn addysg
- nodi anghenion addysgol penodol ac anghenion addysgol arbennig
- sefydlu nodau clir a gweithredu fel cofnod o gynnydd a chyrhaeddiad.

3.10.15 Y gweithiwr cymdeithasol a glustnodwyd ar gyfer y disgybl fydd yn gyfrifol am ddechrau'r broses o ddarparu'r cynllun addysg personol. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cysylltu â'r ysgol y bydd y disgybl yn cael ei anfon iddi, a bydd y sawl a ddynodwyd i fod yn gyfrifol am ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol (megis cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal) yn trefnu cyfarfod. Cyfrifoldeb yr ysgol yw llunio'r cynllun addysg personol drwy ymgynghori â rhieni/gofalwyr ac asiantaethau priodol. Dylid cytuno ar y cynllun addysg personol cyn gynted ag y bo modd ac, ar yr hwyraf, cyn pen 20 niwrnod ysgol ar ôl i'r plentyn gael ei dderbyn i ofal neu ymuno ag ysgol newydd. Dylid trin y cynllun addysg personol fel 'dogfen fyw' sy'n helpu i greu dealltwriaeth gyffredin ynglŷn â sut y gall pawb chwarae ei ran er mwyn helpu'r plentyn i lwyddo. Dylid ei adolygu mewn partneriaeth â'r ysgol, y plentyn a gofalwyr y plentyn, fel rhan o'r adolygiad statudol o'r cynllun gofal a chymorth ehangach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

3.11 Disgyblion ag anghenion gofal iechyd

3.11.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau manwl dan y teitl *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (2010)⁷⁸. Nod y canllawiau hyn yw rhoi cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynglŷn â diwallu anghenion addysgol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd. Gall anghenion gofal iechyd gael effaith barhaus ar ddatblygiad cymdeithasol, gallu a hyder disgybl yn ei gyrhaeddiad addysgol. Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau cymorth di-dor ar gael er mwyn diwallu anghenion y disgyblion hyn a sicrhau eu bod yn dal i allu manteisio ar gyfleoedd addysgol yn yr ysgol, gartref, yn yr ysbyty, neu mewn unrhyw leoliad arall, ac mewn cydweithrediad â rhieni/gofalwyr a'r ysgol y mae'r plentyn yn mynd iddi fel arfer.

3.11.2 Bydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gyflwr iechyd o ryw fath, ar ryw adeg neu'i gilydd, a allai olygu bod arnynt angen gofal ac na allant gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Angen byrdymor fydd hwn fel arfer. Ond bydd gan rai disgyblion anghenion gofal iechyd a allai, os nad ydynt yn cael eu diwallu'n iawn, amharu ar eu gallu i gael addysg. Mae disgyblion o'r fath yn cael eu hystyried fel rhai sydd ag anghenion gofal iechyd.

3.11.3 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd yn gallu mynd i'r ysgol ac, â rhywfaint o gymorth, yn gallu manteisio'n llawn ar y cwriclewm cenedlaethol a'i weithgareddau cysylltiedig. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar anghenion y disgybl, mae'n bosibl y bydd angen i staff mewn ysgolion fod yn fwy gofalus wrth oruchwylio rhai gweithgareddau er mwyn sicrhau nad yw'r disgyblion hyn a disgyblion eraill mewn unrhyw berygl. Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n werth i ysgolion lunio gweithdrefnau unigol ar ffurf cynllun gofal iechyd annibynnol er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion o'r fath.

3.11.4 Gallai addysg disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus, neu sy'n absennol o'r ysgol am gyfnod hir oherwydd salwch, fod yn fylchog, a gallant wynebu anawsterau wrth geisio ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Mae cryn berygl i

⁷⁸ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?skip=1&lang=cy

ddisgyblion o'r fath fynd ar goll yn y system, yn enwedig pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddarpariaeth mewn awdurdod arall. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig dros ben cael proses gyfathrebu effeithiol rhwng y ddarpariaeth yn yr ysbyty a'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw.

3.11.5 Mae adran 19 o Ddeddf Addysg 1996⁷⁹ yn nodi mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu addysg i blant sy'n methu â mynd i'r ysgol oherwydd salwch.

3.11.6 Mae gan awdurdodau lleol bŵer hefyd i ddarparu addysg addas heblaw yn yr ysgol i bobl ifanc sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 19 oed. Diffinnir addysg addas o dan adran 19(6) o Ddeddf Addysg 1996 fel addysg effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a doniau'r plentyn (neu'r person ifanc) ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo.

3.11.7 Prif nod addysgu disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd yw lleihau, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, unrhyw amharu ar addysg arferol drwy barhau ag addysg mor normal ag sy'n bosibl o ystyried analluogrwydd y disgybl.

3.11.8 Mae angen gofal penodol er mwyn sicrhau bod darpariaeth addas ar gael i ddisgyblion sydd â salwch meddwl. Os oes gan ddisgyblion salwch meddwl sy'n eu hatal rhag mynd i'r ysgol, neu os ydynt yn dioddef effeithiau gorbryder, iselder a/neu ffobia ysgol, gan gynnwys gorbryder sy'n gysylltiedig â gwahanu a gwrthod mynd i'r ysgol oherwydd iselder, mae'n bosibl y bydd arnynt angen cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol. Mae is-adran 3.16 o'r adran hon yn cynnwys canllawiau er mwyn cynorthwyo disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol neu sydd â ffobia ysgol.

3.11.9 Mae gwella iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod y gall hyn olygu llai o salwch meddwl mwy difrifol i bobl yn ddiweddarach yn eu hoes, ac y gall ymdrin â phroblemau'n gynnar gael effaith gadarnhaol ar gyflawniad cymdeithasol ac addysgol y person ifanc.

3.11.10 Un o'r camau allweddol yng nghynllun cyflawni Llywodraeth Cymru, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2012–16* (2012)⁸⁰, yw datblygu canllawiau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau cwnsela ym mhob ysgol uwchradd erbyn Ebrill 2013. Mae hyn wedi'i sefydlu erbyn hyn ac mae cyllid wedi'i gynnwys o fewn y grant cynnal referniw er Ebrill 2013.

3.11.11 Mae strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru ar gyfer pob oedran, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*⁸¹, yn egluro mai'r nod yw bod pobl o bob oedran yn gweld gwelliant cynaliadwy i'w hiechyd meddwl a'u lles o ganlyniad i ymrwymiad traws-Llywodraethol i gydweithio rhwng yr holl sectorau. Er mwyn cefnogi trefniadau gweithio cydweithredol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol drafft ar waith cydweithredol rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a'r gwasanaeth cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc⁸².

⁷⁹ www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/19

⁸⁰ llyw.cymru/topics/health/nhswales/plans/mental-health/?skip=1&lang=cy

⁸¹ gov.wales/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?skip=1&lang=cy

⁸² llyw.cymru/consultations/healthsocialcare/counselling/?skip=1&lang=cy

3.11.12 Yn ogystal â'r gwasanaeth cwnsela, gall ysgolion fanteisio ar wasanaeth seicolegwyr addysg yr awdurdod lleol. Gellir gofyn i seicolegwyr addysg asesu myfyriwr sy'n cael anawsterau â dysgu a/neu ymddygiad a phroblemau iechyd meddwl.

3.12 Disgyblion sy'n feichiog neu'n rhieni ifanc

Dyletswyddau awdurdodau lleol

3.12.1 Mae adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau i ddarparu addysg addas yn yr ysgol neu ac eithrio yn yr ysgol ar gyfer y plant hynny o oedran ysgol gorfodol nad ydynt, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, yn gallu derbyn am unrhyw gyfnod addysg addas oni wneir trefniadau o'r fath ar eu cyfer'. Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan adrannau 13 ac 19 o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol bwerau y gellir eu defnyddio er mwyn rhoi cymorth i famau ifanc a merched beichiog. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a phartneriaethau ehangach er mwyn rhoi cymorth i'r fam, yn ystod ei beichiogrwydd ac ar ôl i'r babi gael ei eni.

3.12.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i gyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol a ffisegol y gymuned drwy sicrhau bod addysg effeithlon ar gael er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn eu hardal (adran 13 o Ddeddf Addysg 1996). Wrth ddefnyddio eu pwerau a'u dyletswyddau amrywiol o dan y Deddfau Addysg dylent ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni/gofalwyr, os yw hynny'n gydnaws â darparu cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon, a heb fod yn afresymol o gostus (adran 9 o Ddeddf Addysg 1996). Golyga hyn na ddylai awdurdodau lleol ddefnyddio un polisi ar gyfer pawb. Yn hytrach, dylent ymgynghori â'r disgybl, ei rieni neu ei ofalwyr a'r ysgol er mwyn sicrhau pecyn sy'n addas i oedran, gallu, doniau ac anghenion unigol y disgybl, gan gynnwys unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo.

3.12.3 Mae adran 14 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion sy'n darparu addysg gynradd ac uwchradd briodol ar gael i bob disgybl yn eu hardal.

3.12.4 O dan adran 19(4) mae gan awdurdodau lleol bwerau i drefnu darpariaeth heblaw yn yr ysgol i 'person ifanc', sy'n cael ei ddiffinio yn adran 579(1) fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 18 oed, sydd o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad o ysgol neu ryw reswm arall, ddim yn cael addysg addas. Gellir defnyddio hyn i gefnogi addysg merched beichiog a mamau ifanc rhwng 16 a 18 oed.

3.12.5 Dylai disgyblion â datganiadau AAA a gynhelir o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996 sy'n canfod eu hunain yn feichiog gael eu trin yr un fath yn union â disgyblion eraill dan bolisi beichiogrwydd yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol adolygu'r datganiad o dan adran 328 o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002 er mwyn sicrhau,

er enghraifft, bod y lleoliad a enwir a'r ddarpariaeth anaddysgol a nodir yn y datganiad yn dal yn briodol. Rhoddir canllawiau ar adolygu datganiadau yn y ddogfen *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*.

3.12.6 Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009⁸³ yn nodi'r wybodaeth y gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr ac awdurdodau lleol ei darparu ar gais i Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol. Gallai gynnwys gwybodaeth am rieni ifanc sy'n derbyn addysg gan eu hawdurdod lleol y tu allan i ysgol brif ffrwd. Mae'n arfer da hefyd i awdurdodau lleol gasglu data ar wahân am gyrhaeddiad a phresenoldeb rhieni ifanc mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn gweld pa mor effeithiol yw eu darpariaeth. Dylid monitro a chofnodi'r broses o drosglwyddo i addysg bellach a chyflogaeth hefyd. At ddibenion monitro, dylid edrych ar y data hyn ar sail cefndir ethnig. Er mwyn i asiantaethau allu cyfathrebu'n rhwydd â'i gilydd dylai'r fformat a ddefnyddir i gasglu'r data hyn fod yn gydnaws i'r graddau y mae hynny'n bosibl ag unrhyw setiau data eraill a ddefnyddir. Rhaid casglu a storio'r holl ddata yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

3.12.7 Dylai pob awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad â sefydliadau eraill a allai fod yn ymwneud â chefnogi merched ifanc beichiog a rhieni ifanc, yn enwedig adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd o dan y partneriaethau plant a phobl ifanc. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyflogi swyddogion ailintgreiddio i helpu disgyblion i ailgydio yn eu haddysg. Mae'n bwysig iawn bod y swyddogion hyn yn cysylltu'n effeithiol â strategaethau lleol ac â'r aelod dynodedig o staff yr ysgol.

Disgyblion sy'n feichiog

3.12.8 Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn rhoi cymorth i ferched o fewn oed ysgol gorfodol sy'n canfod eu hunain yn feichiog. Nid yw'n ymdrin â lleihau cyfraddau beichiogi nac addysg rhyw. Ymdrinnir â'r rhain yn y ddogfen ganllawiau *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2010)⁸⁴.

3.12.9 Mae rhai merched ifanc yn teimlo mwy o gymhelliant i ddysgu o ganlyniad i'w beichiogrwydd, ac yn awyddus i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Ond nid yw'r cymhelliant hwn yn amlygu ei hun yn eu cyrhaeddiad bob amser. Dylai merch ifanc gael cyfle i aros mewn addysg amser llawn yn ystod ei beichiogrwydd oni bai fod amgylchiadau personol neu feddygol yn galw am drefniadau eraill.

3.12.10 Yn ogystal â chefnogi mamau ifanc, mae'n bwysig ystyried anghenion tadau ifanc hefyd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cael amser i ffwrdd er mwyn mynd i ddosbarthiadau cyn geni neu gyfle i ddefnyddio gwasanaethau cwnsela. Dylai absenoldeb er mwyn mynd i ddosbarth cyn geni gael ei ystyried yn absenoldeb 'awdurdodedig' ar gyfer mamau a thadau fel ei gilydd.

⁸³ www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/3355/contents/made/welsh

⁸⁴ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/sex-and-relationships-education-in-schools/?skip=1&lang=cy

Ceisiadau am ddulliau atal cenhedlu brys

3.12.11 I'r graddau y mae hynny'n bosibl, dylai ysgolion hyrwyddo gwasanaethau'r nyrs ysgol, ymwelwyr iechyd, clinigau a chyfleusterau iechyd eraill fel y ffyrdd o gysylltu â gwasanaethau iechyd, gan gynnwys ceisiadau am ddulliau atal cenhedlu brys. Dylid trafod y materion hyn mewn dosbarthiadau addysg rhyw a pherthnasoedd.

3.12.12 Dylai unrhyw athro/athrawes sy'n cael cais gan ddisgybl am ddulliau atal cenhedlu brys ddilyn polisi cyfrinachedd yr ysgol ar y mater hwn. Dylai'r polisi ymdrin yn benodol â hyn. Os yw'r polisi'n caniatáu hynny, dylai'r athro/athrawes gyfeirio'r disgybl at athro/athrawes ddynodedig, a fydd yn sicrhau bod y ferch yn cael ei rhoi mewn cysylltiad â'r cyfleuster meddygol priodol. Gan y bydd angen cysylltu o fewn ychydig oriau, os nad yw'r athro/athrawes ddynodedig ar gael bydd angen cysylltu â'r pennaeth i gyflawni'r un swyddogaeth.

3.12.13 Dylid annog disgyblion i siarad â'u rhieni/gofalwyr am y sefyllfa os yw hynny'n bosibl, ond os bydd y disgybl yn gofyn yn benodol i'r athro/athrawes beidio â hysbysu ei rieni/gofalwyr a bod hyn yn gyson â pholisi cyfrinachedd yr ysgol, gadewir i'r ymarferydd meddygol benderfynu a ddylid hysbysu'r rhieni/gofalwyr ai peidio.

Os bydd yr ysgol yn dod i wybod bod disgybl yn feichiog

3.12.14 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion yn nodi bod yn rhaid i ysgolion fod yn glir ynglŷn â ffiniau eu rolau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol. Mae'r canllawiau'n nodi bod angen polisi cyfrinachedd clir a phendant.

3.12.15 Dylai holl staff yr ysgol, a siaradwyr sy'n ymweld â'r ysgol, sicrhau eu bod yn gweithredu yn gyson â pholisi cyfrinachedd yr ysgol. Nid yw'r gyfraith yn gorfodi athrawon i hysbysu'r rhieni/gofalwyr na'r pennaeth am unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan ddisgyblion, ond gallai polisi cyfrinachedd yr ysgol ofyn iddynt wneud hynny. Os bydd disgybl yn dweud wrth aelod o'r staff ei bod yn feichiog, neu y gallai fod yn feichiog, dylai'r aelod o'r staff annog y disgybl i ddweud wrth ei rhiant/gofalwr. Os yw'n amlwg nad yw disgybl yn fodlon gwneud hynny, dylai'r aelod o'r staff ofyn am ganiatâd y disgybl cyn datgelu gwybodaeth i unigolyn priodol a dylai nodi'n glir na all gynnig na gwarantu y bydd yr wybodaeth yn gwbl gyfrinachol, ac egluro mai'r disgybl fydd yn cael gwybod yn gyntaf os bydd yn rhaid torri cyfrinachedd.

3.12.16 Dylai aelod o'r staff sy'n dod i wybod bod disgybl yn feichiog gyfeirio'r disgybl at athro/athrawes ddynodedig yn yr ysgol, a ddylai sicrhau bod y disgybl yn cael gwybodaeth lawn am wasanaethau yn ei hardal leol, ei bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn a'i bod yn cael cyfle i drafod ei dewisiadau. Dylai gwasanaethau a ddarperir drwy'r partneriaethau plant a phobl ifanc olygu bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar wasanaethau meddygol a chynghor a chymorth cwnsela. Os bydd y ferch ifanc dan 16 oed, bydd angen i'r athro/athrawes amddiffyn plant ddynodedig ystyried a oes angen rhoi sylw i fater yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mewn achosion o'r fath, dylai athrawon amddiffyn plant dynodedig gysylltu â swyddog enwebedig yr awdurdod lleol i ystyried cysylltu â'r asiantaethau allanol priodol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu a hybu lles plant, megis gwasanaethau

cymdeithasol. Dylai hyn fod yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant Lleol a'r awdurdod lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (2015)⁸⁵ yn cynnwys rhagor o gyfarwyddyd. Yn fwyaf arbennig, os yw'r athro/athrawes ddynodedig yn poeni am iechyd neu ddatblygiad disgybl, gall ofyn am gyngor gan swyddog enwebedig yr awdurdod lleol, yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol neu'r NSPCC.

3.12.17 Dylai staff yr ysgol wneud nodyn o'r drafodaeth, gan gofnodi'r amser, y dyddiad, y lle a'r unigolion a oedd yn bresennol yn ogystal â beth sy'n cael ei ddweud; dylid anfon yr wybodaeth hon ymlaen i'r athro/athrawes amddiffyn plant ddynodedig. Dylid cynnig yr un cyfle i ddefnyddio gwasanaethau cymorth perthnasol i ferch ifanc sy'n ystyried rhoi ei phlentyn i gael ei fabwysiadu, sydd wedi penderfynu peidio â pharhau â'i beichiogrwydd neu sydd eisoes wedi dod â'r beichiogrwydd i ben.

3.12.18 Wrth roi cymorth i ddisgyblion beichiog, dylid dweud wrth y disgybl y bydd angen hysbysu'r pennaeth a swyddog enwebedig yr awdurdod lleol fel bod modd gwneud trefniadau iddi barhau â'i haddysg. Dylai'r pennaeth barchu dymuniadau'r ferch ifanc i gadw'r mater yn gyfrinachol, yn unol â pholisi'r ysgol. Dylai aelod o staff yr ysgol gynorthwyo'r ferch ifanc a derbyn cyfrifoldeb am ei haddysg barhaus. Dylai'r pennaeth sicrhau bod athrawon a disgyblion yn yr ysgol yn ymdrin yn sensitif â beichiogrwydd y ferch ifanc.

3.12.19 Os bydd y Gwasanaeth Lles Addysg, neu asiantaeth arall, yn hysbysu'r ysgol bod disgybl nad yw'n dod i'r ysgol yn rheolaidd yn feichiog, dylai'r ysgol drefnu cyfarfod gyda'r disgybl, ei rhieni/gofalwyr, ei chynghorydd personol os oes ganddi un a'r awdurdod lleol (y swyddog ailintegreiddio) i drafod sut y gellir diwallu ei hanghenion addysgol.

3.12.20 Os bydd merch ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod (plentyn sy'n derbyn gofal) yn canfod ei hun yn feichiog, dylai'r athro/athrawes ddynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fod yn rhan o'r trafodaethau a'r adolygiad o'r cynllun gofal ar gyfer y ferch ifanc er mwyn sicrhau bod ei hanghenion addysgol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i hanghenion eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad oes dim yn torri ar draws ei hastudiaethau ar gyfer cymwysterau academiaidd a galwedigaethol.

Beichiogrwydd a gwaharddiadau

3.12.21 Ni ddylai unrhyw ferch ifanc gael ei gwahardd o'r ysgol oherwydd ei bod yn feichiog neu oherwydd ei bod yn fam ifanc. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (2015)⁸⁶ yn nodi'n glir nad yw beichiogrwydd yn rheswm dros wahardd o ysgol. Ni ddylid defnyddio iechyd a diogelwch fel rheswm dros atal disgybl beichiog rhag dod i'r ysgol a dylai ysgolion sicrhau nad oes unrhyw risg i iechyd a diogelwch disgybl beichiog. Ni ddylai ysgol ar unrhyw gyfrif gynnig bod disgybl yn aros adref o'r ysgol am gyfnod er mwyn ei chadw rhag mân siarad neu fwlio. Dylid ymdrin ag unrhyw broblemau bwllo yn y ffordd

⁸⁵ llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy
⁸⁶ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/exclusion/?skip=1&lang=cy

arferol yn unol â pholisi disgyblu'r ysgol. Mae mamolaeth yn un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dylai awdurdodau lleol herio unrhyw waharddiad y mae mamolaeth yn gysylltiedig ag ef.

3.12.22 Nid oes tystiolaeth y bydd cadw disgybl beichiog yn yr ysgol yn annog disgyblion eraill i feichiogi. Dylai addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) effeithiol dynnu sylw pobl ifanc yn eu harddegau at beryglon a realiti bod yn rhieni ifanc a gellir defnyddio'r gwersi hyn i annog dealltwriaeth o sefyllfa rhieni ifanc ymhlith y disgyblion eraill, gan ofalu nad yw stereoteipiau negyddol yn cael eu hatgyfnerthu.

3.12.23 Dylid annog disgyblion beichiog i ddal i fynychu ysgol brif ffrwd, ond gellir cynnig darpariaeth fwy unigol y tu allan i ysgol brif ffrwd os ydynt yn dymuno. Rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol anelu'n bennaf oll at gadw disgyblion beichiog mewn addysg. Mae hyn yn golygu cadw'r disgybl ar gofrestr yr ysgol, hyd yn oed os nad yw'n gallu bod yn bresennol am gyfnod neu os yw'n cael ei haddysg yn rhywle ar wahân i'r ysgol; cadw llygad ar ei chynnydd a gweithio gyda'r awdurdod lleol i edrych am gyfle addas i'w hailintegreiddio yn yr ysgol.

Addysg heblaw yn yr ysgol

3.12.24 Efallai y bydd y disgybl beichiog yn methu â mynychu'r ysgol neu sefydliad addysgol arall ambell waith am resymau iechydd, ond y byddai'n dal i allu astudio. Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r ysgol ddarparu gwaith i'r disgybl ei wneud gartref. Dylai'r ysgol geisio cynnal addysg ddi-fwlch pan fydd y ferch ifanc yn absennol ar gyfer yr enedigaeth, yn enwedig pan fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau academiaidd. Efallai y bydd yn briodol i'r pennaeth ddefnyddio'i ddisgresiwn i beidio â chymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol er mwyn caniatáu i'r ferch ifanc ddal i wneud cynnydd yn ei phynciau craidd.

3.12.25 Os oes gan bennaeth reswm da i gredu nad yw'r ysgol yn amgylchedd addas mwyach ar gyfer addysg disgybl beichiog, dylai drafod hyn gyda'r disgybl, ei rhieni neu ei gofaluwr, yr awdurdod lleol a chynghorydd y disgybl (os oes ganddi un). Dylai pob parti ymwneud â'r broses o benderfynu ynglŷn â'r ddarpariaeth fwyaf addas ar gyfer y ferch ifanc hon. Os yw'r ysgol yn cael ei hystyried yn amgylchedd anaddas erbyn hyn i barhau ag addysg y fam ifanc, oherwydd ei hiechydd, dylid ymgynghori â gweithwyr iechydd proffesiynol. Yn achos mamau ifanc, neu ferched ifanc beichiog, disgwylid fel arfer y byddai ysgol y ferch ifanc yn goruchwyllo ei haddysg, gan gynnwys gosod a marcio gwaith tra bydd hi'n absennol. Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n fwy priodol darparu addysg yn y cartref.

3.12.26 Dylid cynnal cysylltiadau â'r ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion beichiog sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion. Bydd mamau ifanc neu ferched ifanc beichiog yn aros ar gofrestr eu hysgol brif ffrwd, oni bai eu bod wedi'u gwahardd am resymau eraill (dogfen ganllawiau 081/2012⁸⁷). Mae'n bwysig bod safonau'n cael eu cadw mewn unedau cyfeirio disgyblion a bod gan famau ifanc ddarpariaeth bwrpasol a fydd yn eu galluogi i ddal i fyny. Mae rhai unedau cyfeirio disgyblion yn arbenigo mewn addysg i famau ifanc a bydd gan yr unedau hyn gyfleusterau gofal plant ar y safle fel arfer. Dylai'r addysg mewn unedau fod mor eang ag sy'n bosibl ac er mwyn

⁸⁷ llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/exclusion/?skip=1&lang=cy

sicrhau hyn dylid ystyried dod â staff addysgu i mewn o gonsortiw m wedi'i leoli mewn ysgolion, unedau eraill a cholegau AB.

Absenoldeb mamolaeth

3.12.27 Bydd gan ddisgybl sy'n canfod ei hun yn feichiog hawl i ddim mwy na 18 wythnos galendr o absenoldeb awdurdodedig, a fydd yn cynnwys amser yn union cyn ac ar ôl geni'r plentyn. Pe na bai'r disgybl yn dychwelyd o fewn y cyfnod hwn, dylai ddal i gael cefnogaeth gan yr ysgol, yr awdurdod lleol a chynghorydd personol i'w helpu a'i hannog i ailgydio yn ei haddysg pan fydd yn barod. Os yw eu hiechyd yn caniatáu hynny, dylai ysgolion annog disgyblion i ddychwelyd at eu haddysg ar ôl cyn lleied o fwch ag sy'n bosibl, gan ystyried pennaf les y rhieni a'r plentyn newydd-anedig. Os gall y disgybl ailgydio yn ei addysg cyn 18 wythnos yna dylai awdurdodau lleol ddarparu math addas o addysg, boed mewn ysgol brif ffrwd neu yn rhywle arall.

3.12.28 Ar ôl y cyfnod hwyaf o absenoldeb awdurdodedig, dylai'r ysgol ddilyn y canllawiau ar absenoldeb a nodir yn adran 4. Rhaid nodi'n glir wrth y disgybl a'i rhieni/gofalwyr, nad yw bod yn rhiant, ynddo'i hun, yn rheswm dros esgusodi disgybl o addysg.

Disgyblion sy'n rhieni ifanc

3.12.29 Mae'r rhan fwyaf o famau a thadau oed ysgol yn gadael yr ysgol ar ôl cyrraedd yr isafswm oedran heb lawer o gymwysterau, os o gwbl, ac mae hyn yn golygu eu bod dan anfantais yn y farchnad lafur drwy gydol eu hoes. Ni ddylai pobl ifanc sy'n dod yn rhieni golli'r cyfle i gwblhau eu haddysg.

3.12.30 Fel arfer, dylai awdurdod lleol drefnu addysg barhaus i berson ifanc sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 18 oed:

- os yw person ifanc 'flwyddyn ar ei hôl hi' â'i addysg, hynny yw os oes angen iddo/iddi astudio am flwyddyn arall er mwyn cwblhau cyrsiau arholiad pan mae dros oed ysgol gorfodol
- os yw myfyriwr wedi dangos lefel dda o ymrwymiad cyn yr adeg pan na allai fynychu ysgol mwyach.

3.12.31 Os yw disgybl wedi canfod ei hun yn feichiog ym Mlwyddyn 11, mae'n bosibl na fydd digon o amser i'w ailintegreiddio i addysg brif ffrwd. Os hynny, dylid ceisio annog y ferch ifanc i ystyried addysg bellach neu ddarpariaeth ôl-16 addas arall. Mewn rhai achosion efallai y byddai'n briodol ystyried ail-wneud y flwyddyn ysgol. Dylai pob penderfyniad fod yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn a pha mor briodol yw'r amgylchedd. Os bydd y ferch ifanc yn absennol o'r ysgol â salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd, bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddisgyblion ag anghenion meddygol yn berthnasol⁸⁸. Bydd swyddogion ailintegreiddio a chynghorwyr personol yn darparu llwybr ar gyfer ailymgysylltu â mamau ifanc sydd wedi cefnu'n gyfan gwbl ar y system.

⁸⁸ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?skip=1&lang=cy

3.12.32 Bydd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau diduedd o safon uchel i rieni ifanc a darpar rieni yn elfen bwysig er mwyn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar unrhyw ddatblygiadau a gwneud dewisiadau realistig a deallus. Mae gan bobl ifanc hawl hefyd i gyngor diduedd o safon uchel ynglŷn â dewisiadau gyrfaoi gan gynghorwyr Gyrfa Cymru.

3.12.33 Os yw'n bosibl, dylid manteisio ar y cyfle i ddarparu sgiliau rhianta i rieni ifanc, gan gynnwys tadau, er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r amgylchedd addysg. Dylai absenoldeb ar gyfer sgiliau rhianta gael ei nodi fel absenoldeb 'awdurdodedig', ar gyfer y fam a'r tad fel ei gilydd.

3.12.34 Mae ystod o gymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd drwy raglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Mae rhai ardaloedd Dechrau'n Deg a phrosiectau Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn darparu cymorth pwrpasol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer rhieni ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bydwreigiaeth arbenigol a grwpiau rhianta wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol. I gael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Gofal plant

3.12.35 Dylid edrych ar y cyfleusterau gofal plant sydd ar gael wrth ystyried y dewisiadau. Gall diffyg darpariaeth gofal plant briodol neu fforddiadwy fod yn rhwystro sylweddol ac atal pobl ifanc rhag parhau â'u haddysg. Gall y swyddog ailintegreiddio neu'r cynghorydd personol roi cyngor i'r rhieni ifanc ynglŷn â gofal plant. Gallai teuluoedd lle mae'r ddau daid a nain yn gweithio, neu lle mae taid neu nain sy'n byw ar ei ben ei hun yn gweithio, fod yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith ar gyfer gofal eu wyrion tra maent yn hawlio budd-dal plant ar gyfer y plentyn hwnnw. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Credyd Treth Gwaith drwy ffonio 0345 300 3900.

3.12.36 Ymhen ychydig bydd Credyd Cynhwysol yn cymryd lle nifer o'r budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol presennol, gan gynnwys Credyd Treth Gwaith. Darperir cymorth ar gyfer gofal plant o fewn Credyd Cynhwysol fel elfen gost gofal plant ychwanegol a fydd yn lleihau wrth i enillion gynyddu. Yn unol ag amodau Credyd Cynhwysol bydd teuluoedd yn gymwys i gael cymorth faint bynnag o oriau y maent yn gweithio, gan nad yw'r rheol 16 awr yn berthnasol. Bydd Credyd Cynhwysol yn golygu bod mwy o rieni'n dod yn gymwys i gael cymorth â chost gofal plant ac, yn ychwanegol at hyn, bydd pob hawlydd cymwys yn cael mwy o gymorth o Ebrill 2016 ymlaen.

3.12.37 I gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant leol cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Lleol neu Bartneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant leol – mewn rhai ardaloedd cyflawnir swyddogaethau'r bartneriaeth hon gan y Bartneriaeth Plant. Os oes addysg briodol a chyfleusterau gofal plant di-dâl ar gael, bydd unrhyw ddisgybl sy'n dal i beidio â mynychu addysg yn agored i'r un camau cyfreithiol ag unrhyw ddisgybl arall. Dylai absenoldeb pan fydd y babi'n wael gael ei nodi fel absenoldeb 'awdurdodedig' ar gyfer y fam neu'r tad.

Cludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl⁸⁹

3.12.38 Bydd cludiant ar gyfer y grŵp hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim os ydynt yn credu bod ei angen er mwyn galluogi disgybl i fynd i'r ysgol, a gallant helpu disgyblion eraill â chostau. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd gyhoeddi eu polisi ar gludiant am ddim a chludiant a gynorthwyr bob blwyddyn. Mae gan awdurdodau lleol sgôp sylweddol i benderfynu pryd y mae angen cludiant. Mae cludiant am ddim bob amser yn angenrheidiol i ddisgybl o oed ysgol gorfodol sy'n mynychu'r ysgol addas agosaf os yw'n bellach na phellter cerdded. Os nad oes darpariaeth statudol, mae'n arfer da i awdurdodau lleol ddarparu cymorth â chludiant mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os bydd meddyg teulu'n tystio bod cyfnod beichiogrwydd disgybl yn golygu na all gerdded i'r ysgol mwyach.

Tadau sydd o fewn oed ysgol

3.12.39 Dylai ysgolion gydnabod y gallai tadau a darpar dadau sydd o fewn oed ysgol fod angen cymorth ychwanegol. Os bydd aelod o'r staff yn dod i wybod bod disgybl yn dad, neu'n mynd i fod yn dad, dylai ddilyn yr un trefniadau â phan fo'n dod i wybod bod disgybl yn feichiog. Os yw'r ysgol yn credu bod hynny'n briodol, dylai ystyried sut y gall wneud yr amserlen a'r cwricwlwm yn fwy hyblyg. Efallai y bydd ysgolion yn teimlo bod angen helpu bachgen i gael sgwrs â chwnselydd mewn rhai amgylchiadau neu i gael help gan asiantaethau eraill. Dylai prosiectau a sefydliadau sy'n gweithredu dan faner partneriaethau pobl ifanc hefyd gefnogi tadau ifanc.

3.13 Plant a phobl ifanc sy'n troseddu

3.13.1 Gall plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid fod ymhlith y bobl ifanc fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gall eu cadw allan o drwbl fod yn fuddiol iawn – byddwn yn eu hamddiffyn rhag y stigma sy'n gysylltiedig â hynny, a'r posibilrwydd o golli cyfleoedd, a byddwn hefyd yn amddiffyn ein cymunedau rhag troseddau.

3.13.2 Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc yn aml yn wynebu nifer o anfanteision. Er enghraifft, efallai eu bod:

- wedi cael eu gwahardd o'r ysgol
- yn absennol o'r ysgol yn aml, yn swyddogol neu'n answyddogol
- wedi ymddieithrio o'r ysgol/cael eu dadrithio
- yn cael eu haddysg mewn lleoliad arall ar wahân i'r ysgol (ac yn mynychu neu'n absennol o leoliadau/darpariaeth amgen)
- ar ddatganiad neu bod angen cymorth ychwanegol arnynt
- yn dioddef o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) neu'n cael anawsterau eraill i ganolbwyntio
- mewn gofal cyhoeddus (plant sy'n derbyn gofal)
- yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau
- wedi cael eu cam-drin mewn rhyw ffordd.

⁸⁹ www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/contents/enacted/welsh

3.13.3 Yn unol â'r CCUHP⁹⁰, mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai pob person ifanc fod â'r un hawliau. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn helynt neu sydd wedi torri'r gyfraith. Dylai plant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid gael eu trin fel plant a phobl ifanc yn gyntaf ac yna fel troseddwr. Mae hyn yn cynnwys cael yr hawl i gymryd rhan, ac i fynegi eu barn ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn unol â hynny, elfen allweddol ar ein dull gweithredu yw bod pob plentyn neu berson ifanc sy'n troseddu'n cael cymorth yn ôl y galw gan bob asiantaeth sy'n gweithio gyda hwy er mwyn nodi eu hanghenion dysgu a sicrhau bod cynlluniau'n cael eu gwneud er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

3.13.4 Mae profiad addysgol person ifanc yn ffactor arwyddocaol yn ei risg o ymwneud ag ymddygiad troseddol. Mae cysylltiad agos rhwng y ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol ac ymddieithrio oddi wrth addysg. Mae tangyflawni yn yr ysgol, ymddieithrio, sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a nifer o achosion o anghenion addysgol arbennig yn amlwg yn y boblogaeth cyfiawnder ieuenctid.

3.13.5 Dylid rhoi sylw i anghenion dysgu pobl ifanc sy'n troseddu er mwyn sicrhau y gallant ddal i ymwneud ag addysg a lleihau'r risg y byddant yn troseddu.

3.13.6 O dan adran 40 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998⁹¹, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, drwy ymgynghori ag asiantaethau partner statudol, lunio a gweithredu cynllun cyfiawnder ieuenctid blynyddol. Mae'r cynllun yn nodi sut y mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn eu hardal yn cael eu darparu a'u hariannu. Dylai nodi pwy sy'n aelodau o dimau troseddau ieuenctid, sut y maent yn cael eu hariannu, sut y maent yn gweithredu a pha swyddogaethau y byddant yn eu cyflawni.

3.13.7 Un o'r swyddogaethau y mae'n ofynnol i dimau troseddau ieuenctid eu cyflawni yw asesu pobl ifanc sydd dan orchymyn statudol. Byddant yn defnyddio offeryn asesu strwythuredig o'r enw Asset⁹², sy'n edrych ar wahanol agweddau ar sefyllfa ac amgylchiadau person ifanc a allai fod wedi cyfrannu tuag at ei ymddygiad troseddol. Mae hyn yn cynnwys ei addysg, ei hyfforddiant a'i statws cyflogaeth ac unrhyw broblemau ac anghenion eraill sydd ganddo.

3.13.8 Bydd y ddarpariaeth bresennol mewn addysg brif ffrwd yn diwallu anghenion rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol, a bydd yr ysgol yn dal yn gyfrifol am eu haddysg. I eraill, fodd bynnag:

- ni fydd y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgol yn diwallu eu hanghenion o ran addysg a hyfforddiant
- ni fydd darpariaeth ar gael
- ni fydd y ddarpariaeth sydd ar gael yn briodol.

⁹⁰ www.uncrcletsgetitright.co.uk

⁹¹ www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/37/section/40

⁹² www.gov.uk/government/publications/asset-documents

3.13.9 Ar gyfer y bobl ifanc hyn, gan gynnwys y rhai sydd o fewn yr oed ysgol statudol, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol (yn hytrach nag ysgolion) yn derbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer eu hanghenion addysg a hyfforddiant, gan gofio bod ganddynt ddyletswydd gyffredinol i sicrhau addysg fel y nodir yn Neddf Addysg 1996.

3.13.10 Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, a sicrhau bod darpariaeth addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol a gwahanol ddulliau dysgu (gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion dysgu eraill), byddem yn disgwyl gweld awdurdodau lleol, ysgolion, timau troseddau ieuencid ac asiantaethau perthnasol eraill yn gweithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth er mwyn:

- rhannu a rheoli gwybodaeth yn briodol rhwng partneriaid cyflenwi a chefnogi (yn enwedig addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru) er mwyn nodi a chefnogi anghenion penodol y person ifanc yn well
- darparu gwybodaeth a dylanwadu ar y ddarpariaeth bresennol a darpariaeth newydd er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion penodol y person ifanc, gan gynnwys gwasanaethau cymorth arbenigol, darpariaeth wirfoddol a chymunedol, addysg a hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a chymorth personol
- sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth lawn a phriodol er mwyn diwallu ei anghenion penodol am o leiaf 25 awr yr wythnos
- cael dealltwriaeth glir o'i rôl wrth gomisiynu a sicrhau darpariaeth gan asiantaethau allanol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a darparwyr cymunedol a bod hyn yn gwbl hygyrch i dimau troseddau ieuencid
- sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer y gweithgaredd a ddisgrifir uchod, gan gynnwys gwneud unrhyw drefniadau ariannol sydd eu hangen rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol y bu'r person ifanc yn ei mynychu ddiwethaf
- sicrhau bod sgiliau pawb sy'n gweithio er mwyn diwallu anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc sy'n troseddu yn cael eu diweddarau'n briodol ac yn rheolaidd
- sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan, a bod rhywun yn ystyried ei farn wrth nodi darpariaeth briodol ac addas i ddiwallu ei anghenion.

3.13.11 Mae'r ddogfen *Y siwrnai ddysgu i bobl ifanc y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) yn eu lleoli mewn Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru* (2009)⁹³ yn ymdrin â gofynion ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc sy'n cael eu lleoli mewn cartrefi diogel i blant drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Mae'n nodi'r gofynion ac arferion da ar gyfer cyflenwi gwasanaethau dysgu a sgiliau i bobl ifanc sydd mewn cartrefi diogel i blant. Mae'n ceisio hybu profiadau addysg a hyfforddiant cyson i bobl ifanc sy'n troseddu rhwng y ddalfa a'r gymuned, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn seiliedig ar ddiwallu anghenion personol a meithrin ymgysylltiad, datblygiad a chyflawniad pobl ifanc.

3.13.12 Er nad yw datganiadau AAA yn berthnasol yn y ddalfa, disgwylir y bydd plant a phobl ifanc sydd â datganiad yn cael eu trin yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gan y sefydliadau unigol sy'n cael eu cefnogi gan y Bwrdd

⁹³ gov.wales/docs/dcells/publications/091118youngpeopleinschscy.pdf

Cyfiawnder ieuencid. Gall awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau addysgol iddynt a dylent sicrhau bod y sefydliadau'n cael gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig y bobl ifanc, gan gynnwys copi o unrhyw ddatganiad ac adroddiad yr adolygiad blynyddol diwethaf.

Rheoli'r symudiad o'r ddalfa i'r gymuned

3.13.13 Mae hybu dysgu a datblygu sgiliau wedi'i sefydlu fel un o dasgau craidd sefydliad diogel. Ei brif swyddogaeth yw sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses ddysgu pan gânt eu rhyddhau yn ôl i'w cymunedau.

3.13.14 Os nad oes lleoliadau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn addas ar gael i bobl ifanc pan fyddant yn gadael y ddalfa maent yn llawer mwy tebygol o aildroseddu. Mae'n hanfodol felly bod pob ymdrech yn cael ei gwneud tra mae'r bobl ifanc yn y ddalfa i'w paratoi er mwyn iddynt allu cael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas, cymryd rhan ynddo a dal i wneud cynnydd. Dylid rhoi sylw i hyn pan maent yn y ddalfa fel rhan o'r broses o gynllunio'r ddedfryd, a dylai darparwyr sydd wedi'u lleoli yn y gymuned ymwneud â'r gwaith yn ogystal â'r sefydliad diogel a'r tîm troseddau ieuencid. Mae'n hanfodol hefyd bod yna ddilyniant, o ran pynciau, gwaith cwrs, deunyddiau dysgu ac achrediad, rhwng y sgiliau a'r profiadau dysgu yn y sefydliad diogel a'r ddarpariaeth yn y gymuned. Dylid rhannu gwybodaeth am gynnydd a wnaethpwyd yn y ddalfa cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer ailsefydlu, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu'n barhaus ac yn cael eu cynnal.

3.13.15 Gall camau penodol helpu i hybu ailintegreiddio ac ailsefydlu llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi darpar ddarparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gyfarfod pobl ifanc a'u hasesu tra maent yn dal yn y ddalfa, gan y gallai hyn sicrhau bod y person ifanc yn fwy tebygol o allu cymryd rhan mewn rhyw fath o ddarpariaeth yn syth ar ôl cael ei ryddhau. Yn ychwanegol at hyn, dylid edrych ar ymarferoldeb ymweliad cyn rhyddhau â'r ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant a fydd yn derbyn y person ifanc fel rhan o'r trefniadau paratoi.

3.14 Gofalwyr ifanc

3.14.1 Plant a phobl ifanc sydd â chyfrifoldeb am rywun sy'n wael, yn anabl, yn dioddef trallod meddwl neu wedi'i effeithio gan gamddefnyddio sylweddau yw gofalwyr ifanc. Gallant hefyd fod â chyfrifoldeb sylweddol am ofalu am frawd neu chwaer.

3.14.2 Amcangyfrifir bod mwy na 3,000 o ofalwyr ifanc o oed ysgol yng Nghymru ac, mewn rhai achosion, mae'r cyfrifoldebau sydd ganddynt yn effeithio ar eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol.

3.14.3 Wrth gyfeirio achosion at y Gwasanaeth Lles Addysg, dylai staff ysgolion fod yn ymwybodol y gallai plant fod ag ofn y bydd rhywun yn penderfynu bod eu rhieni/gofalwyr yn methu ag ymdopi ac y byddant yn cael eu 'rhoi mewn gofal'. Efallai hefyd y bydd gofalwyr ifanc yn poeni y bydd eu cyfoedion yn eu pryfocio os datgelir manylion am amgylchiadau eu cartref. Mewn rhai achosion dim ond yn yr ysgol y bydd plant yn gallu rhannu eu hanawsterau, e.e. os nad yw rhieni/gofalwyr eisiau i

bobl eraill wybod am eu salwch meddwl. Dylai ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc.

3.14.4 Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd fod yn ymwybodol y gallai gofalwr ifanc fod â baich ychwanegol ar ei ysgwyddau os yw'n gweithredu fel cyfieithydd mewn teulu nad yw'n siarad Saesneg fel prif iaith. Os oes gan berthynas anawsterau clyw neu anawsterau yn ymwneud â'i leferydd, efallai y bydd cyfrifoldebau gofalwr ifanc yn cynnwys defnyddio iaith arwyddion a dehongli. Dylid defnyddio cyfieithwyr cymwysedig i gyfathrebu â phlant a theuluoedd os oes angen.

3.14.5 Mae cyfrifoldebau gofalu'n effeithio ar bobl ifanc mewn llawer o ffyrdd gan gynnwys:

- problemau yn yr ysgol, wrth wneud gwaith cartref a chael cymwysterau
- colli cyfleoedd addysgol y tu allan i'r ysgol, megis clybiau ysgol, ymweliadau a gwyliau
- absenoldeb neu anawsterau oherwydd eu bod wedi blino, yn poeni neu'n cael eu bwlio
- teimlo eu bod ar wahân i blant eraill ac aelodau eraill o'r teulu
- dim amser i chwarae, a chymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden
- iselder, gorbryder, hunan-dyb isel ac anhawster i ffurfio perthnasoedd.

3.14.6 Mae Pecyn Cymorth Gofalwyr Ifanc⁹⁴ wedi cael ei ddatblygu a'i ddosbarthu i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol sy'n nodi ac yn dod i gysylltiad â gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

3.15 Disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

3.15.1 Gallai disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ynghyd â disgyblion a allai fod yn cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd, fod mewn perygl o gael eu bwlio gan eu cyfoedion.

3.15.2 Yn ôl *The School Report* (2012)⁹⁵ gan Stonewall, mae bwlio homoffobaidd yn dal i ddigwydd yn ysgolion Prydain. Mae mwy na hanner (55 y cant) y disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi cael eu bwlio'n uniongyrchol.

3.15.3 Mae defnyddio iaith homoffobaidd yn arswydus o gyffredin. Mae bron bob person ifanc hoyw (99 y cant) yn clywed yr ymadroddion 'mae hynna mor gay' neu 'ti mor gay' yn yr ysgol ac mae 96 y cant o ddisgyblion hoyw'n clywed iaith homoffobaidd.

3.15.4 Mae bwlio homoffobaidd yn cael effaith niweidiol iawn ar brofiad pobl ifanc o'r ysgol. Mae un o bob tri disgybl hoyw (32 y cant) sy'n cael eu bwlio yn newid eu

⁹⁴ youngcarerstoolkit.co.uk/cymraeg

⁹⁵ www.stonewall.org.uk/sites/default/files/The_School_Report_2012_.pdf

cynlluniau addysgol ar gyfer y dyfodol oherwydd hynny, ac mae tri o bob pump yn dweud bod bwlio'n cael effaith uniongyrchol ar eu gwaith ysgol.

3.15.5 Mae'r risg o hunanladdiad, hunan-niweidio ac iselder yn uwch ymhlith pobl hoyw sy'n cael eu bwlio. Mae dau o bob pump (41 y cant) wedi ceisio lladd eu hunain, neu wedi ystyried hynny, yn uniongyrchol oherwydd bwlio, ac mae'r un nifer yn dweud eu bod yn niweidio'u hunain yn fwriadol yn uniongyrchol oherwydd bwlio.

3.15.6 Ymdrinnir yn benodol â chyfeiriadedd rhywiol yn y canllawiau ar *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion* (Llywodraeth Cymru, 2010)⁹⁶ a chyfeirir at yr angen i drafod mater cyfeiriadedd rhywiol mewn ffordd gytbwys, gonest a sensitif, heb wahaniaethu yn erbyn unigolion. Dylai rhaglenni addysg rhyw a pherthnasoedd annog trafodaeth agored, hybu cynhwysiant a herio anghydraddoldeb, mewn ffordd sy'n berthnasol i ddisgyblion ac yn sensitif i'w hanghenion. Dylai ysgolion gynnig cefnogaeth ac arweiniad i bob disgybl, yn enwedig disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, sy'n teimlo'n ansicr ynglŷn â mynegi eu rhywedd.

3.15.7 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai rhai disgyblion fod angen cymorth ychwanegol i'w galluogi i ddeall eu teimladau ynglŷn â'u cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn iawn er mwyn delio â safbwyntiau negyddol disgyblion eraill.

3.15.8 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng disgyblion a allai fod yn ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol a disgyblion a allai fod yn drawsrywiol. Mae'r materion sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol a bydd angen ymdrin â hwy mewn ffordd wahanol. Dylid mynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a thrawsffobaidd a bydd ar ddisgyblion trawsrywiol angen cymorth gwahanol i ddisgyblion lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

3.15.9 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru cynlluniau gwers i ysgolion ar fwlio ar sail rhywedd a thrawsrywedd sydd wedi'u hanelu at Gyfnodau Allweddol 3 a 4 ym mis Tachwedd 2015⁹⁷. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Parchu eraill: Canllawiau gwrth-fwlio*, cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio cynhwysfawr sy'n ymdrin â phum maes allweddol ac un ohonynt yn ymdrin yn benodol â bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig.

3.16 Disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol neu sydd â ffobia ysgol

3.16.1 Nid oes gan ymarferwyr ddiffiniad clir er mwyn gwahaniaethu rhwng disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol a disgyblion sydd â ffobia ysgol. O ganlyniad, defnyddir y term 'gwrthod mynd i'r ysgol' yn y rhan hon ar gyfer y ddau derm. Efallai y byddai'n werth i ysgolion ystyried y gwahaniaeth rhwng disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol a'r rhai sy'n 'chwarae triwant', a fynegwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Seicolegwyr Ysgolion (NASP), ac a nodir yn y tabl canlynol.

⁹⁶ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/sex-and-relationships-education-in-schools/?skip=1&lang=cy

⁹⁷ hwb.wales.gov.uk/search?query=trawsrywedd

Disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol/sydd â ffobia ysgol	Disgyblion sy'n 'chwarae triwant'
Disgyblion yn cadw cysylltiad agos â'u rhieni neu eu gofalwyr.	Dim gorbryder ynglŷn â pheidio â bod mewn cysylltiad â rhieni/gofalwyr.
Yn aml yn orbryderus ac yn ofnus (ond nid bob amser).	Dim gorbryder ynglŷn â cholli diwrnodau yn yr ysgol.
Yn mynd yn ofidus iawn neu'n sâl pan gânt eu gorfodi i fynd i'r ysgol.	Pan gânt eu gorfodi i fynd i'r ysgol efallai y bydd y disgyblion yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol.

3.16.2 Gall achosion pan fo disgybl yn gwrthod mynd i'r ysgol yn barhaus achosi gofid mawr i'r teulu, ac os na fydd yn cael ei drin, gall arwain at:

- ddirywiad academiaidd
- perthnasoedd gwael â chyfoedion
- gwrthdaro â'r ysgol neu â'r gyfraith
- peidio â mynd i waith neu goleg
- pyliau o banig
- agoraffobia
- anhwylderau seicolegol neu seiciatrig pan yn oedolion.

3.16.3 Gall gwrthod mynd i'r ysgol ddeillio o nifer o wahanol ffactorau yn yr ysgol a'r cartref. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA)⁹⁸ wedi nodi rhai ohonynt fel a ganlyn.

- **Maint yr ysgol a'i chynllun** – Efallai y bydd disgyblion yn teimlo'n bryderus iawn ynglŷn â symud o gwmpas yr ysgol, ymdopi â choridoriau hir sy'n llawn plant, a mynd i leoedd penodol, megis y ffreutur neu ystafell ddosbarth.
- **Strwythur y diwrnod ysgol** – Efallai y bydd disgyblion yn teimlo'n bryderus iawn ynglŷn ag adegau anstrwythuredig neu adegau nad ydynt yn cael eu rheoli, y siwrnai i'r ysgol ac oddi yno, amser egwyl ac amser cinio.
- **Gwrthdaro ag athrawon.**
- **Cyfnodau trosglwyddo** – Er enghraifft, gall anawsterau godi pan fydd disgyblion yn symud o ysgol gynradd i ysgol ganol neu ysgol uwchradd, neu pan fydd angen dewis pynciau yn yr ysgol uwchradd. Gall disgyblion hefyd deimlo'n bryderus iawn ynglŷn â grwpiau newydd o ddisgyblion.
- **Ofn pynciau penodol** – Gallai hyn fod yn gyffredin iawn yng nghyswllt addysg gorfforol, os yw disgyblion yn teimlo'n ddihyder ynglŷn â'u corff ac yn ofni newid o flaen disgyblion eraill.
- **Pwysau academiaidd** – Efallai y bydd disgyblion yn cael anhawster â'r gwaith, yn enwedig ar ddiwedd cyfnodau allweddol.
- **Bwlio** neu brofiad sy'n cael ei weld fel bwlio.

⁹⁸ www.nfer.ac.uk/publications/PHO01/PHO01_home.cfm

- **Problemau cyfeillgarwch** – Gall hyn fod yn amlwg iawn ymhlith disgyblion yn eu harddegau cynnar ac ymhlith merched.
- **Darpariaeth amhriodol** – ‘Y plentyn anghywir yn yr ysgol anghywir’.
- **Absenoldeb sy’n digwydd drosodd a throsodd** – Effaith ganlyniadol absenoldeb sy’n digwydd drosodd a throsodd.

3.16.4 Gall gwrthod mynd i’r ysgol ddeillio o ffactorau y tu allan i’r ysgol hefyd, megis:

- problemau seicolegol y rhiant/gofalwr yn effeithio ar y plentyn (e.e. iselder)
- problemau teuluol, gwahanu ac ysgaru
- digwyddiadau trawmatig yn y cartref, fel profedigaeth
- trais a chamdriniaeth yn y cartref
- plentyn yn teimlo gorbryder o ganlyniad i wahanu
- sefyllfaoedd lle mae’n ofynnol i’r plentyn ofalu am frawd neu chwaer iau neu lle mae ganddo gyfrifoldebau gofalu
- rhianta annigonol, diffyg trefn a chymorth parhaus.

Yr arferion gorau er mwyn mynd i’r afael ag achosion lle mae disgyblion yn gwrthod mynd i’r ysgol

3.16.5 Er mwyn adnabod a rhoi cymorth i ddisgyblion sy’n gwrthod mynd i’r ysgol, dylai ysgolion lunio strategaethau er mwyn nodi absenoldeb a dylent gymryd camau cynnar drwy ymgynghori â rhieni/gofalwyr ac asiantaethau eraill, fel y bo’n briodol.

3.16.6 Mae ymchwil gan SCYA⁹⁹ yn cyfeirio at nifer o arferion da sydd wedi cael eu mabwysiadu gan ysgolion er mwyn cynorthwyo disgyblion sydd â ffobia ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- caniatáu i ddisgyblion gychwyn ysgol yn hwyrach a gorffen yn gynharach
- defnyddio gwahanol fynedfeydd i’r ysgol
- gofyn i riant/gofalwr gasglu’r disgybl amser cinio
- darparu ‘lle diogel’ i ddisgyblion nad ydynt yn gallu wynebu ystafelloedd dosbarth â llawer o ddisgyblion ynddynt
- darparu cymorth ychwanegol yn y dosbarth
- cynlluniau cyfeillio – cymorth yn yr ysgol gan ddisgyblion enwebedig
- ailintegreiddio’n raddol – gan gynnwys amserlenni rhan-amser wedi’u teilwra ar gyfer unigolion.

3.16.7 Mae gan rai ysgolion uned ar wahân i gefnogi disgyblion sy’n gwrthod mynd i’r ysgol. Mae unedau ar wahân yn darparu amgylchedd ‘diogel’ ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion agored i niwed gefnogi ei gilydd.

3.16.8 Gallai cwnsela fod o fudd i ddisgyblion sydd â ffobia ysgol. Fel yr amlinellir yn is-adran 3.1.17, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth resymol ar gyfer gwasanaeth sy’n cwnsela plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd. Mae cwnselwyr yn

⁹⁹ www.nfer.ac.uk/publications/PHO01/PHO01_home.cfm

annibynnol ar ysgolion, cyrff llywodraethu a staff dysgu ac yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol i blant a phobl ifanc.

3.16.9 Os ceir diagnosis mai cyflwr meddygol sy'n achosi i'r disgybl wrthod mynd i'r ysgol, megis iselder neu orbryder aciwt, dylid ymdrin â'r ddarpariaeth addysg yr un fath yn union ag ar gyfer plant sy'n methu mynd i'r ysgol oherwydd salwch (gweler is-adran 3.11 o'r adran hon).

3.16.10 Prif rôl y Gwasanaeth Lles Addysg yw gwella presenoldeb yn yr ysgol, a gall y Gwasanaeth Lles Addysg gymryd camau cyfreithiol os oes angen. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gam priodol i'w gymryd pan fo rhywun yn gwrthod mynd i'r ysgol, oherwydd dylid rhoi pwyslais ar sefydlu'r cymorth angenrheidiol a chynllunio ar gyfer ailintegreiddio'r disgybl mewn addysg brif ffrwd, gan ddibynnu ar lwyddiant y cymorth.

3.17 Disgyblion sy'n perfformio neu sydd â gwaith

3.17.1 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall cymryd rhan mewn perfformiadau fod o fudd i blant mewn llawer o ffyrdd. Gall y cyfleoedd hyn helpu plant i fod yn fwy hyderus, cynyddu eu hunan-dyb a darparu sail ar gyfer dysgu sgiliau newydd amrywiol, yn ogystal â rhoi cyfle i rai ddatblygu gyrfa yn y sector creadigol.

3.17.2 Yr egwyddor sylfaenol bob amser wrth ystyried y trefniadau sy'n eu galluogi i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn fydd diogelu a hybu lles y plant hyn.

3.17.3 Mae perygl i ddisgyblion sy'n perfformio'n aml neu sy'n cael eu cyflogi ymddieithrio o'r ysgol o ganlyniad i dangyflawni gan fod ganddynt flaenoriaethau eraill sy'n golygu nad ydynt yn treulio digon o amser yn yr ysgol neu'n astudio gartref.

3.17.4 Cyflwynwyd Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) 2015¹⁰⁰ i roi rheolaeth drwyddedu dros berfformiadau i awdurdodau lleol er mwyn amddiffyn iechyd, lles ac addysg plant.

3.17.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel* (2015)¹⁰¹ er mwyn darparu canllawiau ar y fframwaith newydd i sicrhau bod lles plant sy'n perfformio'n cael ei ddiogelu'n effeithiol, eu bod yn cael gofal priodol a bod eu haddysg a'u hawlau'n cael eu hamddiffyn.

3.17.6 Ni roddir caniatâd i ddisgybl fod yn absennol er mwyn gweithio (boed am gyflog ai peidio) yn ystod oriau ysgol ac eithrio ar gyfer:

- cyflogaeth yn unol â threfniadau a wnaethpwyd neu a gymeradwywyd o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996¹⁰² sy'n ymwneud â phrofiad gwaith (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998)

¹⁰⁰ www.legislation.gov.uk/uksi/1968/1728/contents/made

¹⁰¹ llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?skip=1&lang=cy

¹⁰² www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/part/X/chapter/IV#commentary-c1525407

- cyflogaeth er mwyn cymryd rhan mewn perfformiad yn unol ag ystyr adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963¹⁰³ dan awdurdod trwydded a roddwyd gan yr awdurdod lleol o dan yr adran honno (gweler Rheoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010)
- cyflogaeth dramor at ddiben a nodwyd yn adran 25 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933¹⁰⁴ lle rhoddwyd trwydded o dan yr adran honno gan ynad heddwch (gweler Rheoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010).

3.17.7 Pan roddir caniatâd i ddisgybl fod yn absennol o dan y darpariaethau uchod mae'n hollbwysig bod ysgolion yn gwbl ymwybodol ac yn monitro'r beichiau disgwylidig yn ogystal â'r adegau y disgwylir i'r disgyblion adael a dychwelyd i'r ysgol. Os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynglŷn â natur y gwaith/perfformiad dylent gyfeirio'r mater at eu cydgysylltydd amddiffyn plant a/neu'r Gwasanaeth Lles Addysg.

¹⁰³ www.legislation.gov.uk/ukpga/1963/37/section/37

¹⁰⁴ www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/23-24/12/section/25

4. Dull ysgol gyfan o ymdrin ag ymddygiad a phresenoldeb

4.1 Datblygu polisiâu ymddygiad a phresenoldeb ysgol gyfan

4.1.1 Mae polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol yn dylanwadu ar ethos yr ysgol; mae'n gwneud datganiad ynglŷn â sut y mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys pawb sy'n gysylltiedig â hi. Mae ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb yn sylfeini hanfodol ar gyfer creu amgylchedd dysgu effeithiol lle gall pob aelod o gymuned yr ysgol deimlo ei fod yn cael ei barchu a'i fod yn ddiogel. Mae polisi a weithredir yn dda yn ffactor pwysig er mwyn ennill hyder cymuned yr ysgol a denu staff brwdfrydig o ansawdd da.

4.1.2 Dylai'r broses o ddatblygu'r polisi gael ei hintegreiddio, neu ei gwneud yn gydnaws â phrosesau eraill sy'n gysylltiedig â gwella ysgolion megis cyfeiriad strategol, gosod targedau, adolygu perfformiad a chynllunio gwelliannau. Dylai hefyd fod yn gysylltiedig â *Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru Gyfan*¹⁰⁵ (y 'Cod Teithio'), sy'n amlinellu'r ymddygiad a'r safonau statudol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy ar y daith o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl.

4.1.3 Dylid ystyried hunanwerthuso fel rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisi. Dylai ysgolion fwrw'u golygon ymhellach a cheisio dadansoddi'r effaith y mae eu polisiâu ymddygiad a phresenoldeb yn ei gael ar addysg eu disgyblion drwy gymharu effaith eu gwaith hwy ag effaith gwaith ysgolion eraill.

Cynllunio polisi effeithiol

4.1.4 Mae ar bob ysgol angen polisi sy'n addas i'w hamgylchiadau penodol hi. Dylai'r polisi nodi sut y mae'r ysgol yn hybu presenoldeb rhagorol ac yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb gwael yn ogystal â hybu safonau ymddygiad uchel. Dylai nodi:

- yr egwyddorion sylfaenol
- cod ymddygiad ar gyfer disgyblion, gan gynnwys ymddygiad y tu allan i furiau'r ysgol a phan fyddant yn teithio i'r ysgol ac oddi yno
- sut yr anogir ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cyson
- sut yr ymdrinnir â materion yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb i bobl anabl a chydraddoldeb mewn meysydd eraill
- trefniadau ar gyfer gweithredu polisi a chefnogi staff a disgyblion
- sut y caiff y polisi ei fonitro a'i adolygu.

4.1.5 Dylai'r polisi ddangos sut y rhoddir sylw i'r gwahanol anghenion sydd gan wahanol grwpiau o ddisgyblion.

4.1.6 Er mwyn i bolisi fod yn effeithiol rhaid iddo fod wedi'i osod yng nghyd-destun cydweithio rhwng yr ysgol a'i chymuned, o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mae ar bolisi angen cydgefngogaeth. Golyga hyn gynnwys llywodraethwyr, staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion o holl gymunedau'r ysgol yn y gwaith o ddatblygu ac

¹⁰⁵ <http://lyw.cymru/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/travel-code/?skip=1&lang=cy>

adolygu polisi penodol i'r ysgol. Golyga dynnu ar gymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, ysgolion partner neu rai sy'n cydweithio, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol.

4.1.7 Mae cysondeb hefyd yn awgrymu canllawiau clir i bob aelod o'r staff ar weithredu'r polisi. Golyga hefyd gyngor ymarferol i rieni/gofalwyr ynglŷn â sut y gallant helpu. Gellid cynnwys y rhain mewn dogfennau cysylltiedig, e.e. llawlyfrau staff a chytundebau rhwng yr ysgol a'r cartref, ac unrhyw daflenni y mae'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn eu cynhyrchu.

4.1.8 Mae adroddiadau arolygu'n dangos mai'r ysgolion mwyaf effeithiol yw'r rhai lle mae'r polisi ymddygiad yn cael ei gymhwyso'n gyson. Mae polisi sydd wedi'i gynllunio'n ofalus yn gosod sylfaen ar gyfer cysondeb o'r fath. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol gael polisi ymddygiad ysgrifenedig. Gan fod angen dulliau gweithredu cydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, presenoldeb a bwlio, dylid cael cysylltiadau eglur rhwng y gwahanol bolisiâu, ac nid oes rheswm pam na all ysgolion gyfuno'r tri pholisi yn un ddogfen. Dylai ysgolion ystyried a fyddai gwneud hynny'n datblygu dull gweithredu ysgol gyfan ymhellach ac yn lleihau'r baich biwrocraidd ar ysgolion. Mae angen cysylltiadau clir hefyd rhwng y polisiâu hyn ac unrhyw bolisiâu eraill sy'n ymwneud â materion fel cynlluniau gwella ysgolion, cynhwysiant, cyfranogi, cyfle cyfartal a'r cwricwlwm.

4.1.9 Mae rhestr wirio sy'n ymwneud â datblygu polisi ymddygiad a phresenoldeb i'w gweld yn Atodiad 3.

Egwyddorion

4.1.10 Dylid ystyried polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol fel rhan annatod o'i chwricwlwm, gan fod pob ysgol yn addysgu gwerthoedd yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau. Rhaid i'r polisi fod yn seiliedig ar werthoedd clir – megis parch, tegwch a chynhwysiant – a fydd hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn nodau cyffredinol yr ysgol ac yn ei rhaglenni addysg gymdeithasol, foesol a chrefyddol. Y gwerthoedd hyn ddylai fod y tu ôl i'r egwyddorion sy'n sail i bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol. Bydd y polisi felly'n cyfeirio'n benodol at y ffordd y bydd disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, e.e. rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), rhai sydd ag anghenion iechyd corfforol neu feddyliol, disgyblion sy'n ymfudwyr ac yn ffoaduriaid, a phlant sy'n derbyn gofal, yn cael eu cynorthwyo a'u cynnwys. Bydd hefyd yn cyfeirio'n benodol at y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd er mwyn osgoi nifer anghymesur o achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb mewn perthynas â'r disgyblion hyn (gweler adran 3 am ragor o fanylion).

4.1.11 Dylai'r polisi gydgyssylltu â dulliau cyffredinol yr ysgol o hybu lles emosiynol ei disgyblion ac o fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl disgyblion unigol. Gallai'r polisi hefyd gyfeirio at y ffaith y gallai disgyblion fod yn agored i niwed o ganlyniad i ddigwyddiadau amrywiol, megis profedigaeth, ysgariad neu wahanu.

4.1.12 Os yw'r ysgol yn rhan o'r Rhwydwaith Ysgolion Iach a/neu yn Eco-ysgol, dylai'r polisi hefyd gydgyssylltu â'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu a ddatblygwyd o ganlyniad i fod yn rhan o'r cynlluniau hynny. Mae cysylltiad annatod rhwng ymddygiad a phresenoldeb a gwella ysgolion yn gyffredinol, felly mae angen

cysylltiadau clir rhwng y polisi a chynlluniau datblygu ysgolion a'r cwricwlwm. Bydd hyn yn addysgu disgyblion ynglŷn â'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac yn codi ymwybyddiaeth o feysydd polisi ehangach megis iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd.

4.1.13 Dylai'r polisi gyfeirio'n benodol at y ddyletswydd gadarnhaol i hybu cydraddoldeb hiliol a chydaddoldeb i bobl anabl a'r ddyletswydd benodol i asesu polisïau o ran eu heffaith ar ddisgyblion yn ôl grŵp hiliol, yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol i weithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydaddoldeb a gwahaniaethu a nodir. Rhaid i bolisi ymddygiad pob ysgol nodi'n glir na fydd yr ysgol yn goddef aflonyddu hiliol a rhaid iddo ddweud sut y dylai staff a disgyblion ymdrin ag aflonyddu o'r fath.

4.1.14 Dylai'r egwyddorion gynnwys hybu hunanddisgyblaeth a pharchu pobl eraill, a phwysigrwydd gwrandao ar bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion.

4.1.15 Dylai'r egwyddorion fod yn berthnasol i bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff a rhieni/gofalwyr. Dylid ymgynghori'n llawn â chymuned yr ysgol ynglŷn â'r polisi cyfan, gan gynnwys y staff, y disgyblion, a'r rhieni/gofalwyr. Dylai'r egwyddorion hefyd ymdrin ag ymddygiad disgyblion tuag at ei gilydd, gan gynnwys neu ddarparu cyswllt clir â pholisi gwrth-fwlio'r ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu a monitro polisïau gwrth-fwlio yn *Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio* (Llywodraeth Cymru, 2011)¹⁰⁶ a chanllawiau cysylltiedig ar agweddau penodol. Mae'r Cod Teithio¹⁰⁷ hefyd yn darparu cod ymddygiad statudol ar gyfer parchu eraill, y mae'n rhaid i ddisgyblion gydymffurfio ag ef.

Adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol a chyfle cyfartal yn egwyddorion polisi ymddygiad yr ysgol

4.1.16 Dylai'r gwerthoedd y mae ysgol wedi ymrwymo i'w hyrwyddo – megis parch, tegwch a chynhwysiant cymdeithasol – fod yn sylfaen i'r egwyddorion sy'n sail i'w pholisi ymddygiad. Mewn adolygiad thematig dan y teitl *Gweithredu ar fwlio* (2010)¹⁰⁸ canfu Estyn fod llai o achosion o fwlio, yn gyffredinol, mewn ysgolion lle ceir ethos cryf sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

4.1.17 Rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch cydraddoldeb (fel a nodir ym mhennod 2) a'r ddyletswydd i hybu lles disgyblion (adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, fel y'i diwygiwyd gan adran 38 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006). Mae'n bwysig felly bod datganiad o egwyddorion yr ysgol yn adlewyrchu ymrwymiad i wella deilliannau disgyblion a dileu pob math o wahaniaethu, aflonyddu a bwllo, yn ogystal â hybu cyfle cyfartal, lles disgyblion a chysylltiadau da ar draws holl gymuned yr ysgol.

4.1.18 Dylai'r datganiad o egwyddorion sicrhau hefyd bod disgyblion sy'n agored i niwed – megis y rhai sydd ag AAA, anghenion o ran eu hiechyd corfforol neu feddyliol, disgyblion sy'n ymfudwyr ac yn ffoaduriaid, a phlant sy'n derbyn gofal – yn

¹⁰⁶ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/respectcircular/?skip=1&lang=cy

¹⁰⁷ llyw.cymru/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/travel-code/?skip=1&lang=cy

¹⁰⁸ www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/gweithredu-ar-fwlio-mehefin-2014?_ga=1.204396944.183448609.1447667001

derbyn cymorth â'u hymddygiad yn unol â'u hanghenion. Gweler adran 3 o'r canllawiau hyn am ragor o wybodaeth.

Cynnwys datganiad o egwyddorion

4.1.19 Mae'r hyn y byddai disgwyl iddo gael ei adlewyrchu yn egwyddorion polisi ymddygiad ysgolion wedi'i amlinellu yn y canllawiau hyn. Fodd bynnag, yr ysgolion unigol eu hunain fydd yn penderfynu ynghylch eu hegwyddorion eu hunain, a hynny ar sail ethos eu hysgol, anghenion cymuned eu hysgol, ac unrhyw gytundeb sydd ganddynt ag ysgolion eraill neu'r awdurdod lleol. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys y disgyblion ym mhob cam o'r broses o ddatblygu, gweithredu, gwerthuso ac adolygu polisi ymddygiad ysgol.

Sut y gall y datganiad o egwyddorion helpu'r pennaeth i ddatblygu mesurau disgyblu mwy penodol

4.1.20 Bydd y pennaeth yn defnyddio ei ddatganiad o egwyddorion i arwain y gwaith gyda chymuned gyfan yr ysgol, gan gynnwys amrywiaeth eang o ddisgyblion er mwyn penderfynu ynglŷn â'r mesurau mwyaf manwl (rheolau, Cod Teithio¹⁰⁹, gwobrau, cosbau a strategaethau rheoli ymddygiad) sy'n rhan o bolisi ymddygiad cyffredinol yr ysgol. O ran yr egwyddorion a fydd yn gymorth yn hyn o beth:

- byddant yn seiliedig ar werthoedd yr ysgol a'r hawliau a amlinellwyd yn y CCUHP
- gallant gael eu hegluro i ddisgyblion o bob oed neu allu a chan ddisgyblion o bob oed neu allu
- maent yn cyfateb i gytundeb eang ynghylch safonau ymhlith disgyblion, staff (gan gynnwys cynrychiolwyr undeb), llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr
- maent yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu ymddygiad cadarnhaol ac yn annog cydbwysedd iach rhwng gwobrau a chosbau er mwyn annog ymddygiad cadarnhaol
- maent yn annog gwelliannau i'r ymddygiad fel ffordd o wella dysgu ac addysgu
- maent yn heriol ond yn realistig ac yn briodol i'w datblygu wrth i'r ysgol adeiladu ar ei llwyddiannau.

Mesurau neu faterion penodol y bydd y llywodraethwyr am i'r pennaeth eu cynnwys yn y polisi

4.1.21 Os yw'r corff llywodraethu am i bolisi ymddygiad yr ysgol gynnwys mesurau penodol neu ymdrin â materion penodol, rhaid iddo hysbysu'r pennaeth a chynnig canllawiau perthnasol fel y bo'n briodol.

4.1.22 Dylai'r llywodraethwyr ystyried barn y pennaeth a barn y disgyblion ynghylch effeithiolrwydd tebygol mesur penodol cyn penderfynu a ddylid ei gynnwys. Ym mhob achos, dylai'r mesur gefnogi'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y corff llywodraethu. Yn y modd hwn, bydd y corff llywodraethu yn cael ei weld fel petai'n gweithredu'n gyson ac yn cefnogi'r egwyddorion y cytunwyd arnynt gyda'r rhanddeiliaid, gan gynnwys corff eang y disgyblion. Dylai'r llywodraethwyr sicrhau

¹⁰⁹ lyw.cymru/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/travel-code/?skip=1&lang=cy

hefyd bod unrhyw fesur y maent am ei gynnwys yn y polisi ymddygiad yn cynnal y cydbwysedd angenrheidiol rhwng gwobrau a chosbau.

4.1.23 Rhaid i'r pennaeth ystyried hysbysiad a chanllawiau o'r math hwn gan y corff llywodraethu.

4.2 Gofynion cyfreithiol ar gyfer polisïau ymddygiad ysgolion

4.2.1 O dan adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 mae'n ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau bod ei ysgol yn dilyn polisïau sydd wedi'u llunio er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol. Yn fwyaf arbennig:

- mae'n ofynnol i gorff llywodraethu lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o egwyddorion i arwain y pennaeth wrth bennu mesurau i hybu ymddygiad cadarnhaol
- mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu hysbysu'r pennaeth a'i alluogi i roi arweiniad pellach os yw'r corff llywodraethu am i fesurau penodol gael eu cyflwyno neu i faterion penodol gael sylw.

4.2.2 Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rhaid i'r corff llywodraethu:

- ystyried canllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru
- cyn gwneud neu ddiwygio ei ddatganiad o egwyddorion, ymgynghori â'r pennaeth, rhieni/gofalwyr, disgyblion ac unrhyw un arall sy'n gweithio yn yr ysgol (boed am dâl ai peidio) y mae'r corff llywodraethu'n teimlo y byddai'n briodol ymgynghori ag ef/hi.

4.2.3 Rhaid i'r pennaeth bennu mesurau (a allai gynnwys cod ymddygiad a sut y bydd yn cael ei gymhwyso) a luniwyd er mwyn sicrhau safon ymddygiad sy'n dderbyniol a hybu hunanddisgyblaeth, ystyriaeth briodol i awdurdod a pharch at eraill. Yn fwyaf arbennig, dylai'r mesurau hyn anelu at atal pob math o fwlio ymysg disgyblion.

4.2.4 Rhaid i bolisïau ymddygiad ysgolion gynnwys mesurau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau unrhyw dasgau y mae'n rhesymol eu rhoi iddynt mewn cysylltiad â'u haddysg.

4.2.5 Dylai'r mesurau hyn fod yn gyson â'r datganiad o egwyddorion a luniwyd gan y corff llywodraethu ac unrhyw hysbysiad neu arweiniad penodol a roddwyd ganddo. Gall y rhain gyfrannu cryn dipyn tuag at ddiffinio safon ymddygiad sy'n dderbyniol. Lle nad ydynt yn gwneud hynny, y pennaeth sy'n gyfrifol am ddiffinio'r safon dderbyniol.

4.2.6 Rhaid cyhoeddi'r mesurau y mae'r pennaeth yn eu pennu fel dogfen ysgrifenedig. Rhaid i'r ddogfen hon fod yn hysbys i bawb yn yr ysgol, ac ymysg rhieni/gofalwyr. Hefyd, o leiaf unwaith y flwyddyn, dylid tynnu sylw'r holl ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff at y ddogfen hon.

4.2.7 O dan adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, mae gan ysgolion bŵer statudol i gynnwys mesurau rhesymol i reoleiddio ymddygiad disgyblion pan

fyddant oddi ar dir yr ysgol a heb fod dan oruchwyliaeth staff yr ysgol. Dylai'r ysgolion fod yn glir ynglŷn â pha ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw rheol neu gosb yn rhesymol.

4.2.8 Mae adran 91 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, am y tro cyntaf, yn cyflwyno pŵer statudol i athrawon ddisgyblu disgyblion. Mae'r pŵer hwn hefyd yn berthnasol i rai aelodau o staff ysgolion (a awdurdodwyd gan y pennaeth). Mae'n cadarnhau ac yn egluro hawl yr ysgol i roi cosb er mwyn disgyblu disgybl os bydd ei ymddygiad yn is na'r safon y byddai'n rhesymol ei disgwyl ganddo. Mae'r cosbau disgyblu hyn yn fesurau sy'n ceisio dangos yn glir i'r disgybl ac i gymuned yr ysgol beth yw ffiniau ymddygiad sy'n dderbyniol.

4.2.9 Yn ychwanegol at hyn, yn unol ag adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 rhaid i bolisiâu ymddygiad ysgolion nodi ei bod yn ofynnol i ddisgyblion gydymffurfio â'r Cod Teithio cenedlaethol¹¹⁰.

4.3 Dysgu ac addysgu

4.3.1 Er mwyn i ysgolion allu gwella ymddygiad a phresenoldeb mewn ffordd ragweithiol, bydd angen elfen o'r cwricwlwm lle caiff y disgwyliadau yn y polisi eu trosi'n amlwg yn ddysgu ac addysgu. (Mae hyn yn ychwanegol at ddisgwyliadau ymddygiad dysgu, a fydd yn treiddio drwy'r cwricwlwm.) Dylid nodi yn y polisi sut y bydd hyn yn digwydd. Er enghraifft, gellid datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion drwy raglen strwythuredig mewn ABCh neu o fewn y rhaglen fugeiliol. Efallai y byddai disgyblion sydd ag ymddygiad anos yn elwa o gyfnod o gymorth mewn grŵp anogaeth, neu drwy ddysgu sgiliau rheoli dicter, neu sgiliau arwain cadarnhaol.

4.3.2 Mae llawer o ysgolion wedi canfod y bu cynlluniau i ddatblygu iechyd emosiynol, llythrennedd a sgiliau datrys problemau plant yn hynod fuddiol o ran gwella ymddygiad a phresenoldeb, yn ogystal â lefelau cyrhaeddiad. Gallai'r rhain fod yn gynlluniau penodol sy'n canolbwyntio ar y rhai hynny sydd â phroblemau ar hyn o bryd neu'n gynlluniau ehangach ar gyfer yr ysgol gyfan.

4.3.3 Mae'r ffordd y mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn addysgu ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd, drwy arddangos ymddygiad cadarnhaol a pharch tuag at ei gilydd a thrwy egluro, pan fo ymddygiad a phresenoldeb yn annerbyniol, hefyd yn ddylanwadol. Mae hyn yn gefndir hanfodol ar gyfer unrhyw gosbau y gellir eu gosod. Yn y strategaethau ymyrryd ymarferol hyn, dylid gwneud defnydd llawn o gefnogaeth gan gymuned ehangach yr awdurdod lleol (yn enwedig y Gwasanaeth Lles Addysg a'r timau teithio disgyblion), gwasanaethau a chonsortia cymorth ymddygiad, yr heddlu (drwy swyddogion cymuned ysgol yr heddlu), gwasanaeth cwnsela'r awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc, timau amlasiantaethol, Gyrfa Cymru, byrddau lleol diogelu plant ac ysgolion eraill, ac ati.

4.3.4 Bydd polisi dysgu ac addysgu'r ysgol yn cynorthwyo staff i addysgu dulliau sy'n hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb. Mae angen i ysgolion hefyd greu

¹¹⁰ lyw.cymru/topics/educationandskills/allsectorpolicies/learner-travel/?skip=1&lang=cy

cysylltiadau cryf â'u hawdurdod lleol a'r timau teithio disgyblion a all ddarparu rhagor o hyfforddiant a chymorth.

4.4 Rolau a chyfrifoldebau

4.4.1 Dylai polisi ymddygiad a phresenoldeb nodi'n glir bod hybu ymddygiad cadarnhaol yn gyfrifoldeb i gymuned gyfan yr ysgol. Er mwyn gallu ei weithredu'n gynhwysfawr, dylai hefyd ddiffinio rolau penodol, gan gynnwys y rhai canlynol:

- rôl y **corff llywodraethu** wrth ddiffinio'r egwyddorion sy'n sail i bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol
- rôl y **pennaeth** wrth iddo lunio polisi sy'n sefydlu amgylchedd sy'n annog ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cyson, yn gwrthwynebu bwlio, ac yn hybu cydraddoldeb, ac, ar y cyd ag aelodau'r uwch dîm arwain, yn trefnu cymorth i roi'r polisi ar waith
- rôl y **staff** (staff cymorth a gwirfoddolwyr yn ogystal ag athrawon) wrth sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n gyson ac yn deg, gan gynnwys pob grŵp a chymuned, bod disgyblion yn cael eu haddysgu sut i ymddwyn yn dda, ac i barchu pob aelod o gymuned yr ysgol, ac yn cael eu hannog i ddod i'r ysgol yn brydlon ac yn rheolaidd, yn ogystal â darparu cydgefnogaeth, a bod yn esiampl o'r safonau ymddygiad a phrydlondeb uchel a ddisgwylir gan y disgyblion
- rôl y **corff llywodraethu, y pennaeth a'r staff** wrth sicrhau bod pob agwedd ar bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol a'i weithrediad yn hybu cydraddoldeb i bob disgybl. Dylid cefnogi hyn drwy fonitro gwobrau a chosbau, er mwyn sicrhau nad yw eu dosbarthiad yn mynd yn groes i egwyddorion cyfle cyfartal. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn helpu i sicrhau bod polisïau ac arferion yn bodloni anghenion pob cymuned drwy'r gofyniad i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, gan gynnwys pobl anabl, a phobl sydd â chrefydd neu gred wahanol, yn ogystal â rhoi sylw i anghenion plant sy'n derbyn gofal, ar draws y nodweddion gwarchodedig
- rôl y **disgyblion** wrth ffurfio a hyrwyddo cod ymddygiad yr ysgol a chefnogi staff a disgyblion eraill. Gallai hyn gynnwys ymwneud â chefnogi cyfoedion neu gynadleddau adferol, yn ogystal â rhoi gwybod am achosion o fwlio, a chamymddwyn arall neu resymau dros driwantiaeth, ar safle'r ysgol, y tu allan i'r ysgol ac ar y daith i'r ysgol ac oddi yno. Mae polisïau effeithiol yn rhoi sylw i flaenoriaethau'r disgyblion ac yn seiliedig ar ymgynghori. Mae gan gynghorau ysgolion rôl allweddol i'w chwarae ac, yn fwyaf arbennig, byddai'n fuddiol iddynt godi mater bwlio bob blwyddyn, a thrafod y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag ef
- rôl **rhieni/gofalwyr** wrth gymryd cyfrifoldeb am bresenoldeb eu plentyn a'i ymddygiad yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, a chyfrannu at y polisi drwy ymgynghori a sicrhau bod gan eu plant ddealltwriaeth gyffredinol o'r polisïau, a'u hawliau a'u cyfrifoldebau
- rôl **swyddogion allweddol yr awdurdod lleol** megis swyddogion teithio disgyblion a swyddogion lles addysg sydd wedi eu dynodi ar gyfer yr ysgol ac aelodau o wasanaethau cymorth ymddygiad yn eu rôl fel cynghorwyr yn cynorthwyo ag ymddygiad a phresenoldeb yr holl ddisgyblion a gwaith cymorth arbenigol ar gyfer disgyblion unigol

- rôl **partneriaid yr ysgol** mewn cyrff allanol megis y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, Gyrfa Cymru, byrddau lleol diogelu plant, yr heddlu a mudiadau gwirfoddol.

Rôl y corff llywodraethu

4.4.2 Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion perthnasol ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru wrth lunio ac adolygu'r datganiad ysgrifenedig ynghylch egwyddorion cyffredinol disgyblaeth mewn ysgol¹¹¹. Dylai'r canllawiau a welir isod i lywodraethwyr gael eu hystyried yn statudol felly.

4.4.3 Rhaid i'r corff llywodraethu llawn, neu un o'i bwyllgorau, wneud y penderfyniadau terfynol ynghylch y datganiad o egwyddorion ac unrhyw hysbysiadau a chanllawiau. Ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldebau hyn i unigolyn. Yn achos unedau cyfeirio disgyblion, pwyllgor rheoli'r unedau cyfeirio disgyblion fyddai'n gyfrifol am swyddogaethau'r corff llywodraethu. Yn achos ffederasiwn o ysgolion, y corff llywodraethu ffederal sydd â'r cyfrifoldeb hwn. Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n cydweithio â'i gilydd sy'n parhau'n gyfrifol am y penderfyniadau terfynol ynghylch y datganiad o egwyddorion ac unrhyw hysbysiadau a chanllawiau sy'n berthnasol i'r ysgol honno, hyd yn oed lle bo ysgolion sy'n cydweithio yn llunio datganiad cyffredin o egwyddorion, hysbysiadau a/neu ganllawiau.

4.4.4 Yn unol â'r gyfraith, byddai'n ofynnol i gorff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth, y staff, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion ynghylch egwyddorion y polisi ymddygiad. Gall yr ymgynghoriad gael ei drefnu mewn modd a fydd yn ymddangos yn briodol i'r corff llywodraethu a gall gynnwys cynrychiolwyr o blith y staff a fydd yn briodol ym marn y corff llywodraethu. Rhaid cynnwys pob disgybl a rhiant/gofalwr, h.y. rhaid iddynt gael cyfle i roi sylwadau ar y cynigion yn y camau ffurfiannol a rhaid i'w hymatebion gael eu hystyried pan fydd penderfyniadau ynghylch y cynigion yn cael eu gwneud. Cafodd y gofynion i gorff llywodraethu ymgynghori â staff a disgyblion ynghylch yr egwyddorion eu cyflwyno o dan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac fe'u cychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2010.

4.4.5 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae gan ysgolion ddyletswyddau allweddol (fel y'u nodwyd ym adran 2). Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio nodweddion gwarchodedig (oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a hefyd yn nodi cyfrifoldebau ysgolion wrth dderbyn ac ymdrin â disgyblion.

4.4.6 Mae gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddyletswydd hefyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ystyried yr angen i: ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio; hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

4.4.7 Dylai llywodraethwyr benderfynu ar amserlen briodol i adolygu'r egwyddorion ac i'r pennaeth ddiweddarau'r polisi ymddygiad dilynol. Yn unol ag arferion da dylai hyn gael ei wneud bob dwy flynedd ar gyfartaledd. Mae'n bosibl na fydd angen diweddarau'r egwyddorion bob tro y byddant yn cael eu hadolygu. Dylid ymgynghori bob tro y caiff y datganiad o egwyddorion ei ddiweddarau.

¹¹¹ www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/88

Rôl yr awdurdod lleol

4.4.8 Mae awdurdod lleol effeithiol yn gweithio gydag ysgolion i'w hannog i adolygu eu polisïau ymddygiad a'u dulliau cefnogi drwy'r ysgol gyfan. Mae'n gwneud hyn drwy waith gwasanaethau cymorth ymddygiad, sy'n cynorthwyo disgyblion unigol a gweithredu ehangach yn yr ysgol fel ei gilydd. Mewn nifer o ardaloedd, mae awdurdodau lleol hefyd yn rheoli timau amlddisgyblaethol mewn ysgolion, sy'n cynorthwyo ysgolion lle mae nifer uchel o ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

4.4.9 Dylai awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i ddatblygu systemau cyfeirio a sicrhau bod eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'u bod yn cael eu haddasu'n briodol ar ôl ymgynghoriad llawn. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu cyngor a hyfforddiant i bawb sy'n gweithio mewn ysgol ynglŷn â rheoli ymddygiad disgyblion, yn y dosbarth ac yn amgylchedd cyffredinol yr ysgol, gan gynnwys y daith o'r cartref i'r ysgol ac yn ôl.

4.4.10 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod addysg plant sydd ag anawsterau ymddygiad yn cael lle blaenllaw o hyd mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu'r cynllun lles lleol. Yn sgil Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 newidiwyd y gofynion a oedd yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth, er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau cyhoeddus drwy ofyn i wahanol wasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd a gwneud cynlluniau i roi sylw i les eu hardaloedd mewn ffordd integredig. Mae rhagor o ganllawiau yn ymwneud â'r cynlluniau lles lleol i'w gweld yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rhannu Pwrpas – Rhannu Dyfodol: Rôl Gydweithredol – Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*¹¹².

4.4.11 Dylai awdurdodau lleol fod â gwell gwybodaeth ynghylch rheoli perfformiad, gan gynnwys data am waharddiadau a phresenoldeb, a dylent ddefnyddio'r wybodaeth hon i werthuso effaith eu hymyriadau, yn enwedig effeithiolrwydd eu hyfforddiant ar gyfer rheoli ymddygiad mewn ysgolion ac i staff sy'n gweithio gyda disgyblion y tu allan i'r ysgol, e.e. ar y daith o'r cartref i'r ysgol, megis gyrwyr gwasanaethau cludiant ysgol. Dylai awdurdodau lleol hefyd annog ysgolion i fonitro ymddygiad bwlio, fel bod yr ysgolion yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd eu strategaethau gwrth-fwlio ac asesu cynnydd.

Gorfodi'r Cod Teithio – cosbau

4.4.12 Mae'r Cod Teithio'n nodi cyfrifoldebau disgyblion pan fyddant yn teithio. Ceir canllawiau statudol i gyd-fynd â'r cod, wedi'u cyhoeddi o dan adran 15 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Mesur 2008), ac maent yn darparu cyngor ynglŷn â sut i sicrhau siwrnai ddiogel, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ac yn disgrifio hawliau disgyblion pan fyddant yn teithio.

4.4.13 Os oes gan awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant, rhaid iddo ddilyn y gofynion a amlinellir yn adran 14 o Fesur 2008, a bod yn fodlon bod y disgybl wedi

¹¹² lyw.cymru/consultations/people-and-communities/shared-future-shared-purpose/?skip=1&lang=cy

methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad teithio, cyn tynnu'r ddarpariaeth gludiant yn ôl.

4.4.14 Cyn tynnu'r ddarpariaeth gludiant yn ôl, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod yr amodau a ganlyn, sy'n berthnasol i'r disgyblion, yn cael eu bodloni.

- Rhaid rhoi cyfle i'r disgybl a rhiant/gofalwr y disgybl wneud sylwadau a rhaid ystyried y sylwadau hynny.
- Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â phennaeth yr ysgol neu leoliad dysgu perthnasol lle mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig, a hysbysu'r pennaeth ynglŷn â'r penderfyniad o leiaf 24 awr cyn tynnu'r ddarpariaeth gludiant yn ôl.
- Rhaid hysbysu rhieni/gofalwyr y disgybl o leiaf 24 awr cyn i'r ddarpariaeth gludiant gael ei thynnu'n ôl.
- Rhaid sicrhau nad yw'r cyfnod pan fydd y ddarpariaeth gludiant wedi'i thynnu'n ôl yn fwy na 10 niwrnod ysgol dilynol.
- Rhaid sicrhau na fyddai'r cyfnod o dynnu'n ôl yn golygu bod trefniadau teithio'r disgybl yn cael eu tynnu'n ôl am fwy na 30 o ddiwrnodau ysgol yn y flwyddyn ysgol y mae'r tynnu'n ôl yn digwydd ynddi.

4.4.15 Dylai'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod y penderfyniad i dynnu trefniadau cludo yn ôl yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Wrth benderfynu a yw'r penderfyniad yn un rhesymol, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y materion a ganlyn.

- A yw'r cyfnod o dynnu cludiant yn ôl yn gymesur yn amgylchiadau'r achos.
- A oes amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol i dynnu trefniadau teithio yn ôl y mae'r awdurdod lleol yn gwybod amdanynt (neu y dylai'r awdurdod fod yn ymwybodol ohonynt) gan gynnwys:
 - oed y disgybl
 - unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y disgybl
 - unrhyw anabledd sydd gan y disgybl
 - a fyddai'r disgybl yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus
 - a yw'n rhesymol bosibl i rieni/gofalwyr y disgybl wneud trefniadau eraill addas.

4.4.16 Os oes gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig, dylai awdurdodau lleol ystyried pa gamau y byddai'n rhesymol eu cymryd. Mae *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*¹¹³ ac adran 2 o'r canllawiau hyn yn darparu rhagor o ganllawiau ar ymdrin â chamymddwyn gan ddisgyblion anabl a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu.

4.4.17 Mewn achosion lle mae camymddwyn difrifol yn digwydd, mae'n bosibl na fydd y cosbau a ddarperir yn y Cod Teithio yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Yn yr achosion hyn efallai y byddai'n fwy priodol bod gwaharddiad am gyfnod penodedig neu waharddiad parhaol yn cael ei ddefnyddio fel cosb yn lle hynny. Yn yr achosion hyn mae'n bwysig bod yr ysgol a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

¹¹³ learning.gov.wales/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?skip=1&lang=cy

Y broses wahardd

4.4.18 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol yn y broses wahardd hefyd. Dylid hysbysu'r awdurdod lleol ynglŷn â phob gwaharddiad fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar waharddiadau¹¹⁴. Mae'r awdurdod lleol yn aml yn ymwneud â'r broses o adolygu gwaharddiadau ac mae'n gyfrifol am y broses apelio.

4.4.19 Mewn achosion lle mae disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol o ysgol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud trefniadau i'r disgybl barhau i dderbyn addysg amser llawn addas ar ôl cael ei wahardd am 15 niwrnod.

Gweithio ar draws ffiniau

4.4.20 Os yw disgybl yn byw mewn ardal awdurdod lleol sy'n wahanol i'r un lle mae'n mynychu'r ysgol, yr awdurdod lleol lle mae'n mynychu'r ysgol ddylai arwain o safbwynt unrhyw weithredu sy'n ofynnol i wella presenoldeb a/neu ymddygiad y disgybl. Yn yr achosion hyn, bydd angen i'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw a'r awdurdod lleol lle mae'n mynychu'r ysgol weithio mewn cysylltiad agos â'i gilydd.

4.4.21 Os yw disgybl sydd yn byw mewn ardal awdurdod lleol sy'n wahanol i'r un lle mae'n mynychu'r ysgol yn cael ei wahardd yn barhaol, yr awdurdod lleol lle mae'n byw fydd yn gyfrifol amdano, a'r awdurdod lleol hwnnw a ddylai arwain o safbwynt unrhyw weithredu sy'n ofynnol i wella ymddygiad y disgybl, yn ogystal â sicrhau ei fod yn dal i gael addysg addas.

4.4.22 Yn achos gwaharddiad am gyfnod penodol, pan fo'r disgybl yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall, yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn mynychu'r ysgol ddylai arwain unrhyw weithredu sy'n ofynnol ar lefel yr awdurdod lleol i wella ymddygiad y disgybl, e.e. drwy gynnig contract rhianta neu wneud cais am orchymyn rhianta. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw a'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn mynychu'r ysgol gydweithio mewn cysylltiad agos â'i gilydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan wneir gorchymyn rhianta gan y gallai'r rhaglen rianta sy'n fwyaf addas a chyfleus fod yn gweithredu yn yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw.

4.4.23 Cynghorir awdurdodau lleol i lunio protocolau yn nodi ar ba sail y bydd gweithio trawsffiniol yn digwydd.

4.5 Pwerau cyfreithiol staff

4.5.1 Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi awdurdod statudol clir i staff yr ysgol gosbi disgyblion y mae eu hymddygiad yn annerbyniol, sy'n torri rheolau'r ysgol neu sy'n methu â dilyn cyfarwyddyd rhesymol. Nodir y pwerau hyn yn adrannau 91–95.

¹¹⁴ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/exclusion/?skip=1&lang=cy

Beth mae'r pŵer cyfreithiol yn ei gynnwys

4.5.2 Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi pŵer i athrawon a rhai aelodau eraill o staff yr ysgol ddisgyblu drwy gosbi. Gellid cosbi am fethu â dilyn un o reolau'r ysgol, neu gyfarwyddyd a roddir gan aelod o staff yr ysgol, neu ryw reswm arall a fyddai'n achosi i ymddygiad y disgybl ddisgyn islaw'r safon y byddai'n rhesymol ei disgwyl ganddo.

4.5.3 Mae'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r pŵer hwn i bob athro/athrawes ac aelodau cyflogedig eraill o'r staff sydd â rheolaeth neu ofal cyfreithlon dros ddisgyblion, oni bai fod y pennaeth wedi penderfynu na chaniateir i aelod penodol o'r staff gosbi'r disgybl dan sylw. Mae'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi'r grym i'r pennaeth ymestyn y pŵer fel y bo'n rhesymol i unrhyw oedolyn arall sydd â rheolaeth neu ofal cyfreithlon dros ddisgyblion – megis rhiant/gofalwr sy'n gwirfoddoli i oruchwyllo gêm bêl-droed neu i helpu ar drip ysgol.

4.5.4 Ni phennir unrhyw ofynion cyfreithiol ynghylch sut y dylai'r staff neu'r disgyblion gael gwybod am benderfyniad o'r fath; synnwyr cyffredin neu farn broffesiynol fydd yn gyfrifol am hyn. Dylai penaethiaid wneud hyn yn ysgrifenedig, fodd bynnag, er mwyn sicrhau eglurder – gan sicrhau fel y bo'n briodol bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghontractau aelodau o'r staff, a'i fod yn cael ei gynnwys yn rhan o'r mesurau y bydd y pennaeth yn eu hamlinellu ym mholisi ymddygiad yr ysgol.

4.5.5 Ni all penaethiaid roi'r pŵer i ddisgyblu i ddisgyblion. Mae'r darpariaethau cyfreithiol yn ymwneud ag aelodau o'r staff yn unig, neu oedolion eraill a awdurdodir gan y pennaeth, felly nid ydynt yn cynnwys swyddogion nac unrhyw ddisgyblion eraill. Gall swyddogion fod â rôl bwysig i'w chwarae er mwyn cadw trefn yn yr ysgol, ond mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng rhoi cyfarwyddyd i helpu i weithredu'r polisi ymddygiad a'r pŵer i gosbi. Ni chaniateir i ddisgyblion gosbi.

4.5.6 Mae'r pŵer i ddisgyblu yn berthnasol i unrhyw ddisgybl mewn ysgol lle darperir addysg ar ei gyfer, a hefyd i ddisgyblion sy'n camymddwyn y tu allan i furiau'r ysgol, megis ar y daith o'r cartref i'r ysgol, pan nad ydynt o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon aelod o'r staff, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol (gweler is-adran 4.7 am ragor o fanylion).

4.5.7 Er mwyn diogelu buddiannau disgyblion rhag cosb sy'n annheg neu'n amhriodol, mae'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 hefyd yn nodi y dylai'r cosbau disgyblu dan sylw fod yn rhesymol ac na ddylent dorri unrhyw ofynion neu waharddiad statudol (a fyddai'n cynnwys deddfwriaeth ynghylch AAA, anabledau, hil a materion cydraddoldeb eraill a hawliau dynol neu sifil); ac y dylent ystyried oed y disgybl, unrhyw anghenion addysgol arbennig neu anabledd a fyddai gan y disgybl, ac unrhyw ofynion crefyddol sy'n effeithio ar y disgybl.

4.5.8 Nid yw gwahardd disgyblion, boed am gyfnod penodedig neu'n barhaol, wedi'i gynnwys yn y pŵer cyffredinol i ddisgyblu. Y rheswm am hyn yw ei fod eisoes wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth ar wahân sy'n rhoi'r pŵer i ddefnyddio'r gosb arbennig hon yn nwylo'r pennaeth yn unig neu'r athro/athrawes sydd â gofal am uned cyfeirio disgyblion (neu, yn eu habsenoldeb, y pennaeth dros dro neu'r athro/athrawes â gofal dros dro am uned cyfeirio disgyblion).

Beth mae'r cyfrifoldebau cyfreithiol yn ei olygu i ysgolion o safbwynt ymarferol

4.5.9 Dylai pob aelod o'r staff fod yn glir ynghylch pa gosbau y gallant eu defnyddio a pha rai all gael eu defnyddio gan uwch aelodau o'r staff yn unig.

4.5.10 Bydd angen i fathau eraill o staff neu oedolion ar y safle fod yn ymwybodol o'r lefelau awdurdod. Dylai staff dros dro, athrawon dan hyfforddiant a gwirfoddolwyr (sydd, er enghraifft, yn cynorthwyo ag ymweliadau addysgol neu'n rhoi cymorth mentora) gael gwybod pa lefelau o gosbau y gallant eu defnyddio.

4.5.11 Dylai ysgolion wneud cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol) am wiriad o gefndir gwirfoddolwyr sy'n dod i gysylltiad â disgyblion yn rheolaidd. Ceir rhagor o gyngor isod ynglŷn â gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd.

4.6 Y trefniadau datgelu a gwahardd

4.6.1 Mae Deddf Diogelu Rhyddidau 2012¹¹⁵ ('Deddf 2012') yn nodi'r prosesau archwilio cyn cyflogi newydd y mae'n rhaid i ysgolion, darparwyr addysg ac awdurdodau lleol eu dilyn wrth wirio cofnodion pobl sydd eisiau gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac nad ydynt yn achosi risg.

4.6.2 Daeth y trefniadau datgelu a gwahardd newydd i rym ar 10 Medi 2012. O ran unigolion nad ydynt yn gweithio mewn gweithgaredd sy'n cael ei reoleiddio, ond sy'n gweithio (yn gyflogedig neu'n ddi-dâl) gyda phlant a phobl sy'n agored i niwed, gall cyflogwyr ofyn am archwiliad o gofnodion troseddol, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny.

4.6.3 Yn Rhagfyr 2012, unwyd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, a bellach maent yn cael eu hadnabod fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd¹¹⁶. Mae'r hen wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol bellach yn cael eu galw'n wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.6.4 Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio diogelach ac yn atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a grwpiau agored i niwed, drwy ei swyddogaethau gwirio cofnodion troseddol a gwahardd.

4.6.5 Mae'r gwasanaeth gwirio'n caniatáu i gyflogwyr weld cofnod troseddol pobl sy'n gweithio, neu sy'n chwilio am waith gyda phlant neu oedolion. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhoi tri math o ddatgeliad, pob un yn cynrychioli gwiriad ar lefel wahanol. Pennir lefel y gwiriad gan ddyletswyddau'r swydd neu'r gwaith penodol sy'n cael ei wneud. Mae angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd manylach ar gyfer swyddi sy'n ymwneud â gofalu am blant neu oedolion, eu goruchwyllo neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eich pen eich hun.

¹¹⁵ www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents/enacted

¹¹⁶ www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/overview

4.6.6 Mae ochr wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn darparu gweithwyr achos arbenigol sy'n prosesu atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag unigolion sydd wedi niweidio neu sy'n achosi risg o niwed i blant a/neu grwpiau agored i niwed. Maent yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwy ddylai gael ei roi ar y rhestr o'r rhai a waharddwyd rhag gweithio gyda phlant, a/neu'r rhestr o'r rhai a waharddwyd rhag gweithio gydag oedolion, a chael eu gwahardd gan y gyfraith rhag gweithio gyda phlant neu grwpiau agored i niwed. Mae'n anghyfreithlon i gyflogwyr gyflogi rhywun neu adael iddynt wirfoddoli yn y math hwn o waith os ydynt ar un o'r rhestrau gwaharddedig.

4.6.7 Dim ond at ymgeiswyr y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn anfon tystysgrifau. Bydd angen i gyflogwyr ofyn i ymgeiswyr ddangos eu tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni all rhywun sydd dan 16 oed wneud cais am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir'

4.6.8 Dim ond i'r rhai hynny a allai fod â chysylltiad rheolaidd neu agos â phlant ac oedolion agored i niwed y mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn berthnasol. Diffinnir cysylltiad o'r fath mewn deddfwriaeth fel 'Gweithgaredd a Reoleiddir'. Yn bwysig iawn i ysgolion a cholegau AB, mae'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir gyda phlant, a chwmpas y gweithgaredd hwnnw, wedi newid. Mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â'r diffiniad o Weithgaredd a Reoleiddir oherwydd:

- bydd ar rolau sy'n disgyn o fewn y diffiniad newydd o 'Weithgaredd a Reoleiddir' angen gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd manylach a gwiriad o'r rhestr waharddedig briodol (ar gyfer plant, oedolion neu'r ddau)
- bydd sefydliad a fydd yn caniatáu i berson sydd wedi'i wahardd weithio mewn 'Gweithgaredd a Reoleiddir', gan wybod ei fod wedi'i wahardd, yn torri'r gyfraith
- os byddwch yn diswyddo neu'n symud rhywun o 'Weithgaredd a Reoleiddir' (neu os byddech wedi gwneud hynny pe na bai wedi gadael yn barod) oherwydd ei fod wedi niweidio neu ei fod yn achosi risg o niwed i grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, mae'r gyfraith yn nodi ei bod yn ofynnol i chi anfon gwybodaeth am y person hwnnw at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gelwir hyn yn 'ddyletswydd i gyfeirio'). Mae'n drosedd peidio â gwneud hynny. Os ydych yn credu bod y person wedi cyflawni trosedd, fe'ch cynghorir yn gryf i roi'r wybodaeth i'r heddlu.

4.6.9 Gellir crynhoi Gweithgaredd a Reoleiddir¹¹⁷ (h.y. gwaith na chaiff rhywun sydd wedi'i wahardd ei wneud) mewn cysylltiad â phlant fel gweithgaredd nad yw'n cael ei oruchwylio mewn ystod gyfyngedig o sefydliadau lle mae cyfle i ddod i gysylltiad â phlant. Mae'r sefydliadau penodedig hyn yn cynnwys ysgolion, cartrefi plant, lleoliadau gofal plant a sefydliadau cyn-ysgol.

4.6.10 O dan y trefniadau datgelu a gwahardd newydd mae cwmpas Gweithgaredd a Reoleiddir yn cynnwys gweithgareddau nad ydynt yn cael eu goruchwylio megis gyrru cerbyd ar gyfer plant yn unig (cludiant penodedig i ddisgyblion).

¹¹⁷ www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/schedule/4

4.6.11 Yn ychwanegol at hyn, er mwyn cael ei ystyried fel Gweithgaredd a Reoleiddir rhaid i weithgaredd o'r fath nad yw'n cael ei oruchwylio gael ei wneud yn aml. Mae 'yn aml' yn golygu cael ei wneud gan yr un person yn aml (unwaith yr wythnos neu'n amlach), neu ar fwy na thri¹¹⁸ diwrnod mewn cyfnod o 30 niwrnod (neu mewn rhai achosion, rhwng 2am a 6am).

4.7 Cod ymddygiad

4.7.1 Rhaid i bolisi ysgol osod safonau clir ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb a dylai gynnwys cod ymddygiad ar gyfer disgyblion. Pwrpas y cod yw hybu ymddygiad cadarnhaol, felly ni ddylai fod yn rhestr o waharddiadau. Dim ond rheolau sydd â chyfiawnhad rhesymol iddynt ac y bydd yr ysgol yn eu gorfodi ddylai gael eu cynnwys yn y cod. Dylid mynegi'r rheolau hyn mewn ffordd gadarnhaol (er enghraifft, 'rydym yn gofalu am ein hysgol a phopeth sydd ynddi' yn hytrach na 'rhaid i ddisgyblion beidio â difrodi eiddo'r ysgol'). Dylent ymdrin â'r hyn a ddisgwylir o ran presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad yn y dosbarth, o amgylch yr ysgol, ar y daith o'r cartref i'r ysgol ac ar dripiâu ysgol.

4.7.2 Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn egluro hawl yr ysgol i gymryd camau disgyblu i gosbi disgyblion pan fydd eu hymddygiad yn disgyn islaw'r safon y byddai'n rhesymol ei disgwyl ganddynt. Bwriad y camau disgyblu hyn yw nodi'n glir i'r disgybl ei hun ac i gymuned yr ysgol beth yw'r ffiniau ymddygiad a ystyrir yn dderbyniol.

4.7.3 Mae presenoldeb gwael neu afreolaidd yn amharu ar y dysgu a'r addysgu i bawb a gallai fod yn gysylltiedig â phroblemau ymddygiad cyffredinol.

4.7.4 Dylai'r cod hybu presenoldeb cyson a dylai gael ei gefnogi gan fesurau effeithiol i fynd i'r afael ag absenoldeb. Mae canllawiau pellach ar bresenoldeb i'w gweld yn adran 5.

4.7.5 Fel gyda'r polisi ymddygiad a phresenoldeb ei hun, mae'n arfer effeithiol i gynnwys disgyblion a rhieni/gofalwyr yn y broses o lunio cod ymddygiad, a sicrhau bod pob un o'r rhieni/gofalwyr, gan gynnwys unrhyw rai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, yn cael cyfle i gyfrannu.

4.7.6 Mewn rhai achosion, os yw disgyblion yn cael anhawster i ddeall y rheolau sydd yn y cod ymddygiad, bydd angen cymorth ychwanegol i gynorthwyo'r disgyblion hyn i gyfrannu tuag at yr egwyddorion ac i'w dilyn.

Cwmpas

4.7.7 Mae cod ymddygiad effeithiol yn berthnasol drwy gydol y diwrnod ysgol yn ogystal â chyn ac ar ôl yr ysgol. Mae'n nodi'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer ymddygiad cadarnhaol bob amser, gan gynnwys ar y daith i'r ysgol ac oddi yno. O ganlyniad, dylai'r cod fod yn gydnaws â gofynion y Cod Teithio.

¹¹⁸ www.legislation.gov.uk/ukxi/2010/1154/contents/made

4.7.8 Mae'n bwysig dros ben bod y cod ymddygiad yn nodi'n glir y byddai camymddwyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, er enghraifft wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol, yn cael ei ystyried yn fater o dorri rheolau'r ysgol. Yn y pen draw gall fod yn sail i wahardd disgybl o'r ysgol.

Gwobrwyo

4.7.9 Dylai'r cod ymddygiad gael ei gefnogi gan system gydlynol o wobrau ac ni ddylid cymryd ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cyson yn ganiataol. Dylid mynd ati i addysgu ac ategu'r pethau hyn. Mae ymchwil yn dangos bod gwobrau yn llawer mwy effeithiol na chosbau er mwyn cymell disgyblion.

4.7.10 Dylai gwobrau amrywiol fod ar gael a dylai'r polisi gyfeirio'n benodol at sut y bydd yr ysgol yn sefydlu hinsawdd lle mae canmoliaeth ac anogaeth yn llawer mwy cyffredin na chosbi a cheryddu. Mae canmoliaeth yn dechrau â defnydd aml o iaith ac ystumiau calonogol mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, fel bod ymddygiad cadarnhaol, prydlondeb a phresenoldeb cyson yn cael eu cydnabod ar unwaith. Mae hyn yr un mor bwysig hyd yn oed os ydynt yn cael eu gweld fel y norm yn yr ysgol.

4.7.11 Gellir defnyddio system wobrwyo fwy ffurfiol o gredydau a theilyngdod i gydnabod a llongyfarch yr holl ddisgyblion pan fyddant yn gosod esiampl dda neu'n dangos gwelliant yn eu hymddygiad neu eu presenoldeb eu hunain. Mae llythyrau at rieni/gofalwyr a breintiau arbennig ymhlith llawer o ffyrdd effeithiol iawn o ddangos canmoliaeth am ymddygiad a phresenoldeb da. Dylid rhoi sylw penodol i'r rhai hynny sydd wedi cael eu cysylltu ag ymddygiad gwael neu sydd wedi bod yn llai tebygol o gyrraedd safonau fel nad yr un disgyblion ('da') sy'n cael eu canmol a'u gwobrwyo bob tro. Dylid monitro'r gwobrau a roddir ar sail ethnigrwydd, rhyw, AAA, ac ati. Dylai unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg arwain at gamau gweithredu priodol.

4.7.12 Wrth sefydlu diwylliant o ganmol yn yr ysgol, dylai'r polisi nodi sut y gall staff adnabod agweddau cadarnhaol ar ymddygiad disgybl. Gallai trefniadau addas gynnwys:

- monitro systemau gwobrwyo yn rheolaidd a chynnwys adroddiad ar hyn yn archwiliad ymddygiad a phresenoldeb blynyddol yr ysgol
- sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gael ei ganmol ac y rhoddir canmoliaeth am welliant personol
- amrediad eang o wobrau ffurfiol, e.e. anfon cardiau post 'Llongyfarchiadau' a 'Newyddion da' gartref, llythyrau personol i rieni/gofalwyr, cyhoeddi gwobrau o amgylch yr ysgol, tystysgrifau sy'n cydnabod cyfraniad cadarnhaol i gymuned yr ysgol, gwasanaethau dathlu lle gwahoddir rhieni/gofalwyr, ac ati
- atgoffa staff yn aml mewn sesiynau briffio, gwasanaethau, ac ati, am bwysigrwydd dathlu llwyddiant er mwyn i ddisgyblion na fyddai'n cael eu canmol am ymddygiad cadarnhaol fel arfer, er enghraifft, gael eu cydnabod yn neilltuol yn sgil llwyddiant mewn cylch y tu allan i'r ysgol
- cynlluniau cymhelliant i gydnabod cyflawniadau disgyblion o ran presenoldeb. Gallai'r rhain gynnwys cynnig tystysgrifau presenoldeb, ar gyfer disgyblion unigol neu ar gyfer grwpiau o ddisgyblion (dosbarth neu flwyddyn).

4.7.13 Mae angen i gynlluniau o'r fath sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwobrwyo disgyblion â chofnod presenoldeb rhagorol a'r rheini sy'n cyflawni gwelliannau sylweddol yn eu presenoldeb.

Cosbau

4.7.14 Mae angen graddfa o gosbau ar ysgolion ar gyfer camymddygiad a bod yn hwyr, a rhybuddion ar gyfer presenoldeb gwael. Dylai'r polisi egluro pam y mae angen y cosbau hyn. Bwriad cosbau effeithiol yw hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb yn hytrach na chosbi disgyblion. Maent yn fwyaf buddiol pan fydd pawb yn meddwl amdanynt fel arfau ataliol. Os oes angen defnyddio cosbau'n aml, yna mae'n amlwg nad ydynt yn effeithiol. Mae'n well i'r aelod staff dan sylw ddefnyddio cosbau yn y fan a'r lle. Golyga hyn fod yn rhaid i bob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o bolisiâu'r ysgol a bod wedi'i hyfforddi'n ddigonol i'w gweithredu.

4.7.15 Un ffordd o ddatblygu graddfa briodol o gosbau yw defnyddio sesiwn hyfforddi ar gyfer staff yr ysgol gyfan neu drafodaeth ar lefel yr ysgol gyfan, gan gynnwys disgyblion, ar y gwahanol fathau o gamymddwyn. Gall hyn helpu i greu cytundeb rhwng y staff a'r disgyblion ynghylch yr hyn a gaiff ei ystyried yn gamymddygiad ar lefel isel (e.e. camymddygiad lle na fydd angen ond cerydd tawel) a chamymddygiad difrifol (lle bydd angen cyfeirio achosion at staff uwch a defnyddio strategaethau ymyrryd amrywiol). Yr amcan o safbwynt hyfforddi yw sicrhau bod pawb yn deall rheolau'r ysgol, a beth yn union yw cosbau sy'n gymesur ac wedi'u gwahaniaethu, a'r trothwyon ar gyfer eu defnyddio.

4.7.16 Yn yr un modd â gwobrau, y gosb fwyaf effeithiol yw cerydd syml a gefnogir gan awdurdod staff o fewn yr ysgol. Yn achos camymddygiad ar y daith o'r cartref i'r ysgol, dylai cerydd gael ei gefnogi gan awdurdod staff yr ysgol mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol a gweithredwyr gwasanaeth cludiant i'r ysgol (megis gyrwyr bysiau). Mae cysondeb yn hanfodol a dylai'r polisi nodi sut y bydd pob aelod o'r staff yn cael ei annog i geryddu yn gynnil ac yn deg. Dylid monitro cosbau yn ôl ethnigrwydd, rhyw, AAA, ac ati. Dylai unrhyw batrymau a amlygir arwain at gamau gweithredu priodol. Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad ac amgylchiadau'r disgybl unigol, gallai cyfeirio'r achos at aelod o'r staff uwch arwain at: ymgynghori â'r rhiant/gofalwr a'r awdurdod lleol (mewn achosion lle torwyd y Cod Teithio), cysylltu â staff amlasiantaethol, defnyddio systemau cofnodi parhaus (llyfrau, cardiau) ar gyfer y disgybl, a/neu greu rhaglen o gymorth bugeiliol.

4.7.17 Dylid cefnogi awdurdod yr ysgol â nifer o gosbau am dorri'r cod, yn amrywio o lythyrau i rieni/gofalwyr, colli breintiau, gan gynnwys dileu darpariaeth gludiant o'r cartref i'r ysgol, amryw o ffyrdd o gadw'r disgybl ar ôl yr ysgol, i wahardd y disgybl am y camymddygiad mwyaf difrifol. Dylai'r polisi ymddygiad a phresenoldeb nodi polisi'r ysgol ar wahardd ac mae angen iddo fod yn gyson â'r canllawiau a roddwyd yn *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Llywodraeth Cymru, 2012).

4.7.18 Gall ysgolion fonitro ymddygiad disgyblion a defnyddio cosbau mewn sawl ffordd. Gallant, er enghraifft, ddefnyddio cofnodion megis cynllunwyr staff neu gynllunwyr disgyblion, siartiau wal neu systemau cofnodi data cyfrifiadurol. Mae'n bwysig cofnodi ymddygiad dymunol ac annymunol er mwyn dod i gasgliadau

cytbwys. Gall y math hwn o ddata helpu i nodi amseroedd a lleoliadau cyffredin ar gyfer cosbi gan nodi felly lle byddai angen ymyriadau pellach er mwyn cefnogi staff.

4.7.19 Mae cosbau'n fwy tebygol o hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cyson os bydd disgyblion yn eu hystyried yn rhai teg. Dylai'r canllawiau ar gyfer gweithredu polisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol felly gynghori staff i:

- egluro mai'r bwriad yw delio â'r ymddygiad, nid condemnio'r person
- defnyddio cosbau sydd wedi'u hanelu at y cyfnod lleiaf posibl a pheidio â rhoi cosbau llym yn rhy gynnar, ond eu cadw yn hytrach ar gyfer y camymddygiad mwyaf difrifol
- osgoi sefyllfa lle bo cosbau yn cronni ac yn cael eu rhoi yn awtomatig (dylai cosbau bob amser ystyried anghenion yr unigolyn, ei oed a'i ddealltwriaeth)
- peidio â rhoi cosb i grwpiau cyfan, gan gosbi'r rhai dieuog yn ogystal â'r rhai euog
- lle bo modd, defnyddio cosbau sy'n deillio'n rhesymegol o ymddygiad amhriodol y disgybl (e.e. os nad yw'r gwaith wedi'i orffen yn y dosbarth gallai'r athro/athrawes orfodi'r disgybl i aros yn y dosbarth adeg egwyl er mwyn ei orffen)
- defnyddio cosbau i helpu'r disgybl a disgyblion eraill i ddysgu o'u camgymeriadau a chydabod sut y gallant wella eu hymddygiad
- cynllunio i alluogi'r disgybl i ddangos ei fod yn gallu ymddwyn yn dda cyn gynted ag y bo modd
- lle bo'n briodol, defnyddio cosbau i unioni'r niwed a achoswyd
- peidio byth â defnyddio cosb sy'n bychanu nac yn diraddio
- bod yn dawel ac o dan reolaeth wrth gosbi
- sicrhau bod cosb yn cael ei hystyried yn gam anochel a'i bod yn cael ei defnyddio'n gyson (dylai disgyblion wybod y bydd cosb, pan gaiff ei chrybwyll, yn cael ei defnyddio)
- ceisio cysylltu'r cysyniad o gosbi â'r cysyniad o ddewis, fel bo'r disgyblion yn gweld y cysylltiad rhwng eu hymddygiad eu hunain a'i effaith arnynt hwy eu hunain ac eraill, ac yn y pen draw yn cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain
- ystyried amgylchiadau unigol, e.e. bydd cosbi disgybl sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr oherwydd ei fod ef neu hi'n gofalu am frodyr neu chwiorydd iau yn gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn un anodd; byddai'n well defnyddio system gyfeirio'r ysgol er mwyn trefnu cymorth i wella prydlondeb y disgybl
- annog disgyblion i fyfyrwyr ar effeithiau camymddwyn neu absenoldeb eraill yng nghymuned yr ysgol, fel rhan o addysgu a thrafodaethau bob dydd.

4.7.20 Dylai ysgolion edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio camau i unioni unrhyw niwed a wnaed cyn belled ag y bo modd ac i adfer perthynas pobl â'i gilydd. Mae gweithredu o'r fath yn gweithio orau gyda'r ysgol gyfan, ac mae'n bwysig bod pawb sy'n defnyddio'r dulliau hyn wedi derbyn hyfforddiant priodol.

4.7.21 Mae angen i ysgolion ganolbwyntio ar wneud yr hyn a allant i osgoi ymyrryd yn gorfforol. Fodd bynnag, os bydd hi'n angenrheidiol ar unrhyw adeg i ffrwyno disgybl yn gorfforol neu ddefnyddio grym rhesymol er diogelwch y disgybl ei hun neu eraill, yna bydd angen i staff yr ysgol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a

nodir yn *Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau*¹¹⁹ (Llywodraeth Cymru, 2012).

4.8 Ymddygiad y tu allan i'r ysgol

4.8.1 Mae adran 89(5A) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi pŵer statudol i benaethiaid reoli ymddygiad disgyblion yn yr amgylchiadau hyn 'i'r graddau y bo'n rhesymol'. Ysgolion unigol sydd yn y sefyllfa orau i farnu beth sy'n rhesymol i'w hamgylchiadau arbennig nhw. Fodd bynnag, mae paragraff 4.8.4 yn awgrymu ffactorau y gallai ysgol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

4.8.2 Er bod modd i ysgolion reoleiddio rhai mathau o ymddygiad oddi ar dir yr ysgol, ni ellir cosbi ymddygiad oni bai ei fod yn digwydd ar dir yr ysgol neu pan fo'r disgybl o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon aelod o'r staff. Gallai disgybl felly gael ei gosbi ar drip ysgol, ond nid pan fyddai ar y ffordd adref o'r ysgol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai'r aelod o'r staff ddweud wrth y disgybl ei fod wedi cael ei weld yn camymddwyn ac y bydd yn cael ei gosbi, ond rhaid iddo aros tan y tro nesaf y bydd y disgybl yn yr ysgol cyn ei gosbi.

Ymdrin ag achosion o gamymddwyn ar safle'r ysgol ac mewn lleoedd eraill

4.8.3 Dylai polisi effeithiol ar ymddygiad disgyblion a disgyblaeth mewn ysgolion osod disgwyliadau hefyd ar gyfer ymddygiad cadarnhaol oddi ar safle'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad disgyblion wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol, megis lleoliadau profiad gwaith, ymweliadau addysgol a digwyddiadau chwaraeon; ymddygiad disgyblion ar y ffordd i'r ysgol ac oddi yno; ac ymddygiad disgyblion wrth wisgo gwisg ysgol (os oes ganddynt wisg ysgol) mewn lle cyhoeddus.

4.8.4 Rhaid i ysgolion weithredu'n rhesymol, o ran disgwyliadau ar gyfer ymddygiad disgyblion, ac o ran unrhyw fesurau a gyflwynir er mwyn rheoli ymddygiad disgyblion pan fyddant oddi ar safle'r ysgol ond heb fod o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon aelod o staff yr ysgol. Dylai'r ysgol benderfynu beth i'w ystyried wrth benderfynu a yw rheol neu gosb yn rhesymol mewn achos penodol. Byddai'n rhesymol i ysgol ystyried y ffactorau canlynol (na fyddant yn gymwys ar gyfer pob digwyddiad).

- Difrifoldeb y camymddygiad.
- I ba raddau yr effeithiwyd ar enw da'r ysgol?
- A oedd y disgybl(ion) dan sylw yn gwisgo gwisg ysgol neu a oedd(ent) yn hawdd i'w (h)adnabod mewn ffordd arall fel aelod(au) o'r ysgol?
- I ba raddau y byddai yna ganlyniadau i'r ymddygiad dan sylw o ran rhedeg yr ysgol yn drefnus a/neu i ba raddau y gallai'r ymddygiad fod yn fygythiad i ddisgybl neu aelod arall o'r staff (e.e. bwllo disgybl arall neu fychanu aelod o'r staff)?
- A ddigwyddodd y camymddygiad dan sylw ar y ffordd i'r ysgol neu ar y ffordd oddi yno, y tu allan i gatiau'r ysgol neu yn rhywle arall yn agos at yr ysgol?
- A ddigwyddodd y camymddygiad pan oedd y disgybl ar brofiad gwaith, pan oedd yn cymryd rhan mewn cwrs addysg bellach yn rhan o raglen a drefnwyd gan yr ysgol neu pan oedd yn cymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon gydag ysgol

¹¹⁹ <http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/safeandeffective/?skip=1&lang=cy>

arall (h.y. pan ellid disgwyl i'r disgybl fod yn llysgennad ar ran yr ysgol) gan beryglu'r cyfleoedd a allai gael eu cynnig i ddisgyblion eraill yn y dyfodol?

- A oedd y disgybl(ion) yn chwarae triwant?

4.8.5 Wrth ystyried ffactorau o'r fath byddai achos cryf, er enghraifft, o blaid cosbi disgybl am aflonyddu ar aelod o'r staff oddi ar safle'r ysgol, gan gynnwys aflonyddu drwy'r rhyngwrwyd. Byddai achos cryf hefyd dros gosbi disgybl am siarad yn sarhaus ag aelodau o'r cyhoedd ar y bws ar y ffordd i'r ysgol. Fodd bynnag, byddai'r achos o blaid cosbi disgybl am siarad yn sarhaus â rhywun nad oedd ganddo gysylltiad â'r ysgol yn ystod y penwythnos gryn dipyn yn wannach. Wrth reswm, nid yw hyn yn golygu na ddylai ysgolion gymryd unrhyw ddiddordeb mewn ymddygiad nad ydynt yn gyfrifol am ei reoli. Gallai cyswllt rhwng yr ysgol a'r swyddogion hynny yn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn.

4.8.6 Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ysgolion gysylltu pa ffactorau bynnag y byddant yn penderfynu eu defnyddio â chyfres o amcanion cyffredinol a fydd yn egluro'n glir pam y defnyddir polisi i reoli ymddygiad oddi ar safle'r ysgol. Gallai amcanion o'r fath gynnwys:

- cadw trefn ar gludiant, ac wrth gerdded neu feicio i'r ysgol ac oddi yno, ymweliadau addysgol neu leoliadau eraill megis profiad gwaith neu gyrsgiau coleg
- sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn mewn ffordd nad yw'n fygythiad i ieuchyd na diogelwch y disgyblion, y staff nac aelodau o'r cyhoedd
- rhoi sicrwydd i ddisgyblion a allai deimlo eu bod yn cael eu bygwth neu eu dychryn gan ymddygiad lleiafrif bychan o'u cyfoedion neu ddieithriaid peryglus
- rhoi sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd ynghylch y gofal a'r rheolaeth dros y disgyblion yn yr ysgol, a thrwy hynny ddiogelu enw da'r ysgol
- ddiogelu aelodau unigol o'r staff rhag ymddygiad niweidiol gan ddisgyblion yr ysgol pan na fyddant ar safle'r ysgol.

4.8.7 Mae llawer o weithgareddau estynedig yr ysgol yn digwydd oddi ar safle'r ysgol. Gellir delio ag ymddygiad yn ystod gweithgareddau o'r fath yn yr un modd ag ymddygiad mewn gweithgaredd arall ar safle'r ysgol. Byddai'n rhesymegol delio ag ymddygiad yn ystod gweithgareddau ysgol estynedig oddi ar safle'r ysgol nad ydynt yn cael eu goruchwyllo gan staff yr ysgol yn yr un modd ag ymddygiad disgyblion pan fyddant ar leoliad mewn coleg addysg bellach neu ar brofiad gwaith.

4.9 Cymryd eiddo oddi ar rywun

4.9.1 Ym mis Hydref 2010 cyflwynodd Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ddau bŵer newydd i ysgolion yn ymwneud â chymryd eiddo oddi ar rywun. Yn gyntaf, mae'r pŵer cyffredinol i orfodi cosbau disgyblu, sy'n cynnwys defnyddio'r broses o gymryd eiddo oddi ar rywun fel cosb ddisgyblu. Mae hynny'n cynnwys atafaelu a hefyd, lle bo'n briodol, gadw neu waredu eitemau penodol. Fel gyda chosbau eraill, rhaid defnyddio'r gosb o gymryd eiddo mewn modd sy'n rhesymol ac yn gymesur. Byddai'n gwbl briodol fodd bynnag i ysgol gynnwys cymryd eiddo yn un o'r mesurau disgyblu y gellid eu defnyddio yn rhan o bolisi ymddygiad ysgol. Bydd angen i drafodaethau gyda disgyblion pan fydd polisi ymddygiad ysgol gyfan yn cael ei

ddatblygu gynnwys cyfeiriad at yr hyn y mae'r polisi yn ei ddweud ynghylch cymryd eiddo oddi ar rywun.

4.9.2 Yn ail, mae'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cynnig amddiffyniad statudol penodol i aelod o'r staff os gall brofi iddo fynd ati'n gyfreithlon i gymryd ymaith yr eiddo, ei gadw neu ei waredu. Mae cymryd ymaith eiddo disgyblion neu ei gadw neu ei waredu'n anghyfreithlon yn ymyrryd â hawliau'r disgybl hwnnw o dan Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n gwarantu'r hawl i unigolyn fwynhau ei eiddo a hynny mewn heddwch. Mae hefyd yn ymyrryd â hawliau'r disgybl o dan gyfraith ddomestig. Canlyniad hyn yw na all athro/athrawes neu aelod arall o'r staff fynd ag eiddo'r disgybl neu ei gadw neu ei waredu oni bai fod ganddo'r awdurdod i wneud hynny. Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cynnig yr awdurdod hwn pan fydd cymryd ymaith eiddo yn gosb ddisgyblu gyfreithlon. Cyfrifoldeb yr aelod o'r staff sy'n cymryd ymaith yr eiddo yw dangos iddo wneud hynny'n gyfreithlon gan mai ef neu hi a wnaeth y penderfyniad i ymyrryd â'r eiddo.

4.9.3 Dylai ysgolion nodi, fodd bynnag, mai'r unig bŵer cyfreithiol sydd gan staff ysgol i archwilio disgyblion yw er mwyn chwilio am arfau. Gellid gofyn yn rhesymol i ddisgybl ddatgelu'r hyn sydd ganddo yn ei bocedi neu drosglwyddo eitem megis chwaraewr cerddoriaeth personol sy'n aflonyddu ar eraill, a gallai'r ysgol ddefnyddio ei phŵer cyfreithiol i ddisgyblu os yw'r disgybl yn afresymol ac yn gwrthod cydweithredu. Fodd bynnag, os credir bod angen i ddisgybl gael ei archwilio am gyffuriau anghyfreithlon neu eiddo sydd wedi'i ddwyn dyweder, yr heddlu ddylai wneud hynny yn hytrach na staff yr ysgol.

4.9.4 Er mwyn i'r weithred o gymryd eiddo oddi ar rywun fod yn gyfreithlon rhaid i'r weithred fod yn gymesur, yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd ac yn unol â nod sy'n gyfreithlon. Yn gyffredinol, y nod wrth fynd ag eiddo oddi ar rywun yw creu amgylchedd sy'n hybu'r broses o ddysgu, gan ddiogelu hawliau disgyblion eraill i gael eu haddysgu. Fodd bynnag, mae cymesuredd yn berthnasol iawn, ac mae hynny yn ei dro yn dibynnu ar werth yr eiddo. Os yw disgybl yn chwarae cerddoriaeth yn uchel ar chwaraewr cerddoriaeth personol, mae'n debyg y byddai dinistrio'r teclyn ar ôl ei atafaelu yn anghymesur. Byddai cymryd camau o'r fath yn anghyfreithlon felly. Byddai mynd â'r teclyn a'i roi yn ôl ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn fwy tebygol o fod yn ymateb cymesur. Ar y llaw arall, os cymerwyd pêl bapur neu ddarn o gwm cnoi, byddai ei waredu yn debygol o fod yn ymateb cymesur.

4.9.5 Dylai ysgolion nodi hefyd, tra byddai cymryd ffôn symudol yn gam cyfreithlon i'w gymryd, byddai chwilio drwy ffôn neu edrych ar y negeseuon testun heb ganiatâd y disgybl yn anghyfreithlon. Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn rhesymol i aelod o'r staff ofyn i ddisgybl ddatgelu neges er mwyn sefydlu a ddigwyddodd achos o seiberfwlio, er enghraifft, ond os yw disgybl yn gwrthod yna ni ddylai'r aelod o'r staff ei orfodi i wneud hynny. Gall yr aelod o'r staff, fodd bynnag, roi cosb ddisgyblu am fethu â chydymffurfio â chais rhesymol.

Y meini prawf ar gyfer cymryd eiddo oddi ar rywun

4.9.6. Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw penderfynu ar y meini prawf hyn yng ngoleuni eu polisïau eu hunain ynghylch gwisg ysgol neu ymddygiad yn gyffredinol. Gallent gynnwys:

- eitem sy'n fygythiad i eraill, e.e. pin laser yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw disgyblion eraill ac aelodau o'r staff ac o bosibl i wneud niwed iddynt
- eitem sy'n fygythiad i'r drefn o ddysgu, e.e. disgybl yn defnyddio chwaraewr cerddoriaeth personol yn y dosbarth
- eitem sy'n torri rheolau iwnifform yr ysgol, e.e. disgybl yn gwrthod tynnu ei gap pêl-fasged wrth ddod i mewn i'r ystafell ddosbarth
- eitem sy'n fygythiad i iechyd a diogelwch, e.e. gallai disgybl sy'n gwisgo modrwyau addurniadol mawr yn y gwersi addysg gorfforol fod yn fygythiad i ddisgyblion eraill
- eitem sy'n groes i ethos yr ysgol, e.e. deunydd a allai achosi tensiwn rhwng un gymuned ac un arall
- eitem sy'n anghyfreithlon i blentyn ei chael, e.e. deunydd pornograffig. Gellir cytuno ar brotocolau i ddelio ag eitemau o'r fath gyda'r heddlu lleol (drwy swyddog cyswllt yr heddlu ag ysgolion os oes un gan yr ysgol).

Cymryd eitemau o ddillad neu emwaith oddi ar rywun

4.9.7 Dylai ysgolion fod yn hynod ofalus wrth benderfynu a ddylid cymryd eitemau o ddillad neu emwaith oddi ar ddisgybl. Dylent ystyried yn benodol a oes gan yr eitem dan sylw arwyddocâd crefyddol neu ddiwylliannol arbennig i'r disgybl a dylent osgoi unrhyw gyswllt neu ymyrraeth gorfforol â dillad y disgybl o'r math a allai arwain at honiadau yn seiliedig ar gam-drin plant. Er mwyn lleihau peryglon o'r fath, dylai ysgolion sicrhau, os bydd eitem o ddillad neu emwaith yn cael ei chymryd oddi ar ddisgybl, y caiff hynny ei wneud gan aelod o'r staff sydd o'r un rhyw â'r disgybl gydag aelod arall o'r staff yn bresennol hefyd lle bo modd. Dylid osgoi cymryd eitem o ddillad a fyddai'n golygu y byddai'r disgybl ond wedi'i orchuddio'n rhannol o ganlyniad i hynny.

Technolegau cyfathrebu symudol (gan gynnwys ffôn symudol a thechnolegau diwifr)

4.9.8 Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt bolisi clir ynghylch defnyddio a meddu ar ffonau symudol. Dylai hyn gynnwys datganiadau clir ynghylch pwerau cymryd rhywbeth oddi ar rywun, gan ystyried:

- diogelwch disgyblion ar y siwrnai adref a phryderon rhieni/gofalwyr ynghylch y mater hwn – dylai ysgolion roi yn ôl unrhyw ffonau a gymerwyd cyn y bydd y disgybl yn gadael safle'r ysgol os yw'r ffactorau hyn yn rhai perthnasol
- rheolau byrddau arholi ac ysgolion ynghylch defnyddio technolegau o'r fath mewn sefyllfaoedd arholi, gan gynnwys gwaith cwrs dan arolygaeth
- y ffaith ei bod yn annerbyniol i ddisgyblion ddefnyddio ffonau neu offer technolegol arall i fychanu neu fwlio aelodau eraill o gymuned yr ysgol (e.e. anfon negeseuon testun sarhaus, seiberfwlio neu ddefnyddio ffonau camera at ddibenion 'happy

slapping', h.y. recordio a throsglwyddo delweddau o gam-drin neu ddsbarthu delweddau amhriodol)

- a yw'n briodol ym marn yr ysgol, ac ym mha amgylchiadau, i ddweud wrth rieni/gofalwyr eu bod wedi cymryd yr eitemau dan sylw oddi ar y disgybl.

Am ba hyd y dylid cymryd rhywbeth oddi ar ddisgybl

4.9.9 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r weithred o gymryd rhywbeth oddi ar ddisgybl yn ddigon o gosb ynddo'i hun, ac mae dychwelyd yr eitem ar ddiwedd y wers, y sesiwn ysgol, neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn ddigon o amser i atgyfnerthu rheol yr ysgol. Mae hyn hefyd yn lleihau'r posibilrwydd y gallai problemau godi gydag eitemau yn mynd ar goll yng ngofal staff yr ysgol.

4.9.10 Gall fod yna rai achosion pan fydd yr ysgol yn penderfynu peidio â dychwelyd yr eitem i'r disgybl. Er enghraifft:

- eitemau nad oes unrhyw werth iddynt, er enghraifft gellir gwaredu neges amhriodol a fydd wedi'i hysgrifennu ar ddarn o bapur. Fodd bynnag, dylai ysgolion gadw mewn cof bod yna rai eitemau a fydd yn ymddangos yn ddiwerth ond a fydd o werth emosiynol i'r plentyn. Dylai'r staff wneud yn siŵr felly a yw hyn yn wir yn achos yr eitem a gymerwyd oddi ar ddisgybl cyn penderfynu a ellir ei gwaredu ai peidio
- gallai eitemau o werth na ddylai'r disgybl fod wedi dod â nhw i'r ysgol neu y mae'r disgybl wedi'u camddefnyddio mewn rhyw fodd gael eu cadw'n ofalus yn yr ysgol nes bydd oedolyn cyfrifol o'r teulu yn gallu dod i'w nôl – os bydd yr ysgol yn teimlo bod hyn yn briodol ac yn rhesymol. Er enghraifft, nid oes rheswm derbyniol pam y dylai disgybl o oedran ysgol gorfodol ddod â leitar sigarêts i'r ysgol. O dan amgylchiadau o'r fath byddai cadw'r eitem dan sylw yn gam rhesymol i'w gymryd er mwyn diogelu'r eiddo ac er mwyn trafod a yw'r disgybl yn smygu a sut y dylid delio â hynny
- gall eitemau eraill na ddylent fod wedi bod ym meddiant y disgybl – yn enwedig eitemau anghyfreithlon neu beryglus eu natur – gael eu rhoi gan yr ysgol i asiantaeth allanol er mwyn eu gwaredu neu er mwyn cymryd camau pellach fel y bo'n ofynnol. Yn sgil hyn, dylid anfon llythyr at y rhieni/gofalwyr yn cadarnhau y cymerwyd y camau hynny a'r rhesymau dros gymryd camau o'r fath.

Beth i'w wneud ag eitemau a gymerwyd oddi ar ddisgyblion

4.9.11 Dylai ysgolion gadw cofnod o'r eitemau a gymerwyd oddi ar ddisgyblion a'r rhesymau dros gymryd y camau hynny, fel y gellir eu cyfiawnhau yn ddiweddarach os cânt eu herio. Bydd rhai ysgolion yn ysgrifennu nodyn yn llyfr y disgybl er mwyn dweud wrth rieni/gofalwyr y disgybl y cymerwyd eitem oddi arno, ac yn gofyn i'r nodyn gael ei gydlfnodi yn syth.

4.9.12 Mae gan ddisgyblion yr hawl i ddisgwyl i eitemau a gymerwyd oddi arnynt, yn enwedig eitemau o werth ariannol neu emosiynol, gael eu cadw'n ddiogel nes cânt eu dychwelyd iddynt. Ar gyfer eitemau sydd o werth amlwg, dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau storio priodol yn eu lle (e.e. mewn sêff, yn y swyddfa gyllid neu yn swyddfa'r pennaeth). Dylid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch trefniadau o'r fath. Os yw eitemau tebyg wedi'u cymryd oddi ar nifer o ddisgyblion – megis

ffonau symudol neu chwaraewyr cerddoriaeth personol – dylai ysgolion sicrhau eu bod yn glir pa eitem sy'n perthyn i ba ddisgybl.

4.9.13 Dylai staff yr ysgol gael cyngor arbenigol ynglŷn â rhai eitemau, e.e. os amheuir bod cyffuriau neu eitemau anghyfreithlon a allai gael eu defnyddio fel arfau. Dylai ysgolion, ar y cyd ag awdurdodau lleol, ddatblygu protocolau mewn partneriaeth â'r heddlu (yn seiliedig ar y Protocol Rhawd Ysgol Cenedlaethol), timau troseddau ieuenctid ac asiantaethau arbenigol eraill i ddelio â materion o'r fath ac i sicrhau bod ysgolion yn gallu manteisio ar gymorth a chynghor arbenigol os bydd digwyddiad yn codi.

4.10 Cyfweiliadau ailintegreiddio

4.10.1 Mae adran 102 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn darparu y gall rheoliadau ei gwneud hi'n ofynnol i benaethiaid ysgolion ofyn i rieni/gofalwyr disgyblion a gafodd eu gwahardd am gyfnod penodol ddod i gyfweiliad ailintegreiddio yn yr ysgol gyda'r pennaeth neu unrhyw berson arall a awdurdodir gan y pennaeth. Daeth Rheoliadau Addysg (Cyfweiliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010 i rym ar 5 Ionawr 2011.

4.10.2 Ceir darpariaeth yn y rheoliadau ynghylch y terfyn amser ar gyfer y cyfweiliad ailintegreiddio, y drefn ar gyfer trefnu'r cyfweiliad a sut i gysylltu â'r rhieni/gofalwyr i ofyn iddynt ddod i'r cyfweiliad. Mae'r rheoliadau'n nodi:

- bod y cais i ddod am gyfweiliad yn berthnasol i bob gwaharddiad am gyfnod penodol ar gyfer disgyblion cynradd, ond yn achos disgyblion uwchradd, dim ond i waharddiadau am gyfnod penodol o chwe diwrnod neu ragor y mae'n berthnasol. Disgwylir i rieni/gofalwyr ddod i'r cyfweiliad, ond ni ellir eu gorfodi
- bydd angen i'r cyfweiliadau ailintegreiddio gael eu cynnal o fewn 15 niwrnod ysgol wedi diwrnod olaf cyfnod y gwaharddiad
- mae'n ofynnol i benaethiaid hysbysu'r rhieni/gofalwyr ynghylch holl fanylion perthnasol y cyfweiliad ailintegreiddio
- rhaid i ysgolion gynnig cyfweiliadau ailintegreiddio ac nid oes angen gofyn i rieni/gofalwyr ddod i gyfweiliad ailintegreiddio os yw diwrnod cyntaf y gwaharddiad o fewn 10 niwrnod olaf y flwyddyn ysgol neu os disgwylir i'r disgybl adael yr ysgol am reswm nad yw'n gysylltiedig â'i ymddygiad cyn diwedd y cyfnod gofynnol o 15 niwrnod ar gyfer y cyfweiliad.

4.10.3 Mae llawer o ysgolion yn cynnal cyfweiliadau ailintegreiddio ar gyfer rhieni/gofalwyr disgyblion a waharddwyd fel rhan o'u harferion da. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r pennaeth (neu unrhyw berson arall a awdurdodir gan y pennaeth) drafod â'r rhieni/gofalwyr y ffordd orau o fynd ati i sicrhau bod y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ac unrhyw gymorth pellach y mae ei angen arno er mwyn llwyddo. Ystyrir y byddai cyfweiliadau ailintegreiddio yn elfen bwysig ychwanegol i sicrhau bod mwy o rieni/gofalwyr yn cysylltu ag ysgolion er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad eu plentyn, ac am y rheswm hwnnw mae'n orfodol i ysgolion ofyn i rieni/gofalwyr ddod i gyfweiliadau ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiadau am gyfnod penodol.

4.10.4 Er nad yw'r rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i ysgolion ofyn i ddisgyblion ddod i'r cyfweiliadau ailintegreiddio dylai ysgolion sicrhau bod hyn yn elfen ganolog o'u gwaith. Dylid gwneud pob ymgais bosibl i annog plant a phobl ifanc i ddod i

gyfweiliadau ailintegreiddio neu i sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli'n ddigonol. Os yw plentyn yn dod i'r cyfweiliad yna bydd angen i'r ysgol sicrhau bod y cyfweiliad yn cael ei gynnal mewn modd sy'n galluogi'r plentyn i fod yn gyfforddus wrth leisio ei farn.

4.10.5 Mae'r cyfweiliad yn gyfle i:

- pwysleisio ei bod yn bwysig bod rhieni/gofalwyr yn gweithio gyda'r ysgol er mwyn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ymddygiad y plentyn
- trafod sut y gellir mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad
- trafod materion ehangach ac unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc
- dod i gytundeb ynghylch sut y dylai addysg y plentyn barhau, y ffordd orau o'i ailintegreiddio a pha fesurau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn osgoi enghreifftiau pellach o gamymddwyn.

4.10.6 Rhaid i'r pennaeth hysbysu'r rhiant/gofalwr yn ysgrifenedig ynglŷn â'r materion canlynol.

- Dyddiad, amser a hyd y cyfweiliad ailintegreiddio.
- Pwrpas y cyfweiliad.
- Dyletswydd y llys, wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn rhianta mewn perthynas â rhiant o dan adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 er mwyn ystyried methiant gan y rhiant, heb reswm rhesymol, i fynd i gyfweiliad ailintegreiddio mewn ymateb i gais i wneud hynny.

4.10.7 Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi o leiaf chwe diwrnod ysgol cyn dyddiad y cyfweiliad ailintegreiddio.

4.10.8 Rhaid cynnal y cyfweiliad ar ddiwrnod ysgol yn ystod y cyfnod, yn dechrau â'r diwrnod cyntaf y mae'r gwaharddiad yn berthnasol iddo ac yn dod i ben ar y pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod olaf y mae'r gwaharddiad yn berthnasol iddo. Byddai hyn yn berthnasol p'un a yw'r diwrnod ysgol yn syrthio yn yr un tymor ai peidio. Os yw'r pennaeth a'r rhiant/gofalwr yn cytuno, gellir cynnal y cyfweiliad ar ddiwrnod o fewn y cyfnod hwn nad yw'n ddiwrnod ysgol.

4.10.9 Cyn rhoi'r hysbysiad, rhaid i'r pennaeth (neu unrhyw berson arall a awdurdodir gan y pennaeth) wneud pob ymgais resymol i drefnu'r cyfweiliad ar ddyddiad ac amser (o fewn y cyfnod) a fydd yn gyfleus i'r rhiant/gofalwr.

4.10.10 Bydd awdurdodau lleol yn monitro ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y cyfweiliadau hyn i rieni/gofalwyr. Bydd methiant rhiant/gofalwr i ddod i'r cyfweiliad yn ffactor a ystyrir gan y llysoedd wrth benderfynu a ddylid rhoi gorchymyn rhianta i'r rhiant/gofalwr ai peidio (gweler is-adran 4.17). Er hyn, ni ddylai methiant rhiant/gofalwr i ddod i'r cyfweiliad effeithio ar gynlluniau i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol: ni ellir ymestyn gwaharddiad am nad oedd rhiant/gofalwr yn bresennol yn y cyfweiliad ailintegreiddio – canlyniad hyn fyddai cosbi'r plentyn am yr hyn a wnaeth y rhiant/gofalwr (neu'r hyn na wnaeth).

4.11 Systemau cymorth ar gyfer disgyblion

4.11.1 Yn ychwanegol at addysgu a dysgu rheolaidd am ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb cyson, a chefnogaeth cymuned ysgol drefnus a llawn gofal, bydd ar rai disgyblion angen cymorth ychwanegol i'w helpu i reoli eu hymddygiad a'u presenoldeb. Dylai'r polisi ymddygiad a phresenoldeb egluro sut y bydd yr ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion hyn ac yn gweithio i achub y blaen ar broblemau ymddygiad sy'n dwysáu, triwantiaeth ac absenoldebau heb eu hawdurdodi. Yn fwy penodol, dylai gyfeirio at y gweithdrefnau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i glustnodi'n gynnar y disgyblion hynny sydd fwyaf tebygol o fod angen cymorth ychwanegol, llunio cynlluniau cymorth a sefydlu ac adolygu rhaglen gymorth.

4.11.2 Mae canllawiau ymarfer effeithiol¹²⁰ ar gyfer nodi'n gynnar unrhyw bobl ifanc y mae perygl iddynt ymddieithrio wedi cael eu llunio er mwyn helpu awdurdodau lleol i weithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid.

4.11.3 Gellid nodi strategaethau amrywiol ar gyfer ymyrryd yn gynnar o fewn y polisi, gan gynnwys:

- adolygiadau bugeiliol rheolaidd i glustnodi'r disgyblion sydd mewn mwyaf o berygl, wedi'u cynnwys fel rhan o unrhyw adolygiadau o gynnydd academiaidd rheolaidd. Yn benodol, adolygiad o holl ddisgyblion Blwyddyn 9 i asesu unrhyw gymorth ychwanegol angenrheidiol cyn iddynt fynd ymlaen i Gyfnod Allweddol 4 (gweler is-adran 4.25 am fwy o wybodaeth). Dylid ystyried hyn wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth disgyblion (anogwyr dysgu, cefnogaeth bersonol a chynghor a chyfarwyddyd gyfaol) ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed
- gweithredu rhaglenni cymorth bugeiliol ar gyfer y disgyblion hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio neu gael eu gwahardd
- rhaglenni o gyrsiau byr ar agweddau penodol ar sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- cyswllt â rhieni/gofalwyr ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb heb eglurhad, a thrafodaeth rhwng y disgybl a'r staff sy'n gyfrifol am ei gofrestru
- cyswllt â rhieni/gofalwyr yng nghymunedau cynnar problem, yn hytrach na phan fydd y disgybl yn agos at gael ei wahardd
- cyfeiriadau at gyngor arbenigol gan asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol, naill ai ar gyfer yr unigolyn (e.e. gwasanaeth seicoleg addysg) neu'n fwy cyffredinol (e.e. tîm cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol)
- cyfeiriadau i uned ar wahân am gyfnod byr o gymorth ychwanegol y tu allan i amgylchedd arferol y dosbarth. Gall hyn fod ar ffurf 'grŵp anogaeth' lle mae disgyblion yn mynychu uned ar wahân am gyfnod byr bob dydd i'w paratoi ar gyfer y diwrnod ysgol. Defnyddir hyn yn bennaf ar gyfer disgyblion ysgol gynradd, ond mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3
- clybiau gwaith cartref ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu, yn enwedig os nad yw amgylchedd y cartref yn ffafriol i ddysgu
- ymgynghoriadau â rhieni/gofalwyr a sesiynau teulu
- cwnsela un i un gydag arbenigwr hyfforddedig neu gymorth gan fentoriaid/anogwyr dysgu neu gynorthwywyr addysgu hyfforddedig

¹²⁰ <http://lyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/early-identification-guidance/?skip=1&lang=cy>

- amser cylch i drafod problemau. Defnyddir hyn gan amlaf ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ond, â chymorth a hyfforddiant addas, gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n cael trafferthion
- 'symudiad a reolir' i ysgol arall ar gyfer disgyblion sydd ar fin cael eu gwahardd yn barhaol
- bydd gan nifer o'r disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol AAA. I gael rhagor o wybodaeth am gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gweler adran 3 a'r *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*.

4.11.4 Mae rhai ysgolion wedi cynhyrchu cyfeiriadur o wasanaethau cymorth a gall hwn, ynghyd â rhestr lawn o weithdrefnau ar gyfer sicrhau cymorth ychwanegol, fod yn adran arbennig o fuddiol mewn llawlyfr staff fel atodiad i'r polisi.

4.11.5 Gall cyfeirio disgyblion unigol at yr awdurdod lleol ar gyfer cyngor mwy arbenigol yn aml arwain at ddarpariaeth addysg amgen ar gyfer disgyblion, yn cynnwys darpariaeth y tu allan i'r ysgol, ar sail amser llawn neu ran-amser. Bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn cadw mewn cysylltiad llawn â disgyblion sy'n derbyn y fath ddarpariaeth ac sy'n parhau ar eu cofrestri, er mwyn eu cynorthwyo i ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd. Cynhwysir rhagor o wybodaeth ynghylch darpariaeth y tu allan i'r ysgol yn adran 6.

4.12 Systemau cymorth ar gyfer staff

4.12.1 Dylid annog pob aelod o staff i ddelio â mân achosion ac achosion achlysurol o gamymddygiad a phresenoldeb gwael pryd bynnag a lle bynnag y mae'n digwydd yn yr ysgol. Un o ddibenion polisi ymddygiad a phresenoldeb yw esbonio sut y bydd staff yn cael eu hawdurdodi i reoli camymddygiad a phresenoldeb gwael mwy difrifol. Mae datblygiad proffesiynol rheolaidd yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb yn bwysig. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod cymorth ar gael pan nad yw'r staff yn teimlo y gallant ymdopi â'r sefyllfa. Dylai polisi ymddygiad a phresenoldeb ysgol sicrhau bod ei systemau cymorth ar gyfer staff a disgyblion yn eglur. Yn benodol:

- dylai staff sy'n cael trafferth â dosbarth neu grŵp wybod ble i fynd i gael cymorth. Dylai hyn gynnwys cyngor a chefnogaeth gan gydweithwyr uwch, yn arbennig unrhyw rai â rôl benodol mewn darparu cyngor ar ymddygiad a hyfforddiant mewn rheoli ymddygiad. Dylai'r polisi sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd da ar gael ac y darperir deunyddiau a chysylltiadau priodol â gwasanaethau cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol. Gallai hyn gynnwys defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru, fel y Llawlyfrau Rheoli Ymddygiad ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, ac adnoddau eraill sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cryfhau'r cyfleoedd ar gyfer athrawon newydd gymhwyso drwy gyflwyno'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA), sy'n cynnwys modiwl rheoli ymddygiad. Mae'r adnoddau hyn ar reoli ymddygiad ar gael hefyd i unrhyw un yn y proffesiwn drwy wefan Dysgu Cymru¹²¹
- dylai staff sydd angen cyngor ar reoli ymddygiad a phresenoldeb disgyblion unigol wybod at bwy y gallant droi. Dylai cyfrifoldebau am ddarparu'r cymorth hwn fod wedi'u nodi'n glir yn y polisi, gan gynnwys, mewn achosion sy'n ymwneud â

¹²¹ dysgu.llyw.cymru/resources/learningpacks/mep/?skip=1&lang=cy

phresenoldeb mewn ysgol, pryd a sut y dylid cyfeirio disgybl at wasanaeth lles addysg yr awdurdod lleol. Dylai staff bugeiliol neu staff cymorth olrhain disgyblion unigol a dadansoddi data presenoldeb i ddod o hyd i unrhyw dueddiadau ar gyfer disgyblion, dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn unigol, er mwyn galluogi'r ysgol i dargedu ei hymdrechion. Mae'n arfer da i ysgolion ddadansoddi'r rhesymau y tu ôl i ddiffyg presenoldeb yn ystadegol. Bydd dealltwriaeth dda o'r rhesymau a roddir yn galluogi ysgolion a staff lles addysg i drefnu adnoddau'n effeithiol er mwyn lleihau absenoldebau.

4.12.2 Os yw disgybl wedi cael ei gyfeirio at aelod arall o'r staff ynglŷn â'i ymddygiad, dylid penderfynu a yw'r ymddygiad dan sylw yn:

- gamymddygiad syml; os felly efallai mai'r unig gamau i'w cymryd fydd cefnogi'r aelod staff i ddefnyddio cosb briodol a chytuno â phawb sy'n gysylltiedig sut y gellir atal hyn rhag digwydd eto
- symptom o broblemau sylfaenol sylweddol, gan gynnwys anawsterau dysgu a/neu gymdeithasol ac emosiynol. Os felly, er mwyn gallu canfod a thrin y broblem, dylai'r polisi amlinellu rôl aelodau staff penodedig yn y broses hon. Bydd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am ofyn am gymorth gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau eraill (e.e. seicoleg addysg, gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau cymorth ymddygiad, cwnsela plant a phobl ifanc, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a'r gwasanaethau cymdeithasol)
- canlyniad cythruddo drwy fwlio, gan gynnwys bwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig¹²². Rhaid i ysgolion gofnodi pob digwyddiad hiliol a hysbysu'r awdurdod lleol ynglŷn â nhw yn flynyddol o leiaf. Dylai ysgolion fod â gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â bwlio, fel rhan o'u polisi ymddygiad, a fydd yn cynnwys hysbysu rhieni/gofalwyr, a chynorthwyo'r dioddefwr a gweithio gyda'r sawl sydd wedi peri tramgwydd.

4.12.3 Dylai'r polisi hefyd nodi'r adnoddau y mae'r ysgol yn eu buddsoddi er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb. Gallai hyn gynnwys amser staff uwch yn ogystal ag adnoddau mwy arbenigol fel unedau cymorth dysgu, unedau anogaeth ac unedau ar wahân a darpariaeth hyfforddiant. Dylai staff gael arweiniad a chymorth ar faterion cydraddoldeb hiliol sy'n ymwneud ag ymddygiad; dylai hyn eu cynorthwyo i fod yn sensitif i anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion.

4.13 Systemau cymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr

4.13.1 Er mwyn sicrhau cefnogaeth rhieni/gofalwyr i bolisi ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol pan fydd y plentyn yn cychwyn yn yr ysgol, mae'n bosibl y gofynnir i rieni/gofalwyr lofnodi cytundeb cartref/ysgol.

4.13.2 Cyfrifoldeb y rhieni/gofalwyr yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb eu plentyn. Fodd bynnag, mae'n arfer da i ysgolion gysylltu â rhieni/gofalwyr ar unrhyw ddiwrnod y bydd disgybl o oed ysgol gorfodol yn absennol heb eglurhad, gan gynnwys achosion lle mae disgybl yn methu gwersi ar ôl cofrestru. Mae hyn yn dangos yn glir i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr bod yr ysgol yn ystyried absenoldeb heb awdurdod yn fater difrifol. Drwy gysylltu â'r rhiant/gofalwr mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod y

¹²² www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4

rhiant/gofalwr yn ymwybodol nad yw'r plentyn yn yr ysgol, gan alluogi'r rhiant/gofalwr i gymryd camau, lle bo angen, i sicrhau bod ei blentyn yn ddiogel. Mae'n bwysig bod staff sy'n gwneud galwadau i hysbysu am absenoldeb ar y diwrnod cyntaf yn cael hyfforddiant addas. Mae profiad wedi dangos bod cyfle gwirioneddol i staff o'r fath annog rhieni/gofalwyr i anfon disgyblion i'r ysgol pan nad ydynt wedi bod yn barod i wneud hynny o'r blaen. Mae'n bwysig bod y staff yn dysgu sut i herio rhieni/gofalwyr yn hytrach na derbyn rhesymau amhriddol am absenoldeb.

4.13.3 Dylai ysgolion geisio cynnwys rhieni/gofalwyr ym mhob cam yn addysg eu plentyn ac, yn fwyaf arbennig, ennill eu cefnogaeth ar gyfer dysgu ac addysgu ymddygiad cadarnhaol effeithiol. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl ganddynt, ond yn hytrach, dylid eu hesbonio'n benodol fel bod rhieni/gofalwyr yn deall ac yn gallu cymryd cymaint o ran ag sy'n bosibl. Er enghraifft, mae arfer da'n dod i'r amlwg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cynnig cyrsiau gwirfoddol ar rianta/ymgysylltiad rhieni, a ddarperir yn aml gan asiantaethau allanol. Pan mae dosbarthiadau o'r fath yn cael eu cynnig i bawb, mae ysgolion yn cyfeirio at fwy o ymgysylltiad gan rhieni/gofalwyr a gwell ymddygiad a phresenoldeb cysonach gan ddisgyblion. Dylai polisi ymddygiad a phresenoldeb gynnwys cyfeiriad at y ffordd y bydd yr ysgol yn helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plant.

4.13.4 Dylid creu cyfleoedd ymgysylltu i'r rhieni/gofalwyr hynny sydd naill ai'n anodd eu cyrraedd neu'n teimlo'u bod wedi'u hallgáu'n ddiwylliannol neu na fyddai fel arfer yn cymryd rhan mewn hyfforddiant neu strategaethau cymorth eraill.

4.13.5 Dylid hyrwyddo ymrwymiad rhieni/gofalwyr, lle bo'n bosibl, drwy anogaeth a chydweithrediad. Fodd bynnag, pan nad yw hyn wedi bod yn bosibl, efallai y bydd angen ystyried defnyddio pwerau cyfreithiol. Ceir disgrifiad o'r darpariaethau cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer mynd ar ôl achos o ddiffyg presenoldeb yn Adran 5. Darperir darpariaethau newydd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Contractau Rhianta ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb a Gorchmynion Rhianta ar gyfer ymddygiad) yn is-adran 4.17.

4.14 Pontio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

4.14.1 Mae trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn golygu newid mawr ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion ac mae ymchwil yn dangos bod cymhelliant llawer ohonynt yn gostwng a'u cynnydd yn arafu. Mae'n bwysig, felly, bod polisiau presenoldeb ac ymddygiad ysgolion uwchradd yn nodi bod angen cymorth arbennig ar ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae angen i ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n anfon disgyblion iddynt gydweithio i sefydlu trefniadau i sicrhau bod y trosglwyddo'n digwydd mor rhwydd â phosibl, drwy rannu gwybodaeth am ddisgyblion.

4.14.2 Mae nifer o astudiaethau achos ymarfer da ar gynllunio a gweithredu cymorth pontio ar wefan Arolygiaeth Ei Mawrhydi, Estyn¹²³.

¹²³ www.estyn.gov.uk/english/advanced-search-results/?keywords=transition&cat=all&yr=all&tagSearch=yes

4.14.3 Cyflwynodd adran 198 o Ddeddf Addysg 2002 ddarpariaeth ar gyfer Cymru yn unig i fynnu bod cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n anfon disgyblion iddynt yn llunio cynlluniau pontio ar y cyd.

4.14.4 Dylai'r meysydd y dylai cynllun pontio eu cwmpasu gynnwys gwybodaeth ynghylch cyflawniadau a chyraeddiadau disgyblion a'u presenoldeb a'u hymddygiad. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ychwanegol at y gofynion statudol a fodlonir drwy'r System Drosoglwyddo Gyffredin. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn yng nghylchlythyr 18/2006 *Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosoglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion*¹²⁴ sy'n ymdrin â throsglwyddo cofnodion disgyblion.

4.15 Ymgynghori

4.15.1 Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, mae angen i bolisiâu ymddygiad a phresenoldeb gael eu cefnogi gan gymuned gyfan yr ysgol, felly mae'n hanfodol ymgynghori. Yn ôl Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth, y rhieni/gofalwyr cyn llunio neu ddiwygio ei ddatganiad o egwyddorion yn ymwneud ag ymddygiad disgyblion, a hefyd â'r disgyblion ac unrhyw un arall sy'n gweithio yn yr ysgol (boed am dâl neu beidio) lle cred y corff llywodraethu y byddai hynny'n briodol. Mae cefnogaeth gyffredinol yn fwy tebygol os yw cymuned gyfan yr ysgol yn ymwneud â datblygu'r cod ymddygiad yn ogystal â chytuno ar egwyddorion sylfaenol. Dylai cynnwys yr holl ddisgyblion helpu hefyd i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r safonau ymddygiad cyffredinol a ddisgwylir gan yr ysgol ac y mae angen i bob aelod o'r gymuned eu bodloni.

4.15.2 Dylai llywodraethwyr ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu llawn. Yn ymarferol mae hyn yn debygol o fod ar ffurf adroddiad gan bwyllgor yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd gan staff, disgyblion, sefydliadau partner a rhieni/gofalwyr ac yn cynnig argymhellion ar gyfer newidiadau priodol.

4.15.3 Mae ymgynghori â disgyblion yn ddyletswydd bwysig sy'n adlewyrchu hawliau plant a phobl ifanc o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a pholisi Llywodraeth Cymru o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais mewn materion sy'n effeithio arnynt. Rhaid i bob disgybl gael y cyfle i wneud sylw am y datganiad o egwyddorion a thrwy hynny helpu i lywio'r polisi ymddygiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, athrawon dosbarth neu diwtoriaid blwyddyn – yn enwedig y rhai hynny sydd â gofal am blant ifanc iawn – gan siarad â'u dosbarth am yr egwyddorion ymddwyn, casglu ynghyd unrhyw sylwadau a'u bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu polisi. Gallai gwaith yn y gwersi ABCh fod yn gyfle i drafod yr egwyddorion hefyd. Gallai disgyblion hefyd gael y cyfle i gyflwyno eu syniadau drwy 'flychau awgrymiadau', drwy gyngor yr ysgol. Mae'n bwysig fodd bynnag, bod barn y disgyblion yn cael ei hystyried, a lle bo'n briodol yn cael ei hadlewyrchu mewn polisiâu, bod y disgyblion yn derbyn adborth ynghylch eu mewnbwn, a'u bod yn cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o roi polisiâu ar waith lle bo'n briodol yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

¹²⁴ gov.wales/docrepos/40382/40382313/40382112/4038211112/NAFWC18-06-w.pdf?lang=cy

4.15.4 Gellid cynnwys disgyblion yn y broses o lunio'r polisi drwy gynghorau ysgol. Neu gellid:

- cynnal trafodaethau mewn grwpiau tiwtor neu wersi ABCh
- trefnu hyfforddiant mewn dulliau ymgynghori
- neilltuo amser i lunio holiaduron a'u dadansoddi
- neilltuo amser i arwain gweithdai i ddadansoddi canfyddiadau y gellir eu cyflwyno wedyn i uwch reolwyr, llywodraethwyr a disgyblion.

4.15.5 Er mwyn i'r broses ymgynghori fod yn effeithiol, rhaid i'r systemau cyfathrebu ac adborth fod yn dda. Gellir dod o hyd i adnoddau a gweithgareddau i gynorthwyo cyngor yr ysgol/grwpiau disgyblion i gynnal ymgynghoriadau ar wefan Llais Disgyblion Cymru¹²⁵. Mae'n rhaid i'r ymgynghori â disgyblion ddigwydd fel y bo disgyblion anabl yn ogystal â grwpiau disgyblion eraill sydd yn aml heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael cyfle llawn i fynegi eu barn. Gallai'r ymgynghoriad ymhlith disgyblion gael ei drefnu mewn nifer o ffyrdd gwahanol: mewn grwpiau; yn unigol; wyneb yn wyneb; drwy e-bost; neu drwy ddefnyddio cymheiriaid sydd wedi'u hyfforddi.

4.15.6 Mae gan rieni/gofalwyr ran hanfodol bwysig i'w chwarae er mwyn cefnogi'r polisi drwy ei atgyfnerthu gartref. Dylid cymryd camau i ymgynghori'n eang â rhieni/gofalwyr o bob cymuned, e.e. drwy gyflwyniadau neu drafodaethau mewn nosweithiau rhieni, digwyddiadau cymdeithas rhieni/athrawon, ac ati. Yn ogystal, gallai'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ffurfio gweithgor; gallai rhiant/gofalwr-lywodraethwyr gymryd y rhan arweiniol; neu gellid cael adborth drwy gyfuniad o gyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol. Mae angen rhoi sylw penodol i rieni/gofalwyr allai fod yn anoddach eu cyrraedd, er enghraifft drwy sicrhau y gallant gael gafael ar wybodaeth yn iaith y cartref neu'r gymuned. Mae trafod y polisi gyda rhieni/gofalwyr pan fydd eu plant yn cychwyn yn yr ysgol yn werthfawr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r rhieni/gofalwyr a'r dysgwyr wedi dylanwadu ar y polisi a gaiff ei lunio yn y pen draw.

4.15.7 Dylai gweithio mewn partneriaeth ag aelodau o'r staff sydd ar y corff llywodraethu ac â'r undebau er mwyn datblygu'r polisi ymddygiad hefyd helpu i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i unrhyw bryderon yn ymwneud â llwyth gwaith staff, amodau gwaith ac iechyd a diogelwch.

4.15.8. Dylai llywodraethwyr hefyd ystyried edrych ar farn partneriaid lleol sy'n gweithio gyda'r ysgol. Gallai hynny gynnwys asiantaethau'r trydydd sector, ysgolion eraill, gwasanaethau plant a phartneriaid diogelwch cymunedol megis yr heddlu a gwasanaethau troseddau ieuenctid. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartneriaid ynghlwm wrth yr hyn y mae'r ysgol yn ceisio ei gyflawni a'u bod yn gallu llywio'r gwaith cymorth ag ymddygiad fel y bo'n briodol.

4.16 Monitro a gwerthuso

4.16.1 Mae archwilio ymddygiad a phresenoldeb yn rheolaidd yn un ffordd o fesur effeithiolrwydd polisi. Fel rhan o'r drefn fonitro, bydd ysgolion am gael gwybod bod eu polisiâu ymddygiad yn gweithio'n deg a dylent felly fonitro dosbarthiad y gwobrau

¹²⁵ www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/hafan

a'r cosbau yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylai monitro'r polisi fod yn rhan anhepgor o'r gwaith monitro mwy cyffredinol ar bob agwedd ar gynhwysiant (gweler Adran 2) ac effeithiolrwydd ysgolion a bydd o gymorth wrth gynllunio ar gyfer hyfforddi staff yn y dyfodol.

4.16.2 Mae angen i'r gwaith monitro asesu effaith gweithredu'r polisiâu ar ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff o wahanol grwpiau ethnig, a chyfeirio at werthuso'r effaith a gweithredu ar ganlyniadau'r gwerthusiadau. Dylai'r ysgol gadw cofnod o bob achos o wahaniaethu (e.e. gwahaniaethu hiliol neu homoffobaidd) a dylai rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr gael eu hysbysu am achosion o'r fath a'r camau a gymerwyd i ddelio â nhw. Dylai cyrff llywodraethu hysbysu awdurdodau lleol bob blwyddyn am batrwm ac amllder unrhyw achosion.

4.17 Cadw disgyblion ar ôl – y gyfraith a sut i'w chymhwyso

4.17.1 Mae cadw disgyblion ar ôl ysgol yn un o'r cosbau y gall ysgolion eu defnyddio mewn achosion o gamymddygiad difrifol. Mae adran 92 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, a gychwynnwyd ym mis Hydref 2010, yn egluro bod gan ysgolion awdurdod bellach i gadw disgyblion ar ôl sesiwn ysgol am resymau yn ymwneud â disgyblaeth. Cyflwynwyd darpariaethau newydd a wnaeth ddileu'r gofyniad i roi 24 awr o rybudd i gadw disgyblion ar ôl amser cinio a rhoddodd yr hawl i holl staff yr ysgol sydd â rheolaeth neu ofal cyfreithlon dros ddisgyblion, ac nid dim ond yr athrawon, gadw disgyblion ar ôl.

4.17.2 Bellach, mae gan ysgolion hyblygrwydd ychwanegol i gadw disgyblion ar ôl. Bwriad hyn yw eu galluogi i ddefnyddio'r gosb allweddol hon mewn ffyrdd sy'n ymateb yn addas i amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y pwerau ychwanegol hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol – gan roi ystyriaeth briodol i amryw o faterion sy'n ymwneud â lles a hawliau staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr. Mae gan bob ysgol, heblaw ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig nas cynhelir, awdurdod cyfreithiol clir bellach i gadw disgyblion ar ôl heb ganiatâd y rhiant/gofalwr. Nid oes perygl o gymryd camau cyfreithiol am gam-garcharu am gadw disgybl yn yr ysgol ar ôl sesiwn yr ysgol heb ganiatâd y rhiant/gofalwr. Mae hyn yn cynnwys cadw plant i mewn amser cinio ac ar ôl yr ysgol. Ond cyn y bydd ysgol yn cychwyn defnyddio cadw ar ôl fel cosb, rhaid i'r pennaeth sicrhau bod yr holl rieni/gofalwyr, disgyblion a staff yn ymwybodol y gall athrawon gadw disgyblion ar ôl ysgol.

4.17.3 Bydd yn rhaid i'r pennaeth hefyd ddweud wrth rieni/gofalwyr disgyblion a dderbynnir i'r ysgol ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn academiaidd am y polisi. Os yw'r pennaeth wedi gwneud pob ymdrech resymol i wneud y polisi yn wybyddus, ni ddylai rhieni/gofalwyr allu herio cyfreithlondeb cadw disgyblion ar ôl oherwydd eu bod yn anymwybodol ohono.

4.17.4 Mae'r gyfraith yn diogelu hawliau cyfreithiol plant a rhieni/gofalwyr, ac yn sicrhau bod terfynau rhesymol ar gadw plant ar ôl oherwydd camymddygiad. Nid oes gan ysgolion hawl ddiamod i gadw disgyblion ar ôl: rhaid i'r cadw ar ôl fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r drosedd. Gall y pennaeth neu aelod arall o staff yr ysgol sydd ag awdurdod i wneud hynny orchymyn cadw disgyblion ar ôl. Dylent roi ystyriaeth i:

- oed y plentyn
- unrhyw AAA
- unrhyw ofynion crefyddol
- gallu'r rhiant/gofalwr i drefnu'n rhesymol i gael y plentyn adref o'r ysgol ar ôl iddo gael ei gadw ar ôl.

4.17.5 Bydd angen i bolisiâu ymddygiad ysgolion, a ddatblygir gyda'r gymuned ysgol gyfan, nodi gweithdrefnau safonol ynghylch pa mor hir y dylid cadw disgybl ar ôl. Er enghraifft, os oes angen i ddisgybl gwblhau gwaith cwrs sy'n hwyr, efallai y bydd angen ei gadw ar ôl yn hirach nag ar gyfer achos o ymddygiad ymosodol lle gallai cosb am gyfnod byrrach fod yn ddigonol. Mae'r cwestiynau i'w hystyried yn cynnwys:

- a yw hyd y cyfnod cadw ar ôl yn rhesymol o ystyried difrifoldeb y camymddygiad?
- a yw hyd y gosb yn rhesymol ar gyfer sicrhau canlyniad penodol?
- a yw hyd y gosb yn gymesur o gymharu ag achosion eraill o gamymddygiad?
- os caiff disgybl ei gadw ar ôl tu allan i oriau ysgol arferol, a fydd y gosb yn cadw'r disgybl ar ôl tu hwnt i amser a ystyrir yn rhesymol (e.e. yn nhermau trafnidiaeth, oriau hwyr neu'r goblygiadau o ran colli prydau bwyd)?

4.17.6 At ddibenion y canllawiau hyn, nid ystyrir bod cadw disgybl i mewn yn ystod egwyl canol bore neu ganol prynhawn yn cyfateb i'r gosb o gadw disgybl ar ôl, ond yn hytrach yn un o amryw o gosbau eraill a ddefnyddir mewn ysgol. Yn hynny o beth, dylai'r gosb gael ei chynnwys fel opsiwn o fewn polisi ymddygiad a hysbysebir yn dda a dylid ei chymhwyso'n gyson a theg yn yr un modd â'r holl gosbau eraill.

Staff

4.17.7 Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion yn dymuno cyfyngu'r pŵer i gadw disgyblion ar ôl i rai aelodau o'r staff uwch yn unig, e.e. penaethiaid blwyddyn neu benaethiaid adran. Efallai y bydd ysgolion eraill yn dymuno manteisio ar yr hyblygrwydd a gynnigir gan y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau i'r gwrthwyneb – gan estyn y pŵer i amrywiaeth ehangach o staff, e.e. rhai, neu bob un, o'r staff cynorthwyol sydd â rheolaeth neu ofal cyfreithlon dros y disgyblion. Mater i'w benderfynu gan yr ysgolion unigol yn llwyr yw hwn, a dylent nodi eu gweithdrefn ddewisol yn eu polisiâu ymddygiad unigol. Bydd y penderfyniadau'n dibynnu ar amgylchiadau a strwythurau staffio'r ysgol. Dylai'r ysgolion roi ystyriaeth briodol i anghenion hyfforddi a datblygu wrth benderfynu ar y mater hwn. Dylent hefyd wneud y penderfyniadau hyn ar ôl ymgynghori â staff ac undebau llafur gweithlu'r ysgol.

4.17.8 Mae'n hanfodol bod yn gyson â chontractau a disgrifiadau swydd wrth drefnu i staff oruchwylio disgyblion a gedwir ar ôl, a dylid cydymffurfio hefyd â'r Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith. Dylai ysgolion roi ystyriaeth hefyd i faterion cydbwysedd gwaith-bywyd.

4.17.9 Mae angen i ysgolion gofio hefyd nad yw goruchwylio disgyblion a gedwir ar ôl yn rhywbeth a fyddai fel arfer yn gofyn am grebwyll ac arbenigedd proffesiynol athro/athrawes. Yn unol ag egwyddorion y Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau

a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith, mae hon yn dasg a fyddai fel arfer yn cael ei chyflawni gan staff cynorthwyol â'r sgiliau a'r tâl priodol.

4.17.10 Mae'n bwysig sicrhau, fodd bynnag, nad yw'r staff sy'n monitro disgyblion a gedwir ar ôl yn agored i unrhyw honiadau o gamymddwyn. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cael dau aelod o staff i oruchwylio disgyblion a gedwir ar ôl neu sicrhau bod aelod o staff yn weladwy drwy'r amser i aelod arall o staff. Mae rhai ysgolion yn defnyddio teledu cylch cyfyng i ddarparu'r cymorth wrth gefn hwn i staff ond ni ddylid dibynnu ar hwnnw fel yr unig ddull o amddiffyn staff rhag honiadau.

Rhybudd ysgrifenedig

4.17.11 Rhaid i ysgol, yn ôl y gyfraith, roi rhybudd ysgrifenedig o 24 awr o leiaf i riant/gofalwr y disgybl a gedwir ar ôl, heblaw os cedwir y disgybl i mewn amser cinio, er mwyn rhoi amser i'r rhiant godi unrhyw broblemau. Dylai rhybudd i'r rhieni/gofalwyr ddweud:

- bod eu plentyn yn mynd i gael ei gadw ar ôl
- beth yw'r rheswm am y cadw ar ôl
- pryd, ble ac am ba hyd y bydd yn rhaid i'w plentyn aros yn yr ysgol.

Gallai'r penderfyniad i gadw'r plentyn ar ôl gael ei ohirio neu ei ddileu'n gyfan gwbl o ganlyniad i sylwadau'r rhiant/gofalwr.

4.17.12 Mae'r gyfraith yn caniatáu i rybudd o gadw ar ôl gael ei roi i riant/gofalwr disgybl mewn nifer o ffyrdd, e.e. nodyn wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan athro/athrawes neu aelod o staff yn llyfr cyswllt y disgybl (byddai hynny'n dderbyniol os oes disgwyliad pendant ar rieni wedi'i nodi ym mhhecyn gwybodaeth yr ysgol). Gallai'r dulliau o hysbysu'r rhiant/gofalwr gynnwys:

- rhoi nodyn i'r rhiant/gofalwr yn uniongyrchol
- ei anfon, neu ei bostio i'w cyfeiriad olaf sy'n wybyddus
- unrhyw ddull effeithiol arall fel 'post disgyblion', â galwad ffôn at y rhiant/gofalwr, neu ffacs neu efallai e-bost.

4.17.13 Ni ddylai fel arfer fod yn angenrheidiol i bennaeth orfod trefnu i rybudd o gadw ar ôl gael ei roi i'r rhiant/gofalwr yn bersonol, nac i gael cydnabyddiaeth bod yr hysbysiad wedi ei dderbyn. Gallai hyn olygu na fedrai ysgol byth yn rhesymol gadw disgybl ar ôl y mae ei riant/gofalwr wedi osgoi derbyn yr hysbysiad neu wrthod ymateb iddo yn fwriadol. Os yw'r pennaeth wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig 24 awr ymlaen llaw i'r rhiant/gofalwr y mae'n credu sydd â chystodaeth y plentyn, dylai'r pennaeth gymryd bod y rhiant/gofalwr wedi derbyn hwn, hyd yn oed os na chafwyd unrhyw ymateb.

Cyfnod y rhybudd

4.17.14 Isafswm cyfnod rhybudd ysgrifenedig yw 24 awr oherwydd mae gohirio gweithredu cosb o gadw disgybl ar ôl yn gwanhau ei heffaith.

4.17.15 Yn ymarferol bydd y gofyniad 24 awr fel arfer yn golygu bod y rhiant/gofalwr yn clywed fwy na diwrnod ymlaen llaw. Er enghraifft, â gorchymyn i gadw disgybl ar ôl a roddir ar ddydd Llun, y cynharaf y gallai'r disgybl gael ei gadw ar ôl fyddai ar ôl ysgol ar y dydd Mercher. Dylai hyn roi digon o amser i rieni/gofalwyr wneud trefniadau rhesymol ar gyfer cludiant, os oes angen.

4.17.16 O ystyried y gofyniad i roi 24 awr o rybudd i rieni/gofalwyr, dylai ysgolion sicrhau bod rhieni/gofalwyr a disgyblion yn cael gwybod:

- i ba bwrpas y defnyddir y diwrnod
- pryd y bydd yn rhaid i'r disgybl gyrraedd a gadael, a'r ffaith fod angen i'r teulu wneud trefniadau addas i'r disgybl fynd a dod o'r ysgol
- i ba aelodau o staff y dylai'r disgybl adrodd
- a fydd rhaid gwisgo'r wisg ysgol
- a fydd angen i'r disgybl ddod â
 - brechedanau a diod neu unrhyw feddyginiaeth
 - unrhyw waith cwrs neu ddeunyddiau dysgu eraill
- bod gan yr ysgol bŵer cyfreithlon i gadw disgybl ar ôl fel cosb ddisgyblaethol, a'r canlyniadau a wynebid pe na bai'r disgybl yn bresennol ar gyfer y gosb.

Pwy ddylai dderbyn y rhybudd

4.17.17 Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r rhiant/gofalwr. Dylai hysbysu un person, sydd â chyfrifoldeb rhiant/gofalwr dros blentyn, fod yn ddigonol, hyd yn oed os oes mwy nag un unigolyn â chystodaeth y plentyn. Byddai pennaeth a wyddai fod plentyn rhieni/gofalwyr oedd wedi gwahanu yn byw gyda'i fam, yn cydymffurfio â'r gofyniad drwy roi hysbysiad i'r fam yn unig, ond mae'n bosibl na fyddai'n cydymffurfio drwy roi hysbysiad i'r tad yn unig. Gellid disgwyl i'r Llysoedd ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth ymdrin â'r gofyn i roi rhybudd. Pe bai pennaeth wedi cymryd pob cam rhesymol i roi rhybudd i'r rhiant/gofalwr yr oedd y plentyn yn byw gydag ef/hi, mae'n amheus a fyddai Llys yn cydymdeimlo â chais am gam-garcharu yn seiliedig ar ddim mwy na'r ffaith y dylai'r pennaeth hefyd fod wedi rhoi rhybudd i rywun arall.

Methiant i fod yn bresennol neu gerdded allan

4.17.18 Os yw disgybl yn absennol heb reswm rhesymol ar gyfer sesiwn ar ôl ysgol a roddwyd am drosedd ddisgyblaethol, dylai'r pennaeth benderfynu sut i ymdrin â'r absenoldeb a'r camymddygiad gwreiddiol, fel arfer drwy ddefnyddio cosb fwy llym.

4.17.19 Yn gyffredinol, ni ddylid defnyddio grym i orfodi gofyniad i aros yn yr ystafell ddosbarth neu fan arall yn yr ysgol, er y gellir trin methiant i gydymffurfio fel tramgwydd disgyblaethol. Gellid cyfiawnhau'r defnydd o rym i rwystro disgybl rhag gadael:

- pan fo'r staff yn tybio bod risgiau difrifol i ddiogelwch y disgybl pe bai'n gadael (o ystyried ei oedran a'i lefel ddealltwriaeth), ac i ddiogelwch disgyblion eraill, neu'r staff, neu ddifrod difrifol i'r eiddo

- pan fo'r staff yn tybio y gallai hynny arwain at ymddygiad a fyddai'n amharu ar drefn dda a disgyblaeth. Ynndo'i hunan, ni fyddai gwrthod aros mewn man penodol yn ddigon i gyfiawnhau defnyddio grym. Byddai'n rhaid i staff fod yn siŵr y byddai disgybl yn aflonyddu'n ddifrifol ar weithrediadau'r ysgol, e.e. drwy amharu ar ddosbarthiadau eraill.

4.17.20 Y peth gorau i'w wneud fyddai gadael i aelod o staff ddelio â'r disgybl ar ôl iddo adael yr ystafell – yr amcan pennaf yw cael y disgybl i ddeall bod angen dychwelyd i'r ystafell i barhau â'r gosb, ac yn ail, dylid gwneud yn glir y bydd y disgybl yn atebol am ei weithredoedd.

4.17.21 Mae'n bwysig dangos yn glir i ddisgyblion eraill bod y disgybl hwn wedi gwneud dewisiadau ac y bydd yn atebol am y dewisiadau hynny. Diben hyn yw atgyfnerthu'r neges bod cosbau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gyson a theg ac, o bosibl, tawelu'r disgyblion eraill. Mae'n bosibl y rhoddir cosb ychwanegol, fwy llym i'r disgybl dan sylw. Gallai'r gosb lymach hon, a roddir gan y pennaeth, fod yn waharddiad am gyfnod penodol.

Amgylchiadau pan na ddylid cadw disgybl ar ôl

4.17.22 Mae'n bosibl na fyddai'n rhesymol cadw rhai plant ar ôl ar unrhyw gyfrif, ni waeth pa mor ddrwg yw eu hymddygiad. Mae'n debyg na allai ysgol yn rhesymol orfodi plentyn sy'n byw gryn bellter o'r ysgol i gael ei gadw ar ôl ysgol, er enghraifft, os mai'r unig ddull o deithio adref ar gyfer y disgybl hwnnw fyddai ar fws sy'n gadael ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac na allai'r disgybl wneud trefniadau eraill i ddychwelyd adref. Ond gwaith y rhieni/gofalwyr yw dangos bod y bwriad i gadw disgybl ar ôl yn afresymol. Ni fyddai anghyfleustra i'r rhiant/gofalwr neu'r disgybl o wneud trefniadau cludiant eraill yn rheswm digonol i ddileu'r gorchymyn i gadw'r disgybl ar ôl. Os nad yw cadw'r disgybl ar ôl ysgol yn bosibl, gallai'r pennaeth (neu athro/athrawes awdurdodedig arall sy'n cymryd y sesiwn cadw ar ôl) ystyried cadw'r disgybl i mewn dros ginio neu gosb addas arall.

Cyfrifoldeb am drefniadau teithio

4.17.23 Er bod yn rhaid i'r ysgol ystyried pa drefniadau teithio addas sydd ar gael ar ôl cadw disgybl ar ôl, y rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau hynny. Nid oes rhaid i'r ysgol dalu.

4.17.24 Os bydd gofyn i ddisgybl ddefnyddio cludiant i deithio i'r ysgol ar gyfer sesiwn cadw ar ôl, dylai'r ysgol ystyried a yw'r trefniadau cludiant yn rhesymol ac yn ymarferol. Gallai hon fod yn broblem arbennig i ysgolion mewn mannau lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig neu'n gostus. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd angen i'r ysgolion wneud trefniadau rhesymol â'r rhieni/gofalwyr gan fynnu bod rhaid cyflawni telerau'r gosb.

4.17.25 Yn ychwanegol at hyn, bydd angen i ysgolion fod yn sensitif i'r materion a all godi pan fo disgybl yn brif ofalwr, yn blentyn sy'n derbyn gofal neu'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd disgybl yn gyfrifol am helpu i ofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu hebrwng aelod iau o'r teulu adref. Neu, mae'n bosibl bod rhaid i ddisgybl sydd â hanes o broblemau ymddygiad difrifol fynychu

sesiynau penodol ar yr un adeg â chyfnod arfaethedig y sesiwn cadw ar ôl os yw o dan gontract Tîm Troseddwy'r Ifanc neu orchymyn llys. Mae'n hanfodol bod yr ysgol, y plentyn a'r asiantaethau partner yn cydgysylltu'n agos â'i gilydd.

Cadw plant ifanc ar ôl

4.17.26 Yn gyfreithiol, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai plentyn ifanc, gan gynnwys un o dan oedran ysgol gorfodol, gael ei gadw ar ôl. Ond gallai fod yn anodd cyfiawnhau cadw plentyn ifanc iawn ar ôl ysgol gan y byddai oed y disgybl yn un o'r amgylchiadau arbennig y byddai'n rhaid i'r pennaeth ei ystyried yn ôl y gyfraith.

Cyfrifoldeb am ofal a diogelwch plant a gedwir ar ôl

4.17.27 Mae gan athrawon ddyletswydd i gymryd gofal rhesymol o'u disgyblion tra maent yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn cael ei anafu oherwydd bod athro/athrawes yn esgeulus, gall rhieni/gofalwyr ddwyn achos am esgeulustod yn erbyn yr athro/athrawes sy'n gyfrifol a'r cyflogwr (naill ai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu) o dan yr egwyddor gyfreithiol o atebolrwydd dirprwyol. Dylai ysgolion ystyried materion goruchwyllo yn ofalus pan gedwir plentyn unigol ar ôl.

4.17.28 Gallai plentyn a gâi anaf ar ei ffordd o'r ysgol ar ôl cael ei gadw ar ôl, yn ddamcaniaethol, hawlio iawndal yn erbyn yr ysgol pe gallai'r plentyn neu'r rhiant/gofalwr brofi:

- bod dyletswydd o ofal yr ysgol yn ymestyn at sicrhau y gallai'r plentyn fynd adref yn ddiogel
- gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos, bod yr ysgol, drwy esgeulustod, wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd honno
- bod yr anaf yn ganlyniad uniongyrchol i'r esgeulustod hwnnw.

4.17.29 Er enghraifft, pe bai plentyn ifanc heb neb yn ei oruchwyllo yn cael ei daro i lawr wrth groesi ffordd brysur y tu allan i'r ysgol ar ôl cael ei gadw ar ôl, ond y byddai rhywun yn yr ysgol fel arfer wedi goruchwyllo'r plentyn yn croesi'r ffordd ar ddiwedd y diwrnod ysgol, gallai hyn fod yn esgeulustod.

4.17.30 Ond ni fyddai'r awdurdod lleol na'r corff llywodraethu yn gyfrifol, o reidrwydd, am unrhyw ddamwain a fyddai'n digwydd i'r plentyn ar y ffordd adref ar ôl cael ei gadw ar ôl. I lwyddo mewn achos o esgeulustod, byddai'n rhaid i'r plentyn neu'r rhiant brofi pob un o'r tri phwynt ym mharagraff 4.17.28.

4.17.31 Er nad oes gofyniad cyfreithiol i roi 24 awr o rybudd cyn cadw disgybl i mewn amser cinio, dylai ysgolion barhau'n sensitif i amgylchiadau personol y disgyblion a ddisgwylir adref i ginio a dylent sicrhau nad yw'r disgybl yn colli cyfle i fwyta oherwydd ei fod wedi'i gadw i mewn (byddai hynny'n effeithio ar resymoldeb y gosb ac, o bosibl, yn ei gwneud yn anghyfreithlon).

4.17.32 Oherwydd bod hawl bellach gan ysgolion i gadw disgyblion i mewn amser cinio heb roi 24 awr o rybudd, mae'n bwysig iawn bod yr ysgolion yn sicrhau eu bod yn gwybod yn iawn pa ddisgyblion a ddisgwylir adref i ginio. Bydd ysgolion fel arfer yn gofyn i rieni eu hysbysu yn ysgrifenedig pan fo disgybl yn mynd adref am ginio fel mater o drefn. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai ysgolion

yn datblygu canllawiau sy'n galluogi disgyblion i gael eu cadw i mewn am gyfnod penodol o amser cyn eu rhyddhau mewn pryd i fynd adref am ginio a dod yn ôl ar gyfer sesiwn y prynhawn. Oherwydd cymhlethdod rheoli trefn o'r fath, mae rhai ysgolion yn mabwysiadu cosb '5 munud' ar gyfer disgyblion sy'n mynd adref am ginio ac yna'n eu cadw ar ôl ysgol fel y bo'n ofynnol y diwrnod canlynol.

4.17.33 Mae'n hanfodol bod staff a disgyblion yn cael egwyl resymol amser cinio i fwyta, yfed a mynd i'r toiled. Ni ddylid cadw disgyblion i mewn amser cinio am gyfnod a fyddai'n amharu ar hawl briodol unrhyw aelod unigol o staff neu ddisgybl i wneud y pethau hyn.

4.17.34 Bydd angen i ysgolion ymateb i amgylchiadau penodol sy'n effeithio ar ddisgyblion unigol, e.e. y gofyniad i gymryd meddyginiaeth ar adegau penodol neu'r angen am ofod neilltuol i ymarfer defodau crefyddol.

Cadw disgyblion ar ôl yn gynnar yn y bore, ar ddydd Sadwrn ac ar ddiwrnodau pan nad oes ysgol

4.17.35 Mae'r gyfraith yn caniatáu i ysgolion gadw disgyblion ar ôl ar adegau heblaw amser cinio ac ar ôl ysgol. Os bydd disgybl yn dod i mewn ar fore dydd Sadwrn, yn gynnar yn y bore neu yn ystod gwyliau, ac yn mynychu'n wirfoddol, ni all fod unrhyw gwestiwn ynglŷn â cham-garcharu. Mae cadw disgyblion ar ôl fel hyn yn dibynnu ar gydwethrediad y disgybl a'r rhiant/gofalwr.

4.17.36 Mae'r darpariaethau a gyflwynwyd o dan y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau yn caniatáu i ysgolion gadw disgyblion ar ôl ar y dyddiau a bennir er mwyn i aelodau o staff gyflawni dyletswyddau heblaw addysgu, e.e. dyddiau HMS.

Defnyddio amser

4.17.37 Dylid defnyddio'r amser y mae disgybl yn ei dreulio pan gaiff ei gadw ar ôl yn adeiladol ac i'r perwyl gorau. Dylai athrawon ystyried gwaith addas i'r disgyblion ei wneud pan fyddant yn cael eu cadw ar ôl.

Cofnodion

4.17.38 Dylai ysgolion gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ddisgyblion a gedwir ar ôl a'r rhesymau am hynny, i'w galluogi i asesu eu defnydd o'r gosb cadw ar ôl a rhag ofn y bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn am wybodaeth neu'n dwyn her gyfreithiol gerbron.

Cwyn gan rieni/gofalwyr ynghylch cadw'r plentyn yn ôl

4.17.39 Dylai rhieni/gofalwyr sy'n gwrthwynebu cadw ar ôl gyflwyno'r ffeithiau perthnasol at sylw'r ysgol, er mwyn i'r ysgol roi ystyriaeth iddynt. Enghreifftiau o ffeithiau felly fyddai:

- bod y cadw ar ôl yn gwrthdaro â diwrnod o gadw arferion crefyddol gan y teulu

- pryder ynglŷn â hyd a diogelwch y llwybr i'w gerdded rhwng yr ysgol a chartref y plentyn
- yr angen am gludiant adref os yw'r rhiant/gofalwr yn methu â chasglu'r plentyn y diwrnod hwnnw ac na all wneud trefniadau rhesymol eraill.

4.17.40. Gall y pennaeth, neu athro/athrawes awdurdodedig arall, benderfynu y dylai'r plentyn gael ei gadw ar ôl er gwaethaf sylwadau'r rhiant/gofalwr. Er hynny os yw'r rhiant/gofalwr yn anfodlon gall gwyno wrth y pennaeth a'r corff llywodraethu o dan drefniadau cwyno arferol yr ysgol (er na fydd digon o amser fel arfer i ystyried y gŵyn nes bo'r cadw ar ôl wedi digwydd). Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio. Nid oes gan gorff llywodraethu bŵer i wyrddroi penderfyniad os yw'n ystyried cwyn cyn i'r disgybl gael ei gadw ar ôl.

4.17.41 Gall rhiant/gofalwr sy'n pryderu ynglŷn â'r egwyddor o gadw disgyblion ar ôl neu sut y mae'n cael ei defnyddio godi'r pryderon hyn gyda'r pennaeth neu'r corff llywodraethu, neu'r ddau.

4.18 Rhaglenni cymorth bugeiliol

4.18.1 Gall disgyblion nad ydynt yn ymateb i gamau a gymerir gan yr ysgol i fynd i'r afael â dadrithiad fod mewn perygl difrifol o gael eu gwahardd yn barhaol, neu o gyflawni trosedd. Efallai y bydd angen ymyrryd â'r disgyblion am gyfnod hwy i'w hatal rhag gadael yr ysgol yn gyfan gwbl a pheidio â chyflawni eu potensial. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn adnabod plant o'r fath a'u bod, drwy weithio gyda gwasanaethau perthnasol eraill, yn llunio strategaeth i ymdrin â dyfodol y plentyn drwy baratoi rhaglen cymorth bugeiliol. Bwriedir y cyngor canlynol fel fframwaith y byddai pob ysgol yn gweithredu rhaglen cymorth bugeiliol o'i fewn.

4.18.2 Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r canllawiau ar addysgu ac ailintegreiddio disgyblion sydd wedi eu gwahardd, sydd i'w gweld yn *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion*¹²⁶ (Llywodraeth Cymru, 2012).

Prif egwyddorion

4.18.3 Ymyriad sy'n digwydd yn yr ysgol yw'r rhaglen cymorth bugeiliol. Mae'n cynorthwyo disgyblion unigol i reoli eu hymddygiad yn well ac yn nodi unrhyw ddulliau cymorth y mae angen eu gweithredu. Dylai'r rhaglen cymorth bugeiliol nodi canlyniadau manwl a realistig o ran ymddygiad y gall y plentyn weithio tuag atynt.

4.18.4 Mae'n rhaid ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer pob disgybl sydd mewn perygl o gael ei wahardd neu o ymddieithrio o addysg brif ffrwd, fel y nodir yn y *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig*, yn ogystal ag ystyried a oes angen cynllun addysg unigol.

4.18.5 Dylid hysbysu swyddog yr AAA sy'n gyfrifol am fonitro gwaharddiadau, cydlynnydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol, unrhyw weithiwr allweddol cysylltiedig â'r disgybl a'r Gwasanaeth Lles Addysg bod disgybl mewn perygl difrifol o gael ei wahardd yn barhaol. Dylai'r ysgol eisoes fod wedi asesu anghenion y

¹²⁶ dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/exclusion/?skip=1&lang=cy

disgybl, gan fabwysiadu ymateb graddedig sydd wedi tynnu ar yr ystod eang o arbenigedd yn yr ysgol. Dylid bod wedi ceisio cymorth allanol eisoes, gan asiantaethau statudol neu rai gwirfoddol. Mae'r rhaglen cymorth bugeiliol yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gydgyssylltu â darparwyr gwasanaethau a rhaid caniatáu digon o amser iddynt ymateb.

4.18.6 Nid yw rhaglen cymorth bugeiliol yn disodli'r broses asesu AAA, er y gallai fod yn rhan o gynllunio AAA ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a gellid ei chyfuno â chynllun addysg unigol.

4.18.7 Mae'r rhaglen cymorth bugeiliol yn gweithredu fel cofnod manwl ar gyfer cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch natur a chanlyniadau ymyriadau â disgyblion. Rhaid ei chyflwyno i'r llywodraethwyr os ceir cais i wahardd disgybl yn barhaol fel tystiolaeth o'r hyn y mae'r ysgol wedi'i wneud er mwyn osgoi gwaharddiad.

4.18.8 Bwriedir rhaglen cymorth bugeiliol fel modd o ddarparu cymorth ychwanegol er mwyn osgoi gwahardd disgybl, ac ni ddylid ei datblygu dim ond er mwyn gwahardd disgybl.

4.18.9 Dylai aelod enwebedig o'r staff oruchwylio'r rhaglen cymorth bugeiliol. Dylai'r cynllun fod yn fyr ac yn ymarferol a dylid sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o waith gweinyddu. Dylai swyddog cydlynio AAA yr ysgol gael ei gynnwys yn y trafodaethau ar raglen cymorth bugeiliol, ynghyd â phartneriaid eraill fel bo'n briodol.

4.18.10 Ar gyfer disgyblion 14 oed a hŷn, dylai'r rhaglen cymorth bugeiliol fod yn rhan hanfodol o elfennau cymorth Llwybrau Dysgu 14–19 y disgybl.

Gweithredu

4.18.11 Pan fydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn nodi bod angen rhaglen cymorth bugeiliol, dylai'r ysgol alw cyfarfod o bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys cynrychiolydd yr awdurdod lleol, cynrychiolwyr unrhyw asiantaethau eraill sy'n berthnasol a rhieni'r disgybl. Dylid gwahodd y disgybl i fynychu hefyd. Dylai'r ysgol nodi pa strategaethau y gall eu defnyddio i gynorthwyo'r disgybl, a dylai'r awdurdod lleol ac unrhyw asiantaethau eraill ddweud beth allant ei gynnig i gynorthwyo'r disgybl. Rhaid i'r rhaglen cymorth bugeiliol nodi achos y pryderon a nodi canlyniadau ymddygiad manwl a realistig y dylai'r plentyn weithio tuag atynt.

4.18.12 Rhaid i unrhyw drefniant ar gyfer darpariaeth ran-amser y tu allan i'r ysgol gael ei sefydlu drwy raglen cymorth bugeiliol. Rhaid i'r rhaglen cymorth bugeiliol nodi'n glir pa waith y disgwylir i'r disgybl ei wneud a'i ddiben. Rhaid i bob lleoliad y tu allan i'r ysgol, a'r rhai sy'n fewnol yn yr ysgol, ganolbwyntio ar anghenion penodol y disgybl, yn academiaidd ac yn gymdeithasol, ac amcan y cyfan, o reidrwydd, fydd ailintgreiddio'r disgybl i'r brif ffrwd cyn gynted ag sy'n ymarferol.

4.18.13 Byddai'n dda pe gellid rheoli pob disgybl cynradd yn ei ysgol. Er hyn, efallai y bydd angen cadw disgyblion ifanc i ffrwd o'r brif ysgol am ran o'u hwythnos neu ar adegau penodedig yn y ddarpariaeth. Mae angen i'r disgyblion wybod mai mesur i'w cynorthwyo yw hynny sy'n rhoi cyfle iddynt aros yn eu hysgol brif ffrwd yn yr

hirdymor. Os yw'r disgybl mewn darpariaeth amser llawn arall, megis uned cyfeirio disgyblion, ond yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol brif ffrwd, dylai aelod priodol o staff yr ysgol ymweld â'r disgybl yn rheolaidd i fonitro pa gynnydd mae'n ei wneud.

4.18.14 Wrth lunio rhaglen cymorth bugeiliol, dylai ysgolion gysylltu â'r holl asiantaethau perthnasol a chyfuno cyfarfodydd cynllunio a monitro ar bob cyfle posibl. Mae asiantaethau partner yn cynnwys:

- swyddogion allweddol o'r **awdurdod lleol**, seicolegwyr addysg, swyddogion lles addysg a thimau cefnogi ymddygiad fel arfer
- **adrannau gwasanaethau cymdeithasol** a fyddai o bosib yn gallu datrys problemau gartref sy'n cyfrannu at bresenoldeb afreolaidd neu anawsterau ymddygiadol yn yr ysgol. Bydd cysylltiadau o'r fath yn hanfodol os yw plentyn yn derbyn gofal, os yw'n ofalwr ifanc neu os yw ar y rhestr amddiffyn plant. Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn ymwneud yn llawn â pharatoi'r rhaglen cymorth bugeiliol a dylai'r rhaglen fod yn rhan annatod o'r cynllun addysg personol fel bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod beth yw'r targedau a'r canlyniadau (gweler adran 3 am fwy o ganllawiau ar blant sy'n derbyn gofal a'r defnydd o gynlluniau addysg personol)
- **gwasanaethau iechyd** a fyddai o bosib yn gallu cynorthwyo os oes problemau meddygol neu broblemau eraill yn effeithio ar bresenoldeb ac ymddygiad. Er enghraifft, byddai cyngor meddygol a seicolegol yn bwysig wrth roi cymorth i ysgolion a'r Gwasanaeth Lles Addysg pan fyddant yn asesu achosion o ffobia ysgol ac yn ymdrin â nhw
- **adrannau tai** a all gynorthwyo i ddatrys anawsterau neu ansicrwydd ynghylch llety a allai gyfrannu at broblemau yn yr ysgol. Mae amgylchedd sefydlog yn y cartref yn arbennig o bwysig os yw person ifanc yn mynd i wneud cynnydd. Mae gan yr adran tai swyddogaeth bwysig hefyd wrth gynorthwyo i gadw llygad ar leoliadau plant
- **mudiadau gwirfoddol a gwasanaethau ieuenctid**, boed yn wasanaeth statudol neu wirfoddol, a all fod o gymorth ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol ac allan ohoni. Gallai gweithwyr ieuenctid, er enghraifft, roi cymorth dwys i grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol
- **Gyrfa Cymru** a all chwarae rôl werthfawr drwy gynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau doeth a sicrhau nad ydynt yn gadael addysg yn 16 oed. Mae'n debygol y bydd ar blant sydd â rhaglen cymorth bugeiliol angen trafodaethau grŵp a chyfluoedd i drafod syniadau gyda chynghorydd gyrfaoedd
- **grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig** a all gynorthwyo ysgolion â rhaglenni mentora a darparu cyngor a chanllawiau ar lunio rhaglenni cymorth bugeiliol.

4.18.15 Wrth lunio rhaglen cymorth bugeiliol dylai staff yr ysgol, ynghyd ag eraill, ystyried anghenion y disgybl, gan roi ystyriaeth i'rw:

- iechyd
- amgylchiadau cartref
- anghenion dysgu a lefelau cyrhaeddiad
- sgiliau llythrennedd a rhifedd
- anghenion dysgu ychwanegol eraill
- hanes addysgol

- cysylltiadau personol pwysig
- perthynas gyda staff neu gyd-ddisgyblion, neu'r ddau
- digwyddiadau o bwys
- canfyddiadau unigol pawb sy'n cyfranogi
- ymddygiadau penodol ac unrhyw batrymau
- presenoldeb.

4.18.16 Gallai'r strategaethau y gellid eu hystyried i fynd i'r afael ag anghenion y disgybl gynnwys:

- clybiau gwaith cartref amser cinio ac ar ôl ysgol a mathau eraill o gymorth astudio
- datgymhwyso'r cwrwclwm cenedlaethol er mwyn rhyddhau'r amser angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau dysgu penodol
- cwrs cymysg o weithgareddau – a ddarperir yn aml gan sefydliadau gwirfoddol
- newid set ddysgu neu ddosbarth y plentyn
- trefniadau eistedd
- pennu 'buddy' sy'n cynorthwyo'r plentyn o fewn ei grŵp cyfoedion ei hun
- disgyblion hŷn ac oedolion i weithredu fel mentoriaid, yn dilyn hyfforddiant priodol
- rhoi cyfarwyddyd i'r staff ar reoli ymddygiad sy'n benodol i'r disgybl
- cymorth arbenigol, e.e. cyngor yn dilyn profedigaeth neu ynghylch dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, sy'n debygol o olygu sicrhau cymorth ac arbenigedd allanol
- cofrestru'r disgybl yn ddeuol yn yr ysgol ac mewn uned cyfeirio disgyblion gan roi cyfle felly i fanteisio ar arbenigedd yr uned tra bydd y disgybl yn aros yn yr ysgol, gan hwyluso ailintegreiddio cyflawn yn nes ymlaen. Gallai disgyblion cynradd ac uwchradd gymryd yr opsiwn hwn, ar sail amser llawn neu ran-amser – yr olaf sydd orau ar gyfer disgyblion cynradd
- symud wedi ei reoli i ysgol arall – â chytundeb rhieni/gofalwyr y disgybl a'r ysgol sy'n derbyn. Gall cychwyn newydd â'r cyfle i ddatblygu cysylltiadau personol newydd gael effaith gadarnhaol ar gynnydd plentyn.

Cytuno ar raglen cymorth bugeiliol gyda rhieni/gofalwyr

4.18.17 Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylai rhieni gytuno ar bob rhaglen cymorth bugeiliol a'i llofnodi. Gan y gallai rhai rhieni/gofalwyr fod yn anghyfforddus â chyfarfod grwpiau mawr, efallai y bydd angen cynnwys nifer bach yn unig o bartneriaid yn y cyfarfod cytundeb terfynol, er y dylent i gyd ymwneud â datblygu'r cynllun. Mae'n bwysig dewis man addas ar gyfer y cyfarfod hefyd gan y gallai rhai rhieni/gofalwyr fod yn anghyfforddus yn mynychu ystafell gyfarfod fawr mewn ysgol, er enghraifft. Gall man cyfarfod niwtral fod yn fwy addas i gael trafodaeth gydweithredol.

4.18.18 Dylid llofnodi'r rhaglen cymorth bugeiliol yn ystod y drafodaeth pan gytunir yn derfynol arni os yw hynny'n bosibl, a dylai'r rhieni adael y cyfarfod â'r fersiwn sydd wedi ei llofnodi. Bydd hyn yn helpu i osgoi problemau cyfathrebu ynglŷn â newidiadau i'r cynllun, er na ddylid defnyddio hyn fel rheswm dros beidio ag addasu'r rhaglen cymorth bugeiliol yn ddiweddarach i wneud yn siŵr ei bod yn gweddu'n well i anghenion y disgybl.

Adolygu'r rhaglen cymorth bugeiliol

4.18.19 Dylai'r rhaglen cymorth bugeiliol gael ei hadolygu'n rheolaidd – o leiaf bob chwe wythnos ac yn amlach ar y cychwyn – er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion y disgybl. Yn achos disgyblion sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol, dylai'r adolygiad ystyried a yw ailintegreiddio cyflawn i addysgu prif ffrwd yn bosibl, a beth fyddai'r amserlen gofynnol ar gyfer hynny.

Adolygu cynnydd ym Mlwyddyn 9

4.18.20 Mae'n bwysig bod ysgolion yn adnabod disgyblion sydd mewn perygl difrifol o gael eu gwahardd yn barhaol cyn iddynt fynd i Gyfnod Allweddol 4. Anogir pob ysgol uwchradd i sefydlu trefniadau ar gyfer cadw llygad ar gynnydd ym Mlwyddyn 9. Mater i'r ysgolion ac awdurdodau lleol yw penderfynu sut i gadw llygad ar gynnydd, ond dylent roi sylw i'r ffactorau a nodwyd ym mharagraff 4.18.15 er mwyn asesu a oes risg arbennig i'r disgyblion.

4.18.21 Gallai'r gwaith hwn gael ei arwain gan swyddog lles addysg a leolir yn yr ysgol, seicolegydd addysg, neu swyddog dynodedig arall o fewn yr awdurdod lleol. Gallai asiantaethau eraill megis Gyrfa Cymru fod yn rhan o'r gwaith o wirio cynnydd. Dylai pob un o'r plant y nodir eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol fod â rhaglen cymorth bugeiliol erbyn diwedd Mlwyddyn 9.

4.18.22 Yn achos y disgyblion hynny sy'n dal i gael anawsterau ym Mlwyddyn 11, bydd yn arbennig o bwysig cydgysylltu ag asiantaethau lleol fel Gyrfa Cymru a'r gwasanaethau ieuencid er mwyn cael cymorth i drosglwyddo'n ddirwysr i addysg a hyfforddiant ôl-16 oed. Fel y bydd Llwybrau Dysgu 14–19 yn datblygu bydd gan yr anogwr dysgu rôl bwysig hefyd ar gyfer disgyblion 14 oed a throsodd.

Contractau rhianta a gorchmynion rhianta

4.19.1 Mae adran 19 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn nodi'r darpariaethau yng Nghymru a Lloegr i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ymgymryd â contractau rhianta mewn achosion o wahardd o'r ysgol, camymddygiad difrifol a thriwantiaeth. Mae adran 25 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn galluogi timau troseddau ieuencid i wneud contractau rhianta mewn perthynas ag ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

4.19.2 Mae adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 hefyd yn amlinellu'r ddarpariaeth i awdurdodau lleol wneud cais am orchymyn rhianta mewn achosion o wahardd o'r ysgol a chamymddygiad difrifol.

4.19.3 Daeth darpariaethau newydd i rym yn 2010, o dan Adrannau 98–9 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, adrannau diwygiedig 20 a 21 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 a oedd yn ychwanegu at ddarpariaethau a oedd yn bodoli'n barod ar gyfer gorchmynion rhianta mewn perthynas â thriwantiaeth. Mae'r darpariaethau newydd hyn yn:

- ymestyn y defnydd o contractau rhianta fel bod modd eu defnyddio mewn achosion o gamymddygiad difrifol yn ogystal â gwaharddiadau. Mae hefyd yn

egluro y gall yr ymddygiad dan sylw ddigwydd yn yr ysgol neu mewn man arall lle bo'n rhesymol i'r ysgol ei reoleiddio

- nodi y gellir gwneud cais am orchmynion rhianta hefyd mewn achosion o gamymddygiad difrifol lle mae'n bosibl y gellid cyfiawnhau gwaharddiad, yn hytrach na dim ond mewn achosion lle mae gwaharddiad wedi digwydd mewn gwirionedd
- ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd ystyried methiant rhieni i ddod i gyfweiliad ailintegreiddio wrth ystyried a ddylid rhoi gorchymyn rhianta
- egluro'r trefniadau ar gyfer disgyblion trawsffiniol neu ddisgyblion â chofrestrriad deuol.

4.19.4 Mae'r pŵer i orfodi gorchmynion rhianta mewn ymateb i driwantiaeth eisoes ar gael i lysoedd o dan adran 8 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i rieni sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o dan adran 443 neu 444 o Ddeddf Addysg 1996. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar orchmynion rhianta ar gyfer triwantiaeth i'w gweld yn y *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan*¹²⁷.

4.19.5 Mae contractau rhianta a gorchmynion rhianta yn atodiadau pwysig i'r ymyriadau sy'n bosibl er mwyn hybu gwell ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol. Mae gwella ymddygiad a phresenoldeb yn hanfodol er mwyn gwella rhagolygon addysgol plant a sicrhau nad oes perygl iddynt droseddu neu ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

4.19.6 Bwriedir i'r mesurau hyn helpu i sicrhau bod rhieni'n derbyn bod ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn gyson a bod eu hymddygiad yn gwella. Felly, mae'n bwysig bod y bobl broffesiynol sy'n gweithredu'r mesurau yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o strategaethau a chymorth a fydd yn briodol wrth ymwneud â gwahanol rieni/gofalwyr.

Contractau rhianta

4.19.7 Os nad yw disgybl yn mynychu'r ysgol yn gyson neu os yw'n cael ei wahardd o'r ysgol, gall yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol ystyried addasrwydd cynnig contract rhianta i'r rhiant. O dan adran 19 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 gellir rhoi contract rhianta ar gyfer camymddygiad os oes gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol reswm i gredu bod disgybl wedi ymddwyn mewn modd sydd yn:

- achosi, neu'n debygol o achosi, amhariad sylweddol ar addysg disgyblion eraill neu niwed sylweddol i les y disgybl hwnnw neu ddisgyblion eraill neu i iechyd neu ddiogelwch unrhyw staff; neu
- ffurfio rhan o batrwm ymddygiad a fyddai, pe bai'n parhau, yn arwain at wahardd y disgybl.

Os gall ysgol reoli ymddygiad o'r fath, nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth ym mhle y digwyddodd y camymddygiad dan sylw. Bydd yr hyn sy'n rhesymol yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau a bydd yn cael ei nodi ym mholisi ymddygiad yr ysgol.

¹²⁷ lyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?skip=1&lang=cy

4.19.8 Mae contract rhianta yn gytundeb ysgrifenedig ffurfiol rhwng y rhiant/gofalwr a naill ai'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol a dylai gynnwys:

- datganiad gan y rhiant/gofalwr yn nodi ei fod yn cytuno i gydymffurfio am gyfnod penodedig ag unrhyw ofynion a bennwyd yn y contract
- datganiad gan yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn cytuno i ddarparu cymorth i'r rhiant/gofalwr i bwrpas cydymffurfio â'r contract.

4.19.9 Gweithred wirfoddol yw ymgymryd â chontract rhianta. Ni ellir gorfodi'r rhiant i ymgymryd â chontract rhianta os nad yw'n dymuno gwneud. Yn yr un modd, nid oes unrhyw orfodaeth ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gynnig contract rhianta mewn achosion o ddiffyg presenoldeb neu wahardd.

4.19.10 Yn aml iawn, fodd bynnag, bydd contractau rhianta'n ddefnyddiol er mwyn adnabod a chanolbwyntio ar y problemau sydd y tu ôl i'r diffyg presenoldeb neu gamymddwyn, ac wrth ddatblygu perthynas adeiladol gyda rhieni/gofalwyr er mwyn ymdrin â'r problemau hyn.

4.19.11 Dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu fod yn ymatebol i anghenion y rhiant/gofalwr wrth benderfynu pa fath o gymorth y byddant yn ei gynnig. Gall y problemau sydd y tu ôl i driwantiaeth a chamymddwyn fod yn gymhleth a bydd y math o gymorth sydd ei angen yn dibynnu ar yr achos unigol.

4.19.12 Gall yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu gytuno i gynnig cymorth ar ffurf rhaglen rianta. Gall y contract bennu bod angen i'r rhiant/gofalwr fynychu sesiynau unrhyw gynllun o'r fath. Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr cynlluniau rhianta, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, timau troseddau ieuenctid ac awdurdodau lleol. Wrth asesu natur y cynllun cwnsela neu gyfarwyddyd y dylai'r rhiant/gofalwr gymryd rhan ynddo, dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ystyried pwy ddylai roi'r sesiynau, hyfforddiant a phrofiad yr hwyluswyr, gan gynnwys eu gallu i ymwneud â'r rhieni/gofalwyr, y cwrwllwm a ddefnyddir, a fydd y dosbarthiadau'n rhai i grŵp neu i unigolyn ac a oes ffactorau diwylliannol a chymdeithasol i'w hystyried.

4.19.13 Ni all peidio â chydymffurfio â'r contract rhianta arwain at achos o dorri cytundeb na chais am iawndal sifil. Nid oes cosb uniongyrchol am i riant beidio â chydymffurfio â chontract rhianta neu wrthod llofnodi contract rhianta. Fodd bynnag, os yw presenoldeb anghyson y disgybl, neu ei gamymddygiad, yn parhau neu'n codi i'r fath lefel fel bod erlyniad yn briodol, bydd yn ofynnol i'r llys ystyried y methiant neu'r gwrthodiad hwn wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ai peidio.

4.19.14 Bydd pawb sydd wedi ei ddiffinio fel rhiant o dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhieni at ddibenion y darpariaethau hyn ac eithrio awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant o ganlyniad i gael eu henwi mewn gorchymyn gofal ('rhieni corfforaethol') nad ydynt yn cael eu cynnwys yma. Gall contractau rhianta fod yn berthnasol i unrhyw riant sy'n dod o dan y diffiniad.

4.19.15 Gall contract rhianta gael ei ddefnyddio ynghyd â rhaglen cymorth bugeiliol ac ni fwriedir iddo ddisodli'r ymarfer gwyb sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn, ond mae'n darparu mecanwaith ychwanegol sy'n canolbwyntio mwy ar botensial y rhiant i

wella presenoldeb neu ymddygiad ei blentyn. Nid oes dim i rwystro'r awdurdod lleol neu ysgol rhag llunio cytundeb (ffurfiol neu anffurfiol) gyda rhiant mewn perthynas â phresenoldeb ei blentyn ar unrhyw adeg. Nid disodli arfer presennol yw bwriad contractau rhianta, ond yn hytrach darparu opsiwn ychwanegol â chefnogaeth statudol.

Amgylchiadau lle gellid gwneud contract rhianta

4.19.16 Wrth ystyried a yw'r amodau angenrheidiol wedi eu cyflawni ar gyfer contract rhianta, dylai awdurdod lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion ystyried eu holl ddyletswyddau statudol.

4.19.17 Gall contract rhianta gael ei ddefnyddio mewn achosion o driwantiaeth pan nad yw disgybl wedi bod yn mynychu'r ysgol y mae ar ei chofrestr yn rheolaidd neu os yw wedi'i wahardd o'r ysgol, boed am dymor penodol neu'n barhaol, ac fel ymyriad prydlon mewn ymateb i broblemau camymddygiad difrifol sy'n dod i'r amlwg.

4.19.18 Diben contract rhianta yw gwella presenoldeb neu ymddygiad disgybl yn yr ysgol a mynd i'r afael ag unrhyw faterion gwaelodol. Ni ddylid ei ystyried na'i ddefnyddio fel mesur i gosbi rhiant/gofalwr. Ni fydd ychwaith yn addas ym mhob achos. Bydd contract rhianta yn ddull gweithredu priodol pan mae rhiant/gofalwr yn fodlon rhoi sylw i driwantiaeth neu ymddygiad ei blentyn, ond bod arno angen cefnogaeth i wneud hynny'n effeithiol.

4.19.19 Gall contractau rhianta fod yn gymwys ar gyfer rhieni/gofalwyr plant o:

- ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr
- ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig
- ysgol feithrin a gynhelir
- uned cyfeirio disgyblion.

4.19.20 Dylai'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol ystyried nifer o faterion cyn penderfynu gwneud contract rhianta. Mae'r rhain yn cynnwys a oes asiantaethau eraill eisoes yn gweithio gyda'r disgybl a'r teulu, a fyddai contract rhianta yn ategu neu'n ychwanegu at y gwaith yma, pa fath o gefnogaeth allai fod o gymorth i'r rhiant/gofalwr a sut y bydd contract rhianta wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn cael ei gyllido.

4.19.21 Dylai cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ystyried ym mhob achos a ddylai'r contract gynnwys gwaharddiadau, triwantiaeth, camymddygiad a/neu ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os bydd y tîm troseddau ieuencid yn cytuno y dylai'r contract gynnwys yr agweddau hyn, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos a'r trefniadau lleol, y tîm fel arfer fyddai'r asiantaeth arweiniol a fyddai'n gwneud y cais ac yn goruchwyllo'r contract. Bydd angen cytuno ar brotocolau lleol ynglŷn â chydweithredu a chyflenwi adnoddau ar gyfer achosion o'r fath.

Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r disgybl a'r teulu

4.19.22 Mae posibilrwydd bod y disgybl a'i deulu eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu'n derbyn cymorth ganddynt, e.e. y gwasanaethau cymdeithasol, y tîm troseddau ieuenctid neu gorff gwirfoddol.

4.19.23 Cyn i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol benderfynu gwneud contract rhianta, dylent ganfod a chysylltu ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r disgybl a'i riant er mwyn darganfod unrhyw faterion gwaelodol y dylid eu hystyried cyn penderfynu a fyddai contract rhianta yn addas, a phe bai'n addas pa fath o gymorth y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys.

4.19.24 Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r sefydliad sy'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn ofyn am wybodaeth gan unrhyw gorff arall a allai ddefnyddio'r pwerau er mwyn penderfynu beth yw'r dull gorau er mwyn osgoi ceisiadau amryfal.

4.19.25 Mae dull amlasiantaeth yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr holl waith sy'n cael ei wneud gyda'r disgybl a'r rhiant yn cydgysylltu'n dda ac nad oes unrhyw ddyblygu.

Mathau o gymorth a allai gael eu cynnwys mewn contract rhianta

4.19.26 Yn aml, ni fydd rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r mathau gwahanol o gymorth sydd ar gael a dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ddarparu gwybodaeth ynghylch hyn a rhoi manylion cysylltu asiantaethau cenedlaethol a lleol a llinellau cymorth addas. Gallai cymorth addas arall gynnwys:

- cynadleddau grŵp teulu
- mentora cymheiriaid
- dosbarthiadau rhianta
- dosbarthiadau llythrennedd
- budd-daliadau a chyngor cyffuriau/alcohol
- darparu gweithiwr cyswllt allweddol ar gyfer y rhiant/gofalwr a chymorth â chludiant i'r ysgol ac adref.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Cyllido contract rhianta

4.19.27 Bydd y sawl sy'n gwneud y contract rhianta gyda'r rhiant (sef yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol) yn gyfrifol am gostau unrhyw gymorth sydd yn cael ei ddarparu o dan y contract rhianta; serch hynny, gellir adennill y costau hynny gan gorff arall, e.e. os yw ysgol yn wynebu costau gall eu hadennill gan yr awdurdod lleol.

4.19.28 Bydd cost contract rhianta yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gymorth a ddarperir. Anogir awdurdodau lleol ac ysgolion i ddefnyddio contractau rhianta mewn modd dyfeisgar, ac i ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd eisoes ar gael os yw hynny'n addas. Gallai hyn gynnwys:

- cyfleusterau'r ysgol leol
- y Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol
- mentoriaid dysgu ar y safle
- seicolegwyr addysg
- gwasanaethau cymorth ymddygiad
- grŵp cymheiriaid rhianta sy'n bodoli'n barod
- gofyn i riant/gofalwr arall weithredu fel mentor.

Pryd y dylid trefnu contract

4.19.29 Mewn achosion o driwantiaeth, dylid asesu presenoldeb dros gyfnod o ddim llai na pedair wythnos yn ystod y tymor cyn trefnu contract rhianta.

4.19.30 Mewn achosion o wahardd, dylid trefnu'r contract rhianta cyn gynted ag y bo modd ar ôl y gwaharddiad a chwblhau unrhyw adolygiad gwahardd a phrosesau apêl.

4.19.31 Mewn achos o waharddiad parhaol, golygai hynny:

- y dyddiad y gwyddys nad yw'r rhiant yn dymuno gwneud apêl yn erbyn penderfyniad y pennaeth i wahardd, penderfyniad a gadarnhawyd yn ddiweddarach gan y corff llywodraethu. Hwn yw'r dyddiad a nodwyd yn y llythyr a anfonwyd at y rhiant gan y corff llywodraethu, fel y dyddiad erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r rhiant hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dymuno apelio
- y dyddiad y mae'r panel apêl annibynnol yn cefnogi'r penderfyniad i wahardd.

4.19.32 Yn achos gwaharddiadau am dymor penodol, y dyddiad y bydd y broses adolygu wedi ei chwblhau fydd:

- y dyddiad y bydd y corff llywodraethu'n cefnogi penderfyniad y pennaeth i wahardd
- os nad yw'r gwaharddiad yn cael ei ystyried gan y corff llywodraethu, y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad.

4.19.33 Yn achos camymddygiad, bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol gadarnhau bod camymddygiad digonol wedi digwydd i ysgogi contract rhianta statudol, er enghraifft pan fo gan ysgol neu awdurdod lleol reswm i gredu bod disgybl wedi ymddwyn yn y fath fodd i:

- achosi, neu fod yn debygol o achosi, amhariad sylweddol ar addysg disgyblion eraill neu niwed sylweddol i les y disgybl hwnnw neu ddisgyblion eraill neu i ieuchyd neu ddiogelwch unrhyw staff
- ffurfio rhan o batrwm ymddygiad a allai, pe bai'n parhau, arwain at wahardd y disgybl.

4.19.34 Yn achos uned cyfeirio disgyblion, bydd y broses adolygu'n gyflawn pan fydd yr awdurdod lleol yn cadarnhau penderfyniad yr athro sydd â gofal i wahardd; neu os nad yw'r awdurdod lleol yn ei ystyried, y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad.

Hyd y contractau

4.19.35 Nid oes terfyn amser penodol ar gyfer contractau yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 felly mae'n fater o ystyried beth sy'n rhesymol ac yn effeithiol. Gellir cymryd y terfyn 12 mis ar gyfer gorchmynion rhianta fel y terfyn a roddir fel arfer ar gytundebau fel mater o arfer da. Fel arfer bydd gofynion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad plentyn neu ei bresenoldeb, yn ychwanegol at ddarparu cymorth o ryw fath, a fydd yn para am lai na tri mis fel arfer. Ond yn aml bydd yn fuddiol cynnal rhyw lefel o gefnogaeth ar ôl i'r contract ddod i ben a bydd angen i ysgolion ac awdurdodau lleol ystyried sut i sicrhau bod cymorth o'r fath yn gynaliadwy ar ôl i'r contract ddod i ben.

Gweithredu'r contract

4.19.36 Rhaid rhoi'r cyfrifoldeb am gyflawni rhan yr awdurdod lleol neu'r ysgol o'r contract, a rhoi cymorth i reoli'r canlyniad cyffredinol, i swyddog o'r awdurdod lleol neu aelod o gorff llywodraethu'r ysgol, boed yn llywodraethwr neu'n aelod uwch o staff yr ysgol.

4.19.37 Bydd gweithredu'r contract yn golygu cyswllt rheolaidd gyda'r rhiant/gofalwr er mwyn trafod cynnydd ac unrhyw broblemau o safbwynt cwrdd â gofynion y contract. Bydd hefyd yn golygu cyswllt ag asiantaethau eraill sydd â diddordeb megis darparwr rhaglen rianta.

Cysylltu â rhieni/gofalwyr a llunio contract rhianta gyda nhw

4.19.38 Ar ôl ymgynghori â phob asiantaeth sy'n ymwneud â'r teulu, dylai corff llywodraethu'r ysgol neu'r awdurdod lleol drefnu cyfarfod gyda'r rhiant/gofalwr er mwyn trafod diffyg presenoldeb y disgybl ac unrhyw faterion cysylltiedig. Wrth gysylltu â'r rhiant/gofalwr, dylai corff llywodraethu'r ysgol neu'r awdurdod lleol ystyried beth yw'r ffordd orau o gysylltu gyda'r rhiant/gofalwr, gan gofio y bydd rhai rhieni/gofalwyr yn cael mwy o anhawster na'i gilydd i gymryd rhan. Yn ddelfrydol, dylid gwahodd pob rhiant sydd o fewn y diffiniad i ddod i'r cyfarfod, p'un a yw'n byw gyda'r plentyn ai peidio. Fodd bynnag, y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol sydd â'r hawl i benderfynu pa rieni ddylai ddod i'r cyfarfod, ac a fyddai'n briodol i rieni/gofalwyr ddod i gyfarfodydd ar wahân.

4.19.39 Dylid gwahodd y disgybl i ddod i'r cyfarfod hefyd, gan ddibynnu ar ei oed a'i ddealltwriaeth.

4.19.40 Dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ysgrifennu at y rhiant/gofalwr cyn y cyfarfod, gan amlinellu beth yw contract rhianta ac esbonio'n glir nad yw'n fesur gorfodol nac yn gosb, ond mai ei bwrpas yw cynorthwyo'r rhiant/gofalwr a gwella presenoldeb neu ymddygiad y disgybl.

4.19.41 Yn y cyfarfod, dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu esbonio diben y cyfarfod a'r contract rhianta a pham eu bod yn teimlo y gallai fod o gymorth. Dylid gofyn i'r rhiant/gofalwr amlinellu ei farn am ymddygiad y plentyn a/neu ei bresenoldeb yn yr ysgol, unrhyw faterion gwaelodol, sut mae'n credu y dylai'r rhain gael eu trin a'i farn am y syniad o gontract rhianta. Dylai hefyd gael y cyfle i fanylu

ynghylch y math o gefnogaeth a fyddai o gymorth iddo. Yn aml iawn ni fydd rhieni/gofalwyr ymwybodol o'r gwahanol fathau o gefnogaeth ac efallai y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu restru neu grynhoi'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael yn yr ardal er mwyn sbarduno'r drafodaeth hon. Unwaith eto, gan ddibynnu ar oed y disgybl a'i ddealltwriaeth, dylid annog y disgybl i gyfrannu at y drafodaeth hon. Dylai trafodaeth debyg ddigwydd yn achos y gofynion y bydd yn rhaid i'r rhiant/gofalwr gydymffurfio â nhw er mwyn sicrhau y bydd unrhyw ofynion a nodwyd yn y contract yn realistig ac yn rhoi sylw i'r materion y tu ôl i'r diffyg presenoldeb neu gamymddygiad. Dylid anelu at weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella ymddygiad neu bresenoldeb y plentyn.

4.19.42 Unwaith y cytunir ar ofynion y contract a'i elfennau cymorth, dylai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol a'r rhiant/gofalwr ysgrifennu'r contract gyda'i gilydd a'i lofnodi. Dylai'r contract fod yn Gymraeg os dymunir hynny, a dylai gael ei ysgrifennu mewn iaith y mae'n hawdd i'r rhiant/gofalwr ei deall (gan gynnwys cyfieithiad i ieithoedd eraill pan fo angen). Gall un contract rhianta gael ei drefnu i'r holl rieni/gofalwyr, neu mewn amgylchiadau pan mae'n ddymunol cael gofynion gwahanol i bob rhiant/gofalwr, gellir trefnu contract rhianta ar wahân i bob rhiant/gofalwr.

4.19.43 Dylai'r contract sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gofynion penodol a rhai cyffredinol. Mae gofynion cyffredinol fel arfer yn fwy eglur ynghylch amcanion, tra dylai gofynion penodol fod yn eglur ynghylch beth yn union y mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr ei wneud.

4.19.44 Os nad yw rhiant/gofalwr yn dod i gyfarfod, nac yn rhoi rheswm da neu rybudd, dylid gwneud ymdrechion pellach i gysylltu ag ef/hi a threfnu cyfarfod. Byddai llythyr yn addas o dan yr amgylchiadau hyn. Dylid cofnodi pob ymdrech o'r fath.

4.19.45 Dylid dyfeisio'r gofynion penodol ar gyfer y rhiant o dan adran (4)(a) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 gyda golwg ar atal rhagor o driwantiaeth neu ymddygiad gwael yn yr ysgol a allai arwain at waharddiad pellach. Bydd yr union ofynion yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos ond gallent gynnwys:

- sicrhau bod y disgybl yn mynychu'r ysgol neu ddarpariaeth arall yn brydlon ac yn rheolaidd
- mynychu cyfarfodydd gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol
- llofnodi adroddiadau ymddygiad wythnosol
- sicrhau nad yw'r disgybl yn cysylltu â disgyblion penodol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

4.19.46 Pan fo gwaith ar wahân yn cael ei wneud gyda'r disgybl (e.e. drwy raglen cymorth bugeiliol) gallai fod yn ddymunol i'r contract gefnogi hyn neu gynnwys gwaith lle mae'r rhiant/gofalwr a'r disgybl yn gweithio gyda'i gilydd.

4.19.47 Datganiad yw ochr y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o'r contract eu bod yn cytuno i ddarparu cymorth i'r rhiant/gofalwr er mwyn gallu cydweithredu â'r

gofynion a dylid nodi'r mathau o gymorth a fydd yn cael eu darparu o dan y contract. Dylai hefyd gynnwys y prosesau ac amserlen ar gyfer y canlyniadau a ddisgwylir ac ar gyfer adolygiadau ar y cynnydd.

4.19.48 Mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr a chynrychiolydd o'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol (y sawl fydd yn cwblhau rhan y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o'r contract fel arfer) lofnodi'r contract a dylai pob ochr gael copi. Efallai y bydd yn briodol hefyd rhoi copi i asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r teulu.

Rhieni/gofalwyr sy'n gwrthod gwneud contract rhianta neu y mae'n amhosibl cytuno ar gontract gyda nhw

4.19.49 Mae contractau rhianta'n wirfoddol, ond dylai'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r rhiant/gofalwr i drafod contract rhianta os yw'n ystyried y byddai'n addas ac o gymorth i'r rhiant/gofalwr wneud hynny. Os yw rhiant/gofalwr yn gwrthod gwneud contract, yna dylai swyddog yr awdurdod lleol neu aelod o'r corff llywodraethu/aelod uwch o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r contract, geisio cwrdd â'r holl bryderon dilys yn adeiladol a sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o bob ymdrech i drafod contract. Byddai hyn yn cynnwys a oedd y rhiant/gofalwr o leiaf yn fodlon cyfarfod i drafod y posibilrwydd ac, os oedd, beth a ddywedwyd.

4.19.50 Os yw rhiant/gofalwr yn gwrthod gwneud contract neu'n methu cytuno ar gontract addas, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ystyried llwybrau gweithredu gwahanol sydd ar gael. Er enghraifft, mewn achosion o wahardd, gellir gwneud cais am orchymyn rhianta ar unwaith os yw'r plentyn wedi ei wahardd yn barhaol neu yn y dyfodol os yw ymddygiad gwael y plentyn yn parhau i'r pwynt lle mae'n cael ei wahardd am ail dymor penodol ac, mewn achosion o driwantiaeth, gall awdurdod lleol ystyried erlyn. Dylai swyddog yr awdurdod lleol neu'r aelod o staff sy'n gyfrifol am gysylltu â'r rhiant/gofalwr ddweud wrth y rhiant/gofalwr y gellid gweithredu felly. Dylai hefyd egluro'n glir, pan wneir cais am orchymyn rhianta, bod y llys yn gorfod ystyried y gwrthodiad i wneud contract rhianta o dan Adran 21(a) o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac y gall y gwrthodiad gael ei gyflwyno fel tystiolaeth mewn achos o erlyn am bresenoldeb afreolaidd.

4.19.51 Wrth benderfynu a fyddai contract rhianta yn addas, dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ystyried yr holl faterion y tu ôl i'r diffyg presenoldeb neu waharddiad, yn enwedig os yw'n bosibl gwella'r presenoldeb neu ymddygiad drwy weithio gyda'r rhiant a darparu cymorth iddo, ac os felly, pa fath o gymorth y dylai fod.

Ymdrin â thor-amod

4.19.52 Dylai'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu (neu bennaeth ar ran y corff llywodraethu) fod yn gweithio gyda'r rhiant/gofalwr er mwyn sicrhau ei fod yn cydweithredu ac yn cydymffurfio â'r contract, ond bydd hefyd yn gorfod barnu a yw unrhyw dor-amod yn rhesymol, ac a yw'r contract yn parhau i fod yn ddefnyddiol ac a ddylai barhau.

4.19.53 Nid oes atebolrwydd mewn cyfraith am dorri contract rhianta.

4.19.54 Fodd bynnag, mewn achosion o wahardd o'r ysgol, byddai methiant y rhiant/gofalwr i gydymffurfio â'r contract yn ystyriaeth berthnasol i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am wneud cais am orchymyn rhianta ac, wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn rhianta, rhaid i'r llys ystyried unrhyw fethiant gan y rhiant/gofalwr i gydymffurfio â'r gofynion a nodwyd mewn contract rhianta.

4.19.55 Yn yr un modd, mewn achosion o driwantiaeth, gallai peidio â chydymffurfio â'r contract beri i'r awdurdod lleol ystyried erlyn y rhiant/gofalwr am beidio â sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac os felly gellid cyflwyno tystiolaeth i'r llys nad yw'r rhiant/gofalwr wedi cydymffurfio â'r contract.

4.19.56 Mae'n bwysig felly bod unrhyw achos o dorri'r contract yn cael ei gofnodi fel bod modd ei gyflwyno i'r llys os bydd angen.

4.19.57 Dylid ymateb i bob tor-amod a ddaw i'r amlwg. Pan ddaw i wybod bod amod wedi ei dorri, dylai swyddog yr awdurdod lleol neu'r aelod o'r corff llywodraethu/aelod uwch o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r contract gysylltu â'r rhiant/gofalwr o fewn un diwrnod gwaith er mwyn ceisio cael esboniad am y tor-amod. Os yw'r esboniad yn rhesymol a'r contract yn parhau i fod yn ddefnyddiol, dylid cofnodi hyn i gyd a dylai'r contract barhau. Os yw'r esboniad yn dangos ei bod yn anodd cydymffurfio â'r contract, ac nad oes bai ar y rhiant/gofalwr, dylid trefnu cyfarfod gyda'r rhiant/gofalwr i adolygu'r contract a'i ddiwygio, os yw'n briodol.

4.19.58 Os na roddir esboniad neu os nad yw'r swyddog awdurdod lleol neu'r aelod o'r corff llywodraethu/aelod uwch o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r contract yn fodlon â'r esboniad, dylid rhoi rhybudd i'r rhiant/gofalwr, a allai fod ar ffurf llythyr, a chadw cofnod o hyn. Os oes rhagor o dorri amodau, dylai'r swyddog awdurdod lleol neu'r aelod o'r corff llywodraethu/aelod uwch o staff yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r contract drefnu cyfarfod â'r rhiant/gofalwr i adolygu'r contract a gweld sut y gellir gwneud iddo weithio. Dylid atgoffa'r rhiant os yw contract yn methu y gall yr awdurdod lleol wneud cais am orchymyn rhianta mewn achosion o wahardd, naill ai ar unwaith, neu os oes gwaharddiad pellach yn digwydd, neu mewn achosion o driwantiaeth, gall yr awdurdod lleol geisio erlyn y rhiant/gofalwr o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 os yw'r rhiant/gofalwr yn parhau i fethu â chyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dylid dweud wrtho hefyd y byddai llys yn ystyried lefel cydweithrediad y rhiant/gofalwr â'r contract wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ac y byddai'n debygol o ystyried hyn mewn unrhyw erlyniad am driwantiaeth.

4.19.59 Yn sgil y cyfarfod hwnnw, dylid penderfynu a yw'r diffyg cydweithredu'n tanseilio'r contract i'r graddau nad yw bellach yn ddefnyddiol, ac mewn achos o'r fath dylid penderfynu ar drywydd gweithredu newydd. Dylid cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Gellid ei ddefnyddio mewn cais am orchymyn rhianta yn y dyfodol mewn achosion o wahardd neu unrhyw erlyn am driwantiaeth.

Cyswilt rhwng y pennaeth, y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill sy'n cymryd rhan

4.19.60 Yn ôl contractau rhianta, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y contract dalu am unrhyw gost sy'n gysylltiedig ag elfen gymorth y contract. Yng nghyd-destun ysgol, y corff llywodraethu fydd hwn (sydd â rheolaeth dros gyllideb yr ysgol o dan Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgol 1998). Golyga hyn mai enw'r corff llywodraethu fydd yn ymddangos ar y contract, a'r corff llywodraethu fydd â'r cyfrifoldeb terfynol am y contract rhianta.

4.19.61 Gall y corff llywodraethu ddirprwyo'r cyfrifoldeb am gontractau rhianta i'r pennaeth a gall y pennaeth ymrwymo cyllid ar ran y corff llywodraethu os yw'r corff llywodraethu wedi dewis dirprwyo'r pŵer hwn. Fodd bynnag, y corff llywodraethu fydd yn dal yn gyfrifol am y penderfyniad polisi cyffredinol ynglŷn ag a ddylai contractau rhianta fod yn rhan o bolisi presenoldeb ac ymddygiad yr ysgol.

4.19.62 P'un ai'r ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n gwneud y contract rhianta, mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol a'r ysgol yn ymwybodol o'r ffaith fod contract rhianta wedi ei wneud gyda'r rhiant/gofalwr. Dylai'r awdurdod lleol a'r ysgol gysylltu cyn gwneud unrhyw gontract rhianta er mwyn rhannu gwybodaeth ynghylch y disgybl a'r teulu ac unrhyw asiantaethau eraill a allai fod yn ymwneud â'r disgybl a'r teulu. Os enwir asiantaethau eraill, dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol gysylltu â hwy i drafod unrhyw faterion gwaelodol ac i ystyried y mathau o ofynion a chymorth y gallai fod o fudd eu cynnwys yn y contract ei hun. Yn ychwanegol at hyn, dylai'r corff sy'n cynnig defnyddio'r pwerau hyn ofyn am wybodaeth gan unrhyw gorff arall a allai ddefnyddio'r pwerau i benderfynu ai hwn yw'r cam gorau i'w gymryd er mwyn osgoi dyblygu.

4.19.63 Mewn achosion o **waharddiad parhaol** o'r ysgol, yr awdurdod lleol fydd fel arfer yn ystyried trefnu contract rhianta ar gyfer y disgybl. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd y disgybl a waharddwyd nes y gellir gwneud trefniadau iddo barhau â'i addysg yn rhywle arall.

4.19.64 Gall corff llywodraethu ysgol sy'n derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd hefyd ystyried trefnu contract rhianta os yw'n dymuno, ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hyn. Fodd bynnag, yn unol â chyfraith derbyniadau, ni chaiff ysgol ofyn i riant/gofalwr lofnodi contract rhianta fel amod i'r plentyn gael ei dderbyn gan yr ysgol. Dylai'r ysgol y gwaharddwyd y disgybl ohoni a'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch unrhyw gontractau rhianta sy'n bodoli eisoes yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol newydd.

Sut mae contractau rhianta yn cysylltu â deddfwriaeth mynychu ysgol

4.19.65 Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn dweud bod rhiant/gofalwr yn cyflawni trosedd os yw eu plentyn sydd o fewn yr oedran pan mae'n orfodol iddynt fynd i'r ysgol, ac sy'n ddisgybl cofrestredig, yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Cyflawni'r drosedd hon sy'n sbarduno'r defnydd o gontract rhianta. Cyflawnir trosedd oni bai:

- bod absenoldeb y disgybl wedi'i awdurdodi gan yr ysgol

- bod y disgybl yn sâl neu wedi cael ei rwystro rhag mynychu oherwydd achos na ellid ei osgoi
- bod yr absenoldeb ar ddiwrnod a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer defod grefyddol gan y corff crefyddol y mae'r rhiant/gofalwr yn perthyn iddo
- nad yw'r ysgol addas agosaf o fewn pellter cerdded o gartref y plentyn ac nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer:
 - llwybr cerdded diogel i'r ysgol addas agosaf at gartref y plentyn
 - cludiant statudol y plentyn i'r ysgol ac yn ôl i'w gartref
 - llety preswyl yn yr ysgol, neu wrth yr ysgol
 - alluogi'r plentyn i fynychu ysgol sy'n nes at y cartref.
- bod y rhiant/gofalwr yn gallu dangos bod ei fasnach neu ei fusnes yn golygu bod yn rhaid iddo deithio, a bod y plentyn wedi mynychu'r ysgol mor rheolaidd ag y mae natur y fasnach neu'r busnes yn caniatáu, a bod y plentyn hynny wedi mynychu'r ysgol am o leiaf 200 sesiwn yn ystod y deuddeng mis blaenorol.

4.19.66 Os yw'n dod yn amlwg bod y drosedd o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996 wedi ei chyflawni ac nad yw dim un o'r amddiffyniadau uchod yn berthnasol, gellir rhoi ystyriaeth i wneud contract rhianta.

Gorchmynion rhianta

4.19.67 Mae dau fath o Orchymyn Rhianta. Mae'r pŵer i roi gorchmynion rhianta mewn ymateb i driwantiaeth ar gael mewn llysoedd o dan adran 8 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ar gyfer rhieni/gofalwyr sydd wedi'u canfod yn euog o dan adran 443 neu 444 o Ddeddf Addysg 1996. Mae canllawiau ar gyfer gorchmynion rhianta ar gyfer triwantiaeth i'w gweld yn *Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan* (2011), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.19.68 O dan adran 20 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, pan fo disgybl wedi ei wahardd yn barhaol o'r ysgol neu'n derbyn mwy nag un gwaharddiad tymor penodol o fewn 12 mis, gall yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys am orchymyn rhianta. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin yn bennaf â'r math hwn o Orchymyn Rhianta.

4.19.69 Mae gorchmynion rhianta yn gorfodi rhieni/gofalwyr sydd wedi bod yn anfodlon neu'n analluog i ymgysylltu'n wirfoddol i roi sylw i gamymddygiad eu plentyn yn yr ysgol drwy ddarparu cymorth, gan gynnwys dosbarthiadau rhianta.

4.19.70 Mae i'r gorchymyn rhianta ddwy elfen.

- Mynnu bod y rhiant/gofalwr yn mynychu sesiynau cwnsela neu gyfarwyddyd (e.e. addysg rhianta neu ddosbarthiadau cymorth rhianta) lle bydd yn derbyn cymorth a chefnogaeth i'w alluogi i wella ymddygiad ei blentyn. Dyma graidd y gorchymyn rhianta a gall barhau am hyd at dri mis.
- Mynnu bod y rhiant/gofalwr yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y gorchymyn. Gall yr elfen hon bara am hyd at 12 mis.

4.19.71 Gorchmynion sifil y gellir eu cael drwy wneud cais i'r llys yw gorchmynion rhianta sydd ar gael mewn achosion o wahardd o'r ysgol. Yn wahanol i'r

gorchmynion rhianta a roddir mewn achosion presenoldeb, nid ydynt yn dilyn erlyn am drosedd. Mae ffurflen gais am orchymyn rhianta i'w gweld yn Atodiad 4.

4.19.72 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am wneud cais am orchymyn rhianta ac am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â hynny, gan gynnwys costau'r rhaglen rianta, a all fod yn rhan o'r gorchymyn. Pan fo nifer o gyrff yn gwneud cais am orchymyn rhianta neu i wneud contract rhianta, bydd yn rhaid i'r corff sy'n bwriadu ymarfer y pŵer hwnnw ymgynghori â phob corff arall, er mwyn sicrhau nad yw gorchmynion neu gontractau'n cael eu dyblygu ac er mwyn penderfynu ai gorchymyn neu gontract sydd orau.

4.19.73 Gall y llys orfodi gorchymyn rhianta ar unrhyw riant/gofalwr unigol neu ar bob rhiant/gofalwr sy'n dod o fewn y diffiniad (gweler y diffiniad yn y cyflwyniad i'r adran hon) ac nid oes angen eu cydsyniad.

4.19.74 Rhaid i 'swyddog cyfrifol' oruchwylio pob gorchymyn rhianta. Gallai hwn fod yn swyddog o'r awdurdod lleol, yn bennaeth neu'n aelod uwch o staff a enwebwyd gan y pennaeth. Fodd bynnag, ni ellir enwi pennaeth na pherson a enwebwyd gan y pennaeth yn y gorchymyn os nad ydynt wedi cydsynio i hynny.

4.19.75 Os yw'r rhiant/gofalwr yn gwrthod cydymffurfio â'r Gorchymyn, bydd yn rhaid ystyried dwyn achos am dorri amod. Os yw'r rhiant/gofalwr yn cael ei ddyfarnu'n euog o dorri gorchymyn rhianta, gall dderbyn dirwy heb fod yn uwch na Lefel 3 (hyd at £1,000 ar hyn o bryd). Wrth ystyried lefel y ddirwy, mae'n rhaid i'r ynadon ystyried gallu'r rhiant/gofalwr i dalu. Gall y llys hefyd ystyried unrhyw ddedfryd arall sydd ar gael ar gyfer trosedd nad yw'n dwyn cosb o garchar.

Amgylchiadau pryd y gellid dilyn trywydd gorchymyn rhianta

4.19.76 Wrth ystyried a yw'r amodau angenrheidiol ar gyfer gorchymyn rhianta wedi eu cyflawni, dylai'r awdurdod lleol a chyrrff llywodraethu ysgol ystyried eu dyletswyddau statudol.

4.19.77 Gall awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn rhianta annibynnol pan fo:

- disgybl wedi ei wahardd o'r ysgol am ail dymor penodol o fewn cyfnod o 12 mis
- disgybl wedi ei wahardd o'r ysgol yn barhaol
- ar gyfer achosion o gamymddygiad difrifol lle gellid bod wedi gwahardd y disgybl yn hytrach nag achosion lle mae disgybl wedi ei wahardd mewn gwirionedd.

4.19.78 Gall gorchmynion rhianta fod yn gymwys ar gyfer rhieni/gofalwyr disgyblion o:

- ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr
- ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig
- ysgol feithrin a gynhelir
- uned cyfeirio disgyblion.

Asesu pryd mae gorchymyn rhianta yn addas

4.19.79 Dim ond mewn achos o wahardd mewn ymateb i gamymddwyn difrifol y mae gorchymyn rhianta'n briodol, neu pan fo camymddwyn difrifol wedi digwydd heb unrhyw waharddiad.

4.19.80 Byddai camymddwyn difrifol yn cynnwys, er enghraifft:

- ymddygiad aflonyddus cyson yn y dosbarth
- ymddygiad bygythiol
- difrio geiriol
- ymosod (gan gynnwys ymosodiad rhywiol)
- difrod i eiddo'r ysgol
- lladrata oddi ar unigolyn neu oddi ar yr ysgol
- cyflenwi cyffur anghyfreithlon
- meddu ar arf ymosodol neu atgynhyrchiad o arf.

Mae bwlio (gan gynnwys camdriniaeth hiliol a homoffobaidd) hefyd yn gallu bod yn gamymddwyn difrifol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

4.19.81 Wrth benderfynu a allai gorchymyn rhianta fod yn addas, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw'r ffordd y mae'r rhieni'n magu'r plentyn yn ffactor arwyddocaol yng nghamymddygiad y disgybl, ac a allai rhaglen rianta fod yn ddefnyddiol er mwyn gwella hyn, a pha ofynion eraill a allai fod yn ddefnyddiol mewn gorchymyn i ymdrin ag ymddygiad y disgybl.

4.19.82 Gellir gwneud cais am orchymyn rhianta yn achos un neu fwy o unigolion sy'n dod o dan y diffiniad o riant.

4.19.83 Mae adran 26 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn galluogi timau troseddau ieuenctid i wneud cais am orchymynion rhianta yn achos ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai awdurdodau lleol ystyried ym mhob achos a ddylai'r gorchymyn am waharddiad gynnwys ymddygiad troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os yw'r tîm troseddau ieuenctid yn cytuno y dylai'r gorchymyn gynnwys y meysydd hynny, yna fel rheol, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos a threfniadau lleol, y nhw fyddai'n gweithredu fel y brif asiantaeth wrth wneud y cais a goruchwyllo'r gorchymyn. Bydd angen cytuno ar brotocolau lleol ynghylch cydweithredu a chyflenwi adnoddau ar gyfer achosion o'r fath.

Amseru gwneud cais am orchymyn rhianta

4.19.84 Mae'n rhaid gwneud cais am orchymyn rhianta ar ôl y dyddiad y mae'r adolygiad ar y gwaharddiad a'r broses apêl yn gorffen neu'r digwyddiad y digwyddodd y camymddygiad difrifol.

4.19.85 Mewn achos o waharddiad parhaol, y dyddiad y byddai'r broses apêl yn gyflawn fyddai:

- y dyddiad erbyn pryd y gwyddys nad yw'r rhiant/gofalwr yn dymuno gwneud apêl yn erbyn penderfyniad y pennaeth i wahardd, penderfyniad a gadarnhawyd wedi hynny gan y corff llywodraethu. Hwn fyddai'r dyddiad a nodwyd yn y llythyr i'r rhiant/gofalwr gan y corff llywodraethu, fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr ddweud wrth yr awdurdod lleol ei fod yn dymuno gwneud apêl
- y dyddiad y mae'r panel apêl annibynnol yn cadarnhau'r penderfyniad i wahardd.

4.18.86 Mewn achos o wahardd am dymor penodol, y dyddiad y byddai'r broses adolygu yn gyflawn fyddai:

- y dyddiad pan mae'r corff llywodraethu (neu'r awdurdod lleol yn achos uned cyfeirio disgyblion) yn cadarnhau penderfyniad y pennaeth i wahardd
- os nad ystyrir y mater gan y corff llywodraethu (neu'r awdurdod lleol yn achos uned cyfeirio disgyblion), y dyddiad pan ddechreuodd y gwaharddiad.

4.19.87 Os nad oes contract rhianta yn ei le, mae gan yr awdurdod lleol 40 niwrnod ysgol i weithredu unrhyw asesiad angenrheidiol, paratoi ei dystiolaeth a gwneud cais i'r llys. Dylid gwneud ceisiadau cyn gynted ag y bo modd o fewn y terfyn amser hwn er mwyn sicrhau ymyriad cyflym ac effeithiol.

4.19.88 Os yw rhiant/gofalwr wedi gwneud contract rhianta yn barod (neu'n cael cynnig un ac yn derbyn contract rhianta yn achos y gwaharddiad neu gamymddygiad dan sylw, ond ei fod yn profi wedi hynny i fod yn aneffeithiol), gall yr awdurdod lleol wneud cais am orchymyn rhianta o fewn chwe mis o'r dyddiad y cafodd y contract ei lofnodi.

Cyswllt rhwng y pennaeth, y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill perthnasol

4.19.89 Er mai'r awdurdod lleol yn unig a all wneud cais am orchymyn rhianta, ac mai'r awdurdod lleol fydd â'r hawl i benderfynu'n derfynol a yw'n briodol, mewn achosion o wahardd am dymor penodol, pan fo'r plentyn yn parhau i fod yn gofrestredig yn yr ysgol, bydd hawl gan y pennaeth i ofyn i'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn rhianta pan maent yn ystyried y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y plentyn, ac yn rhwystro gwaharddiadau tymor penodol neu waharddiad parhaol yn y dyfodol.

4.19.90 Bydd gwneud unrhyw gais am orchymyn rhianta mewn achosion o wahardd o'r ysgol yn gofyn am gydweithio agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol. Dylai'r awdurdod lleol a'r ysgol wneud gwiriadau hefyd er mwyn canfod pa asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a chysylltu â nhw i ganfod pa ymyriadau sy'n bodoli eisoes, trafod unrhyw faterion gwaelodol ac ystyried y mathau o ofynion y byddai'n fuddiol eu cynnwys yn y gorchymyn rhianta.

4.19.91 Dylai'r corff sy'n cynnig defnyddio'r pwerau hyn ofyn am wybodaeth gan unrhyw gorff arall a allai ddefnyddio'r pwerau i benderfynu ai hwn yw'r cam gorau i'w gymryd er mwyn osgoi dyblygu.

Costau

4.19.92 Nid oes unrhyw reidrwydd ar awdurdod lleol i wneud cais am orchymyn rhianta mewn achosion o wahardd o'r ysgol neu gamymddygiad difrifol. Ni fydd ychwaith yn addas o dan bob amgylchiad.

4.19.93 Pan fo cais am orchymyn rhianta yn cael ei wneud, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gwneud y cais gwrdd â chostau gwneud y cais a'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw orchymyn a wneir, gan gynnwys costau unrhyw raglen gwnsela neu gyfarwyddyd. Gellir adennill y costau hyn gan gorff arall os cytunir ar hynny ymlaen llaw.

Gwneud y cais

4.19.94 Mae'n rhaid i geisiadau gael eu gwneud yn unol â Rheolau (Gorchmynion Rhianta) Llysoedd Ynadon 2004 (OS 2004/247) sy'n nodi pa ffurf y dylid ei defnyddio. Mae copi enghreifftiol o'r ffurflen gais ar gyfer gorchymyn rhianta wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Darparu tystiolaeth

4.19.95 Yn ogystal, bydd angen i'r awdurdod lleol neu ysgol baratoi tystiolaeth i gefnogi eu cais. Dylai tystiolaeth fod y disgybl wedi ei wahardd o'r ysgol neu wedi dangos camymddygiad difrifol fod ar ffurf datganiad gan bennaeth yr ysgol, cofnodion y corff llywodraethu (pan fo hynny'n berthnasol) ac, yn achos gwaharddiadau parhaol pan mae'r rhiant/gofalwr yn apelio, cofnodion neu lythyr penderfyniad gwrandawriad y panel apêl annibynnol.

4.19.96 Yn achos camymddygiad difrifol, yr ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, amhariad sylweddol ar addysg disgyblion eraill neu niwed sylweddol i les y disgybl hwnnw neu ddisgyblion eraill neu i iechyd neu ddiogelwch unrhyw staff, neu batrwm ymddygiad a fyddai, pe bai'n parhau, yn arwain at wahardd y plentyn.

4.19.97 Gallai tystiolaeth gefnogol gynnwys datganiadau gan dystion a welodd y digwyddiad neu dystiolaeth ffisegol pan fo'n briodol.

4.19.98 Gall y llys ddewis ystyried holl amgylchiadau'r achos wrth benderfynu a yw'n ddymunol gwneud gorchymyn rhianta, gan gynnwys tystiolaeth rhieni/gofalwyr a thystion eraill yn y llys. I gefnogi'r cais, dylai'r awdurdod lleol gyflwyno asesiadau o'r disgybl a'i riant/gofalwr a manylion ynglŷn â gallu'r awdurdod lleol i gyflenwi'r rhaglen rianta.

4.19.99 Dylai'r awdurdod lleol hefyd ddarparu tystiolaeth o unrhyw brofiad o geisio ymgysylltu â'r rhiant/gofalwr drwy gyfrwng contract rhianta. Rhaid i ynadon ystyried a yw rhieni/gofalwyr wedi gwrthod llunio contract rhianta, neu wedi methu â chydymffurfio ag ef. Mae'r dystiolaeth hon yn berthnasol wrth ystyried a fyddai'n ddymunol cael gorchymyn i atal rhagor o gamymddwyn mewn ysgol a allai arwain at waharddiad. Fel arfer, ni fyddai mantais o gael gorchymyn rhianta os yw'r rhiant/gofalwr yn fodlon ymwneud yn llawn â'r cymorth a gynigir o'i wirfodd.

Pwyntiau o drefn

Darparu gwybodaeth am amgylchiadau teuluol

4.19.100 Pan fo disgybl o dan 16 oed, rhaid i'r llys dderbyn ac ystyried gwybodaeth am amgylchiadau teuluol y rhiant/gofalwr ac effaith debygol y gorchymyn ar yr amgylchiadau hynny cyn gwneud gorchymyn rhianta.

4.19.101 Dylai'r awdurdod lleol fod yn barod i ddarparu gwybodaeth ynghylch amgylchiadau teuluol y rhiant/gofalwr. Gallai'r awdurdod lleol gyflwyno adroddiad ynghlwm wrth y cais am orchymyn rhianta. Neu gallai'r llys ddibynnu ar adroddiad llafar yn y llys (e.e. pan fo amgylchiadau'r teulu'n wybyddus i'r awdurdod lleol), neu ofyn cwestiynau i'r rhiant/gofalwr neu'r disgybl os ydynt yn bresennol yn y llys. Y llys fydd yn penderfynu ym mha ffurf y cyflwynir y wybodaeth hon, a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Plant yng ngofal yr awdurdod lleol neu'n byw mewn llety awdurdod lleol

4.19.102 Mewn achosion o wahardd neu gamymddygiad difrifol, dim ond i rieni/gofalwyr fel unigolion, ac nid cyrff corfforaethol, y mae gorchmynion rhianta'n berthnasol. Felly ni ellir gwneud y math hwn o orchymyn rhianta yn erbyn awdurdodau lleol yn achos plant sy'n derbyn gofal (h.y. plant sydd yng ngofal uniongyrchol yr awdurdod lleol). Byddant yn berthnasol, fodd bynnag, i rieni/gofalwyr maeth.

Rhieni/gofalwyr yn mynychu'r llys

4.19.103 Gall llysoedd ynadon, a llysoedd ieuenctid, orfodi rhieni/gofalwyr i fynychu'r llys drwy gyhoeddi gwŷs, pan fo'n briodol. Mae'n ddymunol sicrhau bod pob rhiant/gofalwr sy'n gynwysedig o fewn y diffiniad (gweler y diffiniad yn y cyflwyniad i'r adran hon) yn dod i'r llys a bod pob rhiant/gofalwr yn rhan o unrhyw mymiad rhianta.

Gofynion gorchmynion rhianta

4.19.104 Cyn belled ag y mae'n ymarferol, dylai'r gofynion a nodir yn y gorchymyn rhianta neu mewn cyfarwyddiadau a roddir o dan y gorchymyn, osgoi unrhyw wrthdaro â chredoau crefyddol y rhieni ac unrhyw ymyrraeth â'r amseroedd pan mae'r rhiant/gofalwr fel rheol wrth ei waith neu'n mynychu sefydliad addysgol. Bydd angen cydbwysedd rhwng gosod gofynion i ymdrin â'r problemau a arweiniodd at wneud y gorchymyn rhianta, a'r materion eraill hyn.

Rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd

4.19.105 Prif ofyniad gorchymyn rhianta yw bod y rhiant/gofalwr yn mynychu rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd (e.e. rhaglen gymorth i rieni neu raglen addysg rhianta) fel y nodir yn y cyfarwyddiadau a baratoir gan y swyddog cyfrifol. Rhaid gosod y gofyniad hwn ym mhob achos pan wneir gorchymyn (ac eithrio pan fo'r rhiant/gofalwr wedi derbyn gorchymyn rhianta o'r blaen) a gall y rhaglen barhau am hyd at dri mis. Dylai'r trefniadau i gwrdd â'r gofyniad hwn fod mor hyblyg â phosibl, er mwyn ystyried argaeledd ac amseriad rhaglen o'r fath.

4.19.106 Gall y swyddog cyfrifol neu ddarparwr arall, fel adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu sefydliad sector gwirfoddol lleol yn gweithio gyda rhieni, ddarparu'r rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd. Mae nifer o wahanol ddarparwyr rhaglenni rhianta. Dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ei ardal ac mewn awdurdodau cyfagos (ar gyfer achosion trawsffiniol).

4.19.107 Y llys fydd yn penderfynu am ba hyd y pery'r gofyniad hwn. Dylai fod yn ddigon hir i ganiatáu nifer digonol o sesiynau wythnosol. Mae profiad yn awgrymu na ddylai hyn fod yn llai na chwech neu saith o sesiynau dwy awr. Rhaid i'r cyfnod o hyd at dri mis ar gyfer y gofyniad hwn gydredeg â hyd y gorchymyn cyfan ac unrhyw ofynion penodol ond gan gymryd i ystyriaeth argaeledd rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd briodol, nid oes rhaid i'r rhaglen redeg o'r dyddiad y gwnaethpwyd y gorchymyn.

4.19.108 Os mynychu rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd yw'r unig ofyniad sydd yn y gorchymyn, yna gall y llys ddal i wneud i'r gorchymyn bara am ddeuddeng mis os yw'n credu ei bod yn rhesymol gwneud hynny er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y torrir amodau'r gorchymyn neu newid i orfodi'r rhiant/gofalwr i fynychu rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd newydd.

4.19.109 Tra bydd y rhiant/gofalwr yn mynychu'r rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd, bydd angen i'r swyddog cyfrifol a darparwr y rhaglen (os yw'n wahanol) ystyried y cynnydd a wneir – bydd pa mor aml yn dibynnu ar y graddau y mae'r swyddog cyfrifol yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r rhaglen. Efallai y byddai'n fuddiol i'r rhiant/gofalwr ymwneud â rhywfaint o waith gwirfoddol dilynol ar ôl cwblhau'r gorchymyn; gallai hyn olygu mynychu grŵp cymorth rhieni neu weithgaredd tebyg.

Gofyniad preswyl

4.19.110 Dim ond os bodlonir dau amod y gall gorchymyn rhianta gynnwys cwrs preswyl sef:

- y bydd presenoldeb rhiant/gofalwr ar gwrs preswyl yn debygol o fod yn fwy effeithiol na'i bresenoldeb ar gwrs dibreswyl o ran rhwystro ei blentyn rhag ailadrodd yr ymddygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn
- y bydd unrhyw ymyrraeth debygol â bywyd y teulu yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

4.19.111 Bwriad hyn yw sicrhau y byddai unrhyw elfen breswyl i orchymyn rhianta yn cyfateb i Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Dylai awdurdodau lleol felly ystyried a dorrid Erthygl 8 ac, os felly, a ellid cyfiawnhau hynny.

4.19.112 Os yw awdurdod lleol yn dymuno argymell neu wneud cais am orchymyn rhianta ag elfen breswyl dylai ddarparu tystiolaeth bod yr amodau hyn yn cael eu bodloni. Enghraifft fyddai amgylchiad lle mae bywyd cartref y rhiant/gofalwr mor anhrefnus fel y byddai angen lleoliad wedi ei strwythuro arno er mwyn cael gwasanaeth cwnsela a chyfarwyddyd effeithiol.

4.19.113 Er mwyn i'r llys allu penderfynu a fyddai unrhyw ymyriad tebygol â bywyd teuluol yn rhesymol, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddweud wrth y llys beth yn union fydd y rhaglen. Nid oes rhaid iddi fod yn barhaus. Gallai nifer fach o benwythnosau preswyl wedi eu strwythuro o fewn rhaglen ddibreswyl ehangach fod yn addas. Bydd trefniadau ar gyfer gofal y plentyn (ac unrhyw frodyr neu chwiorydd a dibynyddion) yn ystyriaeth hollbwysig. Gallai fod yn fuddiol i'r plentyn a brodyr a chwiorydd fod yn bresennol o'u gwirfodd gan y gall gwaith teuluol dwys fod yn arbennig o effeithiol.

Gofynion penodol

4.19.114 Yn y gorchymyn rhianta, gall y llys hefyd gynnwys gofyniad i'r rhiant/gofalwr gydymffurfio am gyfnod o ddim rhagor na 12 mis â'r gofynion hynny a nodwyd yn y gorchymyn.

4.19.115 Dylai'r awdurdod lleol wneud argymhelliad i'r llys ynghylch pa mor hir y dylai'r gorchymyn rhianta bara. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Mewn llawer o achosion bydd yn ddymunol argymell i'r llys y dylai'r gorchymyn bara am y 12 mis llawn. Bydd gosod gorchymyn rhianta am y cyfnod hwn o amser yn fwy tebygol o ddod â gwelliant parhaus, o ganlyniad i'r cymorth a'r monitro cyson a roddir drwy gyfrwng y gorchymyn.

4.19.116 Gall y gofynion a nodir yn y gorchymyn fod yn rhai y mae'r llys yn ystyried y byddant o fudd wrth geisio sicrhau na fydd yr ymddygiad a arweiniodd at wahardd y disgybl o'r ysgol yn y lle cyntaf yn cael ei ailadrodd. Er yn ddewisol, mae'n debygol y bydd yn addas cynnwys gofynion sy'n gysylltiedig â goruchwyllo'r disgybl, er mwyn rhoi sylw i'w ymddygiad. Dylai'r awdurdod lleol argymell i'r llys beth yn union ddylai'r gofynion hyn ei gynnwys. Gallai gofynion posibl gynnwys:

- gosod a chadarnhau terfynau y cytunwyd arnynt yn y cartref
- sicrhau presenoldeb rheolaidd y disgybl mewn darpariaeth arall
- llofnodi adroddiadau neu ddiweddariadau ymddygiad rheolaidd
- mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwr addysg y disgybl.

4.19.117 Bydd angen addasu'r gofynion a orfodir o dan yr elfen hon o'r gorchymyn er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a achosodd i'r llys wneud y gorchymyn rhianta ac, os yw'n bosibl, dylent fod yn gysylltiedig ag unrhyw waith a wneir gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol gyda'r disgybl.

4.19.118 Wrth benderfynu ar ofynion penodol mae'n bwysig ystyried bod torri gorchymyn yn drosedd. Mae'n hollbwysig sicrhau felly bod y gofynion yn benodol, yn fesuradwy ac yn ddigon clir i riant/gofalwr wybod pan maent yn eu torri ac i'r swyddog cyfrifol allu monitro cydymffurfiaid y rhiant/gofalwr.

Rheoli gorchymynion rhianta a chyfranogiad pellach gan y llys

Rôl y swyddog cyfrifol

4.19.119 Mae'n rhaid i orchymyn rhianta enwi swyddog cyfrifol a fydd fel arfer, yn achos gorchymyn a wneir yn dilyn gwaharddiad o'r ysgol, yn swyddog o'r awdurdod lleol, yn bennaeth neu'n aelod uwch o staff a enwebwyd gan y pennaeth.

4.19.120 Bydd y swyddog cyfrifol yn darparu neu'n trefnu i ddarparu'r rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd, ac yn goruchwyllo unrhyw ofynion eraill a gynhwysir yn y gorchymyn. Bydd yn rhaid i'r swyddog cyfrifol hefyd nodi a chysylltu ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r disgybl a'i deulu (e.e. y gwasanaethau cymdeithasol, y tîm troseddau ieuencid, unrhyw gyrrff gwirfoddol) er mwyn sicrhau bod yr holl ymyriadau yn cyd-fynd yn dda ac yn ategu.

4.19.121 Wrth benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i fod yn swyddog cyfrifol ar gyfer gorchymyn rhianta, dylai'r awdurdod lleol neu'r pennaeth ystyried y sgiliau y bydd eu hangen er mwyn goruchwyllo'r gorchymyn yn iawn a'r ymrwymiad amser y bydd ei angen. Bydd angen i'r swyddog cyfrifol fod yn sensitif i anghenion y disgybl a'r rhiant/gofalwr. Yn ddelfrydol, dylai fod wedi cael hyfforddiant, profiad neu gymhwyster mewn materion gwaith cymdeithasol, a dylai fod â gwybodaeth am gyfraith, polisi ac ymarfer addysg a bod yn weddol gyfarwydd â gweithdrefnau llysoedd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau swyddog o'r awdurdod lleol fydd y swyddog cyfrifol.

4.19.122 Dim ond os byddant wedi ymgynghori ac wedi derbyn cefnogaeth corff llywodraethu'r ysgol y gall penaethiaid dderbyn y cyfrifoldeb o fod yn swyddog cyfrifol (un ai eu hunain neu drwy aelod o staff yr ysgol). Wrth ystyried a fyddai'n addas i aelod o staff yr ysgol fod yn swyddog cyfrifol, dylai'r penaethiaid ystyried yr ymrwymiad amser, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i oruchwyllo'r gorchymyn yn effeithiol (fel y nodwyd ym mharagraff 4.17.121). Ni chaiff awdurdodau lleol ddynodi pennaeth, neu berson a enwebwyd gan y pennaeth, i fod yn swyddog cyfrifol onid ydynt yn fodlon bod corff llywodraethu'r ysgol yn cefnogi'r trefniant hwn.

4.19.123 Mae'n arfer da i'r cysylltiad cyntaf rhwng y swyddog cyfrifol a'r rhiant/gofalwr ddigwydd cyn diwedd y diwrnod gwaith dilynol ar ôl gwneud y gorchymyn. Dylai'r cyfarfod cyntaf fod yn gyfle i'r swyddog cyfrifol roi esboniad pellach i'r rhiant/gofalwr ynghylch natur y gorchymyn rhianta, ei ddiben a sut y bydd yn gweithio yn ymarferol (a rhoi copi o'r gorchymyn iddo). Bydd angen nodi manylion y gofynion yn glir, disgrifio'r trefniadau monitro, ac esbonio canlyniadau peidio â chydweithredu â'r gofynion. Os yw'r rhaglen gwnsela neu gyfarwyddyd o fewn y gorchymyn yn cael ei chyflenwi gan rywun arall yn hytrach na'r swyddog cyfrifol, dylid cael cyfarfod ymlaen llaw rhwng y rhiant/gofalwr a'r unigolyn hwnnw dim mwy na phythefnos cyn bod y sesiynau'n dechrau.

4.19.124 Bydd llwyddiant y berthynas rhwng y rhiant/gofalwr a'r swyddog cyfrifol yn nodwedd allweddol o gwblhau'r gorchymyn yn llwyddiannus. Tra bo gofynion y gorchymyn rhianta yn weithredol, dylai'r swyddog cyfrifol gynnal cyswllt rheolaidd â'r rhiant. Dylai hyn alluogi'r swyddog cyfrifol i benderfynu i ba raddau y mae'r rhiant/gofalwr yn cydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan y llys. Os yw'n anodd

cydweithredu â'r gofynion, ac nad oes bai ar y rhiant/gofalwr, gall y swyddog cyfrifol ystyried yr angen i wneud cais i'r llys amrywio'r gorchymyn.

Amrywio a ryddhau

4.19.125 Gall rhiant/gofalwr neu swyddog cyfrifol wneud cais i'r llys a wnaeth y gorchymyn rhianta yn gofyn am gael amrywio'r gorchymyn neu ei ryddhau. Mae Rheol 31.5 o Reolau Trefniadaeth Droseddol 2015 yn nodi y dylai ceisiadau gael eu gwneud gan unigolyn yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol o'r rhesymau dros wneud hynny, gan egluro—

- (i) pa amgylchiadau perthnasol sydd wedi newid ers gwneud y gorchymyn, a
- (ii) pam y dylid amrywio neu ddirymu'r gorchymyn o ganlyniad i hynny;

Dylid cyflwyno'r cais hefyd i—

- (i) swyddog y llys,
- (ii) yr erlynydd neu'r diffynnydd, fel y bo'n briodol, a
- (iii) unrhyw berson arall a restrir ym mharagraff (1)(b) o Reol 31.5 o Reolau Trefniadaeth Droseddol 2015, os bydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath.

4.19.126 Gellir amrywio'r gorchymyn un ai drwy osod darpariaeth yn y gorchymyn (yn ychwanegol at, neu yn lle, unrhyw un o'i ddarpariaethau) a allai fod wedi ei chynnwys yn y gorchymyn pe bai'r pŵer gan y llys bryd hynny i wneud y gorchymyn a phe bai'n ymarfer y pŵer hwnnw, neu drwy ddileu unrhyw ddarpariaeth a gynhwyswyd yn y gorchymyn. Gellir amrywio gorchymynion rhianta am nifer o resymau, e.e. pan fo teulu'n symud i ardal arall neu pan mae'r gofynion yn aneffeithiol.

4.19.127 Pan wrthodir cais am ryddhau o orchymyn rhianta, ni ellir gwneud cais pellach heb ganiatâd y llys. Mae hyn yn bennaf er mwyn rhwystro ceisiadau ffug neu fynych.

Ymdrin ag apeliadau a thorri gorchymyn

Apeliadau

4.19.128 Pan fo gorchymyn rhianta wedi ei wneud, dylai unrhyw apêl yn ei erbyn gael ei gwneud i Lys y Goron.

Torri gorchymyn

4.19.129 Prif ddiben y gorchymyn rhianta yw rhoi cymorth a chefnogaeth i'r rhiant/gofalwr er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad ei blentyn. Dylai'r swyddog cyfrifol geisio sicrhau a chynnal cydweithrediad a chydymffurfiad y rhiant/gofalwr â gofynion y gorchymyn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, a bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch beth sy'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos.

4.19.130 Os nad yw rhiant/goflawr yn cydymffurfio â gofynion y gorchymyn, mae'n arfer da i'r swyddog cyfrifol wneud cyswllt gyda'r rhiant/gofalwr o fewn un diwrnod gwaith drwy ymweld, ffonio neu anfon llythyr. Os nad oes rheswm derbyniol am y diffyg cydymffurfio, dylai'r swyddog cyfrifol roi rhybudd ysgrifenedig ac, os yw'n bosibl, dylai roi rhybudd personol i'r rhiant/gofalwr.

4.19.131 Os oes gan y rhiant/gofalwr reswm da dros fethu â chydymffurfio â gofynion y gorchymyn rhianta, gallai fod yn briodol i'r swyddog cyfrifol ystyried a ddylai wneud cais i'r llys yn gofyn iddo amrywio telerau'r gorchymyn.

4.19.132 Yn achos mwy nag un methiant annerbyniol i gydymffurfio o fewn cyfnod o dri mis, dylai'r swyddog cyfrifol gwrdd â'r rhiant/goflawr i adolygu'r gorchymyn a sut y gellir gwneud iddo weithio. Dylai'r swyddog cyfrifol hefyd ystyried a yw'r methiant i gydymffurfio yn sail ar gyfer erlyniad.

4.19.133 Os erlynir, cynhelir gwrandawriad i benderfynu a yw'r rhiant/gofalwr yn euog o fethu â chydymffurfio â gofynion y gorchymyn rhianta heb achos digonol. Ym mhob achos, bydd y gwrandawriad yn digwydd mewn llys ynadon oedolion, oni bai fod y rhiant/gofalwr o dan 18 oed pan fyddai'n fwy addas i'r achos gael ei glywed mewn llys ieuenctid. Bydd y gwrandawriad yn rhoi cyfle i'r rhiant/gofalwr esbonio pam na chydymffurfiwyd â gofynion y gorchymyn.

4.19.134 Os yw'r rhiant/gofalwr yn cael ei gollfarnu, gallai orfod talu dirwy na fydd yn uwch na Lefel 3 ar y raddfa safonol (hyd at £1,000 ar hyn o bryd). Bydd gan y llys hefyd yr hawl i roi rhyddhad llwyr neu amodol, gorchymyn prawf neu orchymyn cyrffiw. Byddai cosb gymunedol yn amodol ar y cyfyngiadau a osodwyd yn adran 148 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Ni all llysoedd ailosod gorchymynion rhianta mewn achos o dorri'r gorchymyn ond bydd y gorchymyn gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys.

4.19.135 O dan adran 127 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, mae cyfyngiad amser o chwe mis ar gyfer dwyn achos o dorri gorchymyn. Gellir dwyn achos ar ôl i orchymyn ddod i ben. Fodd bynnag, bydd yn fwyaf effeithiol pan fydd achos yn cael ei ddwyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl canfod y tor-amod, a'i gwblhau o fewn oes y gorchymyn. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewisiadau i'r Llys, er enghraifft i amrywio'r gorchymyn er mwyn mynnu bod y rhiant/gofalwr yn dilyn rhaglen rianta newydd ac yn cyflawni gofynion penodol er mwyn rheoli ei blentyn. Gallai'r gosb am dorri gorchymyn fod yn ddirwy neu'n ddedfryd gymunedol, gan ddibynnu a yw'r rhiant/gofalwr yn dilyn rhaglen newydd ac yn bodloni gofynion eraill.

Yr agweddau trawsffiniol

4.19.136 Mae Rheoliadau Addysg (Contractau Rhianta a Gorchymynion Rhianta) (Cymru) 2010 yn nodi'r gofynion a'r amodau a ganlyn.

- Pan fo disgybl yn mynd i'r ysgol mewn un awdurdod lleol ac yn byw mewn awdurdod lleol arall, yr awdurdod lleol lle mae ysgol y disgybl ddylai arwain unrhyw gamau ar lefel awdurdod sydd eu hangen er mwyn gwella presenoldeb neu ymddygiad y disgybl.

- Pan wneir gorchymyn rhianta, dylid ystyried cyfeirio'r rhiant/gofalwr at raglen rhianta yn yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw. Bydd angen i'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw a'r awdurdod lleol lle mae'n mynd i'r ysgol gydweithio'n agos â'i gilydd.
- Pan fo disgybl wedi'i wahardd yn barhaol yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw fyddai'n ymdrin â'r mater fel rheol. O dan yr amgylchiadau hyn, pan fo ysgol yn gwahardd disgybl, byddai disgwyl i'r ysgol y mae'r disgybl yn symud iddi, yn hytrach na'r ysgol wreiddiol, ymgymryd â'r trefniadau trosglwyddo.
- Dylai awdurdodau lleol neu ysgolion sy'n gwneud contractau neu orchmynion rhianta sicrhau mai hwn yw'r penderfyniad mwyaf priodol i'w wneud a gofyn i'w gilydd am wybodaeth os ydynt yn ystyried gwneud contract neu orchymyn. Bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau na wneir mwy nag un contract neu orchymyn gan wahanol asiantaethau.



4.19.137 Dylai awdurdodau lleol lunio protocolau i nodi'r sail ar gyfer gweithio ar draws ffiniau a rhwng ysgolion.

5. Presenoldeb

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae angen i bresenoldeb mewn ysgolion fod yn flaenoriaeth bob amser. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn hollbwysig er mwyn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyflawni eu potensial yn llawn.

5.1.2 Mae cysylltiadau ystadegol cryf iawn rhwng presenoldeb a chyflawniad.



5.1.3 Ni ellir ystyried presenoldeb ar ei ben ei hun a dylid cadw elfennau eraill o'r canllawiau hyn mewn cof wrth ddarllen yr adran hon, yn enwedig y rhannau hynny sy'n ymdrin ag addysg gynhwysol ac ymddygiad. Mae arweinyddiaeth effeithiol, cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb disgyblion, ac athrawon sy'n ysbrydoli disgyblion i gyd yn bwysig iawn ar ôl cael y disgyblion i'r ysgol er mwyn sicrhau presenoldeb parhaus.

5.1.4 Yn ychwanegol at hyn, mae adroddiad Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd¹²⁸ a gyhoeddwyd yn 2014 yn nodi bod absenoldeb wedi gwella, ond ei fod yn peri pryder

¹²⁸ www.estyn.gov.uk/english/docViewer/329401.8/attendance-in-secondary-schools-september-2014/?navmap=30,163

o hyd mewn bron i draean o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd yn nhair blynedd gyntaf y cylch arolygu presennol. Mae hefyd yn golygu bod grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed dan fwy o anfantais o'u cymharu â grwpiau eraill.

- Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn absennol, bod yn absennol yn barhaus a thanberfformio.
- Mae cyfraddau absenoldeb disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn uwch na chyfraddau absenoldeb disgyblion nad oes ganddynt AAA. Mae gan ddisgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol gyfradd absenoldeb uwch nag unrhyw grŵp arall o ddisgyblion ag AAA. Y grŵp hwn o ddisgyblion oedd â'r gyfradd uchaf o absenoldebau anawdurdodedig hefyd.

5.1.5 Yn ogystal â helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial, mae cadw llygad ar ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn elfen allweddol o'r broses o'u hamddiffyn a'u helpu i beidio â throï at weithgaredd troseddol. Mae'r astudiaethau a gynhaliwyd yn Lloegr wedi dangos bod disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn llawer mwy tebygol o droseddu (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2005).¹²⁹

5.1.6 Gall absenoldeb fod yn arwydd o broblemau sylweddol yn y cartref, megis camdrin, ac mae angen i ysgolion sicrhau eu bod yn edrych o ddifrif ar y rhesymau dros absenoldeb ac yn gwneud y cysylltiadau priodol â gwasanaethau'r awdurdod lleol a sefydliadau allanol mewn achosion lle mae angen dull gweithredu amlasiantaeth.

5.1.7 Y tu allan i'r cartref, yn yr ysgol yn aml iawn y mae'r cyfle mwyaf i ddylanwadu'n uniongyrchol ar ddisgyblion a gwella presenoldeb. Mae absenoldeb o'r ysgol yn sicr yn cael effaith andwyol ar gynnydd a chyrhaeddiad disgybl. Mae angen i ysgolion fonitro presenoldeb a chynorthwyo disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dylai'r uwch reolwyr a'r holl staff dysgu weithio er mwyn cynyddu mwynhad disgyblion a'u hymrwymiad i ddysgu a hybu amgylchedd cadarnhaol lle mae disgyblion yn awyddus i fynd i'r ysgol.

5.1.8 Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion i'r graddau y mae hynny'n bosibl er mwyn annog presenoldeb a darparu unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen, cyn mynd ati i erlyn.

5.1.9 Mae'r *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* (Llywodraeth Cymru 2015)¹³⁰ yn amlinellu cyfrifoldeb consortia rhanbarthol sydd yno hefyd i gefnogi a hyrwyddo datblygiad agweddau ar wella ysgolion sy'n gysylltiedig â lles y disgybl, gan gynnwys materion megis ymddygiad a phresenoldeb. Bydd awdurdodau lleol yn dal yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth lles addysg, a chynorthwyo ysgolion i reoli ymddygiad a phresenoldeb.

¹²⁹ www.nao.org.uk/report/improving-school-attendance-in-england/

¹³⁰ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?lang=cy

Y cefndir cyfreithiol

5.1.10 O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996¹³¹, mae'r rhiant/gofalwr yn gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol (yn gyffredinol, mae hyn yn golygu plant 5–16 oed) yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, ei allu a'i ddoniau ac ar gyfer unrhyw AAA sydd ganddo. Gall hyn fod drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu drwy gael addysg y tu allan i'r ysgol (gall y rhiant ddewis addysgu'r plentyn gartref).

5.1.11 Os ymddengys i'r awdurdod lleol nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas, drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu drwy ddull arall, rhaid i'r awdurdod lleol ddechrau dilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchymyn mynychu'r ysgol o dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996¹³².

5.1.12 Os nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yna mae'r rhiant/gofalwr yn euog o drosedd o dan adran 444(1) o Ddeddf Addysg 1996¹³³.

5.1.13 O dan adran 444(1A) o Ddeddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000, mae hefyd yn drosedd i riant/gofalwr, sy'n gwybod nad yw ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, fethu â rhoi cyfiawnhad rhesymol dros beidio â sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol. Mae'r drosedd hon yn galw am brawf bod y rhiant/gofalwr yn gwybod na fu ei blentyn yn mynychu'r ysgol a'i fod wedi methu â gweithredu yn unol â hynny. Dan y drosedd fwy difrifol hon, gellir cyhoeddi gwarant yn gorfodi rhiant/gofalwr i fynd i'r llys a gall collfarn arwain at ddedfryd o garchar.

5.1.14 Mae adran 444(ZA) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 116 o Ddeddf Addysg 2005) yn estyn yr amgylchiadau pan ellir erlyn rhiant/gofalwr am fethu â sicrhau bod plentyn y mae'n gyfrifol amdano'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd i gynnwys darpariaeth amgen a wnaed ar gyfer y plentyn.

5.1.15 Rhaid i awdurdod lleol ystyried gwneud cais am orchymyn goruchwyllo addysg cyn erlyn rhiant/gofalwr (adran 36 o Ddeddf Plant 1989)¹³⁴. Gall awdurdod lleol wneud cais am orchymyn goruchwyllo addysg yn lle erlyn y rhiant/gofalwr neu yn ogystal â hynny.

5.1.16 Cyflwynodd adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 (a gyflwynwyd gan adran 23 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003) hysbysiadau cosb ar gyfer absenoldeb rheolaidd o'r ysgol fel dewis arall yn lle erlyn o dan adran 444. Gall rhieni/gofalwyr gael eu rhyddhau o fod yn agored i gollfarn am drosedd dan adran 444 drwy dalu cosb.

5.1.17 Gweler y dogfennau isod am ragor o fanylion:

¹³¹ www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/7

¹³² www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/437

¹³³ www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/444

¹³⁴ www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/section/39

- Deddf Addysg 1996
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Addysg 2005
- Deddf Plant 1989
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

5.2 Y gofrestr a chodau presenoldeb

5.2.1 Mae'n hanfodol bod codau presenoldeb yn cael eu cofnodi'n gywir er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl a bodloni'r gofynion cyfreithiol.

5.2.2 Dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 mae'n ofynnol i ysgolion alw'r gofrestr bresenoldeb ddwywaith y diwrnod – unwaith ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid galw cofrestr y prynhawn ar ddechrau sesiwn y prynhawn neu yn ystod y sesiwn hwnnw, ac nid ar ddiwedd sesiwn y bore neu yn ystod yr egwyl rhwng sesiynau. Efallai y gofynnir am gael gweld y gofrestr mewn llys barn fel tystiolaeth mewn erlyniad am absenoldeb.

5.2.3 Dylid hysbysu pob aelod o'r staff sy'n ymwneud â'r broses gofrestru bod y gyfraith yn cynnwys manylion penodol ynglŷn â chadw cofrestrau. Mae'r gofrestr yn dangos a yw'r disgybl yn bresennol, yn ymwneud â gweithgareddau addysgol cymeradwy oddi ar y safle, yn absennol, neu nad oes angen iddo fod yn bresennol. Os yw disgybl o oedran ysgol gorfodol, rhaid i'r gofrestr ddangos a yw'r absenoldeb wedi'i awdurdodi gan yr ysgol ynteu a yw'n absenoldeb anawdurdodedig.

5.2.4 Mae absenoldeb awdurdodedig yn golygu naill ai bod yr ysgol wedi rhoi caniatâd ymlaen llaw i'r disgybl fod yn absennol o'r ysgol, neu bod eglurhad boddhaol wedi'i dderbyn gan yr ysgol yn dilyn hynny fel cyfiawnhad boddhaol dros absenoldeb. Dim ond ysgolion all awdurdodi absenoldeb, nid rhieni/gofalwyr, a rhaid i ysgolion ystyried a yw'r rheswm dros yr absenoldeb yn un rhesymol cyn gwneud hynny. Dylai unrhyw absenoldeb nad yw wedi'i awdurdodi gan yr ysgol gael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

5.2.5 Mae angen amlinellu gweithdrefnau cofrestru'n glir ym mholisi presenoldeb yr ysgol a'u hailadrodd yn y llawlyfr staff.

5.2.6 Mae codau presenoldeb yn cael eu grwpio o dan bum categori ystadegol fel y nodwyd yn y tabl canlynol.

Categori ystadegol	Nodiadau
Presennol	
Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo	(Ystyrir bod y disgybl yn bresennol.)
Absenoldeb awdurdodedig	Yn ôl y gyfraith dim ond ysgol all gymeradwyo absenoldeb, nid rhieni/gofalwyr.
Absenoldeb anawdurdodedig	Absennol heb ganiatâd yr ysgol.
Dim angen bod yn bresennol	Disgyblion sydd dan bump ar ddechrau tymor y sesiwn neu a oedd yn 16 oed cyn dechrau blwyddyn ysgol y sesiwn.

5.2.7 Mae'r canlynol yn bwysig.

- Rhaid i bob aelod o'r staff fod â dealltwriaeth gyffredinol o'r adegau y gellir defnyddio pob cod ac o ystyr ystadegol y codau.
- Dylai'r staff sy'n gyfrifol am gofnodi codau fod â dealltwriaeth drylwyr o'r materion sy'n ymwneud â phresenoldeb.
- Dylai'r staff hefyd wybod pa bryd ac wrth bwy y dylent roi gwybod am achosion o absenoldeb yn unol â chanllawiau'r ysgol.
- Mae angen rhoi canllawiau clir hefyd ynglŷn â beth yw 'amgylchiadau awdurdodedig eraill' er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson drwy'r ysgol.
- Mae defnydd gofalus o godau'n hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw problemau sy'n ymwneud â diogelu plant yn codi, e.e. lle mae disgyblion yn mynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

Codau presenoldeb ysgol

5.2.8 Mae canllawiau 2010 ar godau presenoldeb ysgolion yn darparu cymorth i ysgolion (gan gynnwys ysgolion annibynnol) ac awdurdodau lleol wrth ddefnyddio codau i gofnodi presenoldeb ac absenoldeb disgyblion mewn ysgolion. Maent yn ymwneud â phresenoldeb mewn sesiynau cofrestru statudol yn y bore a'r prynhawn gan ei bod yn ofynnol i ysgolion fod ar agor i ddisgyblion am 190 diwrnod mewn blwyddyn academiaidd neu 380 o sesiynau.

5.2.9 Mae systemau electronig yn cefnogi dulliau cysonach o gasglu data presenoldeb ysgolion ledled Cymru. Maent hefyd yn cynyddu'r potensial i ymchwilio ymhellach i'r rhesymau dros absenoldeb disgyblion, yn gwella trefniadau diogelu ac olrhain disgyblion ac, yn eu tro, yn sefydlu strategaethau i ymdrin yn effeithiol â phroblemau penodol.

5.2.10 Mae defnyddio codau penodol yn helpu ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i fonitro a yw disgyblion yn absennol â chaniatâd yr ysgol ai peidio, a hefyd pam y mae disgyblion yn absennol o'r ysgol. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i lunio ymyriadau i fynd i'r afael â phresenoldeb sy'n dirywio, presenoldeb gwael, absenoldeb parhaus a materion eraill sy'n cael eu datgelu gan y data. Dylai'r swyddog lles addysg ymchwilio i amrywiadau yn y defnydd o godau presenoldeb a herio'r amrywiadau hyn.

5.2.11 Mae Estyn wedi canfod bod ysgolion sydd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd, (gydag aelod o'r uwch dîm rheoli'n gyfrifol am oruchwylio'r codau presenoldeb), a systemau da i ddadansoddi data'n gallu addasu eu dulliau gweithredu er mwyn gwella presenoldeb.

5.2.12 Gellir defnyddio'r canllawiau ar y cyd â systemau i gofnodi presenoldeb mewn systemau cofrestru fesul gwers, ond efallai y bydd ysgolion yn canfod bod angen iddynt gofnodi rhesymau eraill â system o'r fath. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle defnyddir systemau o'r fath, a lle defnyddir gwers gyntaf y bore neu unrhyw sesiwn yn y prynhawn yn lle'r cofrestriad bore a phrynhawn, rhaid defnyddio'r codau sydd yn y canllawiau hyn ar gyfer y sesiynau hynny.

Cofrestrau cyfrifiadurol

5.2.13 Gall ysgolion ddefnyddio cyfrifiaduron i gadw cofrestrau presenoldeb a derbyn ond, fel cofrestrau llaw, os yw'r pecyn cyfrifiadurol yn caniatáu hynny, rhaid i'r newid priodol i'r cofnod gwreiddiol mewn cofrestr ac unrhyw gywiriad dilynol fod yn gwbl amlwg. Ni ddylai'r cywiriad gymryd lle'r cofnod gwreiddiol. Dylid cadw'r cofnod gwreiddiol a'r cywiriad fel bod y cofnodion, pan edrychir arnynt, yn ymddangos yn eu trefn gronolegol. Rhaid i fersiynau printiedig o'r gofrestr wahaniaethu'n glir rhwng y cofnod gwreiddiol a'r cywiriad.

5.2.14 Rhaid i ysgolion sy'n defnyddio cyfrifiaduron ar gyfer cofrestru presenoldeb wneud copi caled o'r gofrestr bresenoldeb o leiaf unwaith y mis. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol rhaid rhwymo'r dalenni printiedig yn gyfrolau blynyddol ac, fel sy'n digwydd â chofrestrau llaw, rhaid eu cadw am gyfnod o bedair blynedd o leiaf ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol y mae pob cyfrol yn ymwneud â hi. Byddai hyn yn golygu y byddai gan ddisgyblion Blwyddyn 11 gofnodion presenoldeb o Flwyddyn 7. Dylai cofnodion electronig fod ar gael i swyddogion awdurdodedig, er enghraifft swyddogion lles addysg, er mwyn iddynt allu gwirio patrymau presenoldeb disgyblion unigol yn rhwydd.

Dyddiad gadael ysgol

5.2.15 Mae'n ofynnol i bob person ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysg yn rhywle ar wahân i'r ysgol, aros yn yr ysgol tan y dyddiad gadael. Er 1998, mae gan Gymru un dyddiad gadael ysgol, sef dydd Gwener olaf mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd plentyn yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 16 oed, fel y nodir mewn Gorchymyn a wnaethpwyd o dan adran 8(3) o Ddeddf Addysg 1996¹³⁵.

5.2.16 Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd disgyblion yn cwblhau pum mlynedd o addysg uwchradd. Yn y nifer fach o achosion lle gallai disgybl fod yn gymwys i adael ysgol heb gwblhau'r flwyddyn olaf, dylai ysgolion nodi'r disgyblion hynny a allai fod yn awyddus i adael ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn a gweithio gyda hwy a'u teuluoedd er mwyn sicrhau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn olaf.

Tynnu enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol

5.2.17 Mae rheoliadau clir a llym ynglŷn â'r amgylchiadau pan all ysgolion dynnu enwau disgyblion oddi ar eu cofrestrau derbyn. Amlinellir y rhain yn Rheoliadau (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

5.2.18 Dylai ysgolion ystyried y rheoliadau'n ofalus cyn penderfynu tynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr, a derbyn cyngor gan yr awdurdod lleol fel y bo'n briodol. Os bydd ysgol wedi penderfynu tynnu enw disgybl oddi ar ei chofrestr, dylai hysbysu'r awdurdod lleol ar unwaith.

5.2.19 Os yw enw disgybl i'w dynnu oddi ar y gofrestr gan fod y plentyn yn symud i ardal arall neu i ysgol arall, dylai'r staff holi yn gyntaf beth yw enw a chyfeiriad yr ysgol newydd a pha bryd y bydd y disgybl yn dechrau yno, gan gadarnhau'r

¹³⁵ www.legislation.gov.uk/ukxi/1997/1970/made

wybodaeth hon â'r ysgol a fydd yn derbyn y disgybl. Dylai staff yr ysgol fod yn bryderus:

- os na fydd y rhieni/gofalwyr yn enwi'r ysgol newydd
- os bydd disgybl wedi 'diflannu' o'r ardal heb eglurhad
- os na fydd disgybl wedi dychwelyd i'r ysgol cyn pen 10 niwrnod ysgol o'r dyddiad dychwelyd y cytunwyd arno mewn achos lle mae gwyliau yn ystod tymor yr ysgol wedi'i gymeradwyo yn gynharach.

5.2.20 Os yw ysgol yn bryderus dylai roi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol yn ddi-oed. Os nad oes ganddi enw cyswllt dylai hysbysu swyddog amddiffyn plant dynodedig yr awdurdod lleol a all benderfynu a ddylid dwyn y mater i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol. Gall y gwasanaethau cymdeithasol yn eu tro gysylltu â'r heddlu. Fodd bynnag, os oes gan yr ysgol reswm da dros gredu y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni, dylai gysylltu â'r heddlu'n uniongyrchol.

5.2.21 Diweddarwyd y canllawiau ar godau presenoldeb yn 2010. Mae materion wedi codi yn ymwneud ag absenoldeb astudio a dysgu hyblyg a darperir cyngor ychwanegol yma.

Absenoldeb astudio

5.2.22 Arferai absenoldeb astudio gael ei gyfyngu i'r cyfnod ar ôl gŵyl y banc olaf mis Mai, ond mae'n dod yn fwy cyffredin i'r cyfnod arholiadau gychwyn mor gynnar â dechrau mis Mai. O ganlyniad, mae nifer o ysgolion wedi bod yn caniatáu cyfnodau absenoldeb astudio estynedig nad ydynt o reidrwydd er pennaf les y disgyblion.

5.2.23 Yn 15–16 oed nid oes gan gyfran uchel o ddisgyblion y sgiliau, na'r parodrwydd, i fanteisio'n llawn ar gyfnodau hir o amser adolygu heb oruchwyliaeth na strwythur. Er ei fod yn brofiad cadarnhaol i rai disgyblion efallai, i lawer gall absenoldeb astudio fod yn hollol anaddas ac mae'n well iddynt weithio yn yr ysgol gyda'u hathrawon a'u cyfoedion hyd at eu harholiad olaf. Mae angen i'r broses o baratoi yn llwyddiannus ar gyfer arholiadau fod yn brofiad llawn bwriad, sydd wedi'i gynllunio'n ofalus ar gyfer disgyblion.

5.2.24 Pennaeth yr ysgol a'r tîm rheoli fydd yn penderfynu a ddylid rhoi absenoldeb astudio i ddisgyblion Blwyddyn 11. Pan fydd ysgol yn penderfynu rhoi absenoldeb astudio ni ddylai fod yn rhy hael wrth wneud hynny ac ni ddylai ganiatáu mwy na 15 niwrnod. Ni ellir ystyried absenoldeb astudio yn 'weithgaredd addysgol cymeradwy' gan nad yw'n cael ei oruchwyllo. Dylai absenoldeb astudio gael ei gofnodi ar systemau rheoli gwybodaeth ysgolion bob amser gan ddefnyddio cod 'S' sy'n cynrychioli absenoldeb awdurdodedig. Pan gaiff ei ddefnyddio'n ormodol bydd absenoldeb astudio'n cael effaith negyddol ar gyfradd bresenoldeb gyffredinol yr ysgol.

Dysgu hyblyg

5.2.25 Ystyr 'addysg hyblyg' neu 'bresenoldeb hyblyg yn yr ysgol' yw trefniant rhwng y rhiant/gofalwr a'r ysgol lle mae'r plentyn ar y gofrestr yn y ffordd arferol, ond yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser yn unig; am weddill yr amser, mae'r plentyn yn cael

ei addysgu yn y cartref. Weithiau, gwneir hyn fel mesur tymor byr am reswm penodol.

5.2.26 Mae addysg hyblyg yn ddewis cyfreithlon cyn belled â bod pennaeth yr ysgol dan sylw ac, mewn llawer o achosion, yr awdurdod lleol hefyd, yn cytuno â'r trefniant. Drwy dderbyn y trefniant addysg hyblyg mae'r ysgol i bob pwrpas hefyd yn caniatáu absenoldeb awdurdodedig. Dylid defnyddio cod cofrestru 'C' – amgylchiadau eraill wedi'u hawdurdodi.

Gwyliau yn ystod tymor yr ysgol

5.2.27 Nid oes gan rieni/gofalwyr hawl awtomatig i dynnu eu plentyn o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau amser o'r ysgol yn ystod y tymor i ddisgybl, a dyma pam mai penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad. Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn nodi bod gan benaethiaid bŵer dewisol i awdurdodi absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor os yw'r rhieni/gofalwyr yn gofyn am ganiatâd. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylid caniatáu mwy na 10 niwrnod o absenoldeb i'r diben hwn.

5.2.28 Dylai pennaeth ystyried amgylchiadau pob achos yn unigol. Ystyrir nifer o agweddau, gan gynnwys yr adeg o'r flwyddyn, hyd a diben y gwyliau, yr effaith ar barhad dysgu, amser arholiadau neu brofion, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau rhieni/gofalwyr, yn ogystal â phresenoldeb a chyrhaeddiad cyffredinol y disgybl.

5.2.29 Os bydd pennaeth yn penderfynu peidio â chaniatáu cais rhiant/gofalwr am wyliau yn ystod y tymor, ond bod y rhiant/gofalwr yn mynd â'r plentyn ar wyliau pa un bynnag, bydd yr absenoldeb yn cael ei ystyried yn absenoldeb 'anawdurdodedig'.

5.2.30 Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn nodi maint y gosb a roddir i rieni/gofalwyr os na fyddant yn sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, h.y. absenoldeb 'anawdurdodedig' rheolaidd.

5.2.31 Mae gan rieni/gofalwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg addas i'w oedran, ei allu a'i ddoniau ac ar gyfer unrhyw AAA sydd gan y plentyn beth bynnag eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Wedi dweud hynny, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gymdeithasol a moesol i weithio gyda theuluoedd unigol a deall eu hanghenion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plentyn. Mae ymyriadau wedi'u targedu ac ymgysylltu effeithiol â theuluoedd yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb gwael mewn ysgolion. Os oes absenoldeb 'anawdurdodedig' rheolaidd, mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol nifer o ddewisiadau er mwyn helpu i sicrhau presenoldeb¹³⁶.

¹³⁶ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy

5.3 Dadansoddi data

5.3.1 Prif ddiben cofrestru yw sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion. Mae system gofrestru gywir a chyson yn hollbwysig hefyd er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb a phrydlondeb gwael mewn ysgol.

5.3.2 Mae'n bwysig bod ysgolion yn monitro absenoldebau'n ofalus fel bod unrhyw batrymau absenoldeb yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd yn gynnar er mwyn mynd at wraidd y broblem.

5.3.3 Mae dadansoddi data presenoldeb ar lefel codau ar gyfer disgyblion unigol, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn a grwpiau penodol yn caniatáu i ysgol nodi patrymau presenoldeb ac absenoldeb. Gall hyn wedyn alluogi'r ysgol i dargedu ei hymdrechion.

5.3.4 Mae pob ysgol yn cadw llawer o wybodaeth am bresenoldeb. Mae gan ysgolion sydd wedi llwyddo i wella presenoldeb a lleihau absenoldeb parhaus ddealltwriaeth glir o'r problemau presenoldeb yn yr ysgol. Nodwyd y rhan fwyaf drwy ddadansoddi data gan fod tystiolaeth anecdotaidd yn gallu bod yn gamarweiniol.

5.3.5 Mae'r *Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan* (Llywodraeth Cymru, 2011),¹³⁷ pecyn cymorth ar gyfer y Gwasanaethau Lles Addysg, yn darparu gwybodaeth fanwl am ddadansoddi data.

5.3.6 Mae adroddiad Estyn ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd¹³⁸ a gyhoeddwyd yn 2014 yn tynnu sylw at fanteision defnyddio data fel sail i strategaeth ac er mwyn gosod targedau sy'n seiliedig ar ffeithiau.

Cynllunio strategol

5.3.7 Mae data presenoldeb yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio strategol a gall alluogi ysgolion i reoli materion presenoldeb yn fwy effeithiol. Gall ffigurau presenoldeb ysgol gyfan a gynhyrchir bob mis, bob tymor neu'n flynyddol, ar sail grwpiau blwyddyn, nodi ffactorau megis:

- presenoldeb yn dirywio mewn grwpiau blwyddyn
- presenoldeb yn dirywio ar gyfer gwersi penodol
- effaith presenoldeb tymhorol, e.e. efallai y bydd presenoldeb yn dirywio yn ystod y misoedd oerach a chyn gwyliau ysgol.

5.3.8 Gall dadansoddiad parhaus o bresenoldeb disgyblion unigol a'r ysgol gyfan arwain at gyfleoedd ar gyfer cynllunio strategol. Drwy nodi'r lefelau hynny y mae'r ysgol yn eu hystyried yn ddangosyddion absenoldeb parhaus neu bresenoldeb afreolaidd, mae'n bosibl nodi maint y broblem. Gall yr ysgol wedyn dargedu'r amser a ddarperir gan y swyddog lles addysg a'r staff bugeiliol yn fwy effeithiol drwy gynhyrchu:

¹³⁷ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?lang=cy

¹³⁸ www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-deunydd-hyfforddiant?_ga=1.103515456.1501859053.1444724573

- cofnodion presenoldeb unigol sy'n dangos rhesymau dros absenoldeb a phatrwm a chyfraddau absenoldeb anawdurdodedig
- rhestrau o'r holl ddisgyblion ag absenoldeb heb ei egluro y gellir eu bwydo'n ôl i'r aelod cyfrifol o'r staff.

Gosod targedau presenoldeb

5.3.9 Dengys tystiolaeth fod amrywiadau o ran y modd y cofnodir absenoldebau fel rhai awdurdodedig neu anawdurdodedig, a hefyd o ran yr anawsterau a wynebier gan ysgolion wrth fynd ar ôl absenoldebau, er mwyn canfod a yw absenoldeb yn un anawdurdodedig. Gall gosod targedau ar gyfer yr holl absenoldebau atal yr anghysonderau hyn.

5.3.10 Mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011¹³⁹ yn nodi bod rhaid:

- gosod targedau ar gyfer cyfanswm yr absenoldebau
- cyflwyno targedau i'r awdurdod lleol.

5.3.11 Dan y rheoliadau mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (ar wahân i ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty) osod targedau ar gyfer lleihau holl absenoldebau'r disgyblion yn yr ysgol. Maent yn nodi ei bod yn ofynnol i'r targedau a ganlyn ar gyfer cyfanswm yr absenoldebau gael eu gosod a'u cyflwyno i'r awdurdod lleol cyn 31 Rhagfyr fan bellaf ym mhob blwyddyn ysgol:

- targed terfynol ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf
- targed adolygedig ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ond un (i'w adolygu yn sgîl y gwir ganlyniadau yn y flwyddyn ysgol flaenorol)
- targed dros dro ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf ond dwy.

5.3.12 Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i gyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ysgol:

- gwir gyfradd yr absenoldebau yn y flwyddyn ysgol berthnasol
- yr holl dargedau absenoldeb (fel y'u hamlinellwyd uchod)
- datganiad yn nodi i ba raddau yr oedd gwir gyfradd yr absenoldebau yn cyrraedd y targed terfynol a osodwyd ar gyfer yr un flwyddyn ysgol.

5.3.13 Er mwyn galluogi awdurdodau lleol i osod targedau realistig mae'n hanfodol eu bod yn cael mynediad at wybodaeth am bob targed presenoldeb ar lefel ysgol. Byddai hyn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i roi adborth i ysgolion ynglŷn â'u targedau arfaethedig ac yn caniatáu dull gweithredu cyson wrth osod targedau ar draws yr awdurdod lleol.

5.3.14 Lle bynnag y bo modd, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu targedau derbyniol; fodd bynnag gall awdurdodau lleol ofyn am adolygiad o dargedau a osodwyd gan gyrff llywodraethu os nad ydynt yn fodlon â'r

¹³⁹ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/imsregulations/?lang=cy

targedau gwreiddiol. Os bydd yr awdurdod lleol yn anfodlon â'r targedau diwygiedig a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu dylai'r awdurdod lleol osod y targed ar gyfer y corff llywodraethu.

5.4 Absenoldeb

5.4.1 Er mai'r rhiant/gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, pan fydd problemau mynychu ysgol yn codi yr allwedd i ddatrys y problemau hyn yn llwyddiannus yw ennyn diddordeb y plentyn drwy waith ar y cyd rhwng y rhiant/gofalwr, yr ysgol a'r awdurdod lleol.

5.4.2 Mae tystiolaeth wedi dangos bod ysgolion yn gallu mynd i'r afael ag absenoldeb yn fwy effeithiol os ydynt yn mabwysiadu nifer o ddulliau gweithredu gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigolion. Mae'r mentrau a ddefnyddir gan ysgolion er mwyn annog presenoldeb yn cael eu pennu'n rhannol gan nifer o ffactorau gan gynnwys:

- oedran disgyblion
- ymgysylltiad y rhiant
- lleoliad daearyddol
- amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd.

5.4.3 Mae angen i ysgolion unigol ymateb i'w problemau penodol eu hunain yn eu ffordd eu hunain.

5.4.4 Mae cofrestru electronig yn galluogi dull mwy effeithiol ac effeithlon o fonitro presenoldeb yn ddyddiol yn ogystal â sicrhau bod modd nodi patrymau absenoldeb tymor hwy y gellir eu defnyddio fel sail i bolisiâu ac arferion ysgolion. Mae pecynnau electronig sy'n cysylltu'n awtomatig â rhieni/gofalwyr i'w hysbysu ynglŷn ag absenoldeb eu plentyn hefyd wedi bod yn ffordd effeithiol o leihau absenoldeb a lleoli plant a phobl ifanc.

Absenoldeb anawdurdodedig

5.4.5 Yn ôl y gyfraith, dim ond ysgol all gymeradwyo absenoldeb.

5.4.6 Mae absenoldeb anawdurdodedig yn golygu absenoldeb nad yw wedi'i gymeradwyo gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb heb ei egluro. Mae penderfyniad yr ysgol i ganiatáu neu wrthod awdurdodi absenoldeb yn ffactor hollbwysig, oherwydd dim ond os yw'r absenoldeb yn un anawdurdodedig y gall yr awdurdod lleol erlyn rhieni/gofalwyr.

5.4.7 Mae'n bwysig bod ysgolion yn cymryd gofal wrth awdurdodi absenoldeb. Os ydynt yn amheus o'r eglurhad a roddir gan rhieni/gofalwyr, dylid ymchwilio ymhellach i'r absenoldeb a'i adael heb ei awdurdodi nes bydd y mater wedi'i egluro a'r ysgol yn fodlon â'r eglurhad. Os bydd yr ysgol wedi awdurdodi absenoldeb disgybl bydd, i bob pwrpas, wedi rhoi caniatâd, felly nid oes achos cyfreithiol i'r rhieni/gofalwyr ei ateb.

Absenoldeb anawdurdodedig a ganiateir gan rieni/gofalwyr

5.4.8 Mae absenoldeb anawdurdodedig a ganiateir gan rieni yn broblem ddifrifol mewn rhai ysgolion. Er ei fod yn gofyn am ymateb gwahanol i'r ffordd yr ymatebir i blant yn chwarae triwant, yr un peth ydyw yn y bôn: absenoldeb anawdurdodedig disgybl o oedran ysgol gorfodol.

5.4.9 Dim ond yr ysgol all gymeradwyo absenoldeb, nid y rhieni/gofalwyr. Nid oes rhaid i staff yr ysgol dderbyn eglurhad rhieni dros absenoldeb plentyn, boed hwnnw'n esboniad ysgrifenedig, yn esboniad dros y ffôn neu'n esboniad wyneb yn wyneb, os ydynt yn amau'r eglurhad. Cyfrifoldeb yr ysgol yw penderfynu a yw'r eglurhad a roddwyd yn gyfiawnhad boddhaol dros yr absenoldeb.

5.4.10 Dylid ymdrin ag unrhyw ymchwiliad pellach mewn ffordd sensitif, ond os oes cwestiynau'n parhau heb eu hateb, neu os na roddir eglurhad boddhaol, rhaid trin yr absenoldeb fel un anawdurdodedig. Pan fydd yn ymddangos bod absenoldeb anawdurdodedig a ganiateir gan rieni'n broblem â disgybl penodol, dylai ysgolion gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg yn fuan.

5.4.11 Gall gormod o absenoldeb awdurdodedig hefyd amharu'n ddifrifol ar ddilyniant dysgu ac achosi dadrithiad. Felly, dylai staff ysgol gadw golwg am batrymau absenoldeb awdurdodedig sy'n dod yn amlwg gan ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion.

5.4.12 Dylai ysgolion egluro wrth rieni/gofalwyr ar ddechrau'r flwyddyn ysgol sut y dylent roi gwybod iddynt pan fydd disgybl yn absennol. Gall rhai rhieni/gofalwyr, e.e. y rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith, neu rieni/gofalwyr ag anabledd, ei chael hi'n anodd i ysgrifennu nodiadau neu ddefnyddio'r ffôn. Gallai ysgolion awgrymu bod rhieni/gofalwyr o'r fath yn gwneud trefniadau amgen, naill ai drwy gymydog, gweithiwr cymunedol neu frawd neu chwaer hŷn, i roi gwybod bod plentyn yn absennol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, mae'n bwysig bod ysgolion yn darparu mynediad cyfartal at wybodaeth. Gallai hyn olygu darparu deunydd wedi'i gyfieithu'n briodol er mwyn sicrhau nad yw unrhyw grŵp ethnig dan anfantais, neu ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill ar gyfer pobl sydd ag anableddau.

5.4.13 Nid oes gofyniad cyfreithiol i ysgol gadw nodiadau rhieni/gofalwyr, ond os nad yw disgybl yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, a bod posibilrwydd y bydd angen cymryd camau cyfreithiol, byddai'n ddoeth cadw'r nodiadau am hyd at dair blynedd. Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio yn y llys.

Triwantiaeth ar ôl cofrestru

5.4.14 Gall colli gwersi ar ôl cofrestru gael effaith yr un mor ddifrifol ar gynnydd disgybl â thriwantiaeth helaeth, a gallai hefyd fod yn broblem yng nghyswllt diogelu plant. Gall hefyd amharu ar ddisgyblaeth mewn ysgol. Os yw triwantiaeth ar ôl cofrestru'n broblem, gall penaethiaid drefnu bod cofrestrau dosbarth yn cael eu galw ar ddechrau pob gwers. Gall gwiriadau ar hap hefyd fod yn strategaeth ddefnyddiol, yn ogystal ag adroddiadau ar bresenoldeb disgyblion penodol fesul gwers y gellir eu gwneud yn rhwyddach drwy ddefnyddio cofrestru electronig.

5.5 Rôl yr ysgol wrth ymdrin â phresenoldeb

Polisi presenoldeb ysgolion

5.5.1 Dylai pob ysgol gael polisi presenoldeb a dylai gael ei adolygu'n rheolaidd.

5.5.2 Dylai polisi presenoldeb ysgol nodi ei systemau a'i gweithdrefnau ar gyfer sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac ymchwilio er mwyn canfod beth sy'n achosi presenoldeb gwael.

5.5.3 Dylai ysgolion ddatblygu polisi ysgol gyfan ar bresenoldeb drwy drafod y mater gyda staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a disgyblion. Dylai'r polisi nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau staff ar gyfer ymdrin â phresenoldeb a dylai gysylltu â pholisïau ymddygiad a bwlio'r ysgol.

5.5.4 Y pennaeth sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y polisi presenoldeb. Er hyn, mae'n bwysig nad yw'r polisi'n cael ei ysgrifennu gan ddim ond un aelod o'r staff. Mae'r polisi'n fwy ystyrlon os yw'n cael ei ddatblygu drwy ymgynghori ag athrawon, disgyblion, teuluoedd, y Gwasanaeth Lles Addysg, staff gweinyddol ac ategol, llywodraethwyr ac uwch reolwyr.

5.5.5 Dylai ysgolion fod wedi ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr a'r disgyblion ynglŷn â'r polisi cychwynnol a dylai adlewyrchu strategaeth bresenoldeb yr awdurdod lleol. Dylai gael ei gymeradwyo gan lywodraethwyr yr ysgol. Dylai ysgolion sicrhau bod disgyblion a rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o bolisi presenoldeb yr ysgol a dylid eu hannog i gydweithredu â'r systemau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y polisi.

5.5.6 Dylid rhoi pwyslais ar rôl yr ysgol, y llywodraethwyr, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion wrth ddatblygu a chynnal agwedd gadarnhaol at bresenoldeb. Dylai'r polisi nodi pa strategaethau sy'n bodoli ar gyfer gwella presenoldeb yn barhaus, mynd i'r afael ag absenoldeb ac ailintegreiddio disgyblion. Dylid sicrhau bod y polisi presenoldeb yn cael ei ddiweddarau pan fydd deddfwriaeth newydd yn dod i rym, e.e. cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am beidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

5.5.7 Dylai polisi presenoldeb:

- roi blaenoriaeth uchel i bresenoldeb a phrydlondeb
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion statudol
- sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei rhoi'n rheolaidd i'r holl rhieni/gofalwyr a disgyblion
- gwneud defnydd effeithiol o ddata presenoldeb
- darparu canllawiau clir i staff a rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r broses o gofrestru a chofnodi presenoldeb
- cynnwys gweithdrefnau clir er mwyn nodi ac ymchwilio i bob achos lle mae disgybl yn absennol neu'n hwyr
- cydnabod pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar
- gwneud darpariaeth ar gyfer cysylltu ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb
- monitro triwntiaeth ar ôl cofrestru drwy alw cofrestrau dosbarth a gwirio ar hap

- cadw llygad am absenoldeb ar adegau hollbwysig, e.e. trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3
- nodi strategaethau amrywiol i ymdrin ag absenoldeb a diffyg prydlondeb
- darparu hierarchaeth glir o sancsiynau
- datblygu cynlluniau i gymell presenoldeb sy'n cydnabod presenoldeb da gan ddisgyblion
- ystyried gosod targedau ar gyfer unigolion, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn, ac ati
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer nodi ac ailintegreiddio absenoldebau hirdymor
- darparu ar gyfer cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd rhwng staff yr ysgol a'r swyddog lles addysg
- sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd gan yr ysgol cyn gwneud cyfeiriad priodol at y swyddog lles addysg
- pwysleisio wrth rieni/gofalwyr pa mor bwysig yw dilyniant dysgu, yn enwedig yng nghyswllt gwyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol, gan roi sylw i'r ddeddfwriaeth gyfredol
- tynnu sylw at gyfleoedd megis nosweithiau rhieni/gofalwyr a phrosbectws/llawlyfr yr ysgol i atgoffa rhieni/gofalwyr ynglŷn â pholisi'r ysgol ar bresenoldeb
- cynnwys y llywodraethwyr
- nodi aelod allweddol o'r staff uwch i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am bresenoldeb
- sicrhau bod arferion da'n cael eu nodi a'u lledaenu
- nodi pa mor aml y bydd y polisi presenoldeb yn cael ei fonitro a'i adolygu
- cymryd camau er mwyn creu diwylliant sy'n annog presenoldeb, gan fynd i'r afael â materion a allai fod yn achosi presenoldeb gwael yn yr ysgol megis bwlio, hiliaeth, y cwrwllwm, ac ati
- nodi pa wobrau/cymhelliant fydd yn cael eu defnyddio er mwyn annog presenoldeb
- egluro sut y defnyddir data presenoldeb i nodi tueddiadau a sicrhau bod modd gweithredu
- amlinellu'r camau a gymerir er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau gwaith a gollwyd
- amlinellu sut y bydd yr ysgol yn asesu effeithiolrwydd ei strategaethau.

5.5.8 Dylai pob ysgol fod â systemau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer annog presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac ymchwilio i wraidd achosion o bresenoldeb gwael, a dylent gael eu hamlinellu mewn polisi presenoldeb.

5.5.9 Dylai'r polisi presenoldeb hefyd nodi ym mha amgylchiadau y bydd yr ysgol yn ystyried gwneud contract rhianta (gweler adran 3 o'r canllawiau hyn). Dylid adolygu'r systemau'n rheolaidd a'u haddasu, os oes angen, i adlewyrchu amgylchiadau'r ysgol.

5.5.10 Dylai ysgolion sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o bolisi presenoldeb yr ysgol a dylid eu hannog i gydweithredu â'r systemau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y polisi.

5.5.11 Dylai ysgolion fod â systemau a gweithdrefnau ar gyfer:

- cofrestru disgyblion

- hyd y cyfnod y dylid cadw cofrestrau ar agor
- categoraiddio absenoldeb, yn unol â chanllawiau 2010 ar godau presenoldeb ysgolion
- coladu a dadansoddi data presenoldeb er mwyn canfod patrymau a sicrhau bod modd gweithredu
- penderfynu ym mha amgylchiadau y rhoddir caniatâd i ddisgyblion gael gwyliau yn ystod tymor yr ysgol a sut y dylai disgyblion wneud iawn am amser a gollwyd drwy wyliau
- monitro presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob gwers
- ymdrin ag achosion o gyrraedd yn hwyr
- ymdrin ag absenoldeb anawdurdodedig gan gynnwys:
 - pa bryd y cysylltir â rhieni/gofalwyr
 - sut a phryd y defnyddir systemau llythyrau safonol
 - pa gamau a gymerir er mwyn ailennyn diddordeb disgyblion sydd wedi'u dadrithio
 - pa gamau a gymerir er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau gwaith a gollwyd
 - pa wobrau/cymhellion a ddefnyddir er mwyn annog presenoldeb
 - pa sancsiynau y gall yr ysgol eu gweithredu
- cyfeirio achosion at yr awdurdod lleol, h.y. pryd, sut a chan bwy
- ailintegreiddio disgyblion sydd wedi bod yn absennol, e.e. darparu cymorth bugeiliol, rôl unedau cymorth dysgu, defnyddio mentora dysgu/cyfoedion (gweler adran 6 yn y ddogfen *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion*¹⁴⁰ (Llywodraeth Cymru 2015) am ragor o wybodaeth ynglŷn ag ailintegreiddio disgyblion sydd wedi'u gwahardd).

Codi proffil presenoldeb a chynnwys rhieni/gofalwyr

5.5.12 Ymgysylltu effeithiol yw'r sylfaen yr adeileddir pob gwaith gyda rhieni/gofalwyr arni. Elfen allweddol o hyn yw parchu hawliau rhieni/gofalwyr a'u cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau.

5.5.13 Wrth groesawu rhieni/gofalwyr a disgyblion newydd, a'u helpu i gynefino, mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prydlondeb a phresenoldeb. Fel rhan o'r broses o ymsefydlu staff, dylid rhoi gwybodaeth i staff newydd ynglŷn ag athroniaeth yr ysgol ar bresenoldeb a'u cyflwyno i'w cyfrifoldebau rheoli presenoldeb.

5.5.14 Dylai ysgolion gyfathrebu'n aml â rhieni/gofalwyr am gyflawniadau a gwelliannau cadarnhaol, gan bwysleisio cyfrifoldeb a rôl rhieni/gofalwyr mewn partneriaeth â'r ysgol.

5.5.15 Gall ysgolion godi proffil presenoldeb ymhlith rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach drwy ddefnyddio nosweithiau rhieni/gofalwyr, cylchlythyr yr ysgol neu ddulliau cyfathrebu eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth am bwysigrwydd presenoldeb yn cael ei lledaenu'n eang drwy gymuned yr ysgol.

5.5.16 Efallai y byddai'n fuddiol anfon nodyn atgoffa yn rheolaidd at rieni/gofalwyr ynglŷn â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rhoi gwybod i'r ysgol am absenoldeb disgybl.

¹⁴⁰ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/exclusionguidance/?lang=cy

Er mwyn goresgyn problemau presenoldeb, efallai y byddai'n werth cael cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr i drafod strategaethau yn yr ysgol ac yn y cartref sy'n annog mynychu'r ysgol yn rheolaidd a llunio cynllun gweithredu ar gyfer gwella presenoldeb. Mae llawer o ysgolion yn anfon llythyr yn awtomatig os bydd presenoldeb yn disgyn yn is na lefel benodol.

5.5.17 Mae'r dudalen Facebook ar gyfer yr ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref'¹⁴¹ yn darparu gwybodaeth am sut y gall rhieni/gofalwyr gefnogi eu plentyn yn y cartref a'i helpu i berfformio'n well yn yr ysgol.

Ymyrryd yn gynnar

5.5.18 Mae problemau presenoldeb yn aml yn arwydd o achos sylfaenol. Dylai'r ysgol ymchwilio er mwyn gweld a oes unrhyw ffactorau yn yr ysgol neu'r cartref (neu yn y ddau), sy'n effeithio ar bresenoldeb y disgybl yn yr ysgol.

5.5.19 Cyn ystyried a ddylid cyfeirio disgybl i sylw'r awdurdod lleol dylai'r ysgol gymryd camau er mwyn gwella presenoldeb y disgybl, ac ymchwilio a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol sy'n achosi problemau, er enghraifft:

- bwlio
- profiad o hiliaeth
- cyfrifoldebau gofalu
- salwch
- anghenion addysgol arbennig (AAA) heb eu diwallu, neu AAA neu anabledd heb eu nodi.

5.5.20 Gall ysgolion gymryd camau amrywiol i oresgyn problemau presenoldeb. Bydd y rhain yn dibynnu ar y disgybl a'i amgylchiadau a bydd angen iddynt weithio mewn cysylltiad agos â'r rhiant/gofalwr. Er enghraifft:

- trafodaeth gynnar ynglŷn ag absenoldeb anawdurdodedig rhwng y disgybl a'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am ei gofrestru
- cyfarfodydd rhwng yr ysgol, y rhieni/gofalwyr a'r disgybl er mwyn canfod y rhesymau dros absenoldeb anawdurdodedig
- ystyried a allai problemau presenoldeb fod yn gysylltiedig ag AAA heb eu nodi ac, fel y bo'n briodol, darparu cymorth ychwanegol drwy'r categori Gweithredu yn yr Ysgol, neu Weithredu yn yr Ysgol a Mwy, neu wneud cais am asesiad statudol
- cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr i drafod strategaethau yn yr ysgol ac yn y cartref sy'n annog mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- cael y rhiant/gofalwr i gymryd rhan mewn contract rhianta
- ystyried yr amserlen a'r dewis o bynciau er mwyn ennyn diddordeb y disgybl
- defnyddio staff bugeiliol er mwyn canfod a deall rhesymau dros absenoldeb
- defnyddio mentoriaid dysgu er mwyn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion a rhieni/gofalwyr
- defnyddio mentoriaid cyfoedion er mwyn darparu rhwydwaith cefnogi cymdeithasol

¹⁴¹ www.facebook.com/dechraucartref?fref=ts

- defnyddio dulliau o annog/gwobrwyo presenoldeb da neu bresenoldeb sy'n gwella
- defnyddio dulliau o atal absenoldeb (h.y. llythyrau i'r cartref)
- cymorth ychwanegol â gwaith a gollwyd
- clybiau amser cinio a gwaith cartref
- sicrhau bod disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth
- cyfeirio'r disgybl at wasanaethau cwnsela'r awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc (canfu gwerthusiad annibynnol o Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion Cymru fod 69 y cant o'r athrawon cyswllt yn dweud bod gwasanaethau cwnsela wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion)
- defnyddio eiriolydd
- os oes perygl y bydd disgybl yn methu yn yr ysgol o ganlyniad i ddadurthio hirdymor dylai'r pennaeth sefydlu rhaglen cymorth bugeiliol ar gyfer y disgybl (gweler adran 3 o'r canllawiau hyn).

5.5.21 Mae'r cynlluniau sydd wedi helpu ysgolion i wella presenoldeb yn cynnwys:

- defnyddio TG i wella'r dull o fonitro presenoldeb (yn enwedig lle mae problem â thriwantiaeth ar ôl cofrestru)
- codi proffil presenoldeb drwy gytundebau rhwng yr ysgol a'r cartref, nosweithiau rhieni/gofalwyr, cylchlythyr yr ysgol neu ddulliau eraill o gyfathrebu
- atgoffa rhieni/gofalwyr yn rheolaidd ynglŷn â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rhoi gwybod am absenoldeb, ac ynglŷn â pholisi'r ysgol
- gwiriadau presenoldeb, wedi'u trefnu neu heb eu trefnu (mae hon yn ffordd arbennig o effeithiol o fonitro triwantiaeth ar ôl cofrestru)
- rhoi'r cyfrifoldeb am faterion presenoldeb i uwch aelod o'r staff
- cynlluniau pàs disgyblion sy'n cadarnhau bod plant wedi cael caniatâd i beidio â bod yn yr ysgol (yn ddefnyddiol iawn mewn ardaloedd lle gweithredir cynlluniau cadw llygad ar driwantiaeth)
- gwaith grŵp gyda disgyblion sy'n colli'r ysgol yn rheolaidd a chyda'u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys cynlluniau ymyrryd yn gynnar ac ennyn diddordeb rhieni/gofalwyr
- mae creu ymdeimlad cryf o gymuned sy'n gwerthfawrogi barn rhieni/gofalwyr yn ogystal â meithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu agored i alluogi perthnasoedd effeithiol â nhw
- mewn ysgolion lle mae gan ddisgyblion agweddau aeddfed at ddysgu a lle maent yn cefnogi'i gilydd, mae presenoldeb yn well; mae disgyblion hyn yn darparu modelau rôl da ac mae gan ysgolion gynlluniau mentora effeithiol.

Cysylltu ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb

5.5.22 Dylai ysgolion bwysleisio mai'r rhieni/gofalwyr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau presenoldeb drwy ofyn i rieni/gofalwyr roi gwybod iddynt cyn gynted ag y bo modd os na fydd eu plentyn yn yr ysgol ar ddiwrnod penodol. Os bydd disgybl yn absennol heb eglurhad, dylai staff gweinyddol yr ysgol, os yw'n bosibl, gysylltu â'r rhieni/gofalwyr yr un diwrnod, yn enwedig mewn achosion lle mae'r disgybl yn methu gwersi ar ôl cofrestru.

5.5.23 Mae polisi gweithredol o gysylltu ar y diwrnod cyntaf yn dangos yn glir i'r disgyblion a'r rhieni/gofalwyr bod absenoldeb yn fater sy'n peri pryder ac y bydd yn

cael ei ymchwilio. Drwy gysylltu â'r rhiant/gofalwr mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod y rhiant/gofalwr yn ymwybodol nad yw ei blentyn yn yr ysgol, ac mae hynny'n galluogi'r rhiant/gofalwr i gymryd camau, os oes angen, i ganfod a yw ei blentyn yn ddiogel.

5.6 Rôl yr awdurdod lleol wrth ymdrin ag absenoldeb

5.6.1 Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano yn cael addysg addas naill ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu drwy ddull arall (adran 437 o Ddeddf Addysg 1996). Cyfeirir at y gwasanaeth sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol yn aml fel y Gwasanaeth Lles Addysg ac mae'n cael ei staffio gan swyddogion lles addysg. Dylid cymryd bod cyfeiriadau at y Gwasanaeth Lles Addysg neu swyddogion lles addysg yn golygu unrhyw wasanaeth neu unigolyn sy'n cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 437.

5.6.2 Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cefnogaeth i ysgolion, disgyblion a rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Dylai swyddogion lles addysg ddatblygu perthynas waith effeithiol ag ysgolion er mwyn datrys problemau ymddygiad drwy:

- weithio mewn cysylltiad agos ag ysgolion er mwyn diffinio eu rôl a'u cyfrifoldebau yng nghyswllt presenoldeb mewn ysgolion
- diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Lles Addysg
- sicrhau bod polisïau ac arferion gweithredol yn cael eu rhannu rhwng y Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion
- cytuno ar drefniadau ar gyfer cyfeirio, adolygu'n rheolaidd, monitro a gwerthuso
- cytuno ar weithdrefnau ar gyfer datrys ymholiadau.

5.6.3 Rhaid i'r awdurdod lleol weithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod cofrestrau ysgolion yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cael eu cwblhau'n gywir. Os cymerir camau cyfreithiol yn erbyn y rhiant/gofalwr dim ond absenoldeb anawdurdodedig all gael ei ystyried gan y llys oherwydd drwy ddiffiniad mae unrhyw absenoldeb awdurdodedig wedi'i gymeradwyo gan yr ysgol.

5.6.4 Dylai'r awdurdod lleol nodi faint o gefnogaeth y gall ysgolion ei disgwyl gan y Gwasanaeth Lles Addysg. Dylai'r gefnogaeth fod yn seiliedig ar feini prawf clir a syml. Dylai unrhyw fformiwla ar gyfer dyrannu adnoddau'r Gwasanaeth Lles Addysg ystyried cyfraddau absenoldebau o'r ysgol a nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol.

5.6.5 Dylai pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol fod â swyddog lles addysg enwebedig sy'n gyfrifol am gyswllt â'r ysgol. Dylai awdurdodau lleol fonitro'n ofalus y defnydd o'r holl wahanol fathau o strategaethau ymyrryd er mwyn asesu a ydynt yn effeithiol ac yn briodol.

5.6.6 Pan gyfeirir achos at yr awdurdod lleol, dylai'r swyddog lles addysg asesu'r achos a gweithio mewn cysylltiad agos â'r disgybl a'i deulu yn ogystal â'r ysgol er mwyn datrys materion sy'n ymwneud â phresenoldeb gwael yn yr ysgol. Gallai hyn

olygu ymweld â'r cartref a sicrhau trafodaeth i ddatrys problemau rhwng y cartref a'r ysgol.

5.6.7 Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg ystyried a cheisio datrys unrhyw ffactorau posibl a allai fod yn cyfrannu tuag at broblemau presenoldeb yn yr ysgol. Dylid cadw tystiolaeth ddogfennol i brofi bod y swyddog lles addysg wedi gwneud gwaith achos er mwyn mynd i'r afael â'r rhesymau posibl dros absenoldeb. Dylai hyn hefyd gynnwys tystiolaeth o gamau a gymerwyd gan yr ysgol.

5.6.8 Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg ymgysylltu ag asiantaethau eraill lle bo'n briodol. Efallai fod y disgybl yn blentyn mewn angen (yn ôl ystyr adran 17 o Ddeddf Plant 1989) ac, os yw'r rhiant yn cytuno, gallai cyfarfod rhwng y plentyn a'i deulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol fod o gymorth i'r teulu a'r disgybl. Mae cyfyngiadau cyfreithiol (e.e. gofynion diogelu data) a phroffesiynol ynghyd â chyfyngiadau porthgadw'n berthnasol i unrhyw un sydd eisiau cael cymorth a/neu wybodaeth gan asiantaethau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, ymddiriedolaethau ieuchyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. O dan adran 27 o Ddeddf Plant 1989, bydd awdurdod y gofynnir am ei gymorth yn cydymffurfio â'r cais os yw'n gydnaws â'i ddyletswyddau statudol ei hun neu ddyletswyddau a rhwymedigaethau eraill a chyn belled nad yw'n amharu'n amhriodol ar ei allu i gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau.

5.7 Gweithio mewn partneriaeth

5.7.1 Mae nifer o unigolion a sefydliadau a allai helpu mewn ffyrdd amrywiol i ddatrys problemau presenoldeb gwael. Mae'r rhain yn cynnwys:

- seicolegwyr addysg
- gweithwyr ieuchyd
- adrannau gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau addysg Teithwyr
- Gyrfa Cymru
- gwasanaethau cwnsela awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc
- Gwasanaethau ieuchyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS)
- mentoriaid dysgu
- cydlynwyr anghenion addysgol arbennig
- timau troseddau ieuenctid
- timau cymorth ymddygiad
- grwpiau diwylliannol, ffydd a chymunedol
- yr heddlu, gan gynnwys swyddogion cymuned ysgol yr heddlu.

5.7.2 Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylai ysgolion ac awdurdodau lleol geisio gwneud cysylltiadau â phob sefydliad perthnasol yn eu hardal.

5.7.3 Os nad yw ymyriad ar lefel ysgol yn llwyddo i wella presenoldeb yn yr ysgol, rhaid cyfeirio achos i sylw'r awdurdod lleol. Dylai'r mathau o gamau y gellir eu cymryd ar lefel ysgol a'r sbardun ar gyfer cyfeirio i sylw'r awdurdod lleol gael eu pennu drwy gyd-drafod rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol. Dylai ysgolion weithio

mewn cysylltiad agos â'r gwasanaeth lles addysg er mwyn sefydlu protocol clir ar gyfer cyfeirio.

5.7.4 Rhaid i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol, hysbysu'r awdurdod lleol ar adegau cytunedig ynglŷn ag enw a chyfeiriad unrhyw ddisgybl cofrestredig nad yw'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu sydd wedi bod yn absennol yn barhaus am 10 niwrnod ysgol neu fwy. Dylai ysgolion roi manylion ynglŷn â'r strategaethau y maent wedi'u defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, y rheswm dros yr absenoldeb, os yw'n hysbys, gan gynnwys a oes tystysgrif feddygol ar gyfer yr absenoldeb dan sylw, a yw wedi'i awdurdodi gan yr ysgol, ynteu a yw'n deillio o drefniant cofrestru deul. Mae cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn cael ei ymarfer fel arfer drwy'r Gwasanaeth Lles Addysg a'i swyddogion lles addysg. Mae'n bwysig bod y swyddogion lles addysg yn gwirio cofrestrau presenoldeb ysgolion a gynhelir yn rheolaidd.

Gweithio y tu allan i'r sir

5.7.5 Os yw'r disgybl yn byw mewn awdurdod lleol gwahanol, dylai'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn mynychu ysgol arwain unrhyw gamau y mae angen eu cymryd ar lefel awdurdod lleol er mwyn gwella presenoldeb y disgybl. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw a'r awdurdod lleol lle mae'n mynychu'r ysgol weithio mewn cysylltiad agos â'i gilydd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os gwneir gorchymyn rhianta yn dilyn erlyniad gan y gallai'r rhaglen rianta fwyaf priodol a chyfleus fod wedi'i lleoli yn yr awdurdod lleol lle mae'r disgybl yn byw.

5.7.6 Efallai hefyd y bydd y ddau awdurdod yn perthyn i ddwy ardal llys ynadon wahanol. Os hynny, byddai angen i'r awdurdod addysgu fynd ag unrhyw achos yn erbyn y rhieni/gofalwyr i'r llys ynadon sy'n ymwneud â chartref y disgybl ac mae'n debyg y bydd arno angen cymorth yr awdurdod cartref i wneud hynny.

5.7.7 Cynghorir awdurdodau lleol i lunio protocolau yn nodi ar ba sail y byddant yn cyflawni gwaith y tu allan i'r sir.

Gwaith traws-ffiniol

5.7.8 Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 28/2010) yn dangos bod tua 2,000 o ddisgyblion wedi croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr i'r ddau gyfeiriad bob diwrnod i fynychu ysgol. Cynghorir awdurdodau lleol i sicrhau bod protocolau wedi'u sefydlu â'u cyfoedion yn Lloegr er mwyn sicrhau bod modd trosglwyddo disgyblion yn effeithiol.

Gweithredu cymunedol yn erbyn triwantiath

5.7.9 Gall ysgolion, awdurdodau lleol, yr heddlu a grwpiau cymunedol eraill weithio gyda'i gilydd â'r canlynol:

- cyrchoedd triwantiad mewn ardaloedd dynodedig megis canolfannau siopa
- ymgyrchoedd taflenni yn canolbwyntio ar rieni/gofalwyr (yn enwedig mewn ardaloedd lle mae absenoldeb a ganiateir gan rieni'n broblem)

- deunyddiau cyhoeddusrwydd mewn canolfannau siopa lleol a chanolfannau hamdden lleol
- ymgyrchoedd hysbysebu ar fysiau lleol
- cynlluniau pàs disgyblion
- llinellau cymorth triwantiaeth
- posterï 'parth dim triwantiaeth' yn cael eu harddangos mewn siopau a phecynnau gwybodaeth ar gael i staff mewn siopau.

5.7.10 Gall cynlluniau o'r fath, os cânt eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus, arwain at fanteision cadarnhaol gan eu bod yn:

- tynnu sylw'r cyhoedd at broblem absenoldeb anawdurdodedig, ac yn annog y gymuned i wneud rhywbeth ynglŷn â'r broblem
- helpu i atgoffa rhieni/gofalwyr ynglŷn â'u cyfrifoldebau
- cael llawer o sylw gan y cyfryngau ac yn helpu i roi cyhoeddusrwydd i waith pwysig y rhai sy'n gyfrifol am orfodi presenoldeb
- meithrin cysylltiadau agosach rhwng asiantaethau sy'n ymwneud â lles plant.

5.7.11 Gall defnyddio pŵer sydd ar gael i'r heddlu o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i fynd ag unrhyw un sy'n cael ei ddal yn chwarae triwant mewn man cyhoeddus i'r ysgol neu leoliad arall tebyg a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, gryfhau cyrchoedd triwantiaid a gweithgareddau tebyg.

Hysbysiadau cosb benodedig

5.7.12 Daeth Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013¹⁴² i rym ar 2 Medi 2013.

5.7.13 Dylai hysbysiadau cosb am absenoldeb rheolaidd o'r ysgol neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gael eu hystyried fel rhan o'r pecyn o fesurau i wella presenoldeb. Mae contractau rhianta, gorchmynion rhianta, gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwyllo addysg yn ddulliau eraill sydd ar gael yn barod i awdurdodau lleol er mwyn helpu i sicrhau presenoldeb rheolaidd.

5.7.14 Yn ogystal â chynnig dull addas, cyflym ac effeithiol o leihau nifer yr absenoldebau anawdurdodedig gallai hysbysiadau cosb leihau'r angen am achosion llys. Mae hysbysiadau cosb yn darparu dewis arall y gellir ei ddefnyddio yn lle erlyn rhieni/gofalwyr am yr un drosedd cyn dechrau dwyn achos o'r fath.

5.7.15 Byddai hysbysiadau cosb yn cael eu defnyddio ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig, megis:

- triwantiaeth amlwg (gan gynnwys disgyblion sy'n cael eu dal ar gyrchoedd triwantiaid)
- gormod o wyliau anawdurdodedig yn ystod tymor yr ysgol
- oedi gormodol cyn dychwelyd o wyliau estynedig heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr ysgol

¹⁴² www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/penalty-notice-for-regular-non-attendance/?skip=1&lang=cy

- bod yn hwyr yn barhaus (ar ôl gorffen galw'r gofrestr a phan fo absenoldeb anawdurdodedig wedi'i gofnodi)
- absenoldeb a ganiateir gan y rhieni, sy'n digwydd yn rheolaidd, ac a allai gyfiawnhau erlyniad am absenoldeb rheolaidd o'r ysgol.

5.7.16 Mae hysbysiad cosb yn ymyriad addas mewn amgylchiadau lle bernir y gallai'r rhiant/gofalwr sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol ond nad yw'n barod i fod yn gyfrifol am wneud hynny. Yr unig adegau y defnyddir hysbysiadau cosb yw pan nad yw rhieni'n cydweithredu â'r broses neu pan deimlir nad yw'r cydweithrediad yn ddigonol er mwyn datrys y broblem. Defnyddir hwy fel ffordd o orfodi presenoldeb.

5.7.17 Bydd meini prawf penodol ar gyfer cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig am beidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd yng nghod ymddygiad yr awdurdod lleol perthnasol yn unol â'r canllawiau.

6. Addysg heblaw yn yr ysgol

6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae'r adran hon yn amlinellu dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion yng nghyswllt darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol – a elwir weithiau'n 'ddarpariaeth amgen'.

6.1.2 Mae'r canllawiau sydd yn yr adran hon yn ymwneud â darpariaeth benodol sy'n ofynnol ar gyfer disgyblion y mae posibilrwydd na fyddant yn cael addysg addas oherwydd:

- salwch
- gwaharddiad o'r ysgol neu
- reswm arall.

Cefndir cyfreithiol

6.1.3 Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu addysg addas i bobl ifanc y tu allan i ysgolion prif ffrwd. Mae adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 47 o Ddeddf Addysg 1997) yn nodi fel a ganlyn:

Each local authority shall make arrangements for the provision of suitable education at school or otherwise than at school for those children of compulsory school age who, by reason of illness, exclusion from school or otherwise, may not for any period receive suitable education unless such arrangements are made for them.

6.1.4 Mae adran 19(4) o Ddeddf 1996 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddarparu addysg addas mewn ffordd arall i 'bobl ifanc', hynny yw, person dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 18 oed. Dan adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996, gall awdurdod lleol drefnu addysg barhaus i berson ifanc sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 18 oed.

6.1.5 Dan adran 19(6) o Ddeddf 1996 diffinnir addysg addas fel addysg 'effeithlon' sy'n addas i oedran, gallu a doniau plentyn (neu berson ifanc), ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) a allai fod ganddo. Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu, ar ôl ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr, pa fath o ddarpariaeth fyddai'n sicrhau addysg addas y tu allan i'r ysgol i blentyn penodol, gan roi sylw i bolisiau'r awdurdod lleol, defnydd effeithlon o adnoddau a'r canllawiau hyn. Ni all awdurdodau lleol benderfynu peidio â threfnu unrhyw addysg na gwneud trefniadau nad ydynt yn darparu addysg addas i'r plentyn hwnnw. Dan adran 4(2) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997), gall yr awdurdod lleol drefnu bod disgybl yn mynychu ysgol brif ffrwd yn rhan-amser, fel rhan o becyn o fesurau a gynlluniwyd er mwyn darparu addysg addas.

6.1.6 Mae Rhan 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diwygio gwaith partneriaeth ac yn ei wneud yn fwy effeithlon. Gwneir defnydd mwy effeithiol

o adnoddau cyhoeddus drwy ofyn i wasanaethau cyhoeddus amrywiol gydweithio a gwneud cynlluniau i roi sylw i lesiant eu meysydd mewn ffordd integredig, yn hytrach na cheisio rhoi sylw i broblemau ar wahân. Er mwyn lleihau cymhlethdod a dyblygu, gellir cynnwys yr wybodaeth am y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithredu i wella lesiant, gan gynnwys trefniadau i hybu cydweithrediad i wella lesiant plant, mewn cynllun lesiant lleol yn awr. Bydd hyn yn golygu na fydd angen llunio cynllun plant a phobl ifanc ar wahân. Gellir cael rhagor o gyfarwyddyd ar gynlluniau lesiant lleol yng nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllaw statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – SPSF3 – Rôl gyfunol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)* (Llywodraeth Cymru, 2015).

6.1.7 Dan adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996, dylai awdurdod lleol drefnu addysg barhaus ar gyfer person ifanc sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 18 oed mewn sefyllfaoedd lle mae:

- person ifanc 'flwyddyn ar ei hôl hi' â'i addysg, oherwydd salwch, neu oherwydd ei fod wedi cael ei wahardd o'r ysgol ac, oherwydd hynny, pan mae'n cyrraedd oedran ysgol gorfodol, bod angen iddo astudio am flwyddyn arall er mwyn cwblhau cyrsiau arholiadau
- person ifanc yn cael ei wahardd o ysgol yn barhaol ychydig cyn sefyll rhan olaf unrhyw arholiadau cyhoeddus
- myfyriwr wedi dangos ymrwymiad da cyn iddo gyrraedd sefyllfa pan na allai fynd i'r ysgol mwyach.

6.1.8 Mae pobl ifanc yn cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion prif ffrwd am nifer o resymau. Efallai eu bod yn sâl neu wedi cael anaf; efallai eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol neu fod ganddynt anawsterau emosiynol ac ymddygiadol; efallai fod colli'r ysgol wedi mynd yn arferiad ganddynt, neu efallai eu bod yn feichiog neu'n famau ifanc.

6.1.9 Dylai addysg brif ffrwd fod yn nod ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion, ond mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn dod yn nes at gyflawni eu potensial drwy ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan fod darpariaeth o'r fath efallai'n cynnig mwy o amser cyswllt a sgiliau arbenigol. Gallai hyn fod yn arbennig o wir yn achos y disgyblion hynny sy'n cyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Os nad yw darpariaeth amser llawn mewn ysgol brif ffrwd yn cael ei hystyried yn briodol ar gyfer disgybl, dylid ystyried a oes modd gwneud trefniadau a fyddai'n galluogi disgybl i fynd i ysgol brif ffrwd yn rhan-amser a threulio gweddill yr amser yn cael addysg yn rhywle ar wahân i'r ysgol. Dylai'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol fod yn seiliedig ar anghenion y disgybl a dylid ei adolygu'n rheolaidd.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA)

6.1.10 Mae'r *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2004)¹⁴³ yn nodi y gall rhieni/gofalwyr ddweud i ba ysgol a gynhelir (ond nid uned cyfeirio disgyblion nac ysgol arbennig mewn ysbyty) y byddai'n well ganddynt

¹⁴³ dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/special-education-needs-code-of-practice/?lang=cy

weld eu plentyn yn mynd. Mae hefyd yn nodi y gall plant sydd â datganiadau AAA gael eu haddysgu yn rhywle ar wahân i'r ysgol oherwydd:

- bod yr awdurdod lleol wedi gwneud trefniadau eraill
- bod y rhieni/gofalwyr wedi gwneud trefniadau addas eu hunain.

6.1.11 Mae'r grym gan yr awdurdod lleol i drefnu bod rhywfaint o ddarpariaeth addysgol arbennig plentyn, neu'r ddarpariaeth addysgol arbennig i gyd, ar gael yn rhywle ar wahân i'r ysgol. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys addysg mewn uned cyfeirio disgyblion, addysg yn y cartref neu addysg sy'n adlewyrchu hyblygrwydd Cyfnod Allweddol 4. Er hyn, os nad yw'n bosibl diwallu anghenion hirdymor disgybl mewn ysgol brif ffrwd, dylid enwi ysgol arbennig, yn hytrach nag uned cyfeirio disgyblion, ar ddatganiad AAA.

6.1.12 Os bydd disgybl sydd â datganiad AAA yn cael ei leoli mewn uned cyfeirio disgyblion neu fath arall o ddarpariaeth addysg y tu allan i'r ysgol gan nad oes lle ar gael eto mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig briodol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn y datganiad, mae'n hanfodol bod y lleoliad yn cael ei gynllunio a'i adolygu'n rheolaidd, a bod camau'n cael eu cymryd i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol.

6.2 Rôl yr ysgol

Osgoi gwaharddiadau ac ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath

6.2.1 Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol broblemau ymddygiad ac mae'n debyg eu bod wedi cael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol, neu mewn perygl o hynny. Prif rôl ysgol wrth gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yw sicrhau bod disgyblion yn cael eu cadw mewn ysgol brif ffrwd i'r graddau y mae hynny'n bosibl a'i bod yn darparu ar gyfer unrhyw gymorth ychwanegol sydd gan y disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod cynifer o ddisgyblion ag sy'n bosibl yn cael eu cynnwys mewn addysg brif ffrwd ac i anelu'n fwy na dim at ailintegreiddio'r disgyblion hynny nad ydynt mewn addysg brif ffrwd.

6.2.2 Gall gwaharddiad o ysgol arwain at fwy o risg o allgáu cymdeithasol o ganlyniad i ddiweithdra, sy'n cael ei achosi gan ddiffyg cymwysterau neu hyfforddiant priodol, a'r posibilrwydd o ymwneud â gweithgaredd troseddol.

6.2.3 Os yw ysgol yn pryderu am ymddygiad disgybl dylai geisio canfod a oes ffactorau penodol sy'n achosi'r ymddygiad. Gall chwilio am arwyddion cynnar o anhawster ac adnabod yr arwyddion hynny helpu i sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth a bod rhywun yn gofalu amdanynt. Gall gweithredu strategaethau effeithiol ar gyfer ymyrryd yn gynnar atal problemau rhag sefydlu neu ddwysáu cymaint nes bod gwaharddiad yn cael ei ystyried. Ceir rhagor o wybodaeth am strategaethau ymyrryd yn gynnar yn adran 4 (gweler is-adran 4.12).

6.2.4 Ni ddylid gwahardd disgybl o'r ysgol oni bai fod pob cosb arall wedi methu. Dylid rhoi cynnig ar bob strategaeth arall cyn penderfynu gwahardd disgybl. Mae nifer o ddulliau gweithredu y gall staff eu defnyddio er mwyn ymdrin â materion

disgyblu. Mae adran 4 yn y canllawiau hyn yn ymdrin â'r prif ddulliau y dylid eu defnyddio. Yn fwyaf arbennig, os oes perygl y bydd angen gwahardd disgybl, mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i sefydlu rhaglen cymorth bugeiliol (is-adran 4.26) a sicrhau cefnogaeth pob un o'r asiantau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno elfennau amrywiol y rhaglen. Rhaid i ysgolion hefyd gysylltu ag awdurdodau lleol yn gynnar, yn enwedig y timau cymorth ymddygiad a'r Gwasanaeth Lles Addysg, i drafod problemau â disgyblion unigol.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol

6.2.5 Os bydd penaethiaid yn credu bod angen gwahardd disgyblion yna, os yw'r gwaharddiad yn un am gyfnod penodol, dylent sicrhau bod y gwaharddiad am y cyfnod lleiaf posibl a bod cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer ailintegreiddio'r disgybl ar ôl i'r gwaharddiad ddod i ben. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai pob disgybl sy'n cael ei wahardd am 10 niwrnod neu ragor gael rhaglen cymorth bugeiliol.

6.2.6 Nid yw dylanwadu ar rieni/gofalwyr, neu eu hannog i dynnu eu plentyn o'r ysgol yn 'wirfoddol' er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad anodd neu heriol, yn ymateb priodol. Byddai ysgolion a fyddai'n gwneud hyn yn torri'r ddeddf addysg.

6.2.7 Mae tynnu plentyn o'r ysgol yn 'wirfoddol' yn osgoi'r broses wahardd ffurfiol ac, o ganlyniad, yn amddifadu rhieni/gofalwyr a disgyblion o'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau i wahardd. Gall y math hwn o waharddiad anghyfreithlon hefyd olygu bod pobl ifanc yn colli cyfle i gael addysg a hyfforddiant, ac mae'r risg y byddant yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol yn cynyddu'n sylweddol.

6.2.8 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd disgyblion yn pwysleisio pa mor bwysig yw darparu addysg amser llawn i bob disgybl sy'n cael ei wahardd ar ôl 15 niwrnod o waharddiad, ar sail barhaol neu am gyfnod penodol. Bydd hyn 15 niwrnod ar ôl i'r pennaeth benderfynu gwahardd disgybl. Mae amser llawn yn yr achos hwn yn golygu cynnig addysg dan oruchwyliaeth neu weithgaredd arall sy'n cyfateb i'r hyn a gynnigir gan ysgolion prif ffrwd yn yr ardal.

6.2.9 Nid yw'n bosibl darparu addysg amser llawn o fewn y raddfa amser uchod bob amser i ddisgyblion a allai fod wedi ymddieithrio'n bell iawn oddi wrth addysg. Neu efallai, oherwydd eu hamgylchiadau presennol, nad yw ailgyflwyno'n gyflym i addysg amser llawn yn debygol o fod yn llwyddiannus. Mewn achosion o'r fath, dylai'r cynlluniau ar gyfer addysg y disgyblion hyn ymdrin yn benodol â sut y bydd y newid i addysg amser llawn yn digwydd yn y dyfodol.

6.2.10 Mae dyletswydd yr ysgol i ddarparu addysg i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn parhau tra bydd y disgyblion hynny ar gofrestr yr ysgol. Dylai enw disgybl sydd wedi'i wahardd yn barhaol aros ar gofrestr yr ysgol nes bydd y broses apelio wedi'i chwblhau, neu nes bydd y cyfnod apelio wedi dod i ben a dim cwyn wedi cael ei chyflwyno. Gellir tynnu enw'r disgybl oddi ar y gofrestr yn gynharach os bydd y rhieni/gofalwyr a/neu'r disgybl yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig nad ydynt yn bwriadu apelio.

Disgyblion â chofrestriad deuol a disgyblion rhan-amser

6.2.11 Os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn ysgol ac yn mynychu darpariaeth y tu allan i'r ysgol am ran o'r wythnos, neu am yr wythnos gyfan, dylai'r ysgol ddal i fonitro addysg a phresenoldeb y disgybl a sicrhau ei bod yn cael adolygiadau rheolaidd o'i gynnydd. Dylai hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth angenrheidiol i'r rhai sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth addysg y tu allan i'r ysgol. Dylai penaethiaid gysylltu â'r athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau pendant wedi'u gwneud er mwyn adolygu amgylchiadau disgyblion yn ogystal â rhoi digon o amser cynllunio i alluogi disgyblion i fynd i unedau cyfeirio disgyblion neu i ddychwelyd i ysgol. Ni ddylai disgyblion ddod i unedau cyfeirio disgyblion yn ddirybudd neu ar ôl rhybudd byr iawn.

Darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol

6.2.12 Mae rhai elfennau allweddol o wybodaeth y mae'n ofynnol i ysgolion eu darparu i'r awdurdodau lleol am bob disgybl sydd wedi'i wahardd. Dylent hefyd ddarparu gwybodaeth arall, megis gwybodaeth am batrymau ymddygiad a phresenoldeb a manylion unrhyw gymorth ychwanegol, er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdod lleol ddigon o wybodaeth i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol yn ddigonol.

Gweithio gyda cholegau addysg bellach (AB)

6.2.13 Ym mis Tachwedd 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Cydlafurio rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chyrff AB i weithio ar y cyd drwy sefydlu cydbwyllgorau. Mae nifer o faterion y gall cyrff addysg gydweithio arnynt, gan gynnwys gwasanaethau 'blaen y tŷ', megis rhannu staff dysgu neu gyfleusterau.

6.2.14 Mae llawer o ysgolion wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol iawn â cholegau AB er mwyn sicrhau darpariaeth ran-amser i ddisgyblion sydd wedi'u dadrithio. Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn bennaf, ond mae rhai ysgolion wedi mabwysiadu'r dull gweithredu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10. Gall defnyddio colegau AB fod yn ffordd dda iawn o helpu pobl ifanc i aeddfedu a dod i delerau â'u hamgylchiadau penodol, a thrwy hynny gael mwy o gymhellant i ddysgu.

Trafod gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion

6.2.15 Fel pob agwedd ar ddarpariaeth unigol, mae'n hanfodol bod ysgolion yn trafod dewisiadau eraill yn lle addysg yn yr ysgol gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion cyn gynted ag y daw'n amlwg mai dyma'r dewis mwyaf priodol. Dylai ysgolion geisio sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael iddynt, yn enwedig darpariaeth ran-amser, a bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyfleu'n glir i'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i ysgolion gysylltu â'r awdurdod lleol yn gynnar i sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am y dewisiadau sydd ar gael.

Disgyblion ag anghenion meddygol

6.2.16 Mae awdurdodau lleol yn darparu mynediad at addysg i ddisgyblion sy'n absennol o'r ysgol am resymau meddygol. Bydd y ddarpariaeth hon ar gyfer anghenion amrywiol, gan gynnwys plant sydd â salwch terfynol a rhai sy'n gwella ar ôl damweiniau. Bydd hefyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Beth bynnag yw'r amgylchiadau sy'n achosi i berson ifanc gael ei dderbyn i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol am resymau meddygol, bydd gan yr ysgol rôl barhaus i'w chwarae bron bob amser. Mae gan ysgolion rôl bwysig iawn i'w chwarae er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n absennol o'r ysgol am resymau meddygol yn cael y gefnogaeth addysgol y mae arnynt ei hangen. Ni ddylent dynnu enw disgybl sy'n methu â mynychu ysgol am resymau meddygol oddi ar gofrestr yr ysgol heb ganiatâd y rhieni, hyd yn oed yn ystod cyfnod hir o salwch, oni bai bod swyddog meddygol ysgol yn ardystio bod y disgybl yn annhebygol o fod mewn cyflwr digon da i ddod yn ôl i'r ysgol tra bydd yn dal o fewn oedran ysgol gorfodol.

6.3 Rôl yr awdurdod lleol

Strategaeth ddarparu

6.3.1 Rhaid i awdurdodau lleol ystyried plant a phobl ifanc wrth ddatblygu eu cynlluniau integredig sengl. Mae hyn yn ddatganiad allweddol ym mhob awdurdod lleol ar gyfer cynllunio darpariaeth. Dylai awdurdod lleol sicrhau mai un o'i nodau craidd yw bod plant a phobl ifanc yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd i ddysgu a chael addysg.

6.3.2 Mae'n bosibl y bydd nifer fawr o asiantau'n gysylltiedig â'r broses o gefnogi person ifanc y mae angen darparu addysg y tu allan i'r ysgol iddo. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod pob asiant o'r fath yn ymwneud â datblygu strategaethau, yn ogystal â'u gweithredu a'u mireinio'n barhaus. Byddai'r asiantau hyn yn cynnwys darparwyr partner perthnasol, pa un a ydynt yn cyfarfod ai peidio, megis partneriaethau plant a phobl ifanc, Llwybrau Dysgu 14–19, gwasanaethau ieuencid, Gyrfa Cymru, timau troseddau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol a darparwyr hyfforddiant.

6.3.3 Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau sydd yn y cylchlythyr hwn pan fyddant yn datblygu eu strategaethau, a rhoi sylw penodol i'r canlynol:

- darparu addysg amser llawn a phriodol i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn ogystal â strategaethau i'w hailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd lle bo'n briodol
- rôl unedau cyfeirio disgyblion a'u cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd
- cysylltiadau â cholegau AB
- gwaith gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector
- ymgynghori â disgyblion a'u teuluoedd
- casglu gwybodaeth am ddisgyblion unigol a rhannu'r wybodaeth hon rhwng gwahanol asiantaethau a gwasanaethau
- datblygu ystod o Lwybrau Dysgu dan yr agenda 14–19.

Gweithio gydag ysgolion

6.3.4 Un o'r agweddau pwysicaf ar rôl yr awdurdod lleol yw gweithio gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo dulliau cadarnhaol sy'n edrych ar yr ysgol gyfan a chefnogi disgyblion unigol er mwyn osgoi gwaharddiad (gweler adran 4). Yn fwyaf arbennig, dylent gynnig cyngor ac anfon negeseuon clir yn ymwneud â pholisi mewn cysylltiad â'r canlynol:

- adnabod problemau yn gynnwys a gwneud trefniadau cyfeirio addas
- defnyddio rhaglenni cymorth bugeiliol ar gyfer pob disgybl y mae perygl iddo ymddieithrio a chael ei wahardd o'r ysgol (gweler adran 4, is-adran 4.26)
- nid yw tynnu enwau disgyblion oddi ar gofrestr ysgol yn 'wirfoddol' yn dderbyniol (gweler adran 6, paragraff 6.2.7).

6.3.5 Mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi sefydlu protocolau awdurdod cyfan gyda phob ysgol er mwyn osgoi'r rhan fwyaf o waharddiadau, drwy symud disgyblion i ysgolion eraill. Mae'r 'symudiadau wedi'u rheoli' hyn yn osgoi stigma gwaharddiad a gallant ganiatáu i berthynas fwy cadarnhaol barhau gyda rhieni/gofalwyr a disgyblion na fyddent o bosibl yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau pellach fel arall. Rhaid gweithredu symudiadau wedi'u rheoli mewn amgylchedd lle mae'r partion i gyd yn cydweithio ac yn cytuno, ac ni ddylid rhoi pwysau gormodol ar rieni/gofalwyr i symud eu plant i ysgolion eraill yn groes i'w dymuniad. Ceir rhagor o ganllawiau ar symudiadau wedi'u rheoli yn *Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli*¹⁴⁴ (Llywodraeth Cymru, 2011).

Darpariaeth amrywiol

6.3.6 Wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer addysg amgen, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu anghenion disgyblion unigol. Rhaid i ddisgyblion gael cyfle i fynychu darpariaeth amgen yn rhan-amser ac ysgol brif ffrwd yn rhan-amser. Er mwyn darparu addysg addas, mae angen i awdurdodau lleol hefyd gynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiad ond a allai gael cymwysterau o safon uchel, yn hytrach na darparu'r cymwysterau safonol sydd ar gael mewn uned iddynt, a allai fod yn gymharol isel.

6.3.7 Yn adroddiad ymchwil Prifysgol Caeredin ar gyfer Llywodraeth Cymru *Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting*¹⁴⁵ (Saesneg yn unig) (Llywodraeth Cymru, 2013) nodwyd bod merched yn grŵp lleiafrifol mewn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Dylai awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion sicrhau bod cefnogaeth ddigonol a phriodol ar gael i ddisgyblion benywaidd os ydynt yn y lleiafrif mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.

6.3.8 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod pob parti'n cael gwybodaeth lawn am y gwahanol ddewisiadau ar gyfer addysg amgen sydd ar gael iddynt a sut y gallent

¹⁴⁴ dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/effectivemoves/?lang=cy

¹⁴⁵ www.cymru.gov.uk/statistics-and-research/education-provision-children-young-people-educated-outside-school-setting/?lang=cy

gael mynediad atynt, yn uniongyrchol neu drwy'r awdurdod lleol. Er mwyn hwyluso hyn, dylai awdurdodau lleol gael swyddog enwebedig â chyfrifoldeb am gyd-drefnu darpariaeth amgen ac unrhyw anawsterau a allai godi wrth ei darparu. Dylai ei rôl gynnwys sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n bennaf gyfrifol am oruchwylio addysg disgyblion, gan fod yr amrywiaeth a'r trefniadau hyblyg yn aml yn golygu bod camddealltwriaeth yn bosibl.

Sicrhau ansawdd a safonau

6.3.9 Gallai dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu addysg addas gael ei chyflawni drwy roi addysg ar gontract, e.e. i'r sector gwirfoddol neu breifat, gan gynnwys ysgolion annibynnol, darparwyr dysgu seiliedig ar waith neu golegau AB. Er hyn, mae'r awdurdod lleol yn dal yn atebol am ansawdd yr addysg a dylai felly fodloni ei hun bod yr ansawdd o safon uchel. Dylai awdurdodau lleol hefyd sefydlu systemau cadarn i fonitro'r trefniadau'n rheolaidd.

6.3.10 Ni all awdurdodau lleol ddirprwyo eu cyfrifoldebau craidd mewn cysylltiad â'r disgyblion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch, a dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddisodlodd yr holl ddeddfwriaethau cydraddoldeb blaenorol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu am bob disgybl.

6.3.11 Mae angen i awdurdodau lleol fabwysiadu trefniadau cadarn er mwyn bodloni eu hunain bod y dyletswyddau a roddwyd iddynt yn cael eu cyflawni mewn addysg o bob math sy'n cael ei darparu y tu allan i'r ysgol. Bydd hyn yn golygu:

- asesu addasrwydd darparwydd newydd cyn anfon disgyblion ato
- llunio contract/cytundeb lefel gwasanaeth gyda phob darparwydd, gan roi manylion am natur y trefniant, nodi'n glir beth yw disgwyliadau'r awdurdod lleol a chadarnhau'r gofynion statudol
- gwneud asesiad cychwynnol ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys asesiad risg
- sicrhau bod trefniadau yswiriant boddhaol wedi'u gwneud
- cyflawni cyfrifoldebau iechyd a diogelwch
- sicrhau a monitro presenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol
- sefydlu systemau i fonitro presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion, a phrosesau ailintegreiddio
- darparu cyngor gyrfaol
- system dryloyw ar gyfer cyfeirio a chyfnewid gwybodaeth
- partneriaeth barhaus â rhieni/gofalwyr
- cyswllt parhaus â'r ysgol wreiddiol ac asiantaethau eraill
- goruchwylio cynnwys y cwricwlwm, a ddylai gynnwys ABCh
- cyhoeddi trefniadau derbyn
- monitro patrymau lleoli
- sefydlu systemau i fonitro cynnydd disgyblion.

Monitro a gwerthuso

6.3.12 Dylai monitro a gwerthuso darpariaeth amgen fod yn elfen allweddol o strategaethau awdurdodau lleol, a dylent gynnwys hyn yn eu cynlluniau integredig

sengl. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hystyried, bod yr addysg o safon ddigonol a bod y ddarpariaeth yn cynnig gwerth da am arian. Mae hyn yn gynyddol bwysig wrth i nifer y darparwyr ddal i gynyddu, ac mae datblygiadau â Llwybrau Dysgu 14–19 wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion ac yn yr amser y maent yn ei dreulio mewn addysg heblaw yn yr ysgol.

6.3.13 Dylid ystyried nifer o ddangosyddion wrth fesur effeithiolrwydd darpariaeth, gan gynnwys y canlynol:

- cost unedau
- ansawdd y ddarpariaeth – o ran amgylchedd addas a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, yn ogystal â chyflwyno'r cwricwlwm
- lefelau cyrhaeddiad
- presenoldeb
- nifer y gwaharddiadau
- cyfraddau ailintegreiddio
- nifer y disgyblion sy'n mynd ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant neu'n cael gwaith
- cyfleoedd ar gyfer achrediad priodol.

6.3.14 Roedd tystiolaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ddatganiad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, ac y tynnwyd sylw ati yn *Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting*, yn dangos bod rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli'n fwy na'i gilydd mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- bechgyn
- disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig
- plant mewn gofal cyhoeddus (plant sy'n derbyn gofal)
- disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

6.3.15 Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod addysg y tu allan i'r ysgol ar gyfer y disgyblion hyn yn adlewyrchu'n ddigonol unrhyw angen am ddarpariaeth arbenigol. Dylai strategaethau gynnwys asesiad parhaus o'r dadansoddiad o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol a dull o fynd i'r afael â'r ffaith fod rhai grwpiau'n cael eu gorgynrychioli.

6.4 Mathau o ddarpariaethau awdurdodau lleol

6.4.1 Mae ystod gynyddol o ddarpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol ar gael, gan gynnwys y canlynol:

- unedau cyfeirio disgyblion
- colegau AB
- addysg unigol ac addysg yng nghartrefi disgyblion neu mewn ysbyty
- Porth leuenctid
- addysg gysylltiedig â gwaith
- darparwyr hyfforddiant
- sefydliadau'r trydydd sector

- pecynnau wedi'u teilwra'n arbennig.

Unedau cyfeirio disgyblion

6.4.2 Y lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio amlaf yw unedau cyfeirio disgyblion, ac yn 2012/13 roedd 46.6 y cant o'r holl ddisgyblion a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u cofrestru mewn unedau o'r fath. Mae'r math o ddarpariaeth a gynigir mewn unedau cyfeirio disgyblion, a maint y ddarpariaeth, yn amrywio'n fawr, ac mae'r awdurdodau lleol yn cael mwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y disgyblion sydd ar y gofrestr.

Colegau addysg bellach

6.4.3 Gall colegau AB ddarparu addysg bellach ran-amser neu amser llawn i bobl ifanc ym Mlynnyddoedd 10 neu 11, ac efallai mai dyma'r dewis mwyaf priodol i rai disgyblion, yn enwedig os oes ganddynt ddiddordeb mewn addysg alwedigaethol. Mae rhai colegau wedi datblygu rhaglenni rhan-amser arbennig er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo i addysg ôl-16 a hyfforddiant. Mae'r rhaglenni hyn yn debygol o fod o ddiddordeb arbennig i bobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r awdurdod lleol yn dal yn gyfrifol am gost sicrhau bod darpariaeth ar gael yn y sector AB i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, ac mae'n dal yn atebol am berfformiad yr addysg honno.

6.4.4 I'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dechrau ar eu haddysg ôl-orfodol, mae'n debyg mai trosglwyddo i chweched dosbarth neu goleg AB yw'r dewis gorau.

Addysg unigol ac addysg yng nghartrefi disgyblion neu mewn ysbyty

6.4.5 Nid yw addysg unigol, yn enwedig yng nghartref y disgybl, yn addas fel arfer er mwyn diwallu anghenion disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol, ond yn aml iawn mae'n ffordd effeithiol o ddarparu addysg i blant a phobl ifanc sâl. Gallai addysg unigol fod yn ddefnyddiol i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn y tymor byr pan fydd yr addysg wedi cael ei chydgyssylltu'n ofalus â gwasanaethau addysg eraill. Mae rhai awdurdodau lleol wedi canfod bod unedau cyfeirio disgyblion/gwasanaeth addysgu integredig yn eu galluogi i ddefnyddio adnoddau'n hyblyg, ac yn sicrhau bod yr unigolyn sy'n cael ei addysg yn ei gartref yn cael cefnogaeth broffesiynol a chymdeithasol. Gall addysg unigol hefyd helpu i roi mwy o hyblygrwydd i'r cwricwlwm yn yr uned cyfeirio disgyblion.

6.4.6 Mae'n debyg mai addysg unigol neu addysg mewn grwpiau bach fydd yr unig ddewis ar gyfer disgyblion sy'n treulio cyfnodau maith yn yr ysbyty.

6.4.7 Mae mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o becynnau addysg sydd i'w cael ar y rhyngwyd a gall hyn fod yn ffordd effeithiol o ddarparu addysg yn y cartref, yn enwedig i ddisgyblion sâl. Ni ddylai pecynnau o'r fath ddisodli cymorth bugeiliol neu gynllunio ar gyfer ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd.

6.4.8 Gan fod pobl ifanc 16 i 18 oed yn fwy abl i weithio'n annibynnol na disgyblion iau, efallai y bydd addysg unigol yn addas i rai sy'n agosáu at ddiwedd cyrsiau arholiad. Er hyn, dylent ddal i gael mynediad at elfennau o Lwybrau Dysgu 14–19.

Addysg gysylltiedig â gwaith

6.4.9 Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu hyfforddeiaethau neu raglenni dysgu sy'n ceisio datblygu sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc 16 i 18 oed. Mae disgyblion hŷn yn debygol o gael budd o dreulio un diwrnod yr wythnos ar leoliad gwaith, ac yn astudio ar gyfer cymhwyster galwedigaethol efallai. Gall hyn eu helpu i feithrin sgiliau byw ehangach. Dylid cynllunio darpariaeth o'r fath yn drylwyr bob amser a'i monitro'n ofalus. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i werth addysgol lleoliadau gwaith am fwy nag un diwrnod yr wythnos. Gellir cynnwys cyrsiau arbennig i ddatblygu sgiliau cysylltiedig â gwaith sy'n cael eu cynnig gan asiantaethau, megis sefydliadau'r trydydd sector, yn yr amserlen hefyd.

Sefydliadau'r trydydd sector a darparwyr eraill

6.4.10 Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi'r gwaith o ddarparu addysg amgen ar gontract i gyrff eraill, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector, a hefyd yn lleoli disgyblion mewn unedau sy'n cael eu rhedeg gan gyrff gwirfoddol. Gall trefniadau contract o'r fath fod yn ffordd effeithiol o alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol. Mae'n bwysig dros ben, gan fod nifer o ddarparwyr posibl i'w cael, a gwahanol fathau hefyd, bod awdurdodau lleol yn adolygu cost-effeithiolrwydd darpariaeth o'r fath yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gweithdrefnau amddiffyn plant priodol yn cael eu dilyn.

Pecynnau wedi'u teilwra'n arbennig

6.4.11 Yn aml iawn yr opsiwn gorau ar gyfer person ifanc fydd darpariaeth wedi'i theilwra'n arbennig sy'n seiliedig ar gyfuniad o bosibiliadau, wedi'i chyfuno efallai â mynychu ysgol brif ffrwd yn rhan-amser. Dylai awdurdodau lleol gofio y byddai'n dda o beth pe gellid sicrhau bod disgyblion ym mhob cyfnod allweddol, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol, yn cadw cysylltiad o ryw fath ag addysg brif ffrwd. Gallai hyn fod drwy ddarpariaeth ôl-16 o ryw fath ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4.

Mathau eraill o ddarpariaethau

6.4.12 Mae nifer fach o sefydliadau lle gallai disgyblion gael eu cadw'n gaeth, ond nid oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb uniongyrchol dros y rhain. Maent yn cynnwys sefydliadau troseddau ieuencid a chanolfannau lloches. Mewn achosion o'r fath, gallai awdurdodau lleol fod yn atebol i ryw raddau o hyd am gydweithio/gweithio mewn partneriaeth.

6.4.13 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau clir pan fydd person ifanc o oedran ysgol statudol yn gadael sefydliad ac angen lle mewn ysgol leol, neu ddarpariaeth addysg addas. Dylai awdurdodau lleol sydd â sefydliadau o'r fath yn eu hardal gadw mewn cysylltiad â hwy er mwyn canfod faint o bobl ifanc o oedran ysgol statudol sy'n byw yno. Os bydd disgybl sy'n byw mewn awdurdod lleol gwahanol fel arfer yn cael ei gadw mewn sefydliad o'r fath, dylai'r awdurdod lleol 'cartref' gadw mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol sy'n 'derbyn' er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer trosglwyddo'r disgybl i ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol.

6.4.14 Er hyn, dylai awdurdodau lleol ddarparu addysg i ddisgyblion â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael eu cadw mewn unedau seiciatrïg drwy orfodaeth. Mae canllawiau yn ymwneud â chefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i'w gweld yn adran 3 ac yng nghanllawiau *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol*¹⁴⁶ (Llywodraeth Cymru, 2010).

Cynllunio darpariaeth unigol

6.4.15 Dylai'r math o ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion fod yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Dylid gwneud hyn drwy sefydlu cynllun unigol i bob disgybl. Dylai pawb y mae'r cynllun unigol yn ymwneud ag ef fod wedi cytuno arno, yn dilyn ymgynghoriad llawn. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion, y rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr), yr ysgol a gynhelir, yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n darparu'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol. Dylai asiantau eraill sy'n ymwneud â chefnogi'r disgyblion, megis timau troseddau ieuencid, Gyrfa Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol, gael eu cynnwys hefyd wrth benderfynu ynglŷn â darpariaeth addas. Yn aml iawn mae'r broses hon yn gweithio orau pan fydd trefniadau amlasiantaeth, megis protocolau a phaneli cyfeirio, wedi'u sefydlu'n dda. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw darpariaeth yn cael ei dal yn ôl yn ormodol wrth aros i baneli gyfarfod. Dylai'r cynllun gynnwys datganiad ar ailintegreiddio mewn ysgol brif ffrwd. Mewn rhai achosion efallai y penderfynir yn gynnar yn y broses nad yw ailintegreiddio'n bosibl, e.e. os yw disgybl sydd wedi'i wahardd yn agosáu at ddiwedd ei yrfa yn yr ysgol neu os bydd yn well gan fam ifanc fynd i uned ar wahân cyn mynd ymlaen i astudio mewn coleg AB.

6.4.16 Mae rhieni/gofalwyr plant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol yn aml yn teimlo'n ynysig. Dylid eu hysbysu'n rheolaidd ynglŷn â chynnydd eu plentyn a'u hannog i helpu i weithredu cynlluniau'r plentyn. Dylai'r awdurdod lleol ystyried a oes ar y teulu angen cefnogaeth ychwanegol, megis ystafell adnoddau neu hyfforddiant sgiliau rhianta, a beth yw'r ffordd orau o wneud hyn (yn fwyaf arbennig, pa asiantaethau eraill ddylai gael eu cynnwys).

6.4.17 Dylai pob disgybl sy'n cael ei addysgu mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gael adolygiadau rheolaidd o'i gynnydd ac o addasrwydd ei ddarpariaeth. Dylid cynnal yr adolygiadau bob chwe wythnos o leiaf a dylid rhannu'r canlyniadau â'r prif bartion y mae a wnelont ag addysg y disgybl. Y sefydliad lle mae'r disgybl yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ddylai fod yn gyfrifol am gynnal yr adolygiad. Os nad yw disgybl wedi'i gofrestru mewn ysgol brif ffrwd neu uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am yr adolygiad.

Cadw cofnodion am ddisgyblion unigol

6.4.18 Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cadw cofnodion am bob disgybl sy'n cael ei addysgu mewn lleoliad ar wahân i ysgol, boed yn rhan-amser neu ar sail amser llawn. Heb yr wybodaeth hon, ni fyddai awdurdodau lleol yn gallu cadarnhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu addysg addas a phriodol i bob person ifanc sydd o fewn oedran ysgol gorfodol. Mae cael

¹⁴⁶ dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/education-and-support-for-children-and-young-people-with-medical-needs/?lang=cy

gwybodaeth gynhwysfawr yn hanfodol hefyd er mwyn cynllunio darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn strategol, gan gynnwys faint o adnoddau sydd eu hangen.

6.4.19 Os bydd awdurdod lleol yn trefnu rhyw fath o addysg mewn lleoliad ar wahân i ysgol, dylai'r wybodaeth a ganlyn fod ar gael ar gyfer pob disgybl:

- manylion y disgybl
- lleoliad y ddarpariaeth
- manylion y darparydd
- trefniadau rhan-amser
- y math o AAA a'i ddifrifoldeb
- cefnogaeth ar gyfer anghenion ychwanegol
- bodolaeth rhaglenni cymorth bugeiliol a dyddiad adolygiadau
- cymwysterau yr ymgeisir amdanynt/cymwysterau a gafwyd
- presenoldeb ac ymddygiad.

6.4.20 Wrth ymdrin â gwaharddiadau, ni all awdurdodau lleol ddibynnu ar wybodaeth a ddarperir gan ysgolion yn unig, gan fod nifer o resymau pam nad yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys ar gofrestrau ysgolion, gan gynnwys:

- tynnu enw oddi ar y gofrestr yn wirfoddol
- pobl ifanc wedi symud i'r ardal o ardal arall
- rhieni/gofalwyr wedi bod yn addysgu eu plant yn y cartref yn y gorffennol
- plant neu bobl ifanc o deuluoedd Teithwyr.

6.4.21 Mae'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* cenedlaethol¹⁴⁷ (Llywodraeth Cymru, 2013) yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc, ac mae'n nodi bod gwell gwybodaeth yn galluogi prosesau ar gyfer olrhain pobl ifanc y mae perygl iddynt ymddieithrio a'u symud drwy'r system yn fwy effeithiol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ymgysylltu ag ysgolion er mwyn defnyddio'r data sydd ar gael a sicrhau bod modd monitro a gwneud gwerthusiad effeithiol o effaith unrhyw gefnogaeth sy'n cael ei darparu.

6.4.22 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ysgolion, colegau AB, darparwyr ôl-16 a Gyrfa Cymru er mwyn datblygu a chryfhau systemau olrhain ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16, drwy weithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*.

6.4.23 Bydd y fframwaith yn cryfhau ac yn gwella prosesau olrhain:

- a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol
- wrth symud o'r cyfnod cyn-16 i'r cyfnod ôl-16
- pob person ifanc 16–18 oed
- pobl ifanc 18 oed a hŷn
- pob oedran, drwy rannu a defnyddio data'n fwy effeithiol.

¹⁴⁷ www.gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?skip=1&lang=cy

6.4.24 Disgwylir i awdurdodau lleol fonitro a gwerthuso effaith unrhyw gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc. Bydd hyn yn eu galluogi i werthuso, gwneud addasiadau a galw darparwyr cefnogaeth i gyfrif drwy fonitro effaith eu gwaith.

6.4.25 Datblygiadau allweddol eraill mewn ysgolion yw'r Gronfa Ddata Disgyblion Coll a'r system a ddefnyddir i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg. Mae'r rhain yn galluogi ysgolion i ddod o hyd i wybodaeth am ddisgyblion sy'n ymddangos mewn ysgol heb lawer o rybudd neu'n gwbl ddirybudd. Maent hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol gofnodi gwybodaeth am ddisgyblion sydd wedi gadael yn ddirybudd. Mae rhagor o ganllawiau ar ddod o hyd i ddisgyblion 'coll' i'w gweld yn *Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006)¹⁴⁸. Ceir rhagor o ganllawiau hefyd mewn cyfarwyddyd mwy cyffredinol ar atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg a gyhoeddwyd yn ystod 2010¹⁴⁹.

6.4.26 Mae angen cadw cofnodion yn ymwneud â phresenoldeb disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg amgen. Bydd hyn yn dod yn bwysicach wrth i'r cyfnod ac amrywiaeth y ddarpariaeth gynyddu.

¹⁴⁸ www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/dataexchange/school2schoolcommon/?lang=cy

¹⁴⁹ www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/missingeducation/?lang=cy

Atodiad 1: Datblygu strategaethau cynhwysol – rhestrau gwirio ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn cynnig cwestiynau i awdurdodau lleol (ALLau) eu hystyried i'w helpu i werthuso natur ac ansawdd eu darpariaeth bresennol, a datblygu strategaethau cynhwysol ymhellach.

Strategaeth yr awdurdodau lleol ar gyfer cynhwysiant

- A oes gan yr awdurdod lleol strategaeth ar gyfer cynhwysiant sy'n cynnwys elfennau penodol ar gyfer grwpiau sy'n agored iawn i niwed?
- A yw'r strategaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb sy'n ymwneud ag addysg, gan gynnwys Deddf Hawliau Dynol 1998, Mesur y Gymraeg 2011, a Deddf Cydraddoldeb 2010?
- A yw'r strategaeth yn seiliedig ar wybodaeth am anghenion presennol ac anghenion posibl disgyblion, y ddarpariaeth bresennol a chynigion ar lefelau darpariaeth i'r dyfodol, costau cysylltiedig, a thargedau i ddisgyblion â lefelau cyrhaeddiad is?
- A yw'r awdurdod lleol wedi llunio cynllun CAMPUS manwl ar gyfer ei strategaeth sydd wedi'i chymeradwyo gan aelodau?
- A oes cynlluniau ariannol i gyd-fynd â'r strategaeth, cynlluniau sy'n gwneud datblygiadau arfaethedig yn ymarferol bosibl?
- A osodwyd targedau ac amserlenni priodol ar gyfer datblygu, ac a gaiff y rhain eu monitro'n rheolaidd er mwyn darparu i aelodau fanylion y cynnydd a wneir?
- A yw aelodau etholedig yn cymryd cyfrifoldeb dros y strategaeth, yn darparu arweinyddiaeth effeithiol drwy osod amcanion strategol clir, yn monitro perfformiad a lle bo angen, yn gwneud penderfyniadau anodd sy'n gydnaws â'r amcanion strategol?
- A yw'r polisi wedi'i ddatblygu'n gynlluniau gweithredol clir sy'n dangos y camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gwell cynhwysiant a gwell deilliannau i ddisgyblion?

Partneriaethau

- A yw strategaeth a chynlluniau'r awdurdod lleol yn gydnaws â chynlluniau eraill megis y cynlluniau integredig sengl a chynlluniau eraill â themâu penodol, a darpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg?
- A ymgynghorwyd yn llawn ag ysgolion, (gan gynnwys ysgolion arbennig), unedau cyfeirio disgyblion, rhieni/gofalwyr, disgyblion, asiantaethau gwirfoddol a phartneriaid eraill ynghylch y datblygiadau? A ydynt yn deall yn iawn oblygiadau'r datblygiadau hyn? A geir lefelau da o ymrwymiad i'w gweithredu?
- A yw'r Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni yn gweithredu'n effeithiol i ddarparu gwybodaeth a chynghor priodol am wasanaethau cynhwysiant addysgol? A yw ysgolion a rhieni/gofalwyr yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth?
- A yw'r awdurdod lleol yn hysbysu rhieni/gofalwyr ac ysgolion ynghylch sut i gael mynediad i'r gwasanaeth datrys anghytundebau annibynnol?
- A yw cyfran y rhieni/gofalwyr a'r ysgolion sy'n troi at y gwasanaeth datrys anghytundebau yn isel?

Dyletswyddau cynhwysiant sy'n benodol i awdurdodau lleol

- A geir gwelliannau yng nghyrhaeddiad disgyblion a chymorth ychwanegol yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ac yng nghyfran y disgyblion hyn sy'n ennill TGAU/GNVQ?
- A yw cefnogaeth yr awdurdod lleol i ysgolion i wella ymddygiad a phresenoldeb wedi lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol ac am gyfnodau penodol ac wedi gwella presenoldeb disgyblion y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt?
- A yw cefnogaeth yr awdurdod lleol i ysgolion i wella ffyrdd o fynd i'r afael â bwlio wedi arwain at ddulliau gweithredu gwell mewn ysgolion? A oes unrhyw dystiolaeth o lai o fwlio?
- A yw'r awdurdod lleol yn monitro cyrhaeddiad, absenoldebau, gwaharddiadau a bwlio ymysg gwahanol grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig, disgyblion ag AAA a phlant sy'n derbyn gofal?
- A yw'r awdurdod lleol yn darparu darpariaeth gynhwysfawr i fodloni amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys cymorth cyfrwng Cymraeg pan fo hynny'n ofynnol?
- A yw'r awdurdod lleol yn darparu addysg amser llawn i ddisgyblion ar ôl 15 diwrnod wedi iddynt gael eu gwahardd?
- A oes gan yr awdurdod lleol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 i ymestyn hygyrchedd i'r cwricwlwm ac amgylchedd ffisegol ysgolion?
- A yw'r awdurdod lleol wedi rhoi cefnogaeth effeithiol i ysgolion i hyrwyddo cynnwys disgyblion ag AAA yn y brif ffrwd?
- A yw datganiadau AAA drafft, gyda a heb eithriadau, yn cael eu cwblhau cyn pen 18 wythnos?
- A oes gan yr awdurdod lleol bolisi clir ar ystod lawn yr AAA sy'n dynodi hawl disgyblion ac sy'n adlewyrchu *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*?
- A yw ysgolion yn darparu'r holl addasiadau rhesymol i ganiatáu i ddisgyblion anabl gael mynediad i ardaloedd o'r adeilad a'r tir?
- A yw'r awdurdod lleol yn bodloni ei gyfrifoldebau fel rhiant/gofalwr corfforaethol i blant yn ei ofal?

Cyllid

- A yw trefniadau cyllido'r awdurdod lleol yn hybu cynhwysiant? A ydynt yn dryloyw?
- A ydynt yn adlewyrchu'n deg batrwm yr anghenion mewn ysgolion?
- A yw'r awdurdod lleol wedi llunio cynllun ariannol cadarn i gefnogi ei strategaeth gynhwysiant?
- A yw'r awdurdod lleol yn monitro sut caiff cyllid ar gyfer cynhwysiant ei ddefnyddio? A yw'n gwerthuso ei effaith?
- A yw'r awdurdod lleol yn monitro lleoliadau y tu allan i'r ardal ac a yw wedi pennu amserlen ar gyfer lleihau nifer y lleoliadau hyn pan fo hynny'n briodol?

Monitro a gwerthuso

- A yw swyddogion gwella ysgolion, cynghorwyr a staff cymorth yn defnyddio data'n effeithiol i fonitro safonau a darpariaeth?
- A yw'r awdurdod lleol yn gallu darparu darlun manwl o dderbyniadau ysgolion, a gweld patrymau derbyn o safbwynt plant ag anawsterau ymddygiad?
- A oes gan yr awdurdod lleol weithdrefnau monitro systematig ar gyfer achosion o aflonyddu rhywiol a hiliol, bwllo ac ymddygiad gelyniaethus?
- A yw'r awdurdod lleol yn monitro cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad o safbwynt disgyblion sy'n cael eu haddysg y tu allan i leoliad yr ysgol o dan adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996? A oes ganddo brosesau clir sy'n cael eu gweithredu'n dda i adolygu cynnydd disgyblion unigol yn ogystal ag ansawdd a chost-effeithiolrwydd gwahanol ffurfiau ar y ddarpariaeth?
- A yw'r awdurdod lleol yn monitro cynnydd ysgolion yn ymateb i ofynion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Mesur Addysg (Cymru) 2009, yn benodol y dyletswyddau gwrth-wahaniaethol a roddwyd ar ysgolion, a darparu gwell hygyrchedd i ddisgyblion anabl i'r cwricwlwm?
- A yw cyfran y disgyblion â datganiadau AAA sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac ysgolion arbennig annibynnol y tu allan i'r sir yn cwmpo?
- A yw'r awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion prif ffrwd yn effeithiol i ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn benodol ar gyfer y rheini sydd â datganiadau AAA?
- A yw nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd yn cynyddu?
- A yw strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ymyrraeth gynnar yn llwyddiannus, h.y. a yw'n arwain, lle bo hynny'n briodol, at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y disgyblion sydd â datganiadau AAA (wedi'i ystyried ar y cyd â mesurau boddhad rhieni)?

Hyfforddiant

- A oes gan yr awdurdod lleol raglen gydlynol o hyfforddiant i staff a llywodraethwyr?
- A yw'r awdurdod lleol wedi adolygu anghenion hyfforddiant staff cymorth a'r gwasanaeth seicoleg addysg ac wedi gweithredu i fodloni'r anghenion hynny?
- A yw'r awdurdod lleol yn hyrwyddo mynediad i arbenigedd arbenigwyr drwy ddatblygu gwasanaeth allgymorth a rôl hyfforddiant ysgolion arbennig?
- A yw'r awdurdod lleol yn bwriadu ailddosbarthu adnoddau ac arbenigedd staff er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth gynhwysiant?

Rôl ysgolion

Mae'r canlynol yn rhestr gyfeirio awgrymedig ar gyfer datblygu ethos cynhwysol mewn ysgolion.

- Sicrhau bod cynhwysiant, fel athroniaeth ac ar waith, yn cael ei dderbyn gan yr holl fyfyrwyr, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a'r gymuned leol.

- Sicrhau y ceir gwir berchnogaeth dros y polisi a'r ymarfer a hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin y gall pob plentyn a pherson ifanc ddysgu ac elwa ar weithio gyda'i gilydd.
- Sicrhau y ceir arweinyddiaeth gadarn ynghyd â gweledigaeth glir o'r hyn y gellir ei gyflawni.
- Croesawu, diogelu a gwerthfawrogi pob disgybl.
- Datblygu iaith ymarfer cynhwysol a myfyrio ar eu gwaith a'u gwybodaeth bresennol fel man cychwyn ar gyfer datblygu diwylliant 'gallwn'.
- Ystyried gwahaniaeth fel cyfle i ddysgu yn hytrach na fel problem i'w datrys.
- Monitro a gwerthuso eich ymarfer eich hun.
- Cynllunio'n strategol er mwyn sicrhau gwell cynhwysiant.
- Cyplysu hyfforddiant a datblygiad staff ag adolygiadau mewn ysgolion, cynlluniau datblygu ysgolion ac ag anghenion disgyblion y gwelwyd bod angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol arnynt.
- Sicrhau bod pob disgybl yn cyfranogi mor llawn â phosibl yng ngweithgareddau'r dosbarth, datblygu eu perthnasoedd gyda'u cyfoedion a chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar reolaeth yr ysgol.
- Bod yn rhagweithiol i sefydlu systemau i atal a delio â bwllo a digwyddiadau hiliol.
- Gweithredu'n gyson bob amser wrth ddelio â phroblemau ymddygiad a phresenoldeb.
- Cynnwys y rheini nad ydynt yn yr ysgol oherwydd salwch neu oherwydd rhesymau eraill.

Atodiad 2: Hyfforddi a datblygu staff o safbwynt cynhwysiant – rhestr wirio ar gyfer ysgolion

Gallai'r rhestr wirio hon fod o gymorth i ysgolion werthuso anghenion datblygu staff a hyfforddiant.

Ysgolion cynhwysol effeithiol	Do	Naddo	Rhannol
Ystyried anghenion pob disgybl fel rhan o'u cylch blynyddol o hunanwerthuso a chynllunio a nodi yn eu cynllun datblygu ysgol sut maent yn bwriadu datblygu eu staff er mwyn cyrraedd eu targedau a rhoi sylw i'w blaenoriaethau gwella.			
Defnyddio dyddiau hyfforddiant mewn swydd statudol yn effeithiol fel rhan annatod o drefniadau'r ysgol ar gyfer dysgu proffesiynol ei staff.			
Darparu hyfforddiant gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad staff i egwyddorion addysg gynhwysol.			
Darparu hyfforddiant priodol ar y codau a'r cylchlythyrau perthnasol sy'n ymwneud â chynhwysiant.			
Annog staff i weithio ar y cyd i wahaniaethu'r cwricwlwm mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cyfranogi'n llawn yn eu gwersi.			
Darparu cyfleoedd i staff ymweld ag ysgolion eraill i weld enghreifftiau o arfer da.			
Derbyn ymweliadau gan staff mewn ysgolion eraill i ddangos eu harfer da eu hunain.			
Trefnu cyfleoedd i staff weithio ar y cyd drwy fyfyrion ar eu hymarfer presennol; gyda'r nod o gytuno ar yr ymagweddau a'r dulliau mwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion unigol.			
Hyfforddi athrawon a chynorthwyyr addysgu i ddefnyddio technoleg i gefnogi dysgu'r plant.			
Rhoi i staff fynediad i'r rhyngwrdd a ffynonellau gwybodaeth eraill am anghenion unigol.			
Trefnu mynediad i staff i glystyrau e-bost			

perthnasol sy'n hwyluso cyd-drafod syniadau, problemau ac atebion.			
Annog staff i bwysu a mesur ffyrdd o gynnwys plant mewn penderfyniadau a wneir ynghylch eu haddysg.			
Darparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chydraddoldeb i bob aelod o staff.			
Darparu hyfforddiant i helpu staff i ddysgu sut i fynd i'r afael â bwlio, hiliaeth, rhagfarn ar sail rhyw, gwahaniaethu ar sail anabledd a homoffobia.			
Cynnig cyfleoedd i staff ddysgu sut i wella'r ffordd maent yn cyfathrebu â rhieni/gofalwyr.			
Cynnig cyfleoedd i staff drafod gydag asiantaethau eraill sut gallai eu harferion gweithio ar y cyd gael eu gwella.			
Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r canllawiau statudol a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.			

Atodiad 3: Rhestr wirio ar gyfer llunio polisiâu ymddygiad a phresenoldeb

Mae'r rhestr wirio isod yn awgrymu trefn ar gyfer drafftio polisi sy'n rhoi sylw i'r materion yn adran 3. Dylai'r polisi ymddygiad a phresenoldeb fod yn rhan o gasgliad o bolisiâu ar, e.e. gydraddoldeb anabledd a hil, dysgu ac addysgu, cynhwysiant, cyfle cyfartal ac AAA.

Rhestr wirio ar gyfer creu, gweithredu ac adolygu'r polisi	Gweler paragraffau:
Sut mae eich polisi'n ateb y cwestiynau hyn?	
1. Beth yw'r egwyddorion sy'n sail i'r polisi a sut maent yn berthnasol i gymuned yr ysgol gyfan?	
2. Sut mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i nodau cyffredinol yr ysgol a gweddill ei chwricwlwm?	
3. Sut mae'r polisi'n hyrwyddo dysgu ac addysgu effeithiol am ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd?	
4. Sut mae'r polisi'n hyrwyddo dulliau effeithiol o atal bwlio ac o ymateb i achosion o fwlio?	
5. Beth yw rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr, staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd?	
6. Sut mae'r ysgol yn gosod safonau uchel ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb i'r disgyblion?	
7. Sut mae'r polisi'n cyd-fynd â dull yr ysgol o hyrwyddo lles emosiynol?	
8. Sut caiff gwobrwyon eu defnyddio i annog ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd?	

9. Sut caiff cosbau eu defnyddio i annog ymddygiad cadarnhaol a phresenoldeb rheolaidd ac i atal camymddwyn ac ymddygiad gwael neu fynd i'r afael â'r materion hyn?	
10. Sut mae'r polisi'n hyrwyddo ymddygiad effeithiol y tu allan i leoliad yr ysgol (e.e. ar drafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ac ar dripiâu ysgol)?	
11. Pa gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion y mae eu camymddygiad neu'u presenoldeb yn adlewyrchu problemau personol neu broblemau dysgu sylweddol?	
12. Pa gefnogaeth a hyfforddiant sydd ar gael i helpu staff i reoli absenoldeb ac ymddygiad anodd ymysg disgyblion?	
13. Pa gefnogaeth sydd ar gael i rieni/gofalwyr sydd eisïau dysgu rhagor am sut i wella ymddygiad a chefnogi presenoldeb?	
14. Pa ran sydd gan staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion i'w chwarae pan gaiff y polisi ei lunio neu'i adolygu a sut ymgynghorir â nhw?	
15. Ym mha adnoddau y mae'r ysgol yn buddsoddi i wella ymddygiad a phresenoldeb?	
16. Sut caiff y polisi ei fonitro a'i adolygu? Sut gwyddoch ei fod yn deg?	
17. Sut mae'r polisi'n cyplysu â pholisïau eraill yr ysgol, e.e. cynlluniau gwella'r ysgol, polisïau addysgu, cydraddoldeb anabledd a hil, AAA?	

Atodiad 4: Ffurflen gais enghreifftiol ar gyfer gorchymyn rhianta

Cais am orchymyn rhianta (Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, adran 20)

Llys Ynadon _____
(Cod)

Dyddiad: _____

Plentyn neu berson ifanc: _____

Cyfeiriad y plentyn neu'r person ifanc: _____

Oedran y plentyn neu'r person ifanc: _____

Rhiant/gofalwr: _____

Cyfeiriad y rhiant/gofalwr
: _____

sydd yn ardal [awdurdod lleol]

Rhiant/gofalwr: _____

Cyfeiriad y rhiant/gofalwr:

sydd yn ardal [awdurdod lleol]

Awdurdod lleol yr ymgeisydd: _____

Honnir:

(a) bod y plentyn neu'r person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol ar sail ddisgyblu neu wedi arddangos; a

(b) mae'r amodau rhagnodedig wedi'u bodloni oherwydd [rhowch y manylion].

[Ymrwymodd y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i gontract rhianta ar [dyddiad].]
[Honnir bod y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr wedi methu â chydymffurfio â'r contract rhianta, ac mae copi o'r contract ynghlwm wrth y ffurflen gais hon.]

Disgrifiad byr o'r achos honedig o fethu â chydymffurfio â'r contract rhianta:

Mae tystiolaeth o'r achos honedig hwn o fethu â chydymffurfio ynghlwm.
[Honnir bod y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr wedi gwrthod ag ymrwymo i gontract rhianta.]

[Mae'r plentyn neu'r person ifanc dan 16 oed. Mae gwybodaeth am amgylchiadau teuluol y plentyn neu'r person ifanc ynghlwm.]

[Honnir:

(a) bod presenoldeb y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr ar gwrs preswyl yn debygol o fod yn fwy effeithiol na'u presenoldeb ar gwrs dibreswyl i wella ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc; a

(b) mae unrhyw amhariad ar y bywyd teuluol sy'n debygol o ddigwydd o ganlyniad i bresenoldeb y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr ar gwrs preswyl yn gymesur yn yr holl amgylchiadau.

Gofynnir i'r llys orchymyn y gallai'r rhaglen gyfarwyddyd neu gwnsela gynnwys elfen breswyl.]

Disgrifiad byr o'r rhaglen gyfarwyddyd/gwnsela y mae'r rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i fod i'w dilyn:

Gorchmynion pellach i'w cynnwys yn y gorchymyn:

Atodiad 5: Unedau cyfeirio disgyblion

1. Mae unedau cyfeirio disgyblion yn ôl y gyfraith yn fath o ysgol ac yn ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Maent yn darparu lleoliadau tymor byr neu ganolig gyda'r bwriad o ailintegreiddio disgyblion, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, mewn ysgol gynradd, uwchradd neu arbennig, neu baratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.
2. Cynhelir unedau cyfeirio disgyblion gan awdurdodau lleol ac maent wedi'u trefnu'n arbennig er mwyn darparu addysg y tu allan i'r ysgol i ddisgyblion na fyddent fel arall yn cael addysg addas a phriodol o bosibl.
3. Mae'r atodiad hwn yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â'r prif faterion y dylid eu hystyried wrth gynnal unedau cyfeirio disgyblion, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd mwy cyffredinol ar addysg heblaw yn yr ysgol sydd yn yr adran hon.
4. Dylai awdurdodau lleol gynnal adolygiadau tymhorol o gynnydd disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn unedau cyfeirio disgyblion ac, yn fwyaf arbennig, dylent ystyried a yw anghenion disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn unedau cyfeirio disgyblion am gyfnodau sylweddol yn cael eu diwallu'n ddigonol.
5. Dylid monitro anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr uned cyfeirio disgyblion yn diwallu eu hanghenion, neu er mwyn asesu a oes arnynt angen y ddarpariaeth fwy arbenigol sydd ar gael mewn ysgol arbennig.
6. Mae Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ar gyfer 2013/14 yn cydnabod bod gan Gymru ychydig o unedau cyfeirio disgyblion rhagorol, ag arfer sy'n 'arwain y sector'. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr unedau cyfeirio disgyblion hynny sy'n ymgysylltu ag ysgolion a gynhelir, rhieni/gofalwyr disgyblion ac asiantaethau partner yn gweld gwell deilliannau ac ymddygiad. Mae Estyn wedi gweithio gydag unedau cyfeirio disgyblion er mwyn datblygu astudiaethau achos arfer orau. Mae'r rhain i'w gweld ar wefan Estyn¹⁵⁰.
7. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn nodi rhai diffygion pwysig. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â'r cwricwlwm a gynigir ac ag arweinyddiaeth a rheolaeth unedau cyfeirio disgyblion.
8. Nid yw unedau cyfeirio disgyblion yn ysgolion prif ffrwd nac yn ysgolion arbennig. Maent yn wahanol o ran y nifer a'r math o ddisgyblion y maent yn darparu ar eu cyfer, hyd arferol yr arhosiad, y trefniadau ar gyfer derbyn a throsglwyddo i addysg arall, natur y cwricwlwm a hyd y diwrnod ysgol.
9. Mae awdurdodau lleol yn gweithredu modelau gwahanol o unedau cyfeirio disgyblion, sydd wedi'u datblygu ar gyfer amgylchiadau lleol ac yn unol â

¹⁵⁰ www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/Arwyddbyst%20at%20arferion%20gorau/astudiaethau-achos-unedau-cyfeirio-disgyblion/

pholisïau lleol. Mae'r modelau darpariaeth a allai gael eu cynnwys o fewn y term cyffredinol 'uned cyfeirio disgyblion' yn cynnwys:

- darpariaeth ar un safle
 - darpariaeth ar nifer o safleoedd dan un strwythur rheoli
 - gwasanaeth cyfeirio disgyblion peripatetig (mewn ardaloedd gwledig yn fwyaf arbennig)
 - darpariaeth 'e-ddysgu' sy'n defnyddio TGCh ac adnoddau ar y we
 - gwasanaethau addysgu mewn ysbyty ac yng nghartrefi disgyblion, neu rannau ar wahân o wasanaeth sy'n darparu addysg mewn uned neu leoliad tebyg i ysgol
 - rhai darpariaethau mewn ysbytai
 - darpariaeth ar wahân i famau ifanc/disgyblion beichiog
 - darpariaeth ambarél i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol.
10. Oherwydd maint yr unedau, y ffaith fod eu rôl yn newid yn gyflym a'r math o ddisgyblion a dderbynnir, nid yw'n ymarferol cymhwyso'r ystod lawn o ofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r prif wahaniaethau'n ymwneud â'r cwricwlwm a gynigir mewn unedau cyfeirio disgyblion, gofynion safleoedd, cofrestru deuol, a dyletswyddau perthynol awdurdodau lleol, yr athrawon sy'n gyfrifol amdanynt, a phwyllgor rheoli'r uned.
11. Y disgwyl yw i bob uned cyfeirio disgyblion fod â'r un ystod o bolisïau ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys, ymhlith eraill, bolisi AAA, bolisi presenoldeb, bolisi ymddygiad a gweithdrefnau amddiffyn plant.

Y sefyllfa bresennol yng Nghymru

12. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli, ac ati.) (Cymru) 2014 ar 31 Hydref 2014¹⁵¹ ac eithrio rheoliadau 22 (dirprwyo swyddogaethau) a 23 (cwricwlwm) a ddaeth i rym ar 23 Chwefror 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyfansoddiad, rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion, sy'n cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer gweithredu pwyllgorau rheoli. Mae cyflwyno'r rheoliadau hyn yn golygu bod gan unedau cyfeirio disgyblion statws tebyg i gyrff llywodraethu ysgolion.
13. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau statudol¹⁵² i fynd gyda'r rheoliadau sy'n ymwneud â phwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion.

Trefniadaeth unedau cyfeirio disgyblion

14. Mae disgwyl i awdurdodau lleol roi gwybod i Lywodraeth Cymru pa bryd bynnag y bydd uned cyfeirio disgyblion newydd yn cael ei sefydlu neu uned cyfeirio disgyblion sy'n bodoli'n barod yn cael ei chau. Er hyn, nid oes gweithdrefnau

¹⁵¹ www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2709/contents/made/welsh

¹⁵² cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolsandpru/management-committees/?lang=cy

ffurfiol ar gyfer agor neu gau unedau cyfeirio disgyblion. Disgwylir, fodd bynnag, y byddai camau o'r fath fel arfer yn cynnwys proses ymgynghori resymol â'r gymuned leol, gan gynnwys ymgynghori â phwyllgorau rheoli pob uned cyfeirio disgyblion yn yr awdurdod lleol.

15. Yn ôl y gyfraith, mae unrhyw ganolfan a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer plant sydd, oherwydd gwaharddiad neu resymau eraill, yn methu â mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig yn uned cyfeirio disgyblion pa un a yw awdurdod lleol wedi hysbysu Llywodraeth Cymru ei bod yn uned cyfeirio disgyblion ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod hysbysiad yn hanfodol er mwyn hwyluso arolygiad gan Estyn, ac mae'n disgwyl i awdurdodau lleol ei hysbysu pa bryd bynnag y maent yn sefydlu, yn gwneud newidiadau sylweddol, neu'n cau uned cyfeirio disgyblion.
16. Mae nifer y disgyblion mewn uned cyfeirio disgyblion yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae grwpio disgyblion yn ôl oedran a natur eu cyfeiriad, os yw'n bosibl, yn galluogi staff unedau cyfeirio disgyblion i sicrhau bod yr addysg yn cyfateb yn well i anghenion disgyblion. Nid yw'n hawdd darparu addysg effeithiol mewn sefyllfaoedd lle mae'r disgyblion yn amrywio'n fawr o ran oedran a gallu, lle nad oes cydbwysedd rhwng nifer y bechgyn a'r merched, a phan fo'r disgyblion yn yr uned am resymau amrywiol. Efallai y byddai awdurdodau lleol yn hoffi adolygu eu polisïau ar faterion o'r fath pan fyddant yn sefydlu unedau newydd.

Derbyn a phresenoldeb

17. Penderfynir ynglŷn â pholisi derbyn yr uned cyfeirio disgyblion gan yr awdurdod lleol, ar y cyd â'r pwyllgor rheoli. Dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â'r pwyllgor rheoli ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r polisi derbyn. Mae angen meini prawf clir ar gyfer derbyn disgyblion i'r uned, yn ogystal â thargedau clir ar gyfer ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd neu arbennig, neu fynediad i addysg bellach neu gyflogaeth. Gall penderfyniadau o ddydd i ddydd ynglŷn â derbyniadau i'r uned gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol neu eu dirprwyo i'r pwyllgor rheoli neu'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am yr uned.
18. Rhaid i bwyllgor rheoli'r uned cyfeirio disgyblion sicrhau bod cofrestrau derbyn a phresenoldeb yn cael eu cadw, a bod presenoldeb disgyblion yn cael ei fonitro, fel sy'n digwydd mewn ysgolion eraill. Mae cyfraddau presenoldeb yn isel iawn mewn rhai unedau cyfeirio disgyblion. Er bod llawer o bobl ifanc yn dod i unedau cyfeirio disgyblion â record flaenorol o bresenoldeb gwael, dylid mynd i'r afael ag absenoldeb heb ganiatâd fel sy'n digwydd mewn ysgolion eraill. Os yw presenoldeb gwael yn rhemp, dylai'r pwyllgor rheoli ystyried achosion mewnol ac allanol posibl a thrafod y rhain gyda'r athro/athrawes â gofal a'r awdurdod lleol. Dylai athro/athrawes ddynodedig drafod y mater gyda'r plentyn.
19. Efallai y byddai cofrestru mewn uned cyfeirio disgyblion yn briodol i rai plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol ac na fyddent fel arall yn cael addysg addas o bosibl. Gall awdurdod lleol, felly, enwi uned cyfeirio disgyblion mewn gorchymyn mynychu'r ysgol.

20. Bydd gan lawer o ddisgyblion sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA) a bydd gan nifer fawr ohonynt ddatganiadau, fel arfer ar gyfer anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol. Dylai awdurdodau lleol ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion hirdymor disgyblion â datganiad. Os penderfynir mai ysgol brif ffrwd fyddai'r lleoliad gorau, efallai y byddai lleoliad tymor byr mewn uned cyfeirio disgyblion er mwyn mynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol yn helpu i ailintegreiddio disgyblion mewn ysgol brif ffrwd arall. Ar gyfer disgyblion sy'n cael cymorth AAA drwy'r categori Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, efallai y byddai cyfnod mewn uned cyfeirio disgyblion yn galluogi'r asesiad hwnnw i barhau. Ond os nad yw'n bosibl diwallu anghenion hirdymor disgybl mewn ysgol brif ffrwd, dylid enwi ysgol arbennig yn hytrach nag uned cyfeirio disgyblion ar ddatganiad AAA. Nid yw'n briodol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd o ysgolion arbennig fynychu unedau cyfeirio disgyblion.

Adolygu disgyblion

21. Dylai disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion gael eu hadolygu'n rheolaidd, drwy raglenni cymorth bugeiliol (gweler adran 4), er mwyn asesu a yw eu darpariaeth yn dal yn briodol ac a ellir eu hailintegreiddio mewn ysgolion prif ffrwd. Ceir rhagor o wybodaeth am ailintegreiddio disgyblion sydd wedi'u gwahardd mewn canllawiau ar wahân gan Lywodraeth Cymru¹⁵³.
22. Mae angen i athrawon mewn unedau cyfeirio disgyblion ddisgwyl i'w disgyblion gyrraedd lefelau priodol uchel, er y bydd llawer ohonynt wedi cael profiadau negyddol o addysg. Gan adeiladu ar asesiad cychwynnol yr awdurdod lleol ac ymgynghori â'r disgybl, dylai athrawon unedau cyfeirio disgyblion wneud asesiad pellach o anghenion pob disgybl a llunio cynllun i ddiwallu'r anghenion hynny drwy bennu heriau a thargedau academaidd realistig. Dylid annog rhieni/gofalwyr i gefnogi'r gwaith hwn.

Polisi ymddygiad

23. Mae'r athro/athrawes â gofal am yr uned cyfeirio disgyblion yn gyfrifol am hybu ymddygiad cadarnhaol, yn amodol ar egwyddorion cyffredinol a gyflwynwyd gan y pwyllgor rheoli. Dylai pob uned cyfeirio disgyblion gael polisi clir ar ymddygiad. Dylai'r polisi, a ddylai gael ei adolygu'n flynyddol, hybu ymddygiad cadarnhaol, nodi y disgwylir llawer gan ddisgyblion ac amlinellu strategaethau i ymdrin â bwllo. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygu polisïau ymddygiad a phresenoldeb yn adran 4.

Staffio

24. Mae gan yr athro/athrawes â gofal am yr uned cyfeirio disgyblion hawl i gymryd camau angenrheidiol ar y safle, er enghraifft, mewn cysylltiad â materion iechyd a diogelwch ac ymddygiad disgyblion.

¹⁵³ dysgu.cymru.gov.uk/resources/browse-all/exclusion/?lang=cy

25. Rhaid i staff unedau cyfeirio disgyblion fod yn athrawon cymwysedig neu'n hyfforddwyr â chymhwyster addas. Ni ddylid cyflogi athrawon yn eu blwyddyn sefydlu, athrawon trwyddedig nac athrawon dan hyfforddiant mewn unedau cyfeirio disgyblion. Gan ddibynnu ar eu profiad a'u cefndir, efallai y bydd ar staff angen cyfnod sefydlu pan fyddant yn dechrau ar eu swydd mewn uned cyfeirio disgyblion. Dylid darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn swydd yn ymwneud â diwallu anghenion plant ag ymddygiad heriol. Gellir defnyddio staff mewn ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig, tiwtoriaid cartref neu athrawon llanw i ddarparu rhywfaint o gymorth staffio i unedau cyfeirio disgyblion.
26. Mae unedau cyfeirio disgyblion yn tueddu i fod yn fach ac yn aml iawn maent yn cynnwys disgyblion ag ymddygiad heriol. Dylid sicrhau nad yw staff unedau cyfeirio disgyblion yn teimlo'n ynysig. Mae'n arfer da i bob uned cyfeirio disgyblion gael o leiaf ddau aelod o'r staff yn yr uned drwy'r adeg er mwyn cael cefnogaeth os bydd aflonyddu difrifol yn digwydd ac er mwyn rhoi seibiant i'r staff yn ystod y dydd. Mae angen caniatáu amser ar gyfer tasgau gweinyddol, i gynllunio ar gyfer disgyblion unigol, i hwyluso taith disgyblion yn ôl i addysg neu gyflogaeth, ac i gynnal cysylltiadau â rhieni a gofalwyr.
27. Dylai'r pwyllgor rheoli helpu i nodi anghenion datblygu staff, a dylai'r awdurdod lleol ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa a hyfforddiant mewn swydd. Er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu hynysu oddi wrth eu cydweithwyr mewn addysg brif ffrwd, dylai staff unedau cyfeirio disgyblion gael eu cynnwys ym mhob gweithgaredd datblygu staff lleol, a dylent gael gwybodaeth am y cwricwlwm, rheoli ymddygiad ac anghenion ychwanegol. Dylai staff unedau cyfeirio disgyblion gael cynnig arweiniad ar y cwricwlwm gan ymgynghorwyr pwnc, a gellid rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu mewn ysgolion prif ffrwd hefyd.

Gwahardd disgyblion o uned cyfeirio disgyblion

28. Gall disgyblion gael eu gwahardd o uned cyfeirio disgyblion am gyfnod penodol neu'n barhaol am resymau yn ymwneud â disgyblaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r gosb hon, e.e. os yw disgybl yn fygythiad i'w ddiogelwch neu ei les ef ei hun, neu i ddiogelwch neu les disgyblion eraill neu'r staff. Gall rhieni/gofalwyr apelio i'r pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn erbyn gwaharddiad o uned cyfeirio disgyblion. Dylai awdurdodau lleol a phwyllgorau rheoli sefydlu trefniadau ar gyfer gwrando ar farn rhieni/gofalwyr, fel sy'n digwydd mewn ysgolion eraill. Gall yr awdurdod lleol neu'r pwyllgor rheoli ddweud wrth yr athro/athrawes â gofal am yr uned am dderbyn y disgybl yn ôl.
29. Os yw ymddygiad disgybl cynddrwg fel na ellir ei reoli mewn uned a bod angen gwaharddiad parhaol, mae'n bosibl y bydd gan y disgybl AAA y mae angen datganiad ar eu cyfer. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid trefnu asesiad ffurfiol o AAA.
30. Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu addysg i ddisgybl sy'n cael ei wahardd o uned cyfeirio disgyblion cyn pen 15 niwrnod ar ôl y gwaharddiad, fel unrhyw ddisgybl arall y tu allan i'r ysgol.

Cwricwlwm

31. Dylai unedau cyfeirio disgyblion gynnig cwricwlwm cytbwys ac eang (paragraff 6 (1) o Atodlen 1 i Ddeddf 1996) sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac yn paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd.
32. Mae cwricwlwm hyblyg yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod modd neilltuo rhagor o amser ar gyfer gweithgareddau sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol. Er hyn, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg ddigonol a fydd yn ei alluogi i wneud y gorau o'i gyfleoedd i gael achrediad ffurfiol. Wrth ddarparu addysg o'r fath dylid ystyried yr angen am arddulliau dysgu amrywiol, gweithgareddau dysgu wedi'u gwahaniaethu a/neu gwricwlwm wedi'i addasu.
33. Bydd treulio rhagor o amser yn ceisio gwella cymhwysedd mewn llythrennedd a rhifedd o fudd i rai disgyblion. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol mewn lleoliad prif ffrwd ac i gael mynediad at gwricwlwm ehangach maes o law. Er mwyn i blant gael eu hailintegreiddio'n llwyddiannus mewn ysgolion prif frwd mae'n hanfodol eu bod nhw'n cael mynediad at y cwricwlwm craidd. Dylai'r cwricwlwm gynnwys Cymraeg neu Saesneg (naill ai iaith gyntaf neu ail iaith), mathemateg a gwyddoniaeth.
34. Ar gyfer disgyblion ym mhob cyfnod allweddol, dylid ystyried sicrhau bod y cwricwlwm mor eang ag sy'n bosibl a'i fod yn cynnwys elfennau fel celf, drama, dylunio a thechnoleg, yn ogystal ag addysg gorfforol o ryw fath. Yn ychwanegol at hyn dylid ystyried darparu cydbwysedd rhwng gwaith unigol a gwaith grŵp ac addasu hyn, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, i anghenion y disgyblion unigol.
35. Rhaid i'r awdurdod lleol gael datganiad polisi cwricwlwm ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion. Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion baratoi datganiad ar nodau'r cwricwlwm ar gyfer yr uned, ar ôl ystyried datganiad yr awdurdod lleol. Wrth baratoi'r datganiad rhaid i'r athro/athrawes â gofal ystyried sylwadau sy'n cael eu gwneud gan y gymuned a chan yr heddlu. Rhaid i'r athro/athrawes â gofal hefyd ymgynghori â phwyllgor rheoli'r uned. Mae'n arfer da i uned cyfeirio disgyblion gael datganiad yn nodi'n glir sut y mae'r staff yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm.
36. Mae asesu cyrhaeddiad a chynnydd yn hollbwysig. Nid yw'n ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion asesu disgyblion ar ddiwedd pob cyfnod allweddol, ond dylent ystyried, mewn achosion unigol, a fyddai asesiad yn ddefnyddiol. Dylai cynnydd y disgyblion sy'n mynychu'r uned gael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i'r awdurdod lleol. Dylai disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 gael mynediad at ystod o gymwysterau sydd wedi'u cydnabod a'u hachredu ac sy'n diwallu eu hanghenion ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu galwedigaethol ac academiaidd.
37. Mae Cofnod Cenedlaethol o Gyrhaeddiad yn darparu cofnod o'r hyn a gyflawnwyd gan ddisgybl ar ddiwedd Blwyddyn 11, ac nid yw'n gyfyngedig i gyrhaeddiad academiaidd. Mae'r Cofnod o Gyrhaeddiad yn adlewyrchu

diddordebau, sgiliau a gallu person ifanc, a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol, a gallai fod yn ddefnyddiol i ysgolion a cholegau.

38. Gan mai am gyfnod byr yn unig y bydd rhai disgyblion yn aros mewn uned cyfeirio disgyblion, nid yw'r trefniadau adroddiadau blynyddol llawn yn berthnasol. Er hyn, dylid hysbysu rhieni/gofalwyr ynglŷn â chynnydd eu plentyn. Os bydd disgybl yn mynychu uned cyfeirio disgyblion am flwyddyn, dylid darparu adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr. Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion gyflwyno adroddiad am ddisgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i ysgolion eraill neu'n gadael addysg orfodol.

Cyfnewid gwybodaeth

39. Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion roi gwybodaeth i'r awdurdod lleol am bob gwaharddiad. Yn ychwanegol at hyn, mae ganddynt ddyletswydd i ddarparu digon o wybodaeth rheoli am ddisgyblion unigol i'r awdurdod lleol ac ysgolion cartref y disgyblion hynny sydd â chofrestriad deuol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol.
40. Mae'n bwysig bod ysgolion a gynhelir yn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â phob disgybl sy'n cael ei leoli mewn uned cyfeirio disgyblion. Os bydd disgybl yn aros ar gofrestr ysgol a gynhelir drwy gofrestrriad deuol, dylai'r ysgol a gynhelir a'r uned cyfeirio disgyblion sicrhau bod pob gwybodaeth berthnasol ynglŷn â phresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad yn cael ei rhannu'n rheolaidd. Mae rhannu gwybodaeth yn drylwyr ac yn fuan yn galluogi unedau cyfeirio disgyblion i sicrhau ddarpariaeth briodol. Fel arall, ni fyddai disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion yn gallu cyflawni eu potensial yn llawn.

Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd

41. Mae gan lawer o'r disgyblion sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion gefndir addysgol helbulus ac mae'n bosibl na fyddant wedi cael addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae gan addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd o safon uchel rôl bwysig i'w chwarae er mwyn ysgogi cymhelliant a chyflawniad disgyblion a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Mae Adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 yn nodi ei bod yn ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion ddarparu rhaglen addysg gyrfaoedd i'w disgyblion o Flwyddyn 9 hyd Flwyddyn 11. Dylai unedau cyfeirio disgyblion weithio mewn cysylltiad agos â Gyrfa Cymru yng nghyswllt y rhaglen hon a chyfeirio at *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).

Addysg rhyw

42. Rhaid cynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm ar gyfer disgyblion oed uwchradd sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ar ddatblygu polisïau

ar gyfer *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion*¹⁵⁴ (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

43. Mewn unedau cyfeirio disgyblion sydd â phlant o oed ysgol gynradd, yr athro/athrawes â gofal fydd yn penderfynu a yw'n briodol cynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm.
44. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i'r athro/athrawes â gofal gael datganiad ysgrifenedig yn nodi polisi'r uned cyfeirio disgyblion ar gynnwys a threfniadaeth addysg rhyw. Neu, os nad yw addysg rhyw yn rhan o gwricwlwm seciwlar yr uned cyfeirio disgyblion, rhaid i'r athro/athrawes â gofal gael datganiad ysgrifenedig yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Materion gwleidyddol

45. Rhaid i'r awdurdod lleol a'r athro/athrawes â gofal sicrhau nad yw disgyblion dan 12 oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol pleidiol tra maent yng ngofal aelod o'r staff, boed hynny ar y safle neu oddi ar y safle. Beth bynnag yw oed y disgyblion, rhaid i'r staff hefyd sicrhau nad yw daliadau gwleidyddol pleidiol yn cael eu hyrwyddo wrth ddysgu unrhyw bwnc, a bod disgyblion yn cael clywed cyfuniad cytbwys o safbwyntiau gwrthgyferbyniol pan godir materion gwleidyddol.

Tymhorau ysgol a sesiynau gwyliau

46. Bydd yr awdurdod lleol yn pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau unedau cyfeirio disgyblion ac, ar ôl ymgynghori â'r pwyllgor rheoli, yn penderfynu ynglŷn ag amseroedd sesiynau.

Defnyddio safleoedd ysgolion y tu allan i oriau ysgol

47. Yr awdurdod lleol, drwy ymgynghori â'r pwyllgor rheoli, sy'n gyfrifol am y defnydd a wneir o safleoedd ysgolion y tu allan i oriau ysgol.

Adeiladau

48. Mae unedau cyfeirio disgyblion yn ddarostyngedig i Reoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999 ond â rhai addasiadau. Nid yw'n ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion fodloni'r gofynion sy'n ymwneud â chaeau chwarae, darparu ystafell pennaeth ac ystafelloedd staff i'w defnyddio gan athrawon ar gyfer gwaith ac i ddibenion cymdeithasol. Os yw uned cyfeirio disgyblion yn darparu addysg amser llawn, efallai y bydd awdurdodau lleol yn darparu ystafelloedd o'r fath.
49. **Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod ystafelloedd unedau cyfeirio disgyblion yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd, diogelwch a thŷ a dylent**

¹⁵⁴ dysgu.cymru.gov.uk/resources/improvementareas/curriculum/programmes-of-study/sex-and-relationships-education/?lang=cy

ddarparu ystafelloedd sy'n addas i'r diben ac yn briodol ar gyfer addysg.
Mae mynediad rhwydd i safleoedd ar gyfer disgyblion yn bwysig.

Arolygu

50. Mae Estyn yn defnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin i arolygu unedau cyfeirio disgyblion. Mae *Arweiniad ar gyfer arolygu unedau cyfeirio disgyblion* Estyn (2010)¹⁵⁵ yn nodi sut y bydd yr arolygiaeth yn arolygu unedau cyfeirio disgyblion. Yn dilyn arolygiad, dylai'r awdurdod lleol weithio mewn cysylltiad agos â'r pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am yr uned cyfeirio disgyblion er mwyn llunio cynllun gweithredu.
51. Yn unol â gofynion adran 39 o Ddeddf Addysg 2005, os bernir bod ar uned cyfeirio disgyblion angen gweithgarwch dilynol, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol lunio cynllun gweithredu cyn pen 20 niwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r adroddiad (ac eithrio gwyliau ysgol o fwy nag wythnos) er mwyn rhoi sylw i'r prif faterion a nodwyd ynddo. Rhaid anfon fersiwn drafft o'r cynllun gweithredu i Estyn cyn diwedd y cyfnod hwn fel bod Estyn yn gallu cadarnhau ei fod yn ei dderbyn, neu ofyn am welliant, a thrwy hynny sicrhau bod y cynllun gweithredu'n ddull effeithiol o sicrhau gwelliant.
52. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol anfon copi o'r cynllun gweithredu terfynol at Lywodraeth Cymru ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Estyn.

¹⁵⁵ www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/unedau-cyfeirio-disgyblion